



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2006
Tuesday, 17 January 2006**

**Cynnwys
Contents**

Ethol Aelodau i Bwyllgorau Sefydlog Election of Members to Standing Committees.....	3
Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	4
Datganiad Busnes Business Statement.....	30
Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Trefniadau ar gyfer gwirio cefnidir pobl sydd am weithio gyda phlant a gwahardd pobl anaddas Statement by the Minister for Education and Lifelong Learning: Arrangements for vetting and barring people who work with children.....	33
Cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006-07, Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Cynghorau) 2004-05 ac Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Cynghorau) 2005-06 Approval of the Local Government Finance Report (No.1) for the financial year 2006-07, the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2004-05 Amending Report, and the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2005-06 Amending Report	48
Mesur Llywodraeth Cymru The Government of Wales Bill.....	71
Cynnig Trefniadol Procedural Motion.....	109
Pwynt o Drefn Point of Order.....	110
Mesur Llywodraeth Cymru: Parhad The Government of Wales Bill: Continued.....	111

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Ethol Aelodau i Bwyllgorau Sefydlog Election of Members to Standing Committees

Y Llywydd: Byddwn yn pleidleisio ar y ddau gynnig gyda'i gilydd oni bai fod gwrthwynebiad. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad.

The Presiding Officer: We will vote on the two motions together, unless there is any objection. I see that there is no objection.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiaf fod

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhif 8.4 a Rhif 16.2 yn ethol Glyn Davies (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor ar Safonau Ymddygiad yn lle Brynle Williams (Ceidwadwyr). (NDM2758)

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders No. 8.4 and No. 16.2 elects Glyn Davies (Conservative) to its Committee on Standards of Conduct in place of Brynle Williams (Conservative). (NDM2758)

Cynigiaf fod

I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhif 8.4 a Rhif 11.1 yn ethol David Melding (Ceidwadwyr) a Brynle Williams (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Deddfau yn lle Glyn Davies (Ceidwadwyr) a Laura Anne Jones (Ceidwadwyr) ac yn ethol David Melding i gadeirio'r pwyllgor. (NDM2759)

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders No. 8.4 and No. 11.1 elects David Melding (Conservative) and Brynle Williams (Conservative) to its Legislation Committee in place of Glyn Davies (Conservative) and Laura Anne Jones (Conservative) and elects David Melding to chair the committee. (NDM2759)

*Cynigion (NDM2758, NDM2759): O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motions (NDM2758, NDM2759): For 28, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dunwoody, Tamsin
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lloyd, David
Lloyd, Val

Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Catherine
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynigion.
 Motions carried.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Ynni Gwyrdd Green Energy

Q1 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on green energy generation in Wales? OAQ1108(FM)

C1 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynhyrchu ynni gwyrdd yng Nghymru? OAQ1108(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Our current energy policy is set out in the energy route map, which set targets for renewable energy generation. Technical advice note 8 is intended to facilitate the development of renewable energy in the most appropriate locations. We seek maximum benefit, economically and environmentally, from the development of renewable energy.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Amlinellir ein polisi ynni cyfredol yn y map llwybr ynni, sy'n gosod targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Bwriedir i nodyn cyngor technegol 8 hwyluso datblygu ynni adnewyddadwy yn y lleoliadau mwyaf priodol. Yr ydym yn ceisio sicrhau cymaint o fudd â phosibl, yn economaidd ac yn amgylcheddol, drwy ddatblygu ynni adnewyddadwy.

Brynle Williams: Demand for household renewable energy technology outstrips by far the grant fund support available through the Clear Skies scheme. The Department of Trade and Industry's original target for household grants was 2,800, but as of 30 September 2005, there were 6,953 successful applications, and this without any large-scale advertising or promotion. Given this increased demand, and the improvements in related technology since TAN 8 was published, what consideration would you give, First Minister, to funding a new consultation into the Welsh Assembly Government providing additional grant support for household microgeneration technologies as a way of meeting the 2010 target for renewable energy? I am sorry for the length of the question.

Brynle Williams: Mae'r galw am dechnoleg ynni adnewyddadwy mewn cartrefi yn fwy o lawer na'r cymorth grant sydd ar gael drwy'r cynllun *Clear Skies*. Targed gwreiddiol yr Adran Masnach a Diwydiant ar gyfer grantiau i gartrefi oedd 2,800, ond yn ôl y ffigurau ar 30 Medi 2005, cafwyd 6,953 o geisiadau llwyddiannus, ac yr oedd hyn heb hysbysebu na hyrwyddo ar raddfa fawr. O ystyried y cynnydd hwn mewn galw, a'r gwelliannau mewn technoleg gysylltiedig ers cyhoeddi nodyn cyngor technegol 8, pa ystyriaeth y byddech yn ei rhoi, Brif Weinidog, i gyllido ymgynghoriad newydd a fyddai'n ystyried darparu cymorth grant ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer technoleg microgynhyrchu mewn cartrefi fel ffordd o gyrraedd targed 2010 ar gyfer ynni adnewyddadwy? Mae'n ddrwg gennyf fod y cwestiwn mor hir.

The Presiding Officer: Not as sorry as I am, Brynle.

Y Llywydd: Nid mor ddrwg â chennyf fi, Brynle.

The First Minister: It was a complex question, but I undertake to look into it. The issue of encouraging individuals to go in for microgeneration, with suitable grant assistance, in order to spread the different kinds of new technologies that exist, is being kept under review. If there is a need to reconsider the TAN, we will look at that, though I think that it relates more to planning guidance and I am not sure that it would be particularly relevant to household microgeneration. However, I will look into that, and will arrange for Andrew Davies to reply.

Y Prif Weinidog: Yr oedd yn gwestiwn cymhleth, ond addawaf edrych ar hyn. Yr ydym yn parhau i adolygu annog unigolion i droi at ficrogynhyrchu, gyda chymorth grant addas, er mwyn lledaenu'r gwahanol fathau o dechnoleg newydd sydd ar gael. Os oes angen ailystyried y nodyn cyngor technegol, edrychwn ar hynny, er fy mod yn credu ei fod yn fwy perthnasol i ganllawiau cynllunio ac nid wyf yn siŵr a fyddai'n arbennig o berthnasol i ficrogynhyrchu mewn cartrefi. Fodd bynnag, edrychaf ar hynny, a threfnaf i Andrew Davies ateb.

Mick Bates: We have a sustainable development duty under the Government of Wales Act 1998, yet transport plays a fairly minor role in the energy route map, although it is one way in which we could meet the climate change agenda. Why are you not lobbying for more biofuel to be grown in Wales so that we can meet our green agenda? Why is it that your Minister for Environment, Planning and Countryside has not yet followed England's lead and provided catalytic and important enabling funding to grow biofuel crops in Wales?

Mick Bates: Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 mae gennym ddyletswydd o ran datblygu cynaliadwy. Er hynny, rhan weddol fach sydd gan drafnidiaeth yn y map llwybr ynni, er bod hyn yn un o'r ffyrdd y gallem fodloni agenda'r newid yn yr hinsawdd. Pam nad ydych yn llobio i dyfu rhagor o fiodanwydd yng Nghymru er mwyn inni allu bodloni ein hagenda werdd? Pam nad yw eich Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad wedi dilyn arweiniad Lloegr a darparu cyllid catalytig a galluogi pwysig i dyfu cynydau biodanwydd yng Nghymru?

The First Minister: Fuel duty is not a devolved matter, and that is one of the problems, as I think that you are aware. The Government has an agenda about how to encourage cars and to avoid fraud with the use of waste cooking oils and so on. On the issue of the growing of biomass crops in Wales, and the generation of electricity from them, there are some major schemes being promoted, with grants from the Welsh European Funding Office, under Objective 1's energy provisions. As regards the allegations you make about the priority given to this subject by Carwyn Jones, you have raised this point on several occasions, and had it firmly rebutted.

Y Prif Weinidog: Nid yw treth tanwydd yn fater a ddatganolwyd, ac mae hynny'n un o'r problemau, fel y gwyddoch, fe gredaf. Mae gan y Llywodraeth agenda ynghylch sut i hybu ceir ac osgoi twyll wrth ddefnyddio olew coginio sy'n wastraff ac yn y blaen. O ran tyfu cynydau bio-màs yng Nghymru, a chynhyrchu trydan ohonynt, mae rhai cynlluniau mawr yn cael eu hyrwyddo, gyda grantiau o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, dan ddarpariaethau ynni Amcan 1. O ran eich honiadau ynghylch y flaenoriaeth y mae'r mater hwn yn ei gael gan Carwyn Jones, yr ydych wedi codi'r pwynt hwn sawl gwaith o'r blaen, ac fe'i gwrthbrofwyd yn gadarn.

Alun Ffred Jones: Mae'r ddadl am ynni gwyrdd yn tueddu i ymwneud â ffermydd gwynt yn aml ond, yn ddiweddar, mae'r DTI wedi cytuno bod cynhyrchu trydan drwy ddefnyddio grym y llanw mewn lagynau

Alun Ffred Jones: The debate about green energy often tends to be about windfarms, but the DTI has recently agreed that the production of electricity by means of tidal force in lagoons is also possible. There are

hefyd yn bosibl. Mae dau gynllun posibl yng Nghymru—un oddi ar arfordir gogledd Cymru, ac un ym mae Abertawe. Beth yw agwedd y Llywodraeth tuag at hyn? Beth yr ydych yn ei wneud i ddod â'r cyfrifoldeb am orsafoedd dros 50 MW i'r Cynulliad, lle dylai fod?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cymryd diddordeb mawr yng ngrym y llanw, ond efallai ein bod yn rhoi llai o flaenoriaeth iddo na chi, os deellais yn iawn yr hyn oedd y tu ôl i'ch honiadau chi. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth dra isel i lagynau sy'n dal dŵr yn hytrach nag argaeau sy'n cynhyrchu trydan o ynni'r llanw ar afonydd Hafren neu Gonwy. Dyna ddau brosiect a fydd o ddiddordeb os bydd yr argyfwng yn mynd yn drychinebus o ran amgylchiadau'r tywydd a'r byd yr ydym oll yn byw ynddo.

two possible schemes in Wales—one off the north Wales coast and one in Swansea bay. What is the Government's attitude towards this? What are you doing to bring responsibility for stations over 50 MW to the Assembly, where it should be?

The First Minister: We take a great interest in tidal force, but perhaps we see it as less of a priority than you do, if I understood what was behind your allegations correctly. I would place quite a low priority on lagoons, which act as reservoirs, as opposed to dams, which generate electricity using tidal energy, such as on the rivers Severn or Conwy. Those two projects could be of great interest if the crisis worsens in terms of climate change and the world in which we live.

Datblygu Gwasanaethau Cyhoeddus Developing Public Services

C2 Elin Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae polisiau'r Llywodraeth yn datblygu gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion? OAQ1116(FM)

Q2 Elin Jones: Will the First Minister make a statement on how Government policies are developing public services in Ceredigion? OAQ1116(FM)

Y Prif Weinidog: Byddwch yn ymwybodol, Elin, o'r £20 miliwn a mwy a glustnodwyd i ddatblygu canolfannau adnoddau cymunedol iechyd yn Nhregaron, Aberteifi ac Aberaeron yn ein rhaglen cyfalaf i'r gwasanaeth iechyd gwladol.

The First Minister: You will be aware, Elin, that more than £20 million has been ring-fenced to develop community resource health centres in Tregaron, Cardigan and Aberaeron in our capital programme for the national health service.

Elin Jones: Brif Weinidog, polisi eich Llywodraeth glymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ôl yn 2002 oedd sefydlu 22 bwrdd iechyd lleol. Erbyn hyn, mae'n costio mwy na £4 miliwn i redeg gweinyddiaeth y bwrdd iechyd lleol yng Ngheredigion ar y cyd â'r ymddiriedolaeth iechyd. Mae'n costio hanner hynny—ychydig yn fwy na £2 filiwn—i redeg dwy ysbyty gymunedol yng Ngheredigion: Tregaron ac Aberteifi. A ydych yn credu ei bod yn iawn i gwtogi ar y gwasanaethau yn y ddwy ysbyty er mwyn arbed arian yn hytrach nag uno dau gwango sy'n rhedeg y gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion? A yw hyn yn adlewyrchu eich blaenoriaeth chi o ran y GIG yng Ngheredigion, sef y dylai biwrocratiaeth gael blaenoriaeth dros wasanaethau i gleifion?

Elin Jones: First Minister, the policy of your coalition Government with the Liberal Democrats back in 2002 was to establish 22 local health boards. It now costs more than £4 million to administer the Ceredigion Local Health Board and the health trust. It costs only half that—just over £2 million—to run two community hospitals in Ceredigion: Tregaron and Cardigan. Do you believe that it is right to make cuts to services in those two hospitals in order to save money, rather than merge two quangos that both run the health service in Ceredigion? Does this not reflect your main concern for the NHS in Ceredigion, which is that bureaucracy should take priority over services for patients?

Y Prif Weinidog: Mae arnaf ofn na wnaethoch wrando yn rhy ofalus ar fy ateb i'ch cwestiwn gwreiddiol, ond tybiaf mai eich bwriad oedd gwneud yr un gosodiad beth bynnag fyddai fy ateb. Yr hyn yr oeddwn am ei bwysleisio oedd bod mwy nag £20 miliwn wedi ei glustnodi yn y rhaglen cyfalaf ar gyfer datblygu canolfannau adnoddau cymunedol iechyd yn Nhregaron, Aberteifi ac Aberaeron. Mae'n amlwg nad biwrocraiaeth yw'r flaenoriaeth ond adeiladu ysbytai cymunedol o'r ffasiwn newydd, a hynny ar y sail eu bod yn darparu'r gwasanaethau sydd eu heisiau ar bobl yn y fan a'r lle.

Lisa Francis: Ceredigion County Council is proposing to move its headquarters in Aberystwyth next to the site of the newly proposed Welsh Assembly Government office, as I am sure you are aware. The council has recently come under fire as it could plunge itself into £6 million-worth of debt with this new office proposal, because it would have to borrow the money for it. That would obviously impact on its provision of public services. As the new buildings will be located next door to each other and will be built at roughly the same time, have you had any discussions with the council about how efficiency savings could be made through, possibly, sharing some facilities? If not, do you plan to hold any such discussions?

The First Minister: It is an interesting idea, Lisa, and I will undertake to raise this matter with Sue Essex, who has responsibility for both aspects of it, namely public services generally and efficiencies through shared facilities, and, of course, the out-of-Cardiff building programme in Merthyr Tydfil, Llandudno Junction and Aberystwyth. If there are potential savings to be made from the joint development of the back-to-back sites, I am sure that we would wish to explore those with Cyngor Sir Ceredigion.

The First Minister: I am afraid that you did not listen too carefully to my answer to your original question, but I think that you intended to make the same assertion regardless of what my answer would be. I wanted to emphasise that more than £20 million has been ring-fenced in the capital programme to develop community resource health centres in Tregaron, Cardigan and Aberaeron. It is evident that bureaucracy is not our priority, but rather building community hospitals in the new fashion, on the basis that they provide the services that are required in their areas.

Lisa Francis: Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig symud ei bencadlys yn Aberystwyth y drws nesaf i'r safle arfaethedig newydd ar gyfer swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y gwyddoch yr wyf yn siŵr. Mae'r cyngor wedi cael ei feirniadu yn ddiweddar oherwydd y gallai suddo i ddyled gwerth £6 miliwn gyda'r swyddfeydd newydd arfaethedig hyn, oherwydd y byddai'n rhaid iddo gael benthyg yr arian ar gyfer hynny. Yn amlwg byddai hynny'n effeithio ar y gwasanaethau cyhoeddus y mae'n eu darparu. Gan y bydd yr adeiladau newydd y drws nesaf i'w gilydd ac yn cael eu codi tua'r un amser, a ydych wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r cyngor ynghylch sut y gellid sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy rannu rhai cyfleusterau, o bosibl? Os nad ydych, a ydych yn bwriadu cynnal unrhyw drafodaethau o'r fath?

Y Prif Weinidog: Mae'n syniad diddorol, Lisa, a chodaf y mater hwn gyda Sue Essex, sy'n gyfrifol am y naill agwedd a'r llall, sef gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol ac effeithlonrwydd drwy rannu cyfleusterau ac, wrth gwrs, y rhaglen adeiladu y tu allan i Gaerdydd ym Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth. Pe bai modd gwneud arbedion posibl drwy ddatblygu'r ddau safle ar y cyd, hyderaf y byddem am archwilio'r posibiliadau hynny gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Dyled Debt

Q3 Peter Black: What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales regarding tackling the problem of debt in Wales? OAQ1121(FM)

The First Minister: None specifically, but the Assembly Government continues to work on the implementation of the review of overindebtedness, completed by Deputy Minister Huw Lewis not long ago. That work will be assisted with new funds from the Department of Trade and Industry—a £45 million face-to-face debt advice fund, though that is not just for Wales, obviously. The closing date for final bids to the fund has been set for 20 January 2006, so thank you for your timely question.

Peter Black: A key agency in tackling debt and helping people through the problems of indebtedness is Citizens Advice. Given that you continue to assert that this is a non-devolved matter, is there anything that you could do in conjunction with the Secretary of State for Wales to ensure that the existing service provided by citizens advice bureaux continues, and is, possibly, expanded?

2.10 p.m.

The First Minister: Our social justice and regeneration officials are liaising with Department of Trade and Industry officials to ensure that we receive our proper share of the available face-to-face and other challenge funds. There is nothing to stop Citizens Advice services in Wales applying to deliver, but it would be in competition with credit unions and other bodies; there is nothing to debar Citizens Advice from taking advantage of these funds. This is a big issue, and we know that it is a big issue in Wales. We want to ensure that we get a full share of that £45 million challenge fund.

Christine Chapman: A recent report by the

C3 Peter Black: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â mynd i'r afael â phroblem dyled yng Nghymru? OAQ1121(FM)

Y Prif Weinidog: Dim yn benodol, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio i weithredu'r adolygiad o orddyled, a gwblhawyd gan y Dirprwy Weinidog Huw Lewis yn ddiweddar. Cynorthwyir y gwaith hwnnw gyda chronfeydd newydd gan yr Adran Masnach a Diwydiant—cronfa cyngor wyneb yn wyneb ar ddyled gwerth £45 miliwn, er nad ar gyfer Cymru yn unig y bydd honno, yn amlwg. 20 Ionawr 2006 yw'r dyddiad olaf y derbynnir y ceisiadau terfynol ar gyfer y gronfa, felly diolch yn fawr i chi am eich cwestiwn amserol.

Peter Black: Mae Cyngor ar Bopeth yn un o'r prif asiantaethau sy'n mynd i'r afael â dyled ac yn helpu pobl i ddygymod â phroblemau gorddyled. O ystyried eich bod yn parhau i honni nad yw hwn yn fater a ddatganolwyd, a oes unrhyw beth y gallech ei wneud ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir gan ganolfannau cyngor ar bopeth ar hyn o bryd yn parhau ac, o bosibl, yn ehangu?

Y Prif Weinidog: Mae ein swyddogion cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio mewn cysylltiad â swyddogion yr Adran Masnach a Diwydiant i sicrhau ein bod yn derbyn ein cyfran briodol o'r gronfa wyneb yn wyneb a chronfeydd her eraill sydd ar gael. Nid oes dim yn rhwystro gwasanaethau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru rhag ymgeisio i gael cyflawni hynny, ond byddent yn cystadlu yn erbyn undebau credyd a chyrrff eraill; nid oes dim yn rhwystro Cyngor ar Bopeth rhag manteisio ar y cronfeydd hyn. Mae hwn yn fater mawr, a gwyddom ei fod yn fater mawr yng Nghymru. Yr ydym am sicrhau ein bod yn cael cyfran lawn o'r gronfa her £45 miliwn hon.

Christine Chapman: Cadarnhaodd

Leonard Cheshire charity confirmed a strong association between acquiring a disability and getting into debt. A major contributory factor is the difficulty for those with a disability to remain in employment. What is the Welsh Assembly Government doing to address this issue?

The First Minister: I do not feel fully qualified to answer that question at present; I will arrange for Edwina Hart to provide you with a detailed reply. However, we are all familiar, from dealing with constituency casework, with the phenomenon that it is trauma that leads to difficulty in family management. That can be a marriage break-up, the death of a loved parent or anything else that causes a person to lose grip and to face temporary additional costs, such as paying for a funeral. We have seen people go to pieces because of that, and they sometimes find themselves in debt and unable to hold down a job and so on. It is difficult to get back in once you have lost that grip. Therefore, I can well imagine that what you are saying is authenticated by the facts.

Leanne Wood: As you are aware, personal debt is a growing issue. With house prices as high as they have been in recent years, people have been forced to mortgage themselves to the hilt in order to have access to basic shelter. If New Labour had its way, all our council houses would be sold off as well. If interest rates rise, or if there are job losses in a particular area, what can your Government do to prevent families becoming homeless?

The First Minister: I am not quite sure which families you are referring to—do they live in some mythical kingdom that you have read about in a pamphlet? You might even have written the pamphlet. You will be aware that we, as an administration, have taken steps to restrict the right to buy council houses. While it is true that stock transfer is an option that will result in local authorities reaching the Welsh housing quality standard by 2012—although some authorities reckon that they do not need to make the stock transfer; good luck to them—the issue about

adroddiad diweddar gan elusen Leonard Cheshire fod cysylltiad cryf rhwng cael anabledd a mynd i ddyled. Un o'r ffactorau mawr sy'n cyfrannu at hynny yw'r anhawster a gaiff y rhai sydd ag anabledd i aros mewn cyflogaeth. Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i roi sylw i'r mater hwn?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn teimlo fy mod yn ddigon cymwys i ateb y cwestiwn hwn ar hyn o bryd; trefnaf i Edwina Hart ddarparu ateb manwl ar eich cyfer. Fodd bynnag, yn sgîl delio â gwaith achos yn ein hetholaethau, yr ydym oll yn gyfarwydd â'r ffenomenon mai trawma sy'n arwain at anawsterau mewn rheoli teulu. Gall hynny fod yn dor-priodas, marwolaeth rhiant annwyl neu unrhyw beth arall sy'n achosi i rywun golli gafael ar bethau ac wynebu costau ychwanegol dros dro, megis talu am angladd. Yr ydym wedi gweld pobl yn mynd i gryn drybini oherwydd hynny ac, ambell waith, maent yn wynebu dyled ac yn methu dal gafael ar swydd ac yn y blaen. Mae'n anodd ailgydio pan fyddwch wedi colli gafael ar bethau yn y modd hwnnw. Felly, gallaf ddychmygu bod y ffeithiau'n ategu'r hyn a ddywedwch.

Leanne Wood: Fel y gwyddoch, mae dyled bersonol yn broblem sydd ar gynydd. Gan fod prisiau tai wedi bod mor uchel yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae pobl wedi cael eu gorfodi i gymryd morgais sy'n eithafol o fawr iddynt er mwyn cael lloches sylfaenol. Petai Llafur Newydd yn cael rhwydd hynt, gwerthid ein holl dai cyngor hefyd. Os bydd cyfraddau llog yn codi, neu os collir swyddi mewn ardal benodol, beth y gall eich Llywodraeth ei wneud i atal teuluoedd rhag colli eu cartrefi?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr pa deuluoedd y cyfeiriwch atynt—a ydynt yn byw mewn rhyw fath o deyrnas chwedlonol yr ydych wedi darllen amdani mewn pamffled? Efallai mai chi a ysgrifennodd y pamffled hyd yn oed. Gwyddoch ein bod fel gweinyddiaeth wedi cymryd camau i gyfyngu ar yr hawl i brynu tai cyngor. Er ei bod yn wir bod trosglwyddo stoc yn opsiwn a fydd yn golygu y bydd awdurdodau lleol yn cyflawni safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012—er y cred rhai awdurdodau na fydd yn rhaid iddynt drosglwyddo stoc; pob lwc

getting rid of council houses by forcing people into debt is one that you will have to explain to me in greater detail. I believe that that is a mythical construct.

William Graham: You will know that there are, unfortunately, some unscrupulous lenders in Wales who take advantage of people's desperation to pay off their debts at almost any price; I know that this is itemised in Huw Lewis's review, which we strongly supported. Can you suggest any early intervention by which you could expose these folk and ensure that people are aware that they need not pay these exorbitant rates?

The First Minister: They operate in secrecy in large areas where there is a high concentration of poverty; large council estates are particular problem areas. This happens especially in the run-up to Christmas and other periods of high expenditure. This is an area of great unknowns. People fear going to the police or to local authority trading standards departments to expose their fears about loan sharks in whose grip they find themselves. The alternative that we have heavily promoted is credit unions, which we continue to commend. I agree that they are making a small start in Wales as compared with countries such as the USA and Ireland, where they have been an alternative to conventional banking and finance for decades, but we believe that they are the long-term answer.

iddynt—mae'r cwestiwn ynglŷn â chael gwared ar dai cyngor drwy orfodi pobl i fynd i ddyled yn un y bydd yn rhaid i chi ei esbonio imi'n fanylach. Credaf mai creadigaeth chwedlonol yw hynny.

William Graham: Gwyddoch fod gennym, yn anfoddus, rai benthychwyr diegwyddor yng Nghymru sy'n manteisio ar y ffaith bod pobl dan bwysau mawr i dalu eu dyledion am unrhyw bris bron â bod; gwn fod hyn wedi'i gynnwys yn adolygiad Huw Lewis, a gefnogwyd i'r carn gennym. A allwch awgrymu ymyriad cynnar lle y byddech yn dwyn y bobl hyn i'r amlwg ac yn sicrhau bod pobl yn gwybod nad oes yn rhaid iddynt dalu'r cyfraddau afresymol hyn?

Y Prif Weinidog: Maent yn gweithredu yn y dirgel mewn ardaloedd mawr lle y ceir crynhoad uchel o dlodi; mae ystadau cyngor mawr yn ardaloedd lle y ceir problemau penodol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig a chyfnodau eraill pan fydd pobl yn gwario llawer. Mae hwn yn faes sydd yn eithaf tywyll inni. Mae ar bobl ofn mynd at yr heddlu neu adrannau safonau masnach awdurdodau lleol i ddatgelu eu pryderon am usurwyr y maent yn eu crafangau. Yr opsiwn arall yr ydym wedi'i hyrwyddo'n frwd yw undebau credyd, yr ydym yn parhau i'w canmol. Cytunaf eu bod yn dechrau'n fach yng Nghymru o gymharu â gwledydd fel UDA ac Iwerddon, lle y maent wedi bod yn opsiwn arall ar wahân i fancio confensiynol ers degawdau, ond credwn mai'r rhain yw'r ateb hirdymor.

Nwy Naturiol Hylifol Liquified Natural Gas

Q4 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on the new liquified natural gas terminal in Pembrokeshire? OAQ1110(FM)

The First Minister: The Exxon Qatar South Hook and Dragon, or Petroplus, LNG projects at Milford Haven will contribute 30 per cent of the UK's future gas supplies as North sea reserves decline. The first gas in the pipeline is scheduled to flow from these terminals in the autumn of 2007.

Lisa Francis: You will know that campaigners in Milford Haven have been

C4 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y derfynfa nwy naturiol hylifol newydd yn sir Benfro? OAQ1110(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd prosiectau nwy naturiol hylifol Exxon Qatar South Hook a Dragon, neu Petroplus yn Aberdaugleddau yn cyfrannu 30 y cant o gyflenwadau nwy'r DU yn y dyfodol wrth i gronfeydd môr y gogledd edwino. Disgwylir y bydd y nwy cyntaf yn llifo o'r terfynellau hyn drwy'r biblinell yn ystod hydref 2007.

Lisa Francis: Gwyddoch fod ymgyrchwyr yn Aberdaugleddau wedi bod yn galw am

calling for a credible, independent body to carry out a full assessment of the vessels shipping LNG into the port. Milford Haven port chiefs say that all vessels will have to show that they are safe and sound. Latest worries concern ships built for the BG fleet that were recently reported as faulty, and the owners of at least 20 other LNG tankers either under construction or already delivered are now alert to the problem of leaks. What is Milford Haven Port Authority doing about this problem? Do you not think that it is time that we had a credible, independent body to carry out full assessments of vessels shipping LNG?

The First Minister: There is no body more independent than the Health and Safety Executive. The HSE is not a governmental body; it is a unique, tripartite body. It assesses the risks of LNG storage at Milford Haven. As regards the marine side of this, I will have to write to you, because I do not know whether the HSE's remit extends to the approaches to Milford or where the port authority's safety responsibilities intersect with those of the HSE. The HSE is independent, and it has said that the landward side of this operation has passed the risk assessment test that is required.

gorff annibynnol y gellir ymddiried ynddo i gyflawni asesiad llawn o'r llongau sy'n cludo LNG i'r porthladd. Mae penaethiaid porthladd Aberdaugleddau yn dweud y bydd yn rhaid i bob llong ddangos ei bod yn ddiogel ac yn gadarn. Mae'r pryderon diweddaraf yn ymwneud â llongau a adeiladwyd ar gyfer fflyd BG yr adroddwyd yn ddiweddar eu bod yn ddiffygiol, ac mae perchenogion o leiaf 20 o danceri LNG eraill sydd naill ai'n cael eu hadeiladu neu sydd eisoes wedi'u darparu yn awr yn ymwybodol o'r broblem o ran gollyngiadau. Beth y mae Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau yn ei wneud am y broblem hon? Oni theimlwech ei bod yn hen bryd inni gael corff annibynnol, credadwy i gynnal asesiadau llawn o longau sy'n cludo LNG?

Y Prif Weinidog: Nid oes corff mwy annibynnol na'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid corff llywodraethol yw'r awdurdod; mae'n gorff teiran, unigryw. Mae'n asesu'r risgiau o storio LNG yn Aberdaugleddau. O ran yr ochr forol i hyn, bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch, gan nad wyf yn gwybod a yw cylch gwaith yr HSE yn cynnwys y llwybrau morol sy'n arwain i Aberdaugleddau na ble y mae cyfrifoldebau diogelwch awdurdod y porthladd yn torri ar draws cyfrifoldebau'r HSE. Mae'r HSE yn annibynnol ac mae wedi dweud bod y gwaith hwn ar ochr y tir wedi pasio'r prawf asesu risg gofynnol.

'Trefn Lywodraethu Well i Gymru' 'Better Governance for Wales'

Q5 Glyn Davies: What discussions has the First Minister had with the Electoral Commission about the Government White Paper, 'Better Governance for Wales'? OAQ1108(FM)

The First Minister: I had a brief discussion on this matter on 7 July last. This was a general discussion with the Electoral Commission, and we touched on the issue in question.

Glyn Davies: In commenting on the proposed changes to the electoral arrangements in the Government of Wales Bill, the commission has said that these are perceived to be partisan, that they undermine

C5 Glyn Davies: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â Phapur Gwyn y Llywodraeth, 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru'? OAQ1108(FM)

Y Prif Weinidog: Cefais drafodaeth fer ar y mater hwn ar 7 Gorffennaf y llynedd. Trafodaeth gyffredinol oedd hon gyda'r Comisiwn Etholiadol, a chrybwyllwyd y mater dan sylw gennym.

Glyn Davies: Wrth gyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau etholiadol ym Mesur Llywodraeth Cymru, mae'r comisiwn wedi dweud bod y rhain yn cael eu gweld yn rhai pleidiol, eu bod yn

public confidence and have a negative impact on voter participation. The Secretary of State for Wales and you have dismissed this judgment. The Secretary of State has said that the commission is wrong, and your favourite quote in relation to the matter is that 'it was not its finest hour'. What steps are you taking to restore confidence in this independent body to repair the damage caused by what is, effectively, a vote of no confidence by the Secretary of State and you?

The First Minister: To repeat the statement that I gave in evidence to the Select Committee on Welsh Affairs, I did not think that this was the commission's finest hour. I said that because it took a completely opposite view to mine that making votes count is the key to any transparent electoral system. All of us here have been elected in the different franchises that we have, and some of us will have been elected before that, whether to local government, the European Parliament, the Houses of Parliament or whatever. We are all aware that a vote cast in an election is a vote for someone and a vote against someone else. Therefore, it is about one person winning and another losing. The weakness of the present system is that it does not do that, or does not do it effectively enough. We commend the change that we are commending in order to restore voter confidence. It is a moderate, not massive, change, but it is significant to restore voter confidence. The Electoral Commission takes the opposite view, but I disagree with it.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Mae gennyf gwestiwn ehangach ar y Mesur. Mae cymal 94 yn nodi y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fetu ar unrhyw gais gan y Cynulliad am Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Yr oeddwn o dan yr argraff y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan gonfensiwn Salisbury, yn derbyn unrhyw gais yn gysylltiedig â'r hyn sy'n ymddangos ym maniffesto Llywodraeth y Cynulliad. Yn anffodus, gwrthododd yr Ysgrifennydd Gwladol ateb y cwestiwn a ofynnwyd iddo yn y Senedd yr wythnos diwethaf. Gan synnu pawb, dywedodd na fyddai Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn

tanseilio hyder y cyhoedd ac yn cael effaith negyddol ar gyfranogiad etholwyr. Yr ydych chi ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gwrthod y farn hon. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud bod y comisiwn yn anghywir, a'ch hoff ddyfyniad gyda golwg ar y mater hwn yw nad hon oedd ei awr orau. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i adfer hyder yn y corff annibynnol hwn i wneud iawn am y niwed a achoswyd gan yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn bleidlais o ddiffyg hyder gennych chi a'r Ysgrifennydd Gwladol?

Y Prif Weinidog: Ac ailadrodd y datganiad a roddais yn dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, nid oeddwn yn credu mai hon oedd awr orau'r comisiwn. Dywedais hynny oherwydd iddo gymryd safbwynt cwbl groes i'm safbwynt i mai sicrhau bod pleidleisiau'n cyfrif yw'r allwedd i unrhyw system etholiadol agored. Mae pob un ohonom yma wedi ein hethol yn y gwahanol etholfreintiau sydd gennym, a bydd rhai ohonom wedi ein hethol cyn hynny, boed hynny i lywodraeth leol, Senedd Ewrop, San Steffan neu beth bynnag y bo. Yr ydym i gyd yn ymwybodol bod pleidlais a roddir mewn etholiad yn bleidlais i rywun ac yn bleidlais yn erbyn rhywun arall. Felly, mae'n ymwneud â rhywun yn ennill a rhywun arall yn colli. Gwendid y system bresennol yw nad yw'n gwneud hynny neu nad yw'n ei wneud yn ddigon effeithiol. Yr ydym yn argymhell y newid yr ydym yn ei argymhell er mwyn adfer hyder y pleidleiswyr. Newid cymedrol, nid enfawr, ydyw, ond mae'n newid sylweddol o ran adfer hyder y pleidleiswyr. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn credu fel arall, ond yr wyf yn anghytuno â hynny.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): I have a broader question on the Bill. Clause 94 notes that the Secretary of State will have a veto on any bid made by the Assembly for an Order in Council. I was under the impression that the Secretary of State, under the Salisbury convention, would accept any bid made in line with the Assembly Government's manifesto commitments. Unfortunately, the Secretary of State refused to answer a question put to him in Parliament last week. He surprised everyone when he said that Orders in Council would not be a

'major constitutional shift. Parliament will still be in charge'.

Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r sefyllfa, Brif Weinidog? A fydddech yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Gwladol dderbyn cais gan Lywodraeth y Cynulliad os yw hynny'n rhan o fandad y Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: Rhan o'n gwleidyddiaeth ni yw bod y Papur Gwyn yn cael ei droi yn Fesur, ac yna, ar ôl neidio dros glwyd yr Ail Ddarlleniad yr wythnos diwethaf, yn Ddeddf. Wedi hynny, ar yr amod bod confensiwn Salisbury yn cael ei weithredu gan Dŷ'r Arglwyddi, daw hyn yn gyfraith. Pam? Oherwydd bod y Blaid Lafur wedi ei roi yn ei maniffesto a bod confensiwn Salisbury yn gweithredu yn Nhŷ'r Arglwyddi. Dyna sut yr ydym yn deddfu yn y wlad hon.

2.20 p.m.

Mae hynny ar raddfa Prydain Fawr i gyd. Fel microcosm o'r broses honno, yr wyf yn cymryd yn ganiataol y bydd yr un confensiwn yn gymwys, er mai confensiwn yn unig ydyw wrth gwrs. Felly, mae disgrifiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn hollol gywir. Yn y diwedd, mae fetu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond Ysgrifennydd Gwladol a oedd yn fodlon cymryd risg go fawr gyda'i enw da yng Nghymru fyddai'n dweud, 'Ydyw, mae wedi bod yn y maniffesto ac mae'r blaid honno wedi cael mwyafrif yn etholiadau'r Cynulliad, ond nid oes ots gennyf fi'. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n gweithio.

Ieuan Wyn Jones: Mae hynny'n gwneud y sefyllfa ychydig yn gliriach, Brif Weinidog. Mae'n bwysig bod pob un o'r pleidiau yn y Cynulliad, wrth iddynt baratoi maniffesto ar gyfer 2007, yn gwybod beth yw'r canllawiau y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, o ba blaid bynnag a fydd yn San Steffan, yn eu gweithredu o ran y ceisiadau hyn.

Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng y Mesur a'r Papur Gwyn ac yr wyf am i chi ymateb i hynny. Mae'r Papur Gwyn yn dweud na all yr Ysgrifennydd Gwladol wrthod cais gan y Cynulliad am resymau pitw neu ddibwys. Wrth gwrs, nid yw'r Mesur yn dweud dim

newid cyfansoddiadol mawr. Bydd y Senedd yn parhau i reoli'r sefyllfa.

What is your understanding of the situation, First Minister? Would you expect the Secretary of State to consent to a bid made by the Assembly Government if that were part of its mandate?

The First Minister: Our political convention dictates that the White Paper will become a Bill, and then, having overcome the hurdle of its Second Reading last week, an Act. Subsequently, and on condition that the Salisbury convention is followed by the House of Lords, this will become law. Why? It is because the Labour Party has put that in its manifesto and the Salisbury convention operates in the House of Lords. That is how we legislate in this country.

That is on the level of all of Great Britain. As a microcosm of that process, I take it for granted that the same convention will apply, though it is only a convention of course. Therefore, the Secretary of State's description is completely accurate. Ultimately, the Secretary of State has a veto, but it would take a Secretary of State who was willing to take quite a big risk with his good name in Wales to say, 'Yes, it was included in the manifesto and that party won a majority in the Assembly elections, but I do not care'. I do not think that that would work.

Ieuan Wyn Jones: That makes the situation a little clearer, First Minister. It is important that all of the parties in the Assembly, as they prepare their manifestos for 2007, know which guidelines the Secretary of State, from whichever party will be in power in Westminster, will use in relation to these bids.

There is a fundamental difference between the Bill and the White Paper and I want you to respond to that. The White Paper states that the Secretary of State cannot refuse a request from the Assembly for 'trivial reasons'. Of course, the Bill does not say

am hynny. Yr unig beth y mae'r Mesur yn ei wneud yw rhoi hawl absoliwt i'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod cais gan y Cynulliad. A ydych mewn sefyllfa i egluro sut yr ydych chi'n deall y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio'r canllawiau mewn achos o'r fath?

Y Prif Weinidog: Mae disgrifiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn hollol gywir ynghylch y gallu i weithredu fetu. Gan mai cyfansoddiad anysgrifenedig sydd gennym, ni allwch fynd â'r Ysgrifennydd Gwladol i ryw uwch-lys cyfansoddiadol fel sydd yn yr Almaen neu'r Unol Daleithiau. Felly, yr ydym yn dibynnu ar weithredu drwy ddefod ac arfer, a datblygu ffyrdd o weithredu, yn enwedig pan fo pleidiau gwahanol mewn grym yn San Steffan ac yng Nghaerdydd, ond gallai ddigwydd pan fo'r un blaid mewn grym. Yr ydym yn dibynnu ar broses o ddealltwriaeth, fel sydd rhwng Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ynghylch confensiwn Salisbury.

Po gryfaf yw'r mandad y tu ôl i'r cynnig am Fesur drwy'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan y fframwaith newydd, po leiaf y byddai unrhyw Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio ei wrthod. Ni allaf ddweud mwy na hynny am fod hyn oll yn dibynnu ar sut y mae pethau'n datblygu. A dweud y gwir, yr wyf yn meddwl bod ein cyfansoddiad yn gweithio oherwydd bod pawb yn derbyn nad ydym eisiau symud tuag at gael cyfansoddiad ysgrifenedig, gydag uwch-lys barn, fel sydd yn yr Unol Daleithiau, â'r gallu i orchymyn unrhyw Lywodraeth i wneud hyn a hyn, am ei fod mewn cyfansoddiad ysgrifenedig.

Ieuan Wyn Jones: I am grateful to you for giving your views on this matter, but I am sure that we will come back to it in discussions in the committee that is to be set up to look at the Bill and, perhaps, in future debates in the Assembly.

I turn to another part of the Bill, one that I consider to be nothing more than an old-fashioned Labour stitch-up, namely clause 29. I cannot think of any other representative democracy in the world, other than Northern Ireland, where this has happened, but clause 29 puts on the statute books that the Labour Government will decide how many members

anything about that. The only thing that the Bill does is give the Secretary of State an absolute right to refuse a bid from the Assembly. Are you in a position to explain your understanding of how the Secretary of State will use the guidelines in such a case?

The First Minister: The Secretary of State's description regarding the ability to execute a veto is totally right. As we have an unwritten constitution, you cannot take the Secretary of State to some supreme constitutional court as in Germany or the United States. Therefore, we are dependent on custom and practice and on developing ways of working, particularly when parties of different political persuasion are in power in Westminster and Cardiff, though it could also apply when the same party is in power. We depend on a process of understanding, such as the one between the House of Lords and the House of Commons as regards the Salisbury convention.

The stronger the mandate behind the bid for a Bill, through the Order in Council under the new framework, the less force any Secretary of State would apply to try to reject it. I cannot say more than that because this all depends on how things shape up. In all honesty, I think that our constitution works because everyone accepts that we do not want to move towards having a written constitution, under which a supreme court of justice, as in the United States, would have the power to order any Government to do this and that because it is included in a written constitution.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn ddiolchgar i chi am roi eich barn am y mater, ond yr wyf yn sicr y byddwn yn dod yn ôl ato eto mewn trafodaethau yn y pwyllgor a fydd yn cael ei sefydlu i ystyried y Mesur ac, efallai, mewn dadleuon yn y Cynulliad yn y dyfodol.

Trof at ran arall o'r Mesur, un nad yw yn fy marn i yn ddim byd ond hen dwyll y blaid Lafur, sef cymal 29. Ni allaf feddwl am yr un ddemocratiaeth gynrychioliadol arall yn y byd, ar wahân i Ogledd Iwerddon, lle y mae hyn wedi digwydd, ond mae cymal 29 yn rhoi yn y llyfrau statudau y bydd Llywodraeth Lafur yn penderfynu faint o

there will be on the Assembly's committees after 2007. To me, First Minister, that is a constitutional outrage. Why will you not allow the Assembly to decide how many people should be on its committees to reflect the balance of the political parties? Is it not true that if Labour lost its majority at the next election, and if it remained the largest party, it would still be disproportionately represented on every committee that the Assembly sets up?

The First Minister: Clause 29 also has the power to override the d'Hondt proposals. It is clear that the d'Hondt system is there in order to ensure that, if there is a stalemate, it can be broken by the use of d'Hondt and everyone knows where they stand. However, it also specifies something that overrides d'Hondt, namely that every Member of the Assembly is guaranteed a place on a committee, which d'Hondt does not give you. Which of those two is superior? It is the second of those two, not the first one, as you appear to have understood. I think that your understanding is wrong.

It is clear that, if the Assembly wants to operate a non-d'Hondt system and have committees of a size for which d'Hondt will not operate, it will be permitted to do so. All it has to have is a two-thirds majority, as we frequently have for making procedural changes of this nature. D'Hondt is there to break any stalemate.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I am tempted to try to follow your argument, which basically seems to be, 'In case Assembly Members cannot be trusted to be fair to each other, we will put a lock on the door and not let them in'. Perhaps you could explain this in terms of another lock, namely the House of Lords. I remember that you have made many speeches, and your party has complained bitterly, when the House of Lords has blocked or delayed legislation proposed by your colleagues in Westminster, including proposals on identity cards, foundation hospitals, and the Hunting Bill. Ministers in your Government would tell us what an absolute disgrace it is that these elected Lords are blocking measures from the Commons. How would you react if the

aelodau fydd ar bwyllgorau'r Cynulliad ar ôl 2007. I mi, Brif Weinidog, mae hynny'n warth cyfansoddiadol. Pam na chaniatewch i'r Cynulliad benderfynu faint o bobl ddylai fod ar ei bwyllgorau i adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau gwleidyddol? Petai Llafur yn colli ei mwyafrif yn yr etholiad nesaf, a phetai'n dal i fod yn blaid fwyaf, onid yw'n wir y byddai gan y blaid gynrychiolaeth anghymesur o hyd ar bob pwyllgor y mae'r Cynulliad yn ei sefydlu?

Y Prif Weinidog: Mae gan Gymal 29 hefyd y pŵer i wrth-wneud cynigion d'Hondt. Mae'n amlwg bod y drefn d'Hondt yn bod i sicrhau, os ceir sefyllfa ddiddatrys, y gellir ei datrys drwy ddefnyddio d'Hondt ac mae pawb yn gwybod ble y maent yn sefyll. Fodd bynnag, mae'n nodi rhywbeth sy'n gwrth-wneud d'Hondt hefyd, sef y gwarantir lle i bob Aelod o'r Cynulliad ar bwyllgor, nad yw'n cael ei roi gan d'Hondt. Pa un o'r ddau hynny sydd drechaf? Yr ail o'r ddau yw'r ateb, nid y cyntaf fel yr ydych chi wedi deall i bob golwg. Credaf fod eich dealltwriaeth yn anghywir.

Os yw'r Cynulliad am weithredu system ddi-d'Hondt, a chael pwyllgorau o faint lle na fydd d'Hondt yn weithredol, mae'n amlwg y caiff wneud hynny. Y cyfan y bydd angen iddo'i gael fydd mwyafrif o ddwy ran o dair, fel yr ydym yn cael yn aml ar gyfer gwneud newidiadau trefniadol o'r math hwn. Ar gyfer datrys sefyllfa ddiddatrys y mae D'hondt.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Caf fy nhemtio i geisio dilyn eich dadl, sydd yn y bôn, fel petai'n dweud, 'Rhag ofn na ellir ymddiried yn Aelodau'r Cynulliad i fod yn deg â'i gilydd, rhown glo ar y drws a pheidio â'u gadael i mewn'. Efallai y gallech esbonio hyn drwy gyfeirio at glo arall, sef Tŷ'r Arglwyddi. Cofiaf eich bod wedi gwneud llawer o areithiau, ac mae eich plaid wedi cwyno'n enbyd, pan fo Tŷ'r Arglwyddi wedi blocio neu wedi peri oedi gyda deddfwriaeth a gynigiwyd gan eich cyd-aelodau yn San Steffan, gan gynnwys cynigion ynghylch cardiau adnabod, ysbytai sefydledig, a'r Mesur Hela. Byddai Gweinidogion yn eich Llywodraeth yn dweud wrthym pa mor warthus ydyw bod yr Arglwyddi etholedig hyn yn blocio mesurau

House of Lords alone were to veto an Order in Council made by the National Assembly?

The First Minister: I cannot see how the House of Lords could block an Order in Council. Perhaps you would like to write to me about that.

In your excitement, Mike, you referred to 'elected Lords'. I have not seen an elected Lord as yet. I think that you mean 'unelected Lords'. I agree that, in the long term, we might have an elected House of Lords, which might give them an additional mandate. However, you have to remember that, for the past 100 years, every time there has been a non-Conservative Government in office, not blocking or wrecking a Bill that is proceeding from a party that included the proposal in its manifesto and that won a majority in a general election has depended on nothing more than an unwritten convention. It is a sound principle that has worked because of a determination to make the system work, despite having non-Conservative Governments and the Lords having a built-in anti-Labour majority and, presumably, an anti-Liberal majority in 1906, 1910 and so on, when the crisis was precipitated. It has worked because we do not want a supreme court and a written constitution. The same will apply in this regard. Now that this Bill has received its Second Reading, you have to remember that all four political parties operating in Wales can start to prepare their manifestos on the basis that this will be the law of the land. Therefore, there will be far more meat on the bones of the manifestos on which all Members will be standing in the next elections, a year this May, from which a majority will emerge.

Michael German: As I understand the matter, the Order-in-Council route means that an Order in Council can be turned down by the House of Lords alone, and that there is no ping-pong back and forth between the House of Lords and the House of Commons on Orders in Council. It could be the case that an Order in Council that has been passed by the

o Dŷ'r Cyffredin. Sut y byddech yn ymateb petai Tŷ'r Arglwyddi yn unig yn rhoi fetu ar Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaethpwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol?

Y Prif Weinidog: Ni allaf weld sut y gallai Tŷ'r Arglwyddi flocio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Efallai yr hoffech ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny.

Yn eich cyffro, Mike, cyfeiriasoch at 'Arglwyddi etholedig'. Nid wyf wedi gweld Arglwydd etholedig hyd yma. Credaf eich bod yn golygu 'Arglwyddi anetholedig'. Cytunaf y gallwn, yn y tymor hir, gael Tŷ'r Arglwyddi etholedig, a allai roi mandad ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, rhaid ichi gofio, yn ystod y 100 mlynedd diwethaf, bob tro y mae Llywodraeth heb fod yn Geidwadol wedi bod yn rheoli, mae peidio â blocio neu ddryllio Mesur sy'n dod o du'r blaidd yr oedd y cynnig wedi ei gynnwys yn ei manifesto ac a enillodd fwyaf mewn etholiad cyffredinol wedi dibynnu ar ddim mwy na chonfensiwn nad yw'n ysgrifenedig. Mae'n egwyddor gadarn sydd wedi gweithio oherwydd y penderfyniad i wneud i'r system weithio er inni gael Llywodraethau heb fod yn Geidwadol, a'r Arglwyddi â mwyaf gwrth-Lafur naturiol ac, yn ôl pob tebyg, mwyaf gwrth-Ryddfrydol yn 1906, 1910 ac yn y blaen, pan achoswyd yr argyfwng. Mae wedi gweithio gan nad ydym am gael goruchel lys a chyfansoddiad ysgrifenedig. Bydd yr un peth yn berthnasol yn y cyswllt hwn. Gan fod y Mesur wedi cael ei Ail Ddarlleniad erbyn hyn, mae'n rhaid ichi gofio y gall y pedair plaid wleidyddol sy'n gweithredu yng Nghymru ddechrau paratoi eu manifestos ar y sail y bydd hyn yn gyfraith gwlad. O'r herwydd, bydd llawer mwy o gig ar esgryn y manifestos y bydd pob Aelod yn sefyll arnynt yn yr etholiadau nesaf, flwyddyn i fis Mai eleni, etholiadau a fydd yn creu mwyaf.

Michael German: Yn ôl fel y deallaf y mater, mae llwybr y Gorchymynion yn y Cyfrin Gyngor yn golygu y gall Tŷ'r Arglwyddi ar ei ben ei hun wrthod Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ac nad oes dim symud yn ôl ac ymlaen rhwng Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar Orchymynion yn y Cyfrin Gyngor. Mae'n bosibl na fyddai

National Assembly, the Secretary of State for Wales, and the House of Commons might not be passed by the House of Lords. Do you think that, in such a circumstance, Parliament would be obliged to use the Parliament Act 1911, which would, of course, hold the whole thing back for another parliamentary session? In addition, with regard to the Salisbury convention and manifesto commitments, whose manifesto would it be? Would it be the House of Commons' or the Assembly's manifesto that would matter in this respect?

The First Minister: Clearly, it would be our manifesto, because it would be our proposition. Parliament does not invent the use of the Order-in-Council procedure here off its own bat; it does it in response to a request from the Assembly. It does it formally after some form of scrutiny, both there and here, of the principle of delegating that amount of power to the Assembly.

Under an unwritten constitution, everything that you described is theoretically possible but will not actually happen in practice. If you simply explore all the theoretical possibilities of clashes with the House of Lords, then British Government would simply stop tomorrow and would never restart. That has not happened, because everybody is determined to make it work. They know that the alternative to refusing to make it work would be what happened in 1910 when the Salisbury convention was developed to make the House of Lords accept that its function is that of a revising chamber, not a wrecking or a blocking chamber. Whereas everything is theoretically possible, it will not actually happen in practice.

Michael German: Their lordships will tell you, as they have done in evidence already given to the Select Committee on Welsh Affairs and in the House of Lords, that because Orders in Council cannot be amended by them it is not a matter of saying a straight 'yes' or 'no' to the Order in Council. I still maintain, First Minister, that we do not have sufficient guidance and clarity on this issue. Am I to take that the

Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Thŷ'r Cyffredin yn cael ei basio gan Dŷ'r Arglwyddi. A ydych o'r farn, mewn sefyllfa o'r fath, y byddai'n rhaid i'r Senedd ddefnyddio Deddf Seneddol 1911, a fyddai, wrth gwrs, yn dal yr holl beth yn ôl am sesiwn seneddol arall? Hefyd, gyda golwg ar gonfensiwn Salisbury ac ymrwymadau'r maniffestos, maniffesto pw y fyddai? Ai maniffesto Tŷ'r Cyffredin neu faniffesto'r Cynulliad fyddai'n cyfrif yn y cyswllt hwn?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs, ein maniffesto ni fyddai hwnnw, gan mai ein cynigiad ni fyddai. Nid yw'r Senedd yn dyfeisio'r defnydd o'r weithdrefn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yma o'i phen a'i phastwn ei hun; gwna hynny mewn ymateb i gais gan y Cynulliad. Gwna hynny yn ffurfiol, ar ôl rhyw fath o graffu, yma ac yno, ar yr egwyddor o ddirprwyo cymaint â hynny o bŵer i'r Cynulliad.

Dan gyfansoddiad nad yw'n ysgrifenedig, mae popeth a ddisgrifiasoch yn bosibl yn ddamcaniaethol, ond ni fydd yn digwydd yn ymarferol. Petaech yn mynd ati i ystyried yr holl bosibiliadau damcaniaethol o wrthdaro gyda Thŷ'r Arglwyddi, byddai Llywodraeth Prydain yn dod i ben yfory, ac ni fyddai'n ailddechrau byth. Nid yw hynny wedi digwydd, oherwydd y mae pawb yn benderfynol o wneud iddo weithio. Gwyddant mai'r hyn a fyddai'n digwydd petaent yn gwrthod gadael iddo weithio fyddai'r hyn a ddigwyddodd yn 1910 pan ddatblygwyd confensiwn Salisbury i orfodi Tŷ'r Arglwyddi i dderbyn mai ei swyddogaeth yw bod yn siambr sy'n diwygio, yn hytrach na bod yn siambr sy'n blocio neu ddryllio. Tra bo popeth yn bosibl yn ddamcaniaethol, ni fydd yn digwydd yn ymarferol.

Michael German: Bydd yr arglwyddi'n dweud wrthy, fel y maent wedi gwneud mewn tystiolaeth a roddwyd eisoes i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ac yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan na allant ddiwygio Gorchymynion yn y Cyfrin Gyngor, nad mater ydyw o ddweud 'ie' neu 'na' syml i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Yr wyf yn dal i haeru, Brif Weinidog, nad oes gennym ganllawiau ac eglurder digonol ar y mater

Secretary of State for Wales, in all circumstances, would apply the Parliament Act 1911 to any Order in Council that had the approval of the Assembly and Parliament? Is that what you are guaranteeing, because it is not in the legislation?

hwn. A wyf i gymryd y byddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ym mhob amgylchiad, yn defnyddio Deddf Senedd 1911 ar unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a fyddai wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad a'r Senedd? Ai dyna beth yr ydych yn ei warantu, oherwydd nid yw yn y deddfwriaeth?

2.30 p.m.

The First Minister: No, because, as I said, it is dependant on custom and practice. It is true that an Order in Council is not an amendable document in itself, but you are confusing it with the legislation. Legislation is amendable, but Orders in Council, by their nature, are not. It is the principle of whether to try to transfer a power to legislate to us on application, the application for that transfer of power having been made by us in the first place. Therefore, on the question of the House of Lords' view being taken, it is not a matter of the House of Lords doing more than improving legislation, rather than wrecking or blocking legislation.

Y Prif Weinidog: Na, oherwydd fel y dywedais, mae'n dibynnu ar ddefod ac arfer. Mae'n wir nad yw Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddogfen y gellir ei diwygio ynddi ei hunan, ond yr ydych yn drysu rhyngddo a'r deddfwriaeth. Gellir diwygio deddfwriaeth, ond ni ellir diwygio Gorchymynion yn y Cyfrin Gyngor, o ran eu natur. Yr egwyddor yw a ddylid ceisio trosglwyddo hawl i deddfu i ni ar ein cais, a'r cais am y trosglwyddiad hwnnw wedi'i wneud gennym ni yn y lle cyntaf. Felly, o ran cwestiwn cymryd barn Tŷ'r Arglwyddi, ni fyddai Tŷ'r Arglwyddi'n gwneud dim mwy na gwella deddfwriaeth, yn hytrach na dryllio neu flocio deddfwriaeth.

Pensiynau Allied Steel and Wire Allied Steel and Wire Pensions

Q6 Owen John Thomas: What recent talks has the First Minister had with UK Government Ministers with a view to fulfilling the pension entitlements of the former members of the Allied Steel and Wire pension trust? OAQ1112(FM)

C6 Owen John Thomas: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal â Gweinidogion Llywodraeth y DU gyda'r nod o gyflawni hawliadau pensiwn cyn aelodau ymddiriedolaeth bensiwn Allied Steel and Wire? OAQ1112(FM)

The First Minister: On 12 January I met John Hutton, the new Secretary of State for Work and Pensions, as part of a delegation, which included the General Secretary of the Community Union, Michael Leahy, Cardiff and Sheerness area MPs, and members of the Allied Steel and Wire pension campaign committee from both areas.

Y Prif Weinidog: Ar 12 Ionawr cyfarfûm â John Hutton, yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Waith a Phensiynau, fel rhan o ddirprwyaeth a oedd yn cynnwys Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb Community, Michael Leahy, ASau ardaloedd Caerdydd a Sheerness, ac aelodau pwyllgor ymgyrch pensiynau Allied Steel and Wire o'r ddwy ardal.

Owen John Thomas: Your London talks promised to look again at the amount of the pension compensation before the 2008 spending review. However, three and a half years since the trust was wound up, only 17 of 800 members have received pension compensation. The union has taken the

Owen John Thomas: Addawodd eich trafodaethau yn Llundain edrych eto ar faint yr iawndal pensiwn cyn adolygiad gwariant 2008. Fodd bynnag, dair blynedd a hanner wedi dirwyn yr ymddiriedolaeth i ben, dim ond 17 o 800 o aelodau sydd wedi derbyn iawndal pensiwn. Mae'r undeb wedi mynd â

Westminster Government to the High Court for failing to implement the European directive. You claim that the whole issue lacks clarity and certainty, and optimistic stalwarts such as Brian Silver say that members left the Westminster meeting feeling disappointed, with the wind-up process unacceptably slow, and the promised compensation unacceptably small. What new steps do you intend to take to bring this matter to a swift and just conclusion?

The First Minister: The whole purpose of the meeting on Thursday was to do just that, because what we—including Brian Silver, who took a leading role in that meeting with John Hutton—were seeking to do was to establish with the Secretary of State for Work and Pensions that the three-year rule, which, at present, means that only those within three years of retirement are entitled to their pension to be made up to 80 per cent of what they expected, needs to be extended. How it should be extended and how much knowledge the Secretary of State for Work and Pensions needs to have of the potential costs of doing that, not just for Allied Steel and Wire, but for the other 65,000 people affected by pension schemes in wind-up, was the purpose of the meeting. We are seeking a great deal of further information to try to bring this matter to a speedy conclusion.

David Melding: Do you agree that this very unfortunate case illustrates a wider problem, in terms of the difference between the public sector—which, in general, has very sound pension provision—and the private sector? In years to come, this could lead to much political and social conflict unless we sort it out by having as robust a system as possible in the private sector to deliver pensions effectively.

The First Minister: The purpose of the pension protection fund is to do exactly that. The Allied Steel and Wire pension fund was well run—there was no Robert-Maxwell-type fiddling by the employer taking money out and putting it into the company. The trustees were cleared of any such bad ways of running the pension fund. Curiously enough,

Llywodraeth San Steffan i'r Uchel Lys am fethu gweithredu'r gyfarwydddeb Ewropeaidd. Haerwch fod yr holl fater yn aneglur ac yn ansicr, a dywed glewion optimistaidd fel Brian Silver fod aelodau wedi dod o'r cyfarfod yn San Steffan yn teimlo'n siomedig, gyda'r broses ddirwyn i ben yn annerbyniol o araf, a'r iawndal a addawyd yn annerbyniol o fach. Pa gamau newydd y bwriadwch eu cymryd i ddod â'r mater hwn i ben yn fuan ac mewn modd cyfiawn?

Y Prif Weinidog: Holl ddiben y cyfarfod ddydd Iau oedd gwneud yr union beth hwnnw, oherwydd yr hyn yr oeddem ni—gan gynnwys Brian Silver, a gymerodd ran flaenllaw yn y cyfarfod hwnnw gyda John Hutton—yn ceisio'i wneud oedd sefydlu gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau fod angen ymestyn y rheol dair blynedd, sydd, ar hyn o bryd, yn golygu mai dim ond y rhai sydd o fewn tair blynedd i ymddeol a gaiff hawl i 80 y cant o'r pensiwn yr oeddent wedi'i ddisgwyl. Sut y dylid ei hymestyn, a faint o wybodaeth y mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ei chael am gostau posibl gwneud hynny, nid dim ond i Allied Steel and Wire, ond i'r 65,000 o bobl eraill yr effeithir arnynt gan gynlluniau pensiwn sy'n cael eu dirwyn i ben, oedd diben y cyfarfod. Yr ydym yn ceisio cael llawer iawn o wybodaeth bellach i geisio cau pen y mwdwl yn fuan.

David Melding: A gytunwch fod yr achos anffodus iawn hwn yn amlygu problem ehangach, o ran y gwahaniaeth rhwng y sector cyhoeddus—sydd, ar y cyfan, yn darparu pensiynau cadarn iawn—a'r sector preifat? Mewn blynyddoedd i ddod, gallai hyn arwain at lawer o wrthdaro gwleidyddol a chymdeithasol os na ddatryswn y mater drwy gael system mor gadarn ag sy'n bosibl yn y sector preifat i ddarparu pensiynau'n effeithiol.

Y Prif Weinidog: Dyna'n union yw pwrpas y gronfa gwarchod pensiynau. Roedd cronfa bensiwn Allied Steel and Wire yn cael ei rheoli'n dda—nid oedd dim twyll Robert-Maxwellaidd gan y cyflogwr yn tynnu arian allan a'i roi i mewn i'r cwmni. Cafwyd yr ymddiriedolwyr yn ddieuog o unrhyw ddulliau drwg o'r fath o redeg y gronfa

the Allied Steel and Wire pension holders would have been better off had their employer been a Robert Maxwell, because they would have been covered by the Pension Benefit Act 1992. As regards to what happens in the future, the pension protection fund acts as an overall umbrella for all private pension schemes, but the problem is the 65,000 people caught in the middle before the fund can take effect. Currently, only those within three years of retirement are covered in relation to the make-up of 80 per cent of their expected pensions. We want to extend that, even if it means that the Government has to increase the £400 million that it has allocated, which is roughly £20 million a year over the next 20 years.

bensiwn. Yn rhyfedd ddigon, byddai deiliaid pensiwn Allied Steel and Wire wedi bod yn well eu byd pe baent wedi'u cyflogi gan ryw Robert Maxwell, oherwydd byddai Deddf Budd-daliadau Pensiwn 1992 wedi gofalu amdanynt. O ran beth fydd yn digwydd yn y dyfodol, mae'r gronfa gwarchod pensiynau'n gweithredu fel ymbarél gyffredinol i bob cynllun pensiwn preifat, ond y 65,000 o bobl sydd wedi'u dal yn y canol cyn i'r gronfa ddod i rym yw'r broblem. Ar hyn o bryd, dim ond pobl sydd o fewn tair blynedd i ymddeol sydd â'r hawl i gael 80 y cant o'u pensiynau disgwylidig. Mae arnom eisiau ymestyn hynny, hyd yn oed os golyga y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth gynyddu'r £400 miliwn y mae wedi'i ddyrannu, sydd tua £20 miliwn y flwyddyn dros yr 20 mlynedd nesaf.

Gwasanaethau Deintyddol y GIG NHS Dental Services

Q7 Janet Davies: Will the First Minister make a statement on access to NHS dental services in south-west Wales?
OAQ1125(FM)

C7 Janet Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn ne-orllewin Cymru?
OAQ1125(FM)

The First Minister: Steps are being taken to improve access through personal dental service pilot schemes. To date, 22 PDS schemes have secured NHS dental care for 90,651 existing and 33,704 new patients in the South Wales West regional constituency, and eight applications are currently being appraised and 14 more are due for submission soon.

Y Prif Weinidog: Mae camau ar droed i wella mynediad drwy gynlluniau peilot i roi gwasanaeth deintyddol personol. Hyd yn hyn, mae 22 o gynlluniau gwasanaeth deintyddol personol wedi sicrhau gofal deintyddol y GIG i 90,651 o gleifion presennol a 33,704 o rai newydd yn etholaeth ranbarthol Gorllewin De Cymru, ac mae wyth cais yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a 14 arall i gael eu cyflwyno'n fuan.

Janet Davies: You will be aware that, in Neath Port Talbot alone, 9,000 people were recently deregistered from national health service dentists. Four PDS contracts have been set up in the area, catering for 8,800 people. The management and so on still has to be sorted out. What will you be doing in future to protect people from the acute distress that they suffered when they were suddenly told by letter that they were deregistered?

Janet Davies: Byddwch yn ymwybodol bod 9,000 o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn unig wedi cael eu datgofrestru'n ddiweddar gan ddeintyddion y gwasanaeth iechyd gwladol. Sefydlwyd pedwar contract gwasanaeth deintyddol personol yn yr ardal, i ddarparu ar gyfer 8,800 o bobl. Nid yw'r rheolaeth ac yn y blaen wedi'i threfnu eto. Beth y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol i warchod pobl rhag y trallod garw a ddiodesasant pan ddywedwyd wrthynt yn sydyn drwy lythyr eu bod wedi'u datgofrestru?

The First Minister: The huge change that has been made is that when a dentist deregisters and says, 'We're going private in

Y Prif Weinidog: Y newid enfawr sydd wedi'i wneud yw pan fydd deintydd yn datgofrestru ac yn dweud, 'Yr ydym yn mynd

this practice' and asks, 'Are you coming with us or not?', inevitably engendering fears that there is no alternative, the local health board now gets the money that was paying for the NHS dentistry afresh from us. Therefore, the LHB can then use that to bring in a new dentist to take the place of the one that has gone private. Therefore, it is not now a monopoly, one-way movement, where the dentist is pretty sure that another dentist will not be coming in. It is now likely that new dentists will come in, and that may well make some of the dentists who are thinking about going private think twice about it, and it certainly means that, if they do go private, an alternative provision will be along soon. It is not certain, and there will still be these fears, nevertheless, 22 areas in your regional list area have the PDS scheme, and there are another 22 on the way. That is a pretty healthy sign of the turnaround that has been achieved by this change.

Val Lloyd: Thank you for those figures. The LHB in Swansea has been very successful. It has set up 16 PDS schemes, which have created 18,000 additional places as well as safeguarding many more. Do you agree that the move to local commissioning of NHS primary care dental services matches local services with local needs and is vital to provide the people of Swansea and elsewhere with a better service?

The First Minister: I am glad that you have raised that point, because I have now turned over to the next page of the briefing, which shows how good the situation is in Swansea in this regard. I had not realised this but, of the 22 schemes that I mentioned in response to Janet, 17 are in Swansea, four are in Neath Port Talbot and one is in Bridgend, and then seven further applications are expected in Bridgend, along with two from Swansea. Therefore, the movement, if you like, of using the PDS pilot scheme has been very healthy in Swansea, and you are right to draw attention to that.

yn breifat yn y practis hwn,' ac yn gofyn, 'A ydych yn dod gyda ni ai peidio?', gan godi ofnau'n anochel nad oes dewis arall, y bydd y bwrdd iechyd lleol bellach yn cael yr arian a dalai am ddeintyddiaeth y GIG o'r newydd oddi wrthym ni. Felly, gall y bwrdd iechyd ddefnyddio'r arian hwnnw wedyn i ddod â deintydd newydd i mewn i gymryd lle'r un a aeth yn breifat. Felly, nid yw mwyach yn fonopoli, yn symudiad unffordd, lle y mae'r deintydd yn eithaf sicr na fydd deintydd arall yn dod i mewn. Mae'n debygol bellach y daw deintyddion newydd i mewn, a gallai hynny'n wir wneud i rai o'r deintyddion sydd yn meddwl am fynd yn breifat feddwl ddwywaith, ac yn sicr mae'n golygu os ânt yn breifat, y bydd darpariaeth arall ar gael yn fuan. Nid yw'n sicr, a bydd yr ofnau hyn yn dal i fodoli, ond serch hynny, mae'r cynllun gwasanaeth deintyddol personol ar gael mewn 22 ardal yn eich ardal rhestr ranbarthol, ac mae 22 eto ar y ffordd. Mae hynny'n arwydd eithaf iach o'r gwrthdroad sydd wedi digwydd yn sgîl y newid hwn.

Val Lloyd: Diolch ichi am y ffigurau hynny. Mae'r bwrdd iechyd lleol yn Abertawe wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae wedi sefydlu 16 o gynlluniau gwasanaeth deintyddol personol, gan greu 18,000 o leoedd ychwanegol yn ogystal â diogelu llawer mwy. A ydych yn cytuno bod y symudiad at gomisiynu gwasanaethau deintyddol gofâl sylfaenol dan y GIG yn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cyfateb i anghenion lleol, a'i fod yn allweddol i ddarparu gwasanaeth gwell i bobl Abertawe ac ardaloedd eraill?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch ichi godi'r pwynt hwnnw, oherwydd yr wyf erbyn hyn wedi troi at dudalen nesaf y briff, sy'n dangos mor dda yw'r sefyllfa yn Abertawe yn hyn o beth. Nid oeddwn wedi sylweddoli hyn, ond o'r 22 o gynlluniau a grybwyllais yn fy ateb i Janet, mae 17 yn Abertawe, pedwar yng Nghastell-nedd Port Talbot ac un ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac yna disgwylir saith cais arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â dau o Abertawe. Felly, mae'r symudiad, os mynnwch, at ddefnyddio'r cynllun peilot gwasanaeth deintyddol personol wedi bod yn iach iawn yn Abertawe, ac mae'n iawn ichi dynnu sylw at hynny.

Alun Cairns: Listening to the First Minister, you would think that there was no problem in terms of commissioning NHS dentistry in Wales. The First Minister, in his answer to Janet Davies, highlighted the number of new spaces available in the NHS, which is great, but let us not forget the net position: fewer patients are being treated in South Wales West under the NHS dentistry scheme than previously. Furthermore, I am surprised at the response from his cheerleader, Val Lloyd, because, having spoken to the local health boards in Neath Port Talbot and Bridgend today, I found that no-one is taking on NHS dental patients and, in Swansea, the LHB could not even answer the question.

The First Minister: If you read the Record, you will find that your description of what I said to Janet Davies is a very unworthy caricature. I did say that, in the in-between period, people are naturally fearful. I repeat that for your benefit, as you were determined not to hear what I said before.

On your point about Bridgend, Bridgend is at the other end from Swansea. It has one scheme so far under PDS, but, on the other hand, seven further applications are expected. Inevitably, you will get some areas in the lead on PDS. Swansea is in the lead, Bridgend has been slow to start but it now has seven applications, which is six more than there have been so far. That sounds roughly in line with the respective populations, with perhaps a bit more effort required in Bridgend. The turnaround has been massive. Why has it occurred? It is because of the change in the LHB keeping the money when the dentists go private, which means that it can use it to hire a new dentist to come in, on the assumption that that new dentist treats NHS patients either in whole or in part.

Alun Cairns: O wrando ar y Prif Weinidog, gallech feddwl nad oedd dim problem o ran comisiynu deintyddiaeth dan y GIG yng Nghymru. Yn ei ateb i Janet Davies, tynnodd y Prif Weinidog sylw at nifer y lleoedd newydd sydd ar gael yn y GIG, sydd yn wych, ond na foed inni anghofio'r sefyllfa net: mae llai o gleifion yn cael triniaeth yng Ngorllewin De Cymru dan gynllun deintyddiaeth y GIG nag o'r blaen. At hynny, yr wyf yn synnu at yr ymateb gan ei gefnogwraig frwd, Val Lloyd, oherwydd, wedi siarad â'r byrddau iechyd lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr heddiw, cefais wybod nad oes neb yn derbyn cleifion deintyddol dan y GIG, ac, yn Abertawe, ni allai'r bwrdd iechyd lleol hyd yn oed ateb y cwestiwn.

Y Prif Weinidog: Os darllenwch y Cofnod, gwelwch mai gwawdlun annheilwng iawn yw eich disgrifiad o'r hyn a ddywedais wrth Janet Davies. Fe ddywedais fod pobl, yn y cyfnod rhwng y ddwy sefyllfa, yn naturiol yn ofnus. Ailadroddaf hynny er eich mwyn chi, gan eich bod yn benderfynol o beidio â chlywed yr hyn a ddywedais o'r blaen.

Ynglŷn â'ch pwynt am Ben-y-bont ar Ogwr, mae Pen-y-bont yn y pen arall o'i gymharu ag Abertawe. Mae ganddo un cynllun hyd yma dan y gwasanaeth deintyddol personol, ond, ar y llaw arall, disgwylir saith cais pellach. Yn anochel, fe geir rhai ardaloedd fydd ar y blaen gyda'r gwasanaeth deintyddol personol. Mae Abertawe ar y blaen, mae Pen-y-bont wedi bod yn araf yn dechrau ond erbyn hyn mae ganddo saith cais, sydd chwech yn fwy nag a fu hyd yma. Mae hynny'n swnio'n weddol gyson â phoblogaethau'r ddwy ardal, gydag angen efallai am ychydig mwy o ymdrech ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwrthdroad wedi bod yn aruthrol. Pam y mae wedi digwydd? Y rheswm yw'r newid fel bod y bwrdd iechyd lleol yn cadw'r arian pan aiff y deintyddion yn breifat, sy'n golygu y gall ei ddefnyddio i gyflogi deintydd newydd i ddod i mewn, ar sail y dybiaeth y bydd y deintydd newydd hwnnw'n trin cleifion y GIG un ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol.

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government Priorities**

Q8 Leanne Wood: What are the Welsh Assembly Government's priorities for the next six months? OAQ1128(FM)

C8 Leanne Wood: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ1128(FM)

The First Minister: Our priorities for next month include the continued delivery of our manifesto commitments on waiting list reduction and pre-school breakfast access, progress on the Government of Wales Bill and preparing the ground for the next round of Objective 1 funding.

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y mis nesaf yn cynnwys dal i wireddu ein haddewidion maniffesto ar gwtogi rhestrau aros a chael brechwast cyn-ysgol, gwaith ar Fesur Llywodraeth Cymru a braenaru'r tir ar gyfer y cylch nesaf o arian Amcan 1.

2.40 p.m.

Leanne Wood: One of Tony Blair's priorities is the so-called respect agenda. He proposes to evict people, withdraw housing benefit and generally crack down on petty offenders. Your Government in Wales claims that the prevention of crime and substance misuse is an important plank of your agenda. However, Youthlink Wales in Caerphilly, which trains young people as peer educators on issues such as substance misuse and sexual health, has recently had its funding cut, and faces closure at the end of this financial year. Do you think that your Government could do much more to prioritise prevention issues, such as substance misuse prevention, by funding organisations such as Youthlink Wales?

Leanne Wood: Un o flaenoriaethau Tony Blair yw'r agenda'n ymwneud â pharch, fel y'i gelwir. Mae'n bwriadu troi pobl allan o'u cartrefi, tynnu budd-dal tai'n ôl a syrthio ar warrau mân droseddwr yn gyffredinol. Honna eich Llywodraeth yng Nghymru fod atal troseddau a chamddefnyddio sylweddau'n rhan bwysig o'ch agenda. Fodd bynnag, yn ddiweddar cwtogwyd cyllid Cyswllt Ieuentid Cymru yng Nghaerffili, sydd yn hyfforddi pobl ifanc i addysgu eu cyfoedion am faterion fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol, ac mae perygl y bydd yn cau ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. A ydych yn meddwl y gallai eich Llywodraeth wneud llawer mwy i flaenoriaethu materion ataliol, megis atal camddefnyddio sylweddau, drwy roi arian i gyrff fel Cyswllt Ieuentid Cymru?

The First Minister: I am grateful to you for raising this issue with me. I do not have any detailed information on that, but I will ensure that Edwina Hart writes to you about it. You do not say who has cut the funding or why, and I am not aware of the circumstances so I cannot respond.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am godi'r mater hwn gyda mi. Nid oes gennyf ddim gwybodaeth fanwl am hynny, ond fe sicrhaf y bydd Edwina Hart yn ysgrifennu atoch yn ei gylch. Ni ddywedwch pwy a gwtogodd yr arian na pham, ac nid wyf yn ymwybodol o'r amgylchiadau, felly ni allaf ymateb.

On the general question of the respect agenda and anti-social behaviour orders, the key issue is whether people regard ASBOs as a first resort or a last resort, and whether they see having many of them as a sign of success or failure. We have said all along, as has the chief constable of South Wales Police, that having a lot of ASBOs is a sign of failure and not success, for the reasons that you have

O ran cwestiwn cyffredinol yr agenda'n ymwneud â pharch a gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, y cwestiwn allweddol yw a ydyw pobl yn edrych ar ASBOs fel cam cyntaf ynteu fel cam olaf, ac a welant fod cael llawer ohonynt yn arwydd o lwyddiant ynteu o fethiant. Yr ydym wedi dweud ar hyd yr amser, fel y dywedodd prif gwnstabl Heddlu De Cymru, mai arwydd o

illustrated. I think that we would all agree with that.

Jenny Randerson: I wish to go back to dentistry. Your Minister for Health and Social Services has said that one of his priorities is to increase the number of people registered with NHS dentists. The number is currently well below half the population, and is nearly 200,000 down on what it was when Labour came to power. The Minister has said that he would like to see two-thirds of the population registered with an NHS dentist. Why is your Minister so modest in his ambitions? How long do you think it will take for him to reach his target? How much money is your Government setting aside to increase the amount spent on NHS dentistry?

The First Minister: That is an interesting question. You say that the number is well below 50 per cent. The figure that I have is 47.8 per cent. I do not think that is well below 50 per cent; it is just below. It has decreased by 5 per cent over the last six and a half years since the Assembly was established. I think that it was 52 per cent and it has gone to just under 48 per cent. We have a higher proportion of children registered and a smaller proportion of adults registered than is the case in England, which is having the same problems. The turnaround since we made this change and brought in personal dental services has been rapid, which is why Brian is confident that we are now travelling in the right direction. However, on how long it will take to reach 66.5 per cent, or two-thirds, of the population, I do not think that we will be in a position to say that until we see some significant signs of growth to 50 per cent and beyond.

We have tried to illustrate to dentists who are concerned about the non-discrimination provision in the new PDS contract, which means that they cannot pick and choose in terms of only treating the children who are free and the adults who are free, that that does not apply to their existing patient stock. The letter from the Chief Dental Officer for

fethiant ac nid o lwyddiant yw bod llawer o ASBOs, am y rhesymau yr ydych wedi'u nodi. Credaf y byddem i gyd yn cytuno â hynny.

Jenny Randerson: Hoffwn fynd yn ôl at ddeintyddiaeth. Mae eich Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud mai un o'i flaenoriaethau yw cynyddu nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru gyda deintyddion y GIG. Ar hyn o bryd mae'r nifer ymhell o dan hanner y boblogaeth, a bron 200,000 yn is na'r hyn ydoedd pan ddaeth Llafur i rym. Mae'r Gweinidog wedi dweud yr hoffai weld dwy ran o dair o'r boblogaeth wedi'u cofrestru gyda deintydd dan y GIG. Pam mae eich Gweinidog mor ddiuchelgais? Faint o amser, yn eich barn chi, a gymer iddo gyrraedd ei nod? Faint o arian mae eich Llywodraeth yn ei neilltuo i gynyddu'r swm a werir ar ddeintyddiaeth y GIG?

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n gwestiwn diddorol. Dywedwch fod y ffigur ymhell dan 50 y cant. 47.8 y cant yw'r ffigur sydd gennyf fi. Nid wyf yn meddwl bod hynny ymhell dan 50 y cant; nid yw ond fymryn oddi tano. Mae wedi lleihau 5 y cant dros y chwe blynedd a hanner diwethaf ers sefydlu'r Cynulliad. Credaf mai 52 y cant ydoedd, ac mae wedi mynd i lawr i ychydig dan 48 y cant. Mae gennym gyfran uwch o blant wedi'u cofrestru a chyfran lai o oedolion wedi'u cofrestru nag a geir yn Lloegr, lle y ceir yr un problemau. Bu'r gwrthdroad ers inni gyflawni'r newid hwn a chyflwyno gwasanaeth deintyddol personol yn gyflym, a dyna pam mae Brian yn hyderus ein bod bellach yn symud i'r cyfeiriad iawn. Fodd bynnag, o ran faint o amser a gymer i gyrraedd 66.5 y cant, neu ddwy ran o dair, o'r boblogaeth, nid wyf yn meddwl y byddwn yn gallu dweud hynny nes y gwelwn arwyddion arwyddocaol o dwf i 50 y cant a mwy na hynny.

Yr ydym wedi ceisio dangos i ddeintyddion sydd yn bryderus ynghylch y ddarpariaeth dim gwahaniaethu yn y contract gwasanaeth deintyddol personol newydd, sy'n golygu na chânt ddewis a dethol o ran dim ond trin y plant sydd am ddim a'r oedolion sydd am ddim, nad yw hynny'n berthnasol i'w stoc cleifion presennol. Ceisia'r llythyr oddi wrth

Wales, Paul Langmaid, attempts to reassure dentists on that regard, because that is one of the reasons why they are holding back from going into PDS. We hope, now that they have received the letter, that they will not feel so inhibited.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): One matter that the First Minister did not mention, but which I think he identified as a key priority earlier, was the reduction in the number of ASPBs. He said in October that it was a top priority to shrink the quango state. Are the plans going smoothly?

The First Minister: Yes, indeed. We are pleased with the way in which the staffing and the merging of the organisations that will merge on 1 April are going. We believe that we will be able to say on 1 April that the first stage of quango reduction has been well and efficiently achieved.

Nick Bourne: I am pleased that the First Minister can put an optimistic gloss on this. When the Secretary of State for Wales told him to think long and hard about changing the WDA brand, I wonder how hard he thought about the disaffection among WDA staff regarding these changes, characterised by their Christmas song, 'Funds don't kill people, mergers do'. I also wonder whether he considers the fact that all Wales Tourist Board employees received a letter from his Government referring to the changes in their terms and describing them as working for the Welsh Tourist Board to be smooth running. Are these examples of the smooth running of these plans?

The First Minister: That is pretty thin stuff, Nick, even for you. Whether the tourist board is called the Wales Tourist Board or the Welsh Tourist Board, or the development agency the Welsh Development Agency or the Wales Development Agency, is not one of the major causes of what is going to happen to the Welsh economy or to the state of Welsh tourism. With regard to staff morale, for you to ape the *Western Mail* in attributing great significance to a song sung

Brif Swyddog Deintyddol Cymru, Paul Langmaid, dawelu ofnau deintyddion yn hynny o beth, gan fod hynny'n un o'r rhesymau pam y maent yn gyndyn o fynd i wasanaeth deintyddol personol. Ein gobaith, a hwythau bellach wedi derbyn y llythyr, yw na fyddant yn teimlo mor ochelgar.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Un mater na soniodd y Prif Weinidog amdano, ond y credaf iddo ei nodi yn gynharach fel blaenoriaeth allweddol, oedd y lleihad yn nifer y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Dywedodd ym mis Hydref fod crebachu'r wladwriaeth gwangos yn flaenoriaeth bennaf. A ydyw'r cynlluniau'n mynd rhagddynt yn hwylus?

Y Prif Weinidog: Ydynt, yn wir. Yr ydym yn fodlon ar y modd y mae pethau'n mynd gyda staffio a chyfuno'r cyrff a fydd yn uno ar 1 Ebrill. Credwn y byddwn yn gallu dweud ar 1 Ebrill fod cam cyntaf cwtogi'r cwangos wedi'i gwblhau'n dda ac yn effeithlon.

Nick Bourne: Yr wyf yn falch bod y Prif Weinidog yn gallu rhoi gwedd optimistaidd ar hyn. Pan ddywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrtho am feddwl yn hir ac yn ddwys ynghylch newid brand yr awdurdod datblygu, tybed pa mor ddwys y meddyliodd am y dadrithiad ymhlith staff y WDA gyda'r newidiadau hyn, a ddisgrifir yn eu cân Nadolig, 'Funds don't kill people, mergers do'? Tybed hefyd a ydyw o'r farn bod y ffaith i holl weithwyr Bwrdd Croeso Cymru dderbyn llythyr oddi wrth ei Lywodraeth yn cyfeirio at y newidiadau yn eu telerau ac yn eu disgrifio fel rhai'n gweithio i'r 'Welsh Tourist Board' yn gyfystyr â rhedeg yn hwylus? A ydyw'r rhain yn enghreifftiau o redeg y cynlluniau hyn yn hwylus?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n bur dila, Nick, hyd yn oed gennych chi. Nid yw a elwir y bwrdd croeso'n 'Wales Tourist Board' ynteu'n 'Welsh Tourist Board', neu a elwir yr awdurdod datblygu'n 'Welsh Development Agency' ynteu'n 'Wales Development Agency', yn un o brif achosion yr hyn sydd yn mynd i ddigwydd i economi Cymru nac i gyflwr twristiaeth yng Nghymru. O ran morâl y staff, mae'r ffaith eich bod yn dynwared y *Western Mail* drwy

at a Christmas party takes the biscuit.

As regards the appointment of staff, whether they are from the Welsh Development Agency or ex-employees of the Welsh Development Agency—and one very senior member has come back—we are very pleased with the way that it has gone.

Nick Bourne: I notice that you make light of these matters; I thought that you would do so. Do you also make light of the Art Council of Wales's position, given the mess that you are in there? There is a lack of serious dialogue, as the arts council has told you. You still have not replied to the letter sent to you by the chairman, Geraint Talfan Davies, who wrote to you on 5 January about these serious issues. If you have answers to those serious issues, I am surprised that, almost two weeks later, there is no reply to that letter. It is a gross discourtesy quite apart from anything else, is it not? You say that things are running smoothly, but it does not look like that to the people working for these organisations; it does not look like that to the people in the arts; and it does not look like that to the people in the street in Wales. You are stuck in the mud on these issues, and that is the truth of it.

The First Minister: That was a wonderful question except for the fact that you could not think of a question, Nick, because of the thin arguments that you are dealing with. The key issue is that I have received the letter, and a reply to the arts council is being prepared. With regard to access to the arts and our budgeting for the arts—and we have been extremely successful in increasing the budget for the arts—in answer to the question of whether we thought that the Arts Council of Wales would be pleased that it no longer had control for the big six organisations, the Mandy Rice-Davies rules clearly apply: no, it would not be pleased, would it? Of course it would not be pleased, and you would not expect it to be.

It is clearly not the case that, where big budget allocations are made, Ministers will

osod pwysigrwydd mawr ar gân a ganwyd mewn parti Nadolig yn dweud y cyfan.

O ran penodi staff, boed y rheini o Awdurdod Datblygu Cymru neu'n gyn-weithwyr i Awdurdod Datblygu Cymru—ac mae un aelod uchel iawn wedi dychwelyd—yr ydym yn fodlon iawn ar y modd y mae pethau wedi mynd.

Nick Bourne: Yr wyf yn sylwi eich bod yn trin y materion hyn yn ysgafn; yr oeddwn yn meddwl mai hynny a wnaech. A ydych hefyd yn trin sefyllfa Cyngor Celfyddydau Cymru'n ysgafn, o ystyried y cawlach yr ydych ynddo yn y fan honno? Mae diffyg trafodaeth o ddifrif, fel y dywedwyd wrthych gan gyngor y celfyddydau. Nid ydych byth wedi ymateb i'r llythyr a anfonwyd atoch gan y cadeirydd, Geraint Talfan Davies, a ysgrifennodd atoch ar 5 Ionawr ynghylch y materion difrifol hyn. Os oes gennych atebion i'r materion difrifol hyn, yr wyf yn synnu nad oes ateb i'r llythyr hwnnw bron bythefnos yn ddiweddarach. Mae'n anghwrteisi difrifol, heb sôn am ddim byd arall, onid ydyw? Dywedwch fod pethau'n rhedeg yn esmwyth, ond nid yw'n ymddangos felly i'r bobl sy'n gweithio i'r sefydliadau hyn; nid yw'n ymddangos felly i bobl ym myd y celfyddydau; ac nid yw'n ymddangos felly i bobl ar y stryd yng Nghymru ychwaith. Yr ydych yn ddisymud gyda'r materion hyn, a dyna'r gwir.

Y Prif Weinidog: Yr oedd yn gwestiwn bendigedig, ac eithrio'r ffaith na allech feddwl am gwestiwn, Nick, oherwydd y dadleuon tila yr ydych yn ymdrin â hwy. Yr wyf wedi derbyn y llythyr, ac mae ateb yn cael ei baratoi i gyngor y celfyddydau. O ran mynediad at y celfyddydau a'n cyllidebu ni ar gyfer y celfyddydau—ac yr ydym wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gynyddu'r gyllideb ar gyfer y celfyddydau—ac ateb y cwestiwn a oeddem o'r farn y byddai Cyngor Celfyddydau Cymru'n falch nad oedd ganddo reolaeth mwyach dros y chwe chorff mawr, mae rheolau Mandy Rice-Davies yn amlwg yn berthnasol: na, ni fyddai'n falch, na fyddai? Wrth gwrs na fyddai'n falch, ac ni fyddech yn disgwyl iddo fod.

Mae'n amlwg nad yw'n wir, lle y gwneir dyraniadau cyllideb mawr, y bydd

choose which operas the Welsh National Opera will perform or have a censorship role. The reality falls far short of that; it is clearly not the case. Apart from those issues, where the changes are governmental and where they are directly linked to the budget process, there is a great deal to be said for the moves that we have put forward.

Gweinidogion yn dewis pa operâu y bydd Opera Cenedlaethol Cymru'n eu perfformio nac y bydd ganddynt rôl sensoriaeth. Mae'r gwirionedd yn bur wahanol i hynny; nid yw'n wir o bellffordd. Ar wahân i'r materion hynny lle y mae'r newidiadau'n rhai gan y llywodraeth a lle y maent yn uniongyrchol gysylltiedig â phroses y gyllideb, mae llawer i'w ddweud dros yr hyn yr ydym wedi'i gynnig.

Blaenoriaethau Adfywio Tor-faen Regeneration Priorities for Torfaen

Q9 Lynne Neagle: Can the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's regeneration priorities for Torfaen? OAQ1111(FM)

C9 Lynne Neagle: A yw'r Prif Weinidog yn gallu gwneud datganiad am flaenoriaethau adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Tor-faen? OAQ1111(FM)

The First Minister: We take a strategic approach to regeneration throughout Wales, including in Torfaen. That includes the setting up of the Heads of the Valleys partnership, of which Torfaen County Borough Council is a member. The six ministerial-led area groups implementing the Wales spatial plan and the Communities First initiative are other examples of such strategic thinking.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cymryd agwedd strategol tuag at adfywio ledled Cymru, gan gynnwys yn Nhor-faen. Mae hynny'n cynnwys sefydlu partneriaeth Blaenau'r Cymoedd, y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen yn aelod ohono. Mae'r chwe grŵp ardal a arweinir gan y gweinidog ac sy'n gweithredu cynllun gofodol Cymru, a chynllun Cymunedau yn Gyntaf yn enghreifftiau eraill o feddwl strategol o'r fath.

Lynne Neagle: I know that you will agree with me that, thanks to Tony Blair's leadership, the UK Government has been able to secure a deal on the European budget that best serves the interests of the people of Torfaen. I know that that has disappointed some opposition members who would much rather preach doom and gloom than welcome a great deal for Wales. West Wales and the Valleys is a broad region however, and I know that you recognise that some areas have benefited more than others from the Objective 1 programme. In particular, there are concerns that the south Wales Valleys—the most deprived part of Wales—have not received as much funding as other parts. What assurances can you provide that the next tranche of funding will be strategically targeted at the areas of Wales and communities most in need?

Lynne Neagle: Gwn y byddwch yn cytuno â mi fod Llywodraeth y DU, diolch i arweiniad Tony Blair, wedi gallu sicrhau bargaen ar y gyllideb Ewropeaidd sydd er budd pobl Torfaen. Gwn fod hynny wedi siomi rhai o aelodau'r gwrthbleidiau, y byddai'n well o lawer ganddynt bregethu am ddiwedd y byd na chroesawu bargaen wych i Gymru. Fodd bynnag, mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ardal eang, a gwn eich bod yn cydnabod bod rhai ardaloedd wedi cael mwy o fudd nag eraill o raglen Amcan 1. Yn benodol, mae pryderon nad yw Cymoedd y de—rhan fwyaf difreintiedig Cymru—wedi derbyn cymaint o gyllid â rhannau eraill. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd y rownd nesaf o gyllid yn cael ei dargedu'n strategol tuag at yr ardaloedd yng Nghymru a'r cymunedau sydd â'r angen mwyaf?

The First Minister: I certainly agree that there are some frustrated fulminators who had been expecting to have debates

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn sicr yn cytuno bod taranwyr rhwystredig a oedd wedi disgwyl cael dadleuon yn beirniadu'r

criticising this Government or the Westminster Government for having failed to get European Objective 1 funding. They cannot do that because the Government got that funding, and without any fuss over Barnett plus funding, because Gordon Brown's pre-budget report stated that all European receipts would automatically come to us, and therefore we do not have to ask for any additional public expenditure cover.

With regard to the fundamental issue of how well the west Wales bit does and how well the Valleys bit does, there is an element of natural competition with regard to how much initiative is shown by communities, local authorities, private enterprise and so on. There is an element to which we have to guide it to ensure that some areas, simply because they may lack articulate, middle-class leadership, do not miss out. That is what we must look at in round two. I make no promises in advance on that, because this is in advance of working out whether areas have done particularly well or badly. However, we commend a great deal of community-based initiative to ensure that best use is made of round two of Objective 1 funding, starting in less than 12 months.

Jocelyn Davies: The Objective 1 outputs for Torfaen have been incredibly low. Can you tell us who is responsible for that?

2.50 p.m.

The First Minister: You have not given any figures, so I am not aware of the figures. However, the key point is that each area can make bids through local and strategic partnerships. Torfaen has done very well in some areas of Government funding from us over the last few years. I am not aware of the figures for Objective 1, and you have not given them, but there is a fair bit of time to put that right now that there is another eight years to go.

Llywodraeth hon neu Lywodraeth San Steffan am fethu â chael cyllid Ewropeaidd Amcan 1. Ni allant wneud hynny oherwydd bod y Llywodraeth wedi sicrhau'r cyllid hwnnw, heb ddim stŵr ynghylch cyllid ychwanegol Barnett, oherwydd bod adroddiad rhag-gyllidebol Gordon Brown yn datgan y byddai'r holl dderbyniadau Ewropeaidd yn dod yn awtomatig i ni, ac felly nid oes raid i ni ofyn am arian ychwanegol ar gyfer gwariant cyhoeddus.

O ran pa mor dda y mae ardal y gorllewin yn gwneud a pha mor dda y mae ardal y Cymoedd yn gwneud, mae elfen o gystadleuaeth naturiol o ran faint o flaengaredd a ddangosir gan gymunedau, awdurdodau lleol, mentrau preifat ac yn y blaen. Mae elfen lle y mae'n rhaid i ni arwain pethau i sicrhau nad yw rhai ardaloedd ar eu colled, am y rheswm syml nad oes ganddynt arweinwyr huawdl, dosbarth canol. Ar hyn mae'n rhaid i ni edrych yn rownd dau. Nid wyf yn rhoi dim addewidion ymlaen llaw ynghylch hynny, oherwydd y mae hyn cyn canfod a yw ardaloedd wedi gwneud yn arbennig o dda ynteu'n arbennig o wael. Fodd bynnag, yr ydym yn cymeradwyo llawer o fentrau ar sail gymunedol i sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o ail rownd cyllid Amcan 1, a fydd yn dechrau ymhen llai na 12 mis.

Jocelyn Davies: Mae'r hyn sydd wedi ei gynhyrchu drwy Amcan 1 yn Nhor-faen wedi bod yn rhyfeddol o isel. A allwch ddweud wrthym pwy sy'n gyfrifol am hynny?

Y Prif Weinidog: Nid ydych wedi rhoi dim ffigurau, felly ni wn beth ydynt. Fodd bynnag, y pwynt allweddol yw y gall pob ardal wneud bidiau drwy bartneriaethau lleol a strategol. Mae Tor-faen wedi gwneud yn dda iawn wrth dderbyn rhai mathau o arian gan y Llywodraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid wyf yn ymwybodol o ffigurau Amcan 1, ac nid ydych wedi'u rhoi, ond mae cryn dipyn o amser i unioni hynny'n awr gan fod wyth mlynedd arall i fynd.

Gogledd Cymru fel Cyrchfan Dwristiaeth North Wales as a Tourist Destination

Q10 Sandy Mewies: Will the First Minister

C10 Sandy Mewies: A wnaiff y Prif

make a statement on promoting north Wales as a tourist destination? OAQ1119(FM)

The First Minister: Across north Wales, the tourism industry continues to benefit from the Wales Tourist Board's increased activity in promoting and marketing Wales. The significant Assembly Government and EU funding allocated to the board in recent years has made that possible.

Sandy Mewies: I am pleased that so much is being done to ensure that north Wales, and particularly my constituency of Delyn, is being promoted to make the most of its historical attractions and cultural heritage. The Holywell townscape heritage initiative, for example, restores buildings using funds from Cadw, the Heritage Lottery Fund, the Welsh Assembly Government and so on. Much work has already been carried out. I recently visited Holywell textile mill, which has just had planning permission to be turned into an arts and crafts centre. Will you join me in praising such initiatives by Flintshire County Council, which boost our tourism industry and our cultural heritage? Will your Cabinet colleagues ensure that funding is made available for such creative initiatives in the future?

The First Minister: Indeed. We want to ensure that tourism is spread beyond the conventional honey pots of the north Wales coast, Snowdonia and the Llŷn peninsula to areas like Flintshire, the so-called north Wales borderlands. Funnily enough, it is not the tourist board, but the WDA that has funded the town heritage initiative. I visited St Winifred's Well, the famous well in the middle of Holywell, which gives the town its name. It is remarkable; it is probably hidden from the typical tourist track but it should not be hidden. You have to promote it. I am pleased that the WDA has contributed £586,000 over the past four years and this year to the town heritage initiative in Holywell, which I am sure will draw tourists.

Weinidog ddatganiad am hyrwyddo'r gogledd fel cyrchfan dwristiaeth? OAQ1119(FM)

Y Prif Weinidog: Ledled y gogledd, mae'r diwydiant twristiaeth yn parhau i fanteisio ar y cynnydd mewn gweithgaredd gan Fwrdd Croeso Cymru i hyrwyddo a marchnata Cymru. Gwnaed hyn yn bosibl gan y cyllid sylweddol a ddyrannwyd i'r bwrdd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r UE yn y blynyddoedd diwethaf.

Sandy Mewies: Yr wyf yn falch bod cymaint yn cael ei wneud i sicrhau bod y gogledd, ac yn enwedig fy etholaeth i sef Delyn, yn cael ei hyrwyddo er mwyn gwneud yn fawr o'i hatyniadau hanesyddol a'i threftadaeth ddiwylliannol. Mae cynllun treftadaeth treflun Treffynnon, er enghraifft, yn adfer adeiladau gan ddefnyddio cyllid gan Cadw, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn y blaen. Gwnaed llawer o waith eisoes. Yn ddiweddar, ymwelais â melin decstilau Treffynnon, sydd newydd dderbyn caniatâd cynllunio i'w thro'i'n ganolfan gelfyddydau a chrefftau. A wnewch ymuno â mi i ganmol mentrau o'r fath gan Gyngor Sir y Fflint, sy'n hybu ein diwydiant twristiaeth a'n treftadaeth ddiwylliannol? A wnaiff eich cyd-Weinidogion yn y Cabinet sicrhau y bydd cyllid ar gael ar gyfer mentrau creadigol o'r fath yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Mae arnom eisiau sicrhau bod twristiaeth yn cael ei hymestyn y tu hwnt i atyniadau arferol arfordir y gogledd, Eryri a phenrhyn Llŷn i ardaloedd fel sir y Fflint, gororau'r gogledd, fel y'u gelwir. Yn rhyfedd iawn, nid y bwrdd croeso ond Awdurdod Datblygu Cymru sydd wedi cyllido'r cynllun treftadaeth drefol. Ymwelais â Ffynnon y Santes Gwenffrewi, y ffynnon enwog yng nghanol Treffynnon, a roes ei henw i'r dref. Mae'n rhyfeddol; mae'n debyg ei bod yn guddiedig rhag llwybrau arferol twristiaid, ond ni ddylai fod yn guddiedig. Mae'n rhaid ichi ei hyrwyddo. Yr wyf yn falch bod Awdurdod Datblygu Cymru wedi cyfrannu £586,000 dros y pedair blynedd diwethaf ac eleni i'r cynllun treftadaeth drefol yn Nhreffynnon, a fydd yn denu twristiaid, yr wyf yn siŵr.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I have one change to report to this week's business. Following this statement, the Minister for Education and Lifelong Learning will make a statement on the arrangements for vetting and barring people who work with children. Business for the next three weeks is as set out in the draft statement, which can be found on the Chamberweb under supporting documents.

Following the Business Committee meeting this morning, it has been determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (Transitional Provisions and Consequential Amendments) (Wales) Order 2006, the Public Services Ombudsman for Wales (Jurisdiction and Transitional Provisions and Savings) Order 2006 and the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) Regulations 2006.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiad i'r datganiad busnes drafft? Gwelaf nad oes. Yr wyf yn gwahodd sylwadau ar y datganiad busnes.

Alun Ffred Jones: I wish to raise three points. On the recently released evaluation of the Objective 1 programme, I would like the Minister to make an unambiguous statement on the number of jobs created. The report highlights the needs to clarify the quality of the jobs and the need to stop double counting in the data presented. There is huge discrepancy here between the number of jobs created, as noted in the report and, for example, the figures on the Welsh European Funding Office site.

Secondly, the Minister needs to come clean on the situation regarding the Defence Aviation Repair Agency workforce, because the Westminster defence committee is reporting tomorrow. A great deal of sympathy and horror at the decision has been expressed here, but did the Minister write a single letter to Adam Ingram prior to the

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae gennyf un newid i'w nodi i fusnes yr wythnos hon. Ar ôl y datganiad hwn, bydd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gwneud datganiad am y trefniadau ar gyfer archwilio a gwahardd pobl sy'n gweithio gyda phlant. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad drafft, a welir ar we'r Siambr dan ddogfennau ategol.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynwyd nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at bwyllgor bwnc i'w hystyried ymhellach: Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2006, Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Awdurdodaeth a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2006 a'r Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Archwilio Mewnforion) (Cymru) 2006.

The Presiding Officer: Are there any objections to the draft business statement? I see that there are not. I invite comments on the business statement.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn dymuno codi tri phwynt. Ynglŷn â'r gwerthusiad o'r rhaglen Amcan 1 a ryddhawyd yn ddiweddar, hoffwn i'r Gweinidog wneud datganiad diamwys am nifer y swyddi a grewyd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i egluro ansawdd y swyddi a'r angen i roi'r gorau i gyfrif ddwywaith yn y data a gyflwynir. Mae anghysondeb anferth yma rhwng nifer y swyddi a grewyd, fel y nodwyd yn yr adroddiad ac, er enghraifft, y ffigurau ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Yn ail, mae angen i'r Gweinidog fod yn onest ynglŷn â sefyllfa gweithlu'r Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn, gan fod pwyllgor amddiffyn San Steffan yn adrodd yfory. Mynegwyd llawer iawn o gydymdeimlad a braw ynghylch y penderfyniad yn y fan hon, ond a wnaeth y Gweinidog ysgrifennu hyd yn oed un llythyr

decision being made or to express our anger in the aftermath of that decision? We need to know the answer to that.

Finally, I support the Tories who have condemned Dŵr Cymru and the huge performance bonuses given to its directors. Performing is one thing that Dŵr Cymru has not been doing in my neck of the woods. This is a kick in the teeth to some of my constituents who have had to boil water for the past two months. We need a statement on that.

Lisa Francis: We are grateful for the various written and oral statements that you have agreed, but the issue that Alun Ffred mentioned about cryptosporidium is important given that the boil notice is still in operation and that around 230 people have fallen ill with this bug. We are especially pleased that you have considered a debate on palliative care at some point later in this session, but we are disappointed that your Government does not consider it important enough to have a debate on the poor GVA figures and economic statistics released last December.

Peter Black: We also welcome the flexibility that the Business Minister has shown in meeting many of the demands of the opposition in terms of statements and debates. I notice that we will have written statements on the north Wales water supply and on the MMR vaccine, which, at this stage, is acceptable. However, if issues arise from those statements that require us to scrutinise the Ministers, would the Minister consider looking at an oral statement at a later date if necessary?

The Business Minister (Jane Hutt): Thank you for supporting the business statement. I am clearly infinitely flexible but not flexible enough, and so should it be. However, I will respond to the points that have been raised.

On Alun Ffred's point, our delivery and performance in terms of Objective 1 is considerable. As the First Minister has said,

at Adam Ingram cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, neu i fynegi ein dichter ni yn sgîl y penderfyniad hwnnw? Mae angen inni gael gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwnnw.

Yn olaf, yr wyf yn cefnogi'r Ceidwadwyr sydd wedi condemnio Dŵr Cymru a'r bonysau perfformiad anferthol a roddir i'w cyfarwyddwyr. Perfformio yw'r un peth na fu Dŵr Cymru'n ei wneud yn fy ardal i. Mae hyn yn gryn ergyd i rai o'm hetholwyr sydd wedi gorfod berwi dŵr yn ystod y ddau fis diwethaf. Mae angen inni gael datganiad am hynny.

Lisa Francis: Yr ydym yn ddiolchgar am y gwahanol ddatganiadau ysgrifenedig a llafar yr ydych wedi cytuno arnynt, ond mae'r mater y soniodd Alun Ffred amdano ynghylch cryptosporidium yn bwysig o ystyried bod y rhybudd i ferwi'n parhau mewn grym a bod tua 230 o bobl wedi mynd yn sâl gyda'r haint hwn. Yr ydym yn arbennig o falch eich bod wedi ystyried dadl ar ofal lliniarol rywbyrd yn ddiweddarach yn y sesiwn hon, ond yr ydym yn siomedig nad yw eich Llywodraeth yn barnu nad yw'r ffigurau gwael o ran gwerth ychwanegol crynswth a'r ystadegau economaidd a rhyddhawyd fis Rhagfyr diwethaf yn ddigon pwysig i gael dadl arnynt.

Peter Black: Yr ydym ninnau hefyd yn croesawu'r hyblygrwydd a ddangoswyd gan y Trefnydd wrth fodloni llawer o ofynion y gwrthbleidiau o ran datganiadau a dadleuon. Yr wyf yn sylwi y byddwn yn cael datganiadau ysgrifenedig am gyflenwad dŵr y gogledd ac am y brechiad MMR, sydd yn dderbyniol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os bydd materion yn codi o'r datganiadau hynny a fydd yn ei gwneud yn ofynnol inni graffu ar y Gweinidogion, a fyddai'r Gweinidog yn ystyried gwneud datganiad llafar yn ddiweddarach pe bai angen?

Y Trefnydd (Jane Hutt): Diolch ichi am gefnogi'r datganiad busnes. Yr wyf yn amlwg yn hynod hyblyg, ond nid yn ddigon hyblyg, ac felly y dylai fod. Fodd bynnag, ymatebaf i'r pwyntiau a godwyd gennyh.

Ynghylch pwynt Alun Ffred, mae'r hyn yr ydym yn ei gyflawni a'n perfformiad o ran Amcan 1 yn sylweddol. Fel y dywedodd y

we are now moving forward—due to the fact that the UK Government and the Prime Minister delivered the EU budget before Christmas—for another eight years. We have delivered on Objective 1, which is clear from the statement. As I am sure that you have recognised, there will be a debate on European affairs, which will enable you to raise these issues—a full Government debate has been included in this business statement.

On DARA, you know that the Minister for Economic Development and Transport has agreed to make an oral statement next week which is important because of the publication of the Defence Select Committee's report. However, the Minister for Economic Development and Transport and the First Minister have been at the forefront of issues relating to DARA and making representations to the UK Government Secretary of State for Defence.

You have all raised the issue of Dŵr Cymru. Remuneration is not a matter for us but for the company. Do not forget that this is a not-for-profit company, which is key in terms of the way that the company was set up. However, we are preparing a written statement on the north Wales water supply. There is evidence that suggests that there is no link with cryptosporidium, but that will come through in the written statement.

In terms of our economic performance, you say that you want a debate on GVA. I am grateful, Lisa, for the way that you have responded positively to my accommodating many of your requests. We have the best economic figures for 30 years as a result of the Labour Party in Westminster and in the Assembly. I am sure that you will scrutinise the Minister for Economic Development and Transport as and when.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

Prif Weinidog, yr ydym bellach yn symud ymlaen—oherwydd y ffaith bod Llywodraeth y DU a Phrif Weinidog Prydain wedi sicrhau cyllideb yr UE cyn y Nadolig—am wyth mlynedd arall. Yr ydym wedi cyflawni o ran Amcan 1, mae hynny'n eglur o'r datganiad. Fel yr wyf yn sicr eich bod wedi sylweddoli, bydd dadl am faterion Ewropeaidd, a fydd yn eich galluogi i godi'r materion hyn—mae dadl lawn gan y Llywodraeth wedi'i chynnwys yn y datganiad busnes hwn.

Ynghylch DARA, gwyddoch fod y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi cytuno i wneud datganiad llafar yr wythnos nesaf, sy'n bwysig oherwydd cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'r Prif Weinidog wedi bod ar flaen y gad o ran materion yn ymwneud â DARA ac wedi bod yn cyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yn Llywodraeth y DU.

Yr ydych i gyd wedi codi mater Dŵr Cymru. Nid mater i ni, ond i'r cwmni, yw cydnabyddiaeth ariannol. Peidiwn ag anghofio mai cwmni di-elw yw hwn, sy'n allweddol o ran y ffordd y sefydlwyd y cwmni. Fodd bynnag, yr ydym yn paratoi datganiad ysgrifenedig am gyflenwad dŵr y gogledd. Mae tystiolaeth sy'n awgrymu nad oes dim cysylltiad â cryptosporidium, ond daw hynny'n amlwg yn y datganiad ysgrifenedig.

O ran ein perfformiad economaidd, dywedwch fod arnoch eisiau dadl am werth ychwanegol crynswth. Yr wyf yn ddiolchgar, Lisa, am y modd yr ydych wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ffaith fy mod wedi caniatáu llawer o'ch ceisiadau. Mae'r ffigurau economaidd gorau gennym ers 30 o flynyddoedd o ganlyniad i'r Blaid Lafur yn San Steffan ac yn y Cynulliad. Yr wyf yn sicr y byddwch yn craffu ar waith y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar yr amser priodol.

Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Trefniadau ar gyfer gwirio cefndir pobl sydd am weithio gyda phlant a gwahardd pobl anaddas
Statement by the Minister for Education and Lifelong Learning: Arrangements for vetting and barring people who work with children

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): I welcome this opportunity to make a statement setting out the position in Wales following the statement made by the Secretary of State for Education and Skills last Thursday. The Welsh Assembly Government remains totally committed to safeguarding and promoting the welfare of children in Wales. Over the last few days my officials have been in consultation with the Department for Education and Skills, in particular, about decisions that have been made in relation to List 99, especially decisions on cases referred from Wales. Although no information has come to light to date, we must await the outcome of the Secretary of State for Education and Skills's review of all cases to ascertain if there are any teachers who are on the sex offenders register and who are currently teaching in Wales.

In order to avoid unsuitable people working with children, the Assembly Government issued guidance in 2002 to schools, local education authorities and others in the education sector about the need to exercise robust pre-appointment procedures to prevent unsuitable people from working with children and young people. Before appointing any member of staff—a teacher, for example—employers should confirm the applicant's identity, verify his or her academic or professional qualifications, and seek professional and character references from the current or most recent employer and referee, as well as details of his or her previous employment history.

3.00 p.m.

At the same time, that teacher should obtain an enhanced disclosure from the Criminal Records Bureau. The disclosure will contain details of any spent and unspent convictions, details of any cautions and warnings recorded by the police, whether the individual is barred from working with children by virtue of his or her inclusion on either of the lists of

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i wneud datganiad yn nodi'r sefyllfa yng Nghymru wedi'r datganiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ddydd Iau diwethaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau'n llwyr ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yng Nghymru. Dros y dyddiau diwethaf, bu fy swyddogion yn ymgynghori â'r Adran Addysg a Sgiliau, yn benodol ynghylch penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â Rhestr 99, yn enwedig penderfyniadau ar achosion a gyfeiriwyd o Gymru. Er nad oes dim gwybodaeth wedi dod i'r amlwg hyd yma, rhaid inni aros nes cael canlyniad adolygiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau o bob achos i weld a oes unrhyw athrawon sydd ar y gofrestr troseddwr rhyw ac sy'n dysgu ar hyn o bryd yng Nghymru.

Er mwyn osgoi sefyllfa lle y bydd pobl anaddas yn gweithio gyda phlant, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau yn 2002 i ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac eraill yn y sector addysg ynghylch yr angen i weithredu gweithdrefnau cyn-penodi cadarn i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Cyn penodi unrhyw aelod o'r staff—athro neu athrawes, er enghraifft—dylai cyflogwyr gadarnhau enw'r ymgeisydd, ei gymwysterau academaidd neu broffesiynol, a gofyn am eirdd proffesiynol a chymeriad gan y canolwr a'r cyflogwr presennol neu'r un mwyaf diweddar, yn ogystal â manylion am ei gyflogaeth flaenorol.

Ar yr un pryd, dylai'r athro neu'r athrawes gael datgeliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Bydd y datgeliad hwn yn cynnwys manylion am unrhyw euogfarnau sydd wedi darfod neu heb ddarfod, manylion am unrhyw rybuddion neu rybuddiadau a gofnodwyd gan yr heddlu, a ydyw'r unigolyn wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant

those considered unsuitable to work with children held by the Department of Health or the Department for Education and Skills, details of any acquittals and non-conviction information that a chief police officer considers may be relevant to the position being sought, including details of an individual's inclusion on the sex offenders register, or that no such records exist. Employers can then satisfy themselves as to the suitability of the applicant.

It would be helpful for me to set our current role and that of the Department for Education and Skills and employers, together with proposals for the future.

At present, education employers and supply agencies in Wales are required to report cases of teacher misconduct to the Assembly. This requirement was strengthened in 2003 to ensure that there was no misunderstanding about the requirements for supply agencies, and to enable employers and supply agencies to make referrals where they might have taken action if the person had left their employment.

These cases cover a wide range of misconduct issues, including issues such as drink-driving and falsifying examination results. All cases, irrespective of the misconduct, are then referred to the Department for Education and Skills. If a decision is made to bar or restrict a person's employment, that person's name is added to List 99 and we are informed accordingly. There are several specified offences for which a teacher, if convicted, is automatically placed on List 99. For other offences, or where a caution has been issued, each case is considered individually.

In view of the concerns that this has caused, Ruth Kelly has commissioned as a matter of urgency an exhaustive review of all such cases in order to confirm the precise number of individuals involved, their whereabouts and whether their behaviour has been of concern to the authorities. She is reviewing urgently the decision-making process

am ei fod ar unrhyw un o'r rhestrau o bobl sy'n anaddas i weithio â phlant a gedwir gan yr Adran Iechyd neu'r Adran Addysg a Sgiliau, manylion unrhyw achosion lle y cafwyd ef neu hi yn ddiuog ac unrhyw wybodaeth mewn achos lle na chafwyd yr ymgeisydd yn euog sydd, ym marn un o brif swyddogion yr heddlu, yn berthnasol i'r swydd dan sylw, gan gynnwys bod yr unigolyn ar y gofrestr troseddwy'r rhyw, neu nad oes cofnodion o'r fath yn bodoli. Gall cyflogwyr wedi hynny fod yn dawel eu meddwl fod yr ymgeisydd yn addas.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddwn yn nodi beth yw ein rôl bresennol a rôl yr Adran Addysg a Sgiliau a chyflogwyr, ynghyd ag unrhyw gynigion ar gyfer y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gyflogwyr addysg ac asiantaethau llanw yng Nghymru roi gwybod am bob achos o gamymddwyn gan athrawon i'r Cynulliad. Cryfhawyd y gofyniad hwn yn 2003 i sicrhau nad oedd dim camddealltwriaeth ynghylch y gofynion ar gyfer asiantaethau llanw, ac fel bod cyflogwyr ac asiantaethau llanw yn gallu cyfeirio achosion lle y byddent efallai wedi gweithredu pe bai'r unigolyn wedi gadael eu cyflogaeth.

Mae'r achosion hyn yn ymdrin ag ystod eang o faterion camymddwyn, gan gynnwys materion fel yfed a gyrru a ffugio canlyniadau arholiad. Mae pob un, ni waeth pa gamymddwyn a ddigwyddodd, yn cael eu cyfeirio at yr Adran Addysg a Sgiliau. Os gwneir penderfyniad i wahardd neu gyfyngu ar gyflogaeth rhywun, ychwanegir ei enw at Restr 99 a rhoddir gwybod inni yn dilyn hynny. Mae nifer o droseddau penodol lle y mae athro neu athrawes, os ceir ef neu hi yn euog, yn cael eu rhoi'n awtomatig ar Restr 99. Gyda throseddau eraill, neu lle y mae rhybuddiad wedi'i roi, ystyrir pob achos yn unigol.

O ystyried y pryderon y mae hyn wedi'u hachosi, mae Ruth Kelly wedi comisiynu fel mater o frys adolygiad cynhwysfawr o bob achos o'r fath er mwyn cadarnhau faint yn union o unigolion yr ydym yn siarad amdanynt, lle y maent ac a ydyw eu hymddygiad wedi peri pryder i'r awdurdodau. Mae'n adolygu ar frys y broses

surrounding these cases and the policy implications, focusing on how the closest possible alignment can be secured between List 99, the sex offenders register and other data sources, the role of Ministers in the decision-making process, and how police advice can be more fully considered prior to decisions being made. Ruth Kelly has made an undertaking to report to the House of Commons on Thursday.

Following Sir Michael Bichard's recommendations after the Soham case, the UK Government will introduce legislation to strengthen current arrangements for vetting and barring. This will require those individuals whose work brings them into contact with children or vulnerable adults to be registered with a central body with access to all relevant information to enable it to make consistent decisions on suitability. We welcome Ruth Kelly's commitment to bring forward a Bill before the end of February.

The proposals provide for a vetting and barring system that will hold all relevant information on individuals who have harmed, placed at harm, incited others to harm, or are a risk to vulnerable children or adults. The scheme will hold information from police records and from the relevant regulatory and professional bodies.

My officials began discussion with the Department for Education and Skills before Christmas to consider how best these powers should be exercised by Wales for Wales, to ensure that unsuitable people are prevented from working with children. However, we must not look at any of this solely in the context of safeguarding children within education. The safeguarding vulnerable children review, chaired by Gwenda Thomas, will be making recommendations in this area. The children's commissioner's recommendations arising from his Clywech report will also contribute to safeguarding children, and we will continue to work to put his recommendations in place.

In the meantime, I can assure you that no teachers required to be registered with the

o wneud penderfyniadau yng nghyswllt yr achosion hyn, a'r goblygiadau o ran polisi, gan ganolbwyntio ar sut y gellir sicrhau'r aliniad agosaf posibl rhwng Rhestr 99, y gofrestr troseddwy'r rhyw a ffynonellau data eraill, rôl Gweinidogion yn y broses o wneud penderfyniadau, a sut y gellir ystyried cyngor yr heddlu yn llawnach cyn gwneud penderfyniadau. Mae Ruth Kelly wedi ymrwymo i adrodd i Dŷ'r Cyffredin ddydd Iau.

Yn sgîl argymhellion Syr Michael Bichard ar ôl achos Soham, bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth i gryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer archwilio a gwahardd. Drwy hyn bydd yn ofynnol i unigolion, lle y mae eu gwaith yn golygu cyswllt â phlant neu oedolion agored i niwed, gofrestru gyda chorff canolog sydd â mynediad at yr holl wybodaeth berthnasol fel y gall wneud penderfyniadau cyson ynghylch eu haddasrwydd. Yr ydym yn croesawu ymrwymiad Ruth Kelly i gyflwyno Mesur cyn diwedd Chwefror.

Mae'r cynigion yn darparu ar gyfer system archwilio a gwahardd a fydd yn dal yr holl wybodaeth berthnasol am unigolion sydd wedi niweidio, rhoi mewn sefyllfa niweidiol, annog eraill i niweidio, neu sy'n berygl i blant neu oedolion agored i niwed. Bydd yn cynllun yn dal gwybodaeth o gofnodion yr heddlu ac o'r cyrff rheoleiddio a phroffesiynol perthnasol.

Dechreuodd fy swyddogion drafod gyda'r Adran Addysg a Sgiliau cyn y Nadolig i ystyried y modd gorau y gallai Cymru arfer y pwerau hyn ar gyfer Cymru, i sicrhau bod pobl anaddas yn cael eu hatal rhag gweithio gyda phlant. Er hynny, ni ddylem edrych ar hyn yn unig yng nghyd-destun diogelu plant mewn addysg. Bydd yr adolygiad o ddiogelu plant agored i niwed, sy'n cael ei gadeirio gan Gwenda Thomas, yn gwneud argymhellion ar gyfer y maes hwn. Bydd argymhellion y comisiynydd plant, sy'n codi o'i adroddiad Clywech, hefyd yn cyfrannu at ddiogelu plant, a byddwn yn parhau i weithio i weithredu'r argymhellion hynny.

Yn y cyfamser, gallaf eich sicrhau nad oes dim athrawon y mae'n rhaid iddynt gofrestru

General Teaching Council for Wales—those teaching in maintained schools—are subject to List 99 bars or restrictions. We will consolidate this further by introducing legislation to allow the GTCW to refuse registration if it is not satisfied as to the person's suitability to be a teacher.

Naturally, I will keep Members informed of the next steps following the Department for Education and Skills' review.

Janet Ryder: Thank you for your statement, Minister. It is great pity that we have had to wait so long for the implementation of the Bichard recommendations. You said a great deal about how Bichard recommends establishing one list that would bring together all the information, with a person having to be on the list, rather than being on the list and being taken off it—you have to be put on the list by passing all the qualifications and having all the relevant checks. It is a great pity that Westminster has dragged its feet for so long in implementing that recommendation.

Similarly, in Wales, you have highlighted that we are still awaiting the implementation of recommendations made by Peter Clarke in the Clywch report. Some of those recommendations are similar to Bichard's recommendations. Peter Clarke made recommendations about the need for independent investigators to look at cases—which you have highlighted in today's statement—when allegations are made about teachers, and that expert members should be developed to give governing bodies special guidance in their work. We in Wales are still waiting for the implementation of those recommendations. Last July, you said that the recommendations would be implemented in 2006. Will you now, as a matter of urgency, bring forward another statement, timetabling in detail the implementation of the Clywch recommendations, so that we can all see the timetable that you are working to? That is important for Wales.

We would also like you to consider that access to children in classrooms has

gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru—rhai sy'n dysgu mewn ysgolion a gynhelir—yn ddarostyngedig i waharddiadau na chyfyngiadau Rhestr 99. Byddwn yn cryfhau hyn ymhellach drwy gyflwyno deddfwriaeth fel bod y cyngor addysgu yn gallu gwrthod cofrestru os nad yw'n fodlon ynghylch addasrwydd rhywun i fod yn athro neu'n athrawes.

Yn naturiol, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y camau nesaf wedi adolygiad yr Adran Addysg a Sgiliau.

Janet Ryder: Diolch am eich datganiad, Weinidog. Mae'n drueni mawr ein bod wedi gorfod aros cyhyd nes i argymhellion Bichard gael eu gweithredu. Yr ydych wedi dweud llawer am sut y mae Bichard yn argymhell sefydlu un rhestr a fyddai'n cyfuno'r holl wybodaeth, a rhywun yn gorfod bod ar y rhestr, yn hytrach na chael ei roi ar y rhestr ac yna ei dynnu oddi arni—rhaid ichi gael eich rhoi ar y rhestr drwy basio'r holl gymwysterau a'r holl archwiliadau perthnasol. Mae'n drueni mawr bod San Steffan wedi ymdroi cyhyd wrth weithredu'r argymhelliad hwnnw.

Yr un modd, yng Nghymru, soniwyd gennyh ein bod yn dal i aros i'r argymhellion a wnaed gan Peter Clarke yn adroddiad Clywch gael eu gweithredu. Mae rhai o'r argymhellion hynny yn debyg i argymhellion Bichard. Yr oedd Peter Clarke yn argymhell cael ymchwilywyr annibynnol i edrych ar achosion—fel y soniwyd gennyh yn eich datganiad heddiw—pan wneir honiadau ynghylch athrawon, ac y dylid datblygu aelodau arbenigol i roi canllawiau arbennig i gyrrff llywodraethu ar gyfer eu gwaith. Yr ydym ni yng Nghymru yn dal i aros i'r argymhellion hynny gael eu gweithredu. Fis Gorffennaf diwethaf, dywedasoeh y byddai'r argymhellion yn cael eu gweithredu yn 2006. A wnewch yn awr, fel mater o frys, wneud datganiad arall yn rhoi amserlen fanwl ar gyfer gweithredu argymhellion Clywch, fel y gallwn i gyd weld yn ôl pa amserlen yr ydych yn gweithio? Mae hynny'n bwysig i Gymru.

Byddem hefyd yn hoffi ichi ystyried bod mynediad at blant yn yr ystafell ddosbarth

broadened a great deal; it is no longer just teachers—an increasing role is being played by classroom assistants. Classroom assistants, in many cases, now take on equal duties with teachers and have equal access to children. How will you ensure that they are registered, and how will we ensure that they satisfy the same registration requirements as a classroom teacher regarding being on a register? Gwenda's committee might be considering this, but I wanted to draw attention to the fact that the increasing role of classroom assistants needs to be considered. Will that fall under the General Teaching Council for Wales's jurisdiction?

Will you clarify the last sentence in your statement in which you talk about introducing legislation to allow the GTCW to refuse registration if it is not satisfied as to the person's suitability to be a teacher? Can you clarify what you would class as that 'suitability'?

Jane Davidson: The best thing that I can do in terms of the response to Michael Bichard's report, which came out in June 2004, is to use his own words. He said:

'I am very satisfied with the work carried out by the DfES to design the new barring scheme, which is widely supported by all those with an interest'.

That includes our children's commissioner in Wales. It is good to know that the work will now be speedily implemented, subject to parliamentary scrutiny. Ruth Kelly has already indicated that she will bring that before the House before the end of February.

On the Clywch recommendations, we have been vigilant in taking forward the children's commissioner's recommendations on tightening up safety regulations in governing bodies in terms of staff dismissal. We have also ensured that one of the key issues that concerned the children's commissioner, which is that people should not be allowed to resign, and that, therefore, their actions should no longer be accountable in the public

wedi ehangu'n sylweddol; nid athrawon yn unig sy'n cael mynd iddynt bellach—mae rôl gynyddol yn cael ei chwarae gan gynorthwywyr dysgu. Mewn llawer o achosion, mae cynorthwywyr dysgu'n cyflawni'r un dyletswyddau ag athrawon ac yn cael yr un mynediad at blant. Sut y sicrhewch fod y rhain yn cael eu cofrestru, a sut y sicrhawn eu bod yn bodloni'r un gofynion yn ymwneud â chofrestru ag athro neu athrawes ystafell ddosbarth o ran bod ar gofrestr? Efallai fod pwyllgor Gwenda yn ystyried hyn, ond yr oeddwn am dynnu sylw at y ffaith bod angen ystyried rôl gynyddol y cynorthwywyr dysgu. A ddaw hynny o dan awdurdodaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru?

A wnewch egluro'r frawddeg olaf yn eich datganiad lle'r ydych yn siarad am gyflwyno deddfwriaeth fel bod y cyngor addysgu yn gallu gwrthod cofrestru os nad yw'n fodlon ynghylch addasrwydd rhywun i ddysgu? A allwch egluro beth y byddech yn ei olygu wrth yr 'addasrwydd' hwnnw?

Jane Davidson: Y peth gorau y gallaf ei wneud o ran yr ymateb i adroddiad Michael Bichard, a ddaeth allan ym Mehefin 2004, yw defnyddio ei eiriau ei hun. Dyma a ddywedodd:

Yr wyf yn fodlon iawn ar y gwaith a wnaed gan y DfES i gynllunio'r cynllun gwahardd newydd, sy'n cael ei gefnogi'n eang gan bawb sydd â budd ynddo.

Mae hynny'n cynnwys ein comisiynydd plant yng Nghymru. Mae'n dda gwybod y bydd y gwaith yn awr yn cael ei weithredu'n ddi-oed, wedi i graffu seneddol ddigwydd. Mae Ruth Kelly eisoes wedi sôn y bydd yn dod â hynny gerbron y Tŷ cyn diwedd mis Chwefror.

Ynghylch argymhellion Clywch, yr ydym wedi bod yn wyliadwrus wrth weithredu argymhellion y comisiynydd plant ar dynhau'r rheoliadau diogelwch ar gyfer cyrff llywodraethu o ran diswyddo staff. Yr ydym hefyd wedi sicrhau bod un o'r materion allweddol a oedd yn poeni'r comisiynydd plant, sef na ddylid gadael i bobl ymddiswyddo ac, felly, nad ydynt mwyach yn atebol dros eu gweithredoedd yn y maes

domain, is being taken forward. We tightened up regulations in 2003 to make it clear that anyone dismissed from their employment, or who would have been dismissed from their employment having been involved in something that then caused them to resign, should still be reported by the Assembly to the DfES. Therefore, that arrangement has already been tightened.

On the recommendations regarding the independent investigators, we are nearly there with those. We have put funding into the budget, and, having had our consultation, we are in the final stages of looking at governing bodies having access to expert advice with voting rights. I am happy to bring to committee a detailed report on our Clywch responses.

3.10 p.m.

With regard to List 99, it is broader than teachers; it encompasses those working in the school setting, so we already expect those who take on jobs as teaching assistants to have the enhanced disclosures that I described earlier, and employers would also expect that. The General Teaching Council for Wales will only take on issues that relate to teachers, but that is why the duty is on employers and a range of other bodies to pass on information to DfES.

The suitability issue is included so that the GTCW does not have to automatically register teachers—which is the situation in the general teaching councils across the UK at the moment—but is able to apply its own discretion and look at those checks. That will be an important piece of legislation to bring forward. I would like it to come to the Business Committee very shortly, because the GTCW told me at my meeting with it yesterday that in order to ensure that it is in place for the next intake in September, we must have made this legislation by April. So, we will be taking that forward speedily.

William Graham: Although I thank you for

cyhoeddus, yn derbyn sylw. Yn 2003, tynhawyd y rheoliadau gennym fel ei bod yn glir y dylai'r Cynulliad ddal i roi gwybod i'r DfES am unrhyw un sy'n cael ei ddiswyddo, neu a fyddai wedi cael ei ddiswyddo ar ôl bod yn rhan o rywbeth a achosodd iddo ef neu hi ymddiswyddo wedyn. Felly, mae'r trefniant hwnnw eisoes wedi'i dynhau.

Ynghylch yr argymhellion ar gyfer ymchwilyr annibynnol, yr ydym bron â dod i ben. Yr ydym wedi rhoi cyllid yn y gyllideb, ac, ar ôl cwblhau ein hymgyngoriad, yr ydym ar fin cwblhau'r trefniadau lle y bydd cyrff llywodraethu yn cael mynediad at gyngor arbenigol gyda hawliau pleidleisio. Yr wyf yn falch o roi adroddiad manwl ar ein hymateb i Clywch i'r pwyllgor.

O ran Rhestr 99, mae'n ehangach nag athrawon; mae'n cynnwys rhai sy'n gweithio mewn ysgolion, felly yr ydym eisoes yn disgwyl i rai sy'n gweithio fel cynorthwyr dysgu gyflwyno'r datgeliadau manwl a ddisgrifiwyd yn flaenorol, a byddai cyflogwyr hefyd yn disgwyl hynny. Ni fydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ond yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag athrawon, ond dyna pam y mae'n ddyletswydd ar gyflogwyr ac ystod o gyrff eraill basio gwybodaeth ymlaen i'r DfES.

Mae mater addasrwydd wedi'i gynnwys fel nad oes raid i'r cyngor addysgu gofrestru athrawon yn awtomatig—sef yr hyn sy'n digwydd yn y cynghorau addysgu cyffredinol ar draws y DU ar hyn o bryd—ond mae'n gallu defnyddio ei ddisgresiwn i edrych ar yr archwiliadau hynny. Bydd hynny'n ddeddfwriaeth bwysig i'w chyflwyno. Hoffwn iddo ddod i'r Pwyllgor Busnes yn fuan iawn, oherwydd yn ôl yr hyn a ddywedodd y cyngor addysgu wrthyf yn fy nghyfarfod â hwy ddoe, er mwyn sicrhau y bydd ar waith mewn pryd ar gyfer derbyn y rhai nesaf ym mis Medi, rhaid inni baratoi'r ddeddfwriaeth hon erbyn Ebrill. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â hynny yn ddi-oed.

William Graham: Er fy mod yn diolch ichi

the statement today, it does little to reassure parents in Wales. When all is said and done, they look to you, as Minister for Education and Lifelong Learning, to ensure that their children are protected, as much as is reasonably possible, in schools. It is a matter of confidence but, sadly, this statement does little to reassure parents and restore confidence in the system.

You will probably be as distressed as I was to learn that there are 65 websites on the internet with the sole purpose of trying to get the age of consent abolished. We are dealing with some very sick people who inveigle themselves into schools whenever possible. We ask you to ensure that these lists are in place for a purpose. Principally, they are imposed by the court; people who are on those lists must not teach in schools in Wales or anywhere else. We ask you to take this on board as a matter of urgency. I was also distressed to learn that you had written to Ruth Kelly; given the urgency of this matter, you could have at least telephoned, faxed or e-mailed her, or gone to see her. Minister, this is an important matter, and I am sure that you understand that you must restore confidence in the teaching profession in Wales.

Jane Davidson: Every Assembly Member, every governing body member and every employer has a duty to ensure that they employ people who will not pose a risk to our children. We all have that duty. It is important that we have the right kind of system in place to ensure that there is sufficient confidence. My officials and DfES officials have been in daily, and sometimes hourly and minutely, contact since this issue arose. I have written to Ruth Kelly and talked to her. I will continue those close arrangements because I want to ensure that we have a teaching profession in Wales—which is already well regarded—which is seen as safe. That is why it is important that I gave the reassurance at the end of my statement—no teacher who is registered with the GTCW is on List 99 and teaching in our schools at the moment.

am y datganiad heddiw, nid yw'n gwneud llawer i dawelu meddyliau rhieni yng Nghymru. Wedi'r cyfan, maent yn dibynnu arnoch chi, fel Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, i sicrhau bod eu plant yn cael eu hamddiffyn, i'r graddau sy'n rhesymol bosibl, mewn ysgolion. Mater o hyder ydyw, ond, gwaetha'r modd, ychydig iawn y mae'r datganiad hwn yn ei wneud i dawelu meddyliau rhieni ac adfer ffydd yn y system.

Mae'n debyg y byddwch mor ofidus ag a oeddwn innau ar ôl darganfod bod 65 o wefannau yn bodoli'n unswydd i geisio dileu'r oedran cydsynio. Yr ydym yn delio â rhai pobl sâl iawn sy'n defnyddio pob twyll ac ystryw i gael mynediad i ysgolion bob cyfle a gânt. Gofynnwn ichi sicrhau bod pwrpas mewn sefydlu'r rhestrau hyn. Yn bennaf, y llys sy'n eu gorfodi; ni ddylai pobl ar y rhestrau hyn ddysgu mewn ysgolion yng Nghymru nac yn unlle arall. Gofynnwn ichi weithredu hyn fel mater o frys. Yr oeddwn hefyd yn anhapus pan ddeallais eich bod wedi ysgrifennu at Ruth Kelly; o ystyried y brys ynghylch y mater hwn, gallech o leiaf fod wedi ei ffonio, ei ffacio neu ei he-bostio, neu fynd i'w gweld. Weinidog, mae hwn yn fater pwysig, ac yr wyf yn siŵr eich bod yn deall bod yn rhaid ichi adfer ffydd yn y proffesiwn dysgu yng Nghymru.

Jane Davidson: Mae gan bob Aelod o'r Cynulliad, pob aelod o gorff llywodraethu a phob cyflogwr ddyletswydd i sicrhau eu bod yn cyflogi pobl na fyddant yn berygl i'n plant. Mae'n ddyletswydd arnom i gyd. Mae'n bwysig bod y math iawn o system ar waith gennym i sicrhau bod digon o ffydd ynddi. Mae fy swyddogion a swyddogion o'r DfES wedi bod mewn cysylltiad yn ddyddiol, weithiau bob awr a phob munud, ers i'r mater hwn godi. Yr wyf wedi ysgrifennu at Ruth Kelly ac wedi siarad â hi. Byddaf yn parhau â'r trefniadau agos hynny oherwydd yr wyf am sicrhau bod gennym broffesiwn dysgu yng Nghymru—sydd eisoes yn uchel ei barch—y bydd pobl yn gweld ei fod yn ddiogel. Dyna pam yr oedd yn bwysig imi roi'r sicrwydd hwnnw ar ddiwedd fy natganiad—nid oes dim un athro nac athrawes sydd ar gofrestr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar Restr 99 ac yn dysgu yn ein hysgolion ar hyn o bryd.

One of the key things about Michael Bichard's recommendations is that a system is only as good as its delivery. One of the problems that we have is that the Criminal Records Bureau checks, even though they have been enhanced, are almost like a snapshot in time; people can hold them and hand them to future employers. What Michael Bichard recommends is an online, ongoing, regularly updated system, and I am sure that we would all welcome that.

Peter Black: Thank you for your statement. You have clearly done a great deal of work since this issue first arose. However, like William, I feel that we are looking for some reassurance. One of the disturbing aspects of this is that it seems, from your previous statements to the press, that you are as much in the dark as we are about whether people who are on List 99, or who have been exempted from it, are working in Welsh schools. We must wait for Ruth Kelly's review for that information to come out. That is, for me, disturbing, and I hope that it can be resolved fairly quickly.

Several issues have arisen in the last week, and I have been talking to some education authorities about the processes and the procedures that they undergo in terms of carrying out checks. I understand that there are, effectively, seven lists that can be consulted by prospective employers, which Michael Bichard proposes to turn into a single list. The sooner that is done, the better. I was wondering whether, in your discussions with Ruth Kelly, you have any idea of the timescale of when that can be done. We originally heard that it was by 2008, but I hope that that has been significantly fast-tracked. I understand from your statement that legislation is imminent, but we need to have some sort of timescale as to when that will be in place.

There is also some confusion among employers about what responsibility they have, in terms of List 99. At the moment, they carry out all the enhanced Criminal Records Bureau checks that you outlined in

Un o'r pethau allweddol ynghylch argymhellion Michael Bichard yw bod system yn dibynnu llawer ar sut y mae'n cael ei chyflwyno. Un o'r problemau sydd gennym yw bod archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, er eu bod wedi cael eu gwella, bron fel ciplun mewn amser; gall pobl gadw'r cofnodion hyn a'u rhoi i gyflogwyr yn y dyfodol. Yr hyn y mae Michael Bichard yn ei argymhell yw system ar-lein barhaus sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd, ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn croesawu hynny.

Peter Black: Diolch am eich datganiad. Yr ydych yn amlwg wedi gwneud cryn dipyn o waith ers i'r mater hwn godi gyntaf. Er hynny, fel William, teimlaf ein bod yn disgwyl cael rhywfaint o sicrwydd. Un o'r agweddau mwyaf pryderus ar y mater hwn yw ei bod yn ymddangos eich bod, yn ôl eich datganiadau blaenorol i'r wasg, gymaint yn y niwl â ninnau ynghylch a ydyw pobl sydd ar Restr 99, neu a eithriwyd ohoni, yn gweithio mewn ysgolion yng Nghymru ai peidio. Rhaid inni aros am adolygiad Ruth Kelly i dderbyn y wybodaeth honno. Mae hyn, i mi, yn peri anesmwythyd, a gobeithiaf y gellir delio â hyn yn eithaf cyflym.

Mae sawl mater wedi codi yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a bûm yn siarad gyda rhai awdurdodau addysg am y prosesau a'r gweithdrefnau y maent yn eu dilyn o safbwynt cynnal archwiliadau. Deallaf fod saith rhestr, i bob pwrpas, y gall darpar gyflogwyr gyfeirio atynt, saith rhestr y mae Michael Bichard yn bwriadu eu troi yn un rhestr. Gorau po gyntaf y gwneir hyn. Yr oeddwn yn meddwl tybed a oes gennych, yn eich trafodaethau gyda Ruth Kelly, unrhyw syniad o'r amserlen pryd y gellir gwneud hynny. Clywsom i ddechrau mai erbyn 2008 y byddai hynny, ond gobeithiaf y'i gwneir yn llawer cyflymach. Deallaf oddi wrth eich datganiad fod deddfwriaeth ar y gweill, ond rhaid inni gael rhyw fath o amserlen ar gyfer pryd y bydd honno mewn grym.

Ceir hefyd gryn ddryswch ymysg cyflogwyr ynghylch pa gyfrifoldebau sydd ganddynt, o safbwynt Rhestr 99. Ar hyn o bryd, maent yn cynnal holl archwiliadau manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol, a amlinellwyd

your statement, but whether they have to carry out a separate List 99 check is something that some employers and some education authorities are not quite clear about. The CRB form has a section to show any information from List 99, but the education authorities' human resources departments have recently been advised to reinstate List 99 checks immediately until some clarity is provided. Previously, those checks were carried out online via the teacher's pension information system, but, for some, that information has become physically unavailable. Therefore, they are not quite clear whether the CRB check carries that information or whether they have to perform a separate List 99 check. It would be useful if that could be clarified for education authorities, to help them in providing the protection that we all want to see in schools.

The wording of the CRB and other literature is contradictory and can lead to confusion. For example, the CRB website states that the Protection of Children Act 1999, the protection of vulnerable adults list and List 99 may be searched, while the Department for Education and Skills site states that disclosures will contain information from the Protection of Children Act 1999 and List 99 only. There is no consistency between those websites as to which list employers should be searching, so that needs to be clarified as well.

There is also concern about the way in which schools employ staff. They make the appointment and then notify the local education authority, which carries out the checks, and so staff can sometimes be in situ before the checks are completed. That is a concern for some education authorities, and so some guidance is needed for schools, such as that they must wait for checks to be completed before staff are placed in schools to work with children.

I also wanted to raise with you the fact that I understand that we have an England/Wales list, as List 99 applies to both countries.

gennych yn eich datganiad, ond nid yw rhai cyflogwyr a rhai awdurdodau addysg yn sicr a oes rhaid iddynt gynnal archwiliad Rhestr 99 ar wahân. Mae gan ffurflen y Swyddfa Cofnodion Troseddol adran i ddangos unrhyw wybodaeth oddi ar Restr 99, ond cynghorwyd adrannau adnoddau dynol yr awdurdodau addysg yn ddiweddar i adfer archwiliadau Rhestr 99 ar unwaith hyd oni cheir rhyw gymaint o eglurder. Yn y gorffennol, cynhaliwyd yr archwiliadau hynny ar-lein drwy gyfrwng y system gwybodaeth am bensynau athrawon, ond, i rai, nid yw'r wybodaeth honno ar gael iddynt bellach. O'r herwydd, nid ydynt yn gwbl sicr a yw archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cynnwys y wybodaeth honno ynteu a oes yn rhaid iddynt wneud archwiliad Rhestr 99 ar wahân. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid egluro hynny ar gyfer yr awdurdodau addysg, er mwyn eu helpu i ddarparu'r diogelwch yr ydym oll am ei weld mewn ysgolion.

Mae geiriad gwybodaeth gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a gwybodaeth arall yn gwrth-ddweud ei gilydd a gall hynny arwain at ddryswch. Er enghraifft, noda gwefan y Swyddfa Cofnodion Troseddol y gellir chwilio Deddf Amddiffyn Plant 1999, y rhestr amddiffyn oedolion agored i niwed a Rhestr 99, tra noda gwefan yr Adran Addysg a Sgiliau y bydd datgeliadau yn cynnwys gwybodaeth oddi ar Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 a Rhestr 99 yn unig. Nid oes dim cysondeb rhwng y gwefannau hynny o safbwynt pa restr y dylai cyflogwyr fod yn ei chwilio, felly rhaid i hynny gael ei egluro yn ogystal.

Ceir pryder hefyd ynghylch y modd y mae ysgolion yn cyflogi staff. Gwnânt y penodiad ac yna hysbysu'r awdurdod addysg, a'r awdurdod addysg sy'n cynnal yr archwiliadau, ac felly gall staff weithiau fod yn eu swydd cyn cwblhau'r archwiliadau. Mae hyn yn bryder i rai awdurdodau addysg, ac felly mae'n rhaid wrth ryw ganllawiau i ysgolion, megis bod yn rhaid iddynt aros i archwiliadau gael eu cwblhau cyn i staff gael eu lleoli mewn ysgolion i weithio gyda phlant.

Yr arnaf hefyd eisiau codi gyda chi y ffaith fy mod yn deall fod gennym restr Lloegr/Cymru, oherwydd bod Rhestr 99 yn

There is clear justification for having a joint list between England and Wales, and devolution should not apply in this case, and so I am confused as to why Scotland and Northern Ireland are not included on that list. If separate lists are to be held in Scotland and Northern Ireland, it may cause confusion if a teacher came from somewhere that was not included on the English List 99. How is that being reconciled?

Finally, in terms of the devolved function, when an exemption is given by the Secretary of State for Education and Skills, or whatever process is put in place after this review, could we ensure that the devolved administrations are notified of that so that they can keep their own separate check? It is important to state that it is disturbing that you do not have that information now. It would have been reassuring for us all if you could have turned around straight away and said, 'I have a list of all the exemptions granted by the DfES, and I know for a fact that these people are not working in Welsh schools'. That would have reassured parents straight away. Unfortunately, you cannot give them that reassurance. It is not your fault, but we need to have some clarification on this.

Jane Davidson: I will start in terms of the existence of a number of lists. Part of the reason for Sir Michael Bichard's recommendation is because these lists cover people in different settings—the other lists are for health and social care settings. The sex offenders list comes through the police. Therefore, it is a question of bringing all these lists together and having absolutely clear vetting and barring arrangements. That is Michael Bichard's recommendation.

3.20 p.m.

The reporting requirements are actually very clear. We have updated our guidance—our latest guidance is from December last year where it says that the requirement to report applies when an employer ceases

berthnasol i'r ddwy wlad. Ceir cyfiawnhad amlwg dros gael rhestr ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr, ac ni ddylai datganoli fod yn berthnasol yn yr achos hwn, ac felly mae'n ddryswch I mi paham na chynhwysir yr Alban a Gogledd Iwerddon ar y rhestr honno. Os cedwir rhestrau ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'n bosibl y gallai beri dryswch pe byddai athro/athrawes yn dod o rywle nas cynhwysir ar Restr 99 Lloegr. Sut y mae hynny'n cael ei gysoni?

Yn olaf, o safbwynt y swyddogaeth ddatganoledig, pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn caniatáu eithriad, neu ba broses bynnag a sefydlir ar ôl yr adolygiad hwn, a allem sicrhau bod y gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu hysbysu am hynny fel y gallant gadw eu harchwiliad ar wahân eu hunain? Mae'n bwysig nodi bod y ffaith nad yw'r wybodaeth hon gennych yn awr yn peri anesmwythyd. Byddai wedi tawelu ein hofnau ni i gyd pe byddech wedi gallu troi atom ar unwaith a dweud, 'Mae gennyf restr o'r holl eithriadau a ganiatawyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau, a gwn yn sicr nad yw'r bobl hyn yn gweithio mewn ysgolion yng Nghymru'. Byddai hynny wedi tawelu ofnau rhieni ar unwaith. Yn anffodus, ni allwch roi'r sicrwydd hwn iddynt. Nid eich bai chi ydyw, ond rhaid inni gael rhyw eglurhad ynghylch hyn.

Jane Davidson: Dechreuaf ynghylch y nifer o restrau sy'n bodoli. Rhan o'r rheswm dros argymhelliad Syr Michael Bichard yw oherwydd bod y rhestrau hyn yn cynnwys pobl mewn gwahanol sefydliadau—ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol y mae'r rhestrau eraill. Daw'r rhestr troseddwyr rhyw drwy gyfrwng yr heddlu. Felly, mater ydyw o ddwyn yr holl restrau hyn ynghyd a sefydlu trefniadau fetio a gwahardd cwbl bendant. Dyna yw argymhelliad Michael Bichard.

Mae'r gofynion adrodd, mewn gwirionedd, yn glir iawn. Yr ydym wedi diweddarau ein canllawiau—ym mis Rhagfyr y llynedd y cafwyd ein canllawiau diweddaraf sy'n dweud ei bod yn ofynnol cyflwyno adroddiad pan fydd cyflogwr yn rhoi'r gorau

'to use a person's services on grounds of unsuitability to work with children, misconduct or health where that concerns the safety and welfare of children. A report is also required where the employer might have ceased to use the person's services on one of those grounds had he or she not already ceased to provide the services'.

That second point is important, because we know from our discussions about the Clywch recommendations that previously there have been concerns about teachers and other people who have worked with children and who have resigned rather than face disciplinary action. That has meant that appropriate action has not then been taken. We have made absolutely sure that that loophole is closed.

In terms of giving people confidence about the additional checks made in Wales, I can tell you that the General Teaching Council for Wales undertakes an online check against List 99 of all new applications to register with the council. The GTCW is the only teacher training council with that access, because we have already given it greater access. Now, with the suitability arrangements, we can take that further. The GTCW receives weekly notification from the Department for Education and Skills of any new additions to the list and these are then checked against the GTCW register and database. Twice a year, as a further check, the GTCW has recently introduced a 100 per cent match between List 99 and the council's register. I have been able to give you absolute assurances in terms of the registration process in Wales. What I cannot do is give you assurances about anyone who might have come from elsewhere, not only from across the border from England, Scotland or Northern Ireland, but from Europe, where there is also freedom of movement. We must make our processes strong enough, which is where your notification point is crucial. We will be seeking better notification arrangements between all parts of the United Kingdom.

i ddefnyddio gwasanaethau rhywun ar y sail nad yw'n addas i weithio gyda phlant, camymddygiad neu iechyd os bydd hynny yn ymwneud â diogelwch a lles plant. Mae adroddiad hefyd yn ofynnol pe byddai'r cyflogwr o bosibl wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau rhywun ar un o'r seiliau hyn pe na fyddai ef neu hi eisoes wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau.

Mae'r ail bwynt hwn yn bwysig, oherwydd ein bod oll yn gwybod oddi wrth ein trafodaethau am argymhellion Clywch fod pryderon yn y gorffennol am athrawon a phobl eraill sydd wedi gweithio gyda phlant ac sydd wedi ymddiswyddo yn hytrach nag wynebu camau disgyblu. Mae hynny wedi golygu na chymerwyd y camau priodol. Yr ydym wedi gwneud yn gwbl sicr bod y ddihangfa honno wedi ei chau.

O safbwynt rhoi i bobl yr hyder ynghylch yr archwiliadau ychwanegol a wneir yng Nghymru, gallaf ddweud wrthyhch fod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliad ar-lein yn erbyn Rhestr 99 ar yr holl geisiadau newydd a gofrestrir gyda'r cyngor. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r unig gyngor hyfforddi athrawon sydd â'r hawl honno i weld y rhestr, oherwydd ein bod eisoes wedi rhoi iddo fwy o fynediad. Yn awr, gyda'r trefniadau addasrwydd, gallwn fynd â hyn ymhellach. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cael hysbysiadau wythnosol oddi wrth yr Adran Addysg a Sgiliau am unrhyw ychwanegiadau newydd at y rhestr ac yna caiff y rhain eu harchwilio yn erbyn cofrestr a chronfa ddata Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Ddwywaith y flwyddyn, fel archwiliad pellach, mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ddiweddar wedi cyflwyno cyfatebiaeth 100 y cant rhwng Rhestr 99 a chofrestr y cyngor. Yr wyf wedi gallu rhoi ichi sicrwydd llwyr o safbwynt y broses gofrestru yng Nghymru. Yr hyn na allaf ei roi ichi yw sicrwydd ynghylch unrhyw un a ddaeth o rywle arall o bosibl, nid yn unig ar draws y ffin o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ond o Ewrop, lle y ceir hefyd ryddid o ran symud. Rhaid inni wneud ein prosesau yn ddigon cadarn, ac yn hynny o beth mae eich pwynt ynghylch hysbysu yn hanfodol. Byddwn yn ceisio sicrhau gwell trefniadau hysbysu rhwng pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Lastly, in terms of the CRB checks, it is my understanding that the only time that CRB checks were pending, rather than delivered, before a teacher took up his or her role was when we had that backlog at the time of the introduction of the CRB arrangements. I am told that getting on for over 90 per cent of CRB checks are cleared within the appropriate timescales. However, other Ministers and I will be keeping an eye on that.

Gwenda Thomas: Thank you, Minister, for that informative statement. As you indicated, the protection of our children is paramount. Do you agree that the most effective way for the Assembly to send a clear message to our children today is for us to recognise, without condition, that it is everybody's duty to keep our children as safe as possible, including every adult, all communities, all who have care of, or responsibility for, our children, all elected representatives, the press and the media, and that we should now ask ourselves how we can best resolve this issue from a child's perspective?

Jane Davidson: I am grateful for that and I think that we all look forward to your safeguards review being published, so that we can clearly see, from the evidence that you have taken, how we can better protect children in Wales. We would all want to ensure, across the Assembly, that we have the best possible arrangements in place for the protection of our children. It is also worth saying that, in response to the Clywch report, we are already taking Wales in its own direction in terms of tightening up regulations. We are putting a different onus on our governing bodies, for example. We must ensure that we take that agenda forward in all reasonable ways.

Jocelyn Davies: Minister, you will know that child abusers are known to be able to evade criminal convictions. Have there been any instances in which the criminal justice system has failed to secure a 'guilty' verdict for one reason or another, but a Minister has

Yn olaf, o safbwynt archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, yn ôl yr hyn a ddeallaf, yr unig amser y buwyd yn disgwyl am archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, yn hytrach na'u bod wedi cael eu cyflawni, cyn i'r athro ddechrau yn ei rôl ef neu hi oedd pan oedd gennym yr ôl-groniad hwnnw adeg cyflwyno trefniadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Dywedir wrthyf fod dros 90 y cant bron iawn o archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu clirio o fewn yr amserlenni priodol. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion eraill a minnau yn cadw golwg ar hynny.

Gwenda Thomas: Diolch ichi, Weinidog, am y datganiad addysgiadol hwnnw. Fel y dywedaso, amddiffyn ein plant sydd bwysicaf. A gytunwch mai'r ffordd fwyaf effeithiol i'r Cynulliad anfon neges glir i'n plant heddiw yw drwy inni gydnabod, yn ddiamed, fod cadw ein plant mor ddiogel â phosibl yn ddyletswydd ar bawb, gan gynnwys pob oedolyn, pob cymuned, pawb sy'n gofalu am ein plant, neu sydd â chyfrifoldeb drostynt, pob cynrychiolydd etholedig, y wasg a'r cyfryngau, ac y dylem yn awr fod yn gofyn inni ein hunain beth yw'r modd gorau o ddelio â'r mater hwn o safbwynt y plentyn?

Jane Davidson: Yr wyf yn ddiolchgar am hynny a chredaf ein bod oll yn edrych ymlaen at gyhoeddi eich adolygiad o'r dulliau diogelu, fel y gallwn weld yn glir, oddi wrth y dystiolaeth yr ydych wedi'i derbyn, sut y gallwn amddiffyn plant yn well yng Nghymru. Byddem oll am sicrhau, ar draws y Cynulliad, fod y trefniadau gorau posibl wedi eu sefydlu gennym er mwyn amddiffyn ein plant. Mae'n werth dweud hefyd ein bod eisoes, mewn ymateb i adroddiad Clywch, yn mynd â Chymru i'w chyfeiriad ei hun o safbwynt tynhau rheoliadau. Yr ydym yn rhoi baich gwahanol ar ein cyrff llywodraethu, er enghraifft. Rhaid inni sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r agenda hon ym mhob ffordd resymol.

Jocelyn Davies: Weinidog, fe wyddoch ei bod yn hysbys bod unigolion sy'n cam-drin plant yn gallu osgoi euogfarnau troseddol. A fu unrhyw achosion o'r system cyfiawnder troseddol yn methu â sicrhau dedfryd 'euog' am ba reswm bynnag, ond bod Gweinidog,

nevertheless banned that person from teaching children?

Jane Davidson: At this point, I cannot give you any such instances, because that is exactly the kind of issue that will be looked at by Ruth Kelly in her exhaustive review.

Nick Bourne: I, too, thank you for the statement, Minister, and I agree that there is an onus and a duty on people across the board. However, as far as education in Wales is concerned and the public perception, one has to accept that the buck stops with you, Minister.

Although we know that this has not been Ruth Kelly's most glorious hour, what really concerns me in this matter is that people on List 99 may somehow have got through the net and are teaching or are in a teaching setting. When you spoke to Ruth Kelly, presumably you asked her whether there were any such people in Wales. What did she say in response? If she was not able to give an answer, when will she be able to do so and when will you tell us? That is the fundamental issue that concerns people. Quite understandably, we are getting letters, e-mails and telephone calls about this matter, and that is the issue that we have to address. Everybody's intentions are clearly the same: we want to protect children. We could spend all day speaking warm words when what we really need is action and an answer to the fundamental question of when we will know whether people on List 99 are in a school setting in Wales. What did Ruth Kelly say to you, and if she did not give you a clear answer, when will you get that clear answer, and will you then come back and tell us when you have it?

Jane Davidson: Ruth Kelly is undertaking an exhaustive review because she needs to find out that information, and she will do so on an England-and-Wales basis. Just as my duty is to come first to the Assembly with any statement that I make, her duty is to go first to the House of Commons. That is why I said in a previous answer that we, both as Ministers and officials, will maintain close contact in terms of this information.

serch hynny, wedi gwahardd yr unigolyn hwnnw rhag addysgu plant?

Jane Davidson: Ar hyn o bryd, ni allaf roi enghreifftiau o'r fath ichi, oherwydd dyna'r union fath o fater y bydd Ruth Kelly yn edrych arno yn ei hadolygiad cynhwysfawr.

Nick Bourne: Diolchaf innau ichi, hefyd, am y datganiad, Weinidog, a chytunaf fod baich a dyletswydd ar bobl yn gyffredinol. Serch hynny, o ran addysg yng Nghymru a sut y mae'r cyhoedd yn gweld y sefyllfa, rhaid i rywun dderbyn mai chi sy'n gyfrifol yn y pen draw, Weinidog.

Er ein bod yn gwybod nad hon oedd awr fwyaf gogoneddus Ruth Kelly, yr hyn sy'n peri pryder gwirioneddol i mi yn y mater hwn yw y gallai pobl sydd ar Restr 99 fod wedi llithro drwy'r rhwyd rywsut a'u bod yn addysgu neu mewn sefydliad addysgu. Wrth siarad â Ruth Kelly, tybiaf eich bod wedi gofyn iddi a oedd unrhyw bobl o'r fath yng Nghymru. Beth a ddywedodd wrth ateb? Os nad oedd hi'n gallu rhoi ateb, pa bryd y bydd hi'n gallu gwneud hynny a pha bryd y cawn ni wybod gennych? Hynny yw'r broblem sylfaenol sy'n peri pryder i bobl. Yn gwbl ddealladwy, yr ydym yn cael llythyrau, negeseuon e-bost a galwadau ffôn am y mater hwn, a dyma'r mater y mae'n rhaid inni roi sylw iddo. Mae bwriadau pawb yn amlwg yr un fath: yr ydym am amddiffyn plant. Galledd dreulio'r diwrnod cyfan yn siarad yn hynaws er mai'r hyn y mae arnom ei wir angen yw gweithredu ac ateb i'r cwestiwn sylfaenol, sef pa bryd y cawn wybod a oes pobl sydd ar Restr 99 yn gweithio yn un o ysgolion Cymru. Beth a ddywedodd Ruth Kelly wrthych, ac os na roddodd ateb pendant ichi, pa bryd y cewch yr ateb pendant hwnnw, ac a ddewch yn ôl bryd hynny a dweud wrthym pan fydd yr ateb gennych?

Jane Davidson: Mae Ruth Kelly yn cynnal adolygiad cynhwysfawr oherwydd bod angen iddi ganfod y wybodaeth honno, a bydd yn gwneud hynny ar sail Lloegr a Chymru. Yn union fel y mae'n ddyletswydd arnaf fi ddod yn gyntaf at y Cynulliad gydag unrhyw ddatganiad a wnaif, ei dyletswydd hithau yw mynd yn gyntaf at Dŷ'r Cyffredin. Dyna paham y dywedais mewn ateb blaenorol y byddwn, fel Gweinidogion a swyddogion, yn

cadw cysylltiad agos o safbwynt y wybodaeth hon.

I welcomed one thing in particular in Ruth Kelly's statement last week. Members will probably know by now that the types of offences for which people receive an automatic bar—and for which they are placed on List 99—include possession of an indecent photograph of a child, rape, sexual intercourse with a girl under the age of 13, indecent assault on a man or woman, or incest by a man or woman. The types of offences that result in an automatic bar were updated in May 2004 to take account of new sexual offences under the Sexual Offences Act 2003. Ruth Kelly said in her statement that where someone has received a caution for any of those offences, that caution will now be treated as a conviction, which will lead to an automatic bar under List 99. That is a further step forward in terms of safety.

Jonathan Morgan: Minister, in response to questions, you said that teachers undergo a series of checks before they are allowed to work on school premises. That is not the case for all groups of people who work on school premises, however. There is the issue of school cleaners, who are employed through local authorities. I understand that the practice is for local authorities to allow school cleaners to work on premises before the appropriate checks have been completed. Cardiff County Council has confirmed that fact to me, and has stated clearly that, although it has not completed the relevant checks, those staff are under what it terms as 'direct and constant supervision'. I am keen to know how that can be the case bearing in mind the size and layout of school buildings.

Do you accept that there is an element of risk in continuing with this situation in light of the fact that large numbers of children now attend breakfast clubs and after-school clubs, and that there is, therefore, the potential for contact between children and adults who have not yet completed the appropriate checks? How do you and your department

Yr oeddwn yn croesawu un peth yn arbennig yn natganiad Ruth Kelly yr wythnos diwethaf. Bydd yr Aelodau yn gwybod erbyn hyn, yn ôl pob tebyg, fod y mathau o droseddau y mae pobl yn cael gwaharddiad awtomatig am eu cyflawni—a'r troseddau y rhoddir hwy ar Restr 99 am eu cyflawni—yn cynnwys bod ffotograff anweddus o blentyn yn eu meddiant, trais rhywiol, cael cyfathrach rywiol gyda merch dan 13 blwydd oed, ymosod yn anweddus ar ddyn neu fenyw, neu losgach gan ddyn neu fenyw. Cafodd y mathau o droseddau sy'n arwain at waharddiad awtomatig eu diweddarau ym Mai 2004 er mwyn rhoi ystyriaeth i droseddau rhyw newydd dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003. Dywedodd Ruth Kelly yn ei datganiad, os bydd rhywun wedi cael rhybudd am unrhyw un o'r troseddau hynny, y bydd y rhybudd hwnnw yn awr yn cael ei drin fel euogfarn, a bydd hyn yn arwain at waharddiad awtomatig dan Restr 99. Mae hynny'n gam pellach o safbwynt diogelwch.

Jonathan Morgan: Weinidog, mewn ymateb i gwestiynau, dywedasoch fod athrawon yn mynd drwy gyfres o archwiliadau cyn iddynt gael gweithio mewn ysgolion. Nid yw hyn yn wir gyda phob grŵp o bobl sy'n gweithio mewn ysgolion, fodd bynnag. Glanhawyr ysgolion, a gyflogir drwy'r awdurdodau lleol, sydd dan sylw. Deallaf mai'r arferiad yw bod awdurdodau lleol yn caniatáu i lanhawyr ysgolion weithio yn yr adeilad cyn i'r archwiliadau priodol gael eu cwblhau. Mae Cyngor Sir Caerdydd wedi cadarnhau'r ffaith honno wrthyf, ac wedi dweud yn bendant fod y staff hynny, er nad ydyw wedi cwblhau'r archwiliadau perthnasol, dan yr hyn a eilw'n oruchwyliaeth uniongyrchol a chyson. Yr wyf yn awyddus i wybod sut y gall hyn fod yn wir a chofio maint a chynllun adeiladau ysgolion.

A dderbyniwch bod elfen o risg mewn parhau gyda'r sefyllfa hon yng ngoleuni'r ffaith bod nifer fawr o blant bellach yn mynychu clybiau brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol, a bod posibilrwydd, felly, y ceir cyswllt rhwng plant ac oedolion na chwblhawyd yr archwiliadau priodol arnynt eto? Sut yr ydych chi a'ch adran yn diffinio'r hyn a elwir yn

define what is termed as 'direct and constant supervision', taking into account the sheer size and layout of school buildings?

Jane Davidson: The key aspect in legislation is the level of contact and whether that contact is supervised or unsupervised. On the specific issues with regard to school cleaners, and your important points about having activities going on in school buildings outside the traditional school day, I will write to you and make that letter available to all Members.

David Davies: You talked about the freedom of movement within Europe, but is it not really the case that the potential problem actually comes from the Commonwealth?

3.30 p.m.

The Department for Education and Skills is actively advertising for teachers from all over Africa and the Commonwealth—huge numbers have come from Australia, New Zealand, South Africa and other countries. Will you confirm that you do not have a system in place for guaranteeing that people coming from those countries are not guilty of any of these types of offences that are giving so much concern? Will you also confirm that the only people who can do anything about this issue are you and the Secretary of State for Education and Skills in Westminster? It is no good talking about all of us having a responsibility, when the only way that we can carry that out is to hold you and the Minister in London to account, and hope that you will do your jobs properly.

Jane Davidson: The important thing in terms of teachers who are teaching in the maintained sector in Wales, which is the area for which I accept full responsibility, is that they must be registered with the General Teaching Council for Wales. Therefore, the appropriate checks are made by the council, which will check on equivalence in terms of qualifications, and I am sure that it makes appropriate checks in terms of other aspects of teachers' previous history. The point about suitability means that we can enhance that opportunity in Wales for our general teaching council, which already has stronger powers in this area than any other general teaching

oruchwyliaeth uniongyrchol a chyson, a chofio maint a chynllun adeiladau ysgolion?

Jane Davidson: Yr elfen allweddol yn y ddeddfwriaeth yw lefel y cyswllt ac a yw'r cyswllt hwnnw dan oruchwyliaeth ynteu heb ei oruchwyllo. Ynghylch y materion penodol o safbwynt glanhawyr ysgolion, a'ch pwyntiau pwysig ynghylch gweithgareddau mewn adeiladau ysgolion y tu allan i'r diwrnod ysgol traddodiadol, ysgrifennaf atoch gan ryddhau'r llythyr i'r holl Aelodau.

David Davies: Soniasoch am y rhyddid o ran symud yn Ewrop, ond onid y gwir yw mai o'r Gymanwlad y daw'r broblem bosibl mewn gwirionedd?

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wrthi'n hysbysebu er mwyn denu athrawon o bob rhan o Affrica a'r Gymanwlad—mae niferoedd mawr wedi dod o Awstralia, Seland Newydd, De Affrica a gwledydd eraill. A wnewch gadarnhau nad oes system ar waith gennych i warantu nad yw'r bobl hynny sydd yn dod o'r gwledydd hynny'n euog o gyflawni troseddau o'r math sydd yn peri cymaint o bryder? A wnewch hefyd gadarnhau mai chi a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn San Steffan yw'r unig rai a all wneud rhywbeth ynghylch y mater hwn? Nid oes diben dweud ein bod ni oll yn gyfrifol, gan mai'r unig fodd y gallwn wireddu hynny yw drwy eich galw chi a'r Gweinidog yn Llundain i gyfrif, a gobeithio y gwnewch eich gwaith yn iawn.

Jane Davidson: Y peth pwysig o ran athrawon sydd yn dysgu yn sector yr ysgolion a gynhelir yng Nghymru, sef y maes yr wyf yn derbyn cyfrifoldeb llawn amdano, yw bod rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Gan hynny, gwneir y gwiriadau priodol gan y cyngor, a fydd yn gwirio bod cymwysterau'n ddilys, ac yr wyf yn siŵr ei fod yn gwneud gwiriadau priodol mewn cysylltiad ag agweddau eraill ar hanes blaenorol athrawon. Mae'r pwynt ynghylch addasrwydd yn golygu y gallwn sicrhau gwell cyfle yng Nghymru i'n cyngor addysgu cyffredinol, sydd eisoes yn meddu ar bwerau cryfach yn y

council in the United Kingdom, to take that a further step forward. That is why I hope that Members will get behind our putting this legislation in place as quickly as possible.

maes hwn na dim un cyngor addysgu cyffredinol arall yn y Deyrnas Unedig, gael mynd â hynny gam ymhellach. Dyna pam yr wyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau o blaid rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006-07, Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Cynghorau) 2004-05 ac Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Cynghorau) 2005-06
Approval of the Local Government Finance Report (No.1) for the financial year 2006-07, the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2004-05 Amending Report, and the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2005-06 Amending Report

Y Llywydd: Cynigir trafod y tair eitem nesaf gyda'i gilydd, oni bai fod Aelod yn gwrthwynebu. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad.

The Presiding Officer: It is proposed that the next three items be debated together, unless any Member objects. I see that there are no objections.

The Finance Minister (Sue Essex): I propose that

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

in accordance with Standing Order No. 21.11, approves the Local Government Finance Report (No. 1) for the financial year 2006-07, laid in Table Office on 14 December 2005. (NDM2760)

yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006-07, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2005. (NDM2760)

I propose that

Cynigiau fod

the National Assembly for Wales,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

in accordance with Standing Order No. 21.11, approves the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2004-05 Amending Report, laid in the Table Office on 14 December. (NDM2761)

yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Cynghorau) 2004-05 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2005. (NDM2761)

I propose that

Cynigiau fod

the National Assembly for Wales,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

in accordance with Standing Order No. 21.11, approves the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2005-06 Amending Report, laid in the Table Office on 14 December. (NDM2762)

yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Cynghorau) 2005-06 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2005. (NDM2762)

I present the local government settlement for 2006-07 for county councils and county borough councils in Wales, and also the amending reports for 2004-05 and 2005-06 for the Assembly's approval.

In presenting the settlement to the Assembly, I am pleased to say that I have been able to provide councils in Wales with the details of the provisional and final settlements on the same timetable as last year, despite the delays in agreeing the Assembly's budget. Thus, I have met my commitment to provide authorities with the key information that they need to allow them to set their budgets for next year as early as possible. In addition, the Assembly's final budget provides the revenue support grant profile for 2007-08 and 2008-09, and this provides authorities with a basis for budgeting for the following two years.

Next year the Assembly proposes to provide resources for local government through the revenue settlement grant totalling £3.5 billion, an average increase of 5.1 per cent on this year. This is a good settlement for local government against a backdrop of tighter public finances. The settlement comprehensively responds to the detailed discussions that took place with local government through the expenditure sub-group, looking at the key pressures on local authorities and the way in which we would address those pressures.

For those Members who are not on the Local Government and Public Services Committee, I should explain that partnership working is a key element of the process to determine the settlement. The finance sub-group of the Partnership Council—which is called the consultative forum on finance—mandates the expenditure sub-group, which comprises local government and Welsh Assembly Government officials, to identify and report on the key additional pressures that need to be addressed through the revenue and capital settlements. The group will also seek to agree as far as possible the basis upon which these pressures are costed, and the outcomes of these discussions are published in the expenditure sub-group's report. This

Yr wyf yn cyflwyno'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2006-07 i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, a hefyd yr adroddiadau diwygio ar gyfer 2004-05 a 2005-06 i'w cymeradwyo gan y Cynulliad.

Wrth gyflwyno'r setliad i'r Cynulliad, yr wyf yn falch o ddweud fy mod wedi gallu rhoi i gynghorau yng Nghymru fanylion y setliad dros dro a'r setliad terfynol yn ôl yr un amserlen â'r llynedd, er gwaethaf yr oedi a fu wrth gytuno ar gyllideb y Cynulliad. Felly, yr wyf wedi cyflawni'r ymrwymiad a wneuthum i roi i'r awdurdodau y wybodaeth allweddol y bydd arnynt ei hangen i'w galluogi i bennu eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf mor gynnar ag y bo modd. Yn ogystal â hynny, mae cyllideb derfynol y Cynulliad yn rhoi proffil y grant cynnal refeniw ar gyfer 2007-08 a 2008-09, ac mae hyn yn cynnig sail i awdurdodau ar gyfer cyllidebu ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

Y flwyddyn nesaf, mae'r Cynulliad yn bwriadu darparu cyfanswm o £3.5 biliwn o adnoddau i lywodraeth leol drwy'r grant setliad refeniw, sef 5.1 y cant yn fwy ar gyfartaledd na'r flwyddyn hon. Mae'r setliad hwn yn un da i lywodraeth leol yng nghydestun y sefyllfa dynnach o ran cyllid cyhoeddus. Mae'r setliad yn cynnig ymateb cynhwysfawr i'r trafodaethau manwl a gafwyd gyda llywodraeth leol drwy'r is-grŵp gwariant, gan ystyried y prif bwysau sydd ar awdurdodau lleol a'r modd y byddem yn ymdrin â'r pwysau hynny.

Er mwyn yr Aelodau hynny nad ydynt ar Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, dylwn esbonio bod gweithio mewn partneriaeth yn elfen allweddol yn y broses ar gyfer pennu'r setliad. Mae is-grŵp cyllid y Cyngor Partneriaeth—a elwir yn fforwm ymgynghorol ar gyllid—yn ymddiried i'r is-grŵp gwariant, sydd yn cynnwys swyddogion llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, y gwaith o ganfod ac adrodd ar y prif bwysau ychwanegol y mae angen rhoi sylw iddynt drwy'r setliadau refeniw a chyfalaf. Bydd y grŵp hwn hefyd yn ceisio cytuno hyd y gellir ar y sail ar gyfer prisio'r pwysau hynny, a chyhoeddir canlyniadau'r trafodaethau hyn yn adroddiad yr is-grŵp gwariant. Drwy'r

arrangement means that we can approach the debate on the funding of local government in a mature, rational and transparent manner. It shows how transparent we have become over the last few years in terms of developing the settlement through the process that I have outlined.

In particular, the settlement meets the assessment of pay and price pressures as set out in the report of the sub-group. It also builds into local authority budgets, as part of a three-year programme, the additional costs to local authorities of meeting the estimated shortfall in local government pension funds and the likely increased ongoing costs of implementing equal pay arrangements.

The settlement also recognises the need for efficient and responsible budgeting on the part of the councils in that the settlement assumes a 1 per cent efficiency saving based on the previous year's revenue support grant. As for the rest of the public sector, there is a requirement for local government to demonstrate that it is achieving value for money. We should be absolutely clear that the efficiency assumption is built into the funding allocation, but all councils' funding will increase, as it does every year and, contrary to what some elected representatives might think, we do not take back any council tax raised by councils.

In keeping with the priorities set out in the Assembly budget, the settlement recognises local government's key role in taking forward the health and social care agenda in Wales. The settlement includes an additional £45 million as a direct response to the detailed pressures that were included in the report. In particular, it responds to costs pressures arising from an increasing elderly population and the increased costs of providing these clients with an acceptable standard of care in their own homes and in residential and nursing establishments. This additional funding will allow authorities to make significant progress in meeting the increased demands that have been placed on their social care departments. The settlement

trefniant hwn, gallwn ymwneud â'r ddadl ar ariannu llywodraeth leol mewn modd aeddfed, rhesymol a thryloyw. Mae'r dull o ddatblygu'r setliad drwy'r broses yr wyf wedi ei hamlinellu'n dangos i ba raddau yr ydym wedi dod i weithredu mewn modd tryloyw dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn benodol, mae'r setliad yn bodloni'r asesiad o bwysau o du cyflogau a phrisiau fel y maent wedi eu nodi yn adroddiad yr is-grŵp. Mae hefyd yn cynnwys yng nghyllidebau awdurdodau lleol, fel rhan o raglen dair blynedd, y costau ychwanegol a ddaw i ran awdurdodau lleol wrth wneud iawn am y diffyg amcangyfrifedig yng nghronfeydd pensiwn llywodraeth leol a'r costau uwch parhaus sydd yn debygol o godi wrth roi trefniadau cyflog cyfartal ar waith.

Mae'r setliad hefyd yn cydnabod yr angen am gyllidebu effeithlon a chyfrifol ar ran y cynghorau gan ei fod yn cymryd y bydd 1 y cant yn cael ei arbed drwy weithredu'n effeithlon o'i gymharu â grant cynnal refeniw y flwyddyn flaenorol. Gyda golwg ar weddill y sector cyhoeddus, mae'n ofynnol i lywodraeth leol ddangos ei bod yn sicrhau gwerth am arian. Dylid sylweddoli bod y cyllid yn cael ei ddyrannu gan gadw'r arbediad drwy effeithlonrwydd mewn cof, ond bydd yr holl gynghorau'n cael mwy o gyllid, fel y byddant bob blwyddyn ac, yn groes i'r hyn y gallai rhai cynrychiolwyr etholedig ei gredu, nid ydym yn cymryd yn ôl ddim treth gyngor a gaiff ei chodi gan gynghorau.

Yn unol â'r blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yng nghyllideb y Cynulliad, mae'r setliad yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan lywodraeth leol wrth hyrwyddo'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r setliad yn cynnwys £45 miliwn ychwanegol fel modd i ymateb yn uniongyrchol i'r pwysau a oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad. Yn benodol, mae'n fodd i ymateb i'r pwysau o ran y costau a geir am fod y boblogaeth yn heneiddio fwyfwy a'r costau uwch o ddarparu gofal o safon dderbyniol i'r cleientiaid hynny yn eu cartrefi eu hunain ac mewn sefydliadau preswyl a nyrsio. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn caniatáu i awdurdodau wneud cryn gynnydd wrth ateb y galwadau cynyddol sydd ar eu

also provides additional funding for schools to meet the increased costs of meeting the underlying increases in teachers' pay as well as the costs arising from threshold pay and leadership awards.

In addition, the 2006 settlement provides the final element of additional funding to recognise the cost of funding the teachers' workload agreement. That amounts to £12 million this year, which brings the total amount of money that has been provided to reduce teachers' workload and to help raise standards in schools to £70 million. Further recognition of our commitment to fund new responsibilities placed on local government is demonstrated through an additional £3 million in the settlement in response to the increased costs of landfill tax and £1 million for the licensing of houses in multiple occupation.

In addition to the funding provided through the revenue support grant, local authorities will continue to benefit from £52 million worth of unhypothecated funding through the deprivation grant and performance incentive grant. Although this amount is unchanged from the allocation in 2005-06, the deprivation grant was increased by twice the rate of inflation in this current year.

2006-07 will also be the second year of the innovative local authority business growth incentive scheme and the funding for that is set to increase by £5 million to £18 million if local authorities achieve their target. In order to provide local authorities with further impetus to meet these targets, I have decided not to increase the floors that local authorities have to reach in the second year of this scheme. I believe that local government in Wales has greatly welcomed that.

Specific grants will total well over £400 million next year. While that is lower than the amount for 2005-06, it reflects the fact that some major grants in education and social care are transferring into the settlement for 2006-07. Most notably, this will be the

hadrannau gofal cymdeithasol. Mae'r setliad hefyd yn rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion i dalu'r costau uwch ar gyfer y codiadau sylfaenol yng nghyflogau athrawon yn ogystal â'r costau sydd yn codi o ddyfarniadau mewn cysylltiad â thaliadau trothwy ac arweinyddiaeth.

Yn ogystal â hynny, mae'r setliad ar gyfer 2006 yn rhoi rhan olaf y cyllid ychwanegol i gydnabod cost ariannu'r cytundeb ynghylch llwyth gwaith athrawon. Mae hynny'n gyfanswm o £12 miliwn eleni, gan ddod â'r cyfanswm sydd wedi ei ddarparu i leihau llwyth gwaith athrawon ac i helpu i godi safonau mewn ysgolion i £70 miliwn. Gwelir cydnabyddiaeth bellach i'n hymrwymiad i dalu am gyfrifoldebau newydd sydd wedi eu rhoi i lywodraeth leol yn y £3 miliwn ychwanegol sydd yn y setliad i ymateb i gostau uwch y dreth tirlenwi a £1 filiwn ar gyfer trwyddedu tai amlfeddiannaeth.

Ar ben y cyllid sydd wedi ei ddarparu drwy'r grant cynnal refeniw, bydd awdurdodau lleol yn dal i gael budd o werth £52 miliwn o arian sydd heb ei glustnodi drwy'r grant amddifadedd a'r grant cymell perfformiad. Er nad yw'r swm hwn wedi newid ers y dyraniad yn 2005-06, mae'r grant amddifadedd wedi'i gynyddu ddwywaith yn fwy na chyfradd chwyddiant yn y flwyddyn gyfredol.

Yn ogystal â hynny, 2006-07 fydd ail flwyddyn cynllun awdurdodau lleol i gymell twf busnesau a bydd y cyllid ar gyfer y cynllun arloesol hwn yn codi £5 miliwn i £18 miliwn os bydd awdurdodau lleol yn cyrraedd eu targed. Er mwyn rhoi hwb pellach i awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau hynny, yr wyf wedi penderfynu peidio â chodi'r terfynau isaf y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu cyrraedd yn ail flwyddyn y cynllun hwn. Yr wyf yn credu bod llywodraeth leol yng Nghymru wedi croesawu hynny'n frwd.

Bydd cyfanswm y grantiau penodol ymhell dros £400 miliwn y flwyddyn nesaf. Er bod hynny'n llai na'r swm ar gyfer 2005-06, mae'n adlewyrchu'r ffaith bod rhai grantiau pwysig ym meysydd addysg a gofal cymdeithasol yn cael eu trosglwyddo i'r

£20 million capacity grant, the £20 million grant on the learning disabilities mainstream grant and the £18 million for maintaining smaller key stage 2 class sizes. That strongly follows our commitment to move away from hypothecating these grants and to put them through the revenue support grant.

The capital settlement, including unhypothecated capital support and specific grants, has grown by just over 4 per cent and will total almost £619 million next year. This continues to build on the significant increase in capital resources that we are making available to local government in recognition of schools, waste management and so on.

The amending reports, which I am also presenting today in respect of 2004-05 and 2005-06, are necessary to ensure that the changes to the population estimates as a result of the identified under-recording of population in some parts of Wales by the 2001 census are reflected in the distribution of resources. It is important to recognise that we rely on these independently produced statistics to maintain the impartiality of the settlement.

In keeping with my commitments to provide greater clarity in terms of the local government settlement, I have published details of this on the Assembly's website, including a breakdown by standard spending assessment and by broad service category. In the last two years, we have achieved a high degree of transparency so that people understand how the funding is broken down and how that relates to every local authority.

With regard to the settlement formula, it is worth mentioning that the formula includes a weighting of 25 per cent for deprivation factors and 6 per cent for population dispersal. I have made clear my desire for further work to be carried out to assess whether these weightings remain valid.

3.40 p.m.

setliad ar gyfer 2006-07. Yn fwyaf arbennig, y rhain fydd y grant adnoddau ymarferol o £20 miliwn, y grant o £20 miliwn ar ben y grant prif ffrwd ar gyfer anabledau dysgu a'r £18 miliwn ar gyfer cynnal dosbarthiadau llai yng nghyfnod allweddol 2. Mae hynny'n dangos yn glir ein hymrwymiad i roi'r gorau i glustnodi'r grantiau hynny ac i'w rhoi drwy'r grant cynnal refeniw.

Mae'r setliad cyfalaf, sydd yn cynnwys cymorth cyfalaf sydd heb ei glustnodi a grantiau penodol, ychydig dros 4 y cant yn fwy a bydd cyfanswm o bron £619 miliwn y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn ychwanegiad pellach at y cynnydd sylweddol yn yr adnoddau cyfalaf yr ydym yn eu cynnig i lywodraeth leol er mwyn cydnabod costau o ran ysgolion, rheoli gwastraff ac yn y blaen.

Mae'r adroddiadau diwygio, yr wyf hefyd yn eu cyflwyno heddiw mewn cysylltiad â 2004-05 a 2005-06, yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y bydd y newidiadau i'r amcangyfrifon poblogaeth a gafwyd o ganlyniad i ganfod tangofnodi ar y boblogaeth mewn rhai rhannau o Gymru gan gyfrifiad 2001 yn cael eu hadlewyrchu yn nosraniad yr adnoddau. Mae'n bwysig cydnabod ein bod yn dibynnu ar yr ystadegau hyn, a gaiff eu cynhyrchu'n annibynnol, er mwyn sicrhau bod y setliad yn parhau'n ddiduedd.

Yn unol â'm hymrwymadau i beri i'r setliad llywodraeth leol fod yn fwy eglur, yr wyf wedi cyhoeddi manylion am hyn ar wefan y Cynulliad, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl yr asesiad o wariant safonol ac yn ôl categorïau gwasanaethau bras. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yr ydym wedi sicrhau llawer o dryloywder fel bod pobl yn deall sut y rhennir y cyllid a'r cysylltiad rhwng hynny a phob awdurdod lleol.

Gyda golwg ar fformiwla'r setliad, mae'n werth nodi bod y fformiwla'n cynnwys pwysoliad o 25 y cant ar gyfer ffactorau amddifadedd a 6 y cant ar gyfer poblogaeth wedi'i gwasgaru. Yr wyf wedi egluro fy awydd i weld rhagor o waith yn cael ei wneud i ganfod a yw'r pwysoliadau hyn yn dal i fod yn ddilys.

On council tax, we are all aware of the public's attitude towards what they perceive as unreasonable and unjustified increases in tax. It is therefore important that councils recognise their responsibilities in this respect. I have taken soundings from councils across Wales, and I welcome the fact that the general approach would be to limit increases in council tax to between 3 per cent and 5 per cent, according to local circumstances. However, I will be watching closely as authorities take their budgets forward in their budget settlement processes.

Glyn Davies: In your discussions with local authorities, have you given any indication that, if they do not stick within the limits to which you have just referred, you might introduce the same kind of, what we might call, threats or pressures that you put upon them last year?

Sue Essex: Last year, I set down the principles, and I was glad that in the circumstances all local authorities complied with those, so we did not put a capping regime in place. I made it clear last year that I was reluctant to do that, but felt there were special circumstances that required me to bring forward the principles. I would still say that I would be reluctant to take any action, but that possibility is open to me. I am hoping that will not be needed, and following my discussion with local authorities, people are talking about increases in the range of 3 per cent to 5 per cent.

I remind the Assembly that, outside the settlement, I have maintained the provision within the budget to meet the cost of the council tax transitional relief scheme. This will ensure that no household need go up by more than one council tax band in 2006-07. In addition, pensioners who have moved up by more than one council tax band as a result of revaluation will be entitled to claim £100.

In conclusion, I believe that this is a good settlement, which has been developed in a fair and open way. I wish to pay tribute to all those who have been involved in doing the work through the different groups that were

Ynghylch y dreth gyngor, yr ydym oll yn ymwybodol o agwedd y cyhoedd at yr hyn y maent yn ei ystyried yn godiadau afresymol a digyfiawnhad yn y dreth. Mae'n bwysig, felly, fod cynghorau'n cydnabod eu cyfrifoldebau yn hyn o beth. Yr wyf wedi gwneud ymholiadau ymysg cynghorau ledled Cymru, ac yr wyf yn croesawu'r ffaith mai'r bwriad cyffredinol fydd cyfyngu ar godiadau yn y dreth gyngor fel eu bod rhwng 3 y cant a 5 y cant, yn ôl yr amgylchiadau lleol. Er hynny, byddaf yn cadw llygad barcud wrth i awdurdodau fwrw ati i lunio'u cyllidebau drwy eu prosesau pennu cyllideb.

Glyn Davies: Yn eich trafodaethau gydag awdurdodau lleol, a ydych wedi rhoi unrhyw awgrym y gallech wneud bygythiadau neu roi pwysau, fel y gallem eu galw, o'r math y gwnaethoch eu rhoi arnynt y llynedd, os na fyddant yn aros o fewn y terfynau yr ydych newydd gyfeirio atynt?

Sue Essex: Y llynedd, nodais yr egwyddorion, ac yr oeddwn yn falch o dan yr amgylchiadau fod yr holl awdurdodau lleol wedi cydymffurfio â hwy, felly ni roesom drefniadau capio ar waith. Eglurais y llynedd fy mod yn amharod i wneud hynny, ond fy mod yn teimlo bod amgylchiadau arbennig a oedd yn peri bod rhaid imi roi'r egwyddorion gerbron. Dywedwn o hyd fy mod yn amharod i gymryd unrhyw gamau, ond mae'r posibilrwydd hwnnw ar gael i mi. Yr wyf yn gobeithio na fydd ei angen, ac yn dilyn fy nhrafodaeth gydag awdurdodau lleol, sonnir am godiadau o tua 3 y cant i 5 y cant.

Yr wyf yn atgoffa'r Cynulliad fy mod wedi cadw'r ddarpariaeth yn y gyllideb, y tu allan i'r setliad, i dalu cost cynllun rhyddhad trosiannol y dreth gyngor. Bydd hyn yn sicrhau na fydd yr un aelwyd yn gorfod codi mwy nag un band treth gyngor yn 2006-07. Yn ogystal â hynny, bydd hawl gan bensynwyr sydd wedi codi mwy nag un band treth gyngor o ganlyniad i ailbrisio i hawlio £100.

I gloi, yr wyf yn credu bod hwn yn setliad da, sydd wedi ei ddatblygu mewn modd teg ac agored. Yr wyf yn dymuno talu teyrnged i bawb sydd wedi ymwneud â'r gwaith drwy'r gwahanol grwpiau a gafodd eu sefydlu ac a

set up and worked through the year. The settlement allows local authorities to plan their local services and set reasonable budgets that will limit the effects on council tax increases. People in local government have recognised the fairness of the settlement, and I ask for the Assembly's support.

David Lloyd: Cefndir y drafodaeth heddiw ar setliad ariannol i lywodraeth leol, fel y dywedodd y Gweinidog eisoes, yw'r cytundeb ar y gyllideb a gafwyd yn y Cynulliad cyn y Nadolig, gyda chynnydd o 5.1 y cant yn yr arian i lywodraeth leol, a groesawyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fodd bynnag, ni ddylid anghofio am yr arbedion o 1 y cant y mae'n rhaid eu gwneud yn ôl 'Creu'r Cysylltiadau'. Serch hynny, yr hyn sy'n poeni trigolion Cymru yw darpariaeth y gwasanaethau hynny a'u safon, a'r angen i fwy o'r arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer llywodraeth leol i gyrraedd y bobl sydd angen y gwasanaethau.

Mae strwythurau cymhleth, a chyda 22 o siroedd yng Nghymru, mae angen llawer mwy o gydweithio go iawn rhwng cynghorau i wella gwasanaethau ac i gynllunio yn strategol a rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau na ellir eu darparu mewn siroedd bychan.

Dyna'r meddylfryd y tu ôl i 'Creu'r Cysylltiadau' ac adolygiadau Beecham a Lyons yn Lloegr, heb anghofio'r cynllun gofodol i Gymru a ddylai arwain popeth. Mae pwysau anferthol ar wasanaethau'r cynghorau sir. Heb drefniant a chydweithio gwell ni fydd byth ddigon o arian ar gael i wneud y gwaith angenrheidiol. Mae pryderon ynghylch ariannu mewn sawl maes. Mae pryder ynghylch arian ar gyfer addysgu plant ag anghenion arbennig y tu allan i'w siroedd genedigol, er enghraifft, ac arian ar gyfer y cynllun i leihau baich gwaith athrawon. Clywaf yr hyn a ddywed y Gweinidog, ond mae rhai o'n siroedd yn anghytuno ynghylch y swm o arian sydd ei angen. Mae her sylweddol o ran ariannu ymdrin â gwastraff yng Nghymru. Dywed Cyngor Dinas a Sir Abertawe ei fod £6 miliwn yn brin eleni.

weithiodd drwy'r flwyddyn. Mae'r setliad yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio eu gwasanaethau lleol a phennu cyllidebau rhesymol a fydd yn cyfyngu ar yr effeithiau ar godiadau yn y dreth gyngor. Mae pobl mewn llywodraeth leol wedi cydnabod tegwch y setliad, ac yr wyf yn gofyn am gefnogaeth y Cynulliad.

David Lloyd: The background to today's debate on the financial settlement for local government, as the Minister has already said, is the agreement on the budget that was reached in the Assembly before Christmas, with an increase of 5.1 per cent in the local government funding, which was welcomed by the Welsh Local Government Association. However, we should not forget the savings of 1 per cent that must be made under 'Making the Connections'. However, what worries the people of Wales is the provision and quality of those services, and the need for more of the funding allocated for local government to reach the people who need the services.

There are complex structures, and with 22 counties in Wales, much more real collaboration is needed between councils to improve services and to plan on a strategic and regional basis to deliver services that cannot be delivered in small counties.

That is the thinking behind 'Making the Connections' and the Beecham and Lyons reviews in England, not forgetting the spatial plan for Wales, which should lead everything. There is huge pressure on county council services. Without better arrangements and collaboration there will never be enough money available to carry out the necessary work. There are concerns regarding funding in a number of areas. There is concern about funding to teach children with special educational needs outside the counties of their birth, for example, and funding for the scheme to reduce teachers' workloads. I hear what the Minister is saying, but some of our counties disagree about the amount of money that is needed. There is a substantial challenge in terms of funding the treatment of waste in Wales. Swansea City and County Council says that it is £6 million short this year.

Felly, erys sawl her ariannol oherwydd, yn y bôn, ni chaiff Cymru ei hariannu'n deg. Dylem gael fformiwla deg sy'n adlewyrchu ein hanghenion fel pobl.

Gwn fod pwnc fformiwla Barnett yn un sych i lawer ond, ar ddiwedd y dydd, pe bai Cymru'n cael ei hariannu ar sail ei hanghenion, byddem yn cael mwy o arian yn y lle cyntaf. Yn lle gorfod trafod toriadau i wasanaethau neu godi'r dreth gyngor, byddai mwy o arian ar gael o ariannu Cymru yn deg—tua £800 miliwn bob blwyddyn yn ychwanegol yn ôl un amcangyfrif.

Fodd bynnag, yn y cyfamser—

David Davies: Sut y gallwn gyfiawnhau mwy o arian i Gymru tra bo rhannau o Loegr yn dlotach na Chymru?

David Lloyd: Dylai'r ardaloedd hynny hefyd gael eu hariannu'n deg. Ar hyn o bryd, nid ydym yn cael ein hariannu yn ôl ein hanghenion. Mae ambell i fformiwla yn y lle hwn yn ein hariannu yn ôl ein hanghenion. Yr hyn yr ydym yn ei ddarganfod yw mai'r mwyaf o angen sydd arnoch, y mwyaf o arian yr ydych yn ei gael. Felly, ni fydd neb ar ei golled, boed yn ardaloedd tlawd Lloegr neu ardaloedd tlawd Cymru.

Yn y cyfamser, mae pwysau ar wasanaethau gan nad yw'r arian ar gael. Mae pwysau ar gynghorau i godi lefel y dreth gyngor hefyd—o leiaf mae cynghorau sir yn gallu codi treth, yn wahanol i'r Cynulliad. Mae'r helynt ynghylch ailfandio'r dreth gyngor yn dal yn fyw yn y cof. Croesawn yr arian yn y gyllideb derfynol i helpu pensiynwyr sydd wedi dioddef oherwydd ailfandio ond, ar ddiwedd y dydd, mae arnom angen system deg o drethiant lleol—treth incwm leol sy'n seiliedig ar y gallu i dalu ac nid ar werth eich tŷ.

I gloi, yn wyneb y cytundeb a gafwyd ar y gyllideb cyn y Nadolig, ni fyddwn, fel plaid, yn gwrthwynebu'r cynigion gerbron heddiw. Ond, gyda'r llu pryderon sy'n aros ynglŷn â gwahanol agweddau ar ariannu gwasanaethau llywodraeth leol, ni allwn gefnogi'r cynigion hyn.

Ann Jones: I am pleased to welcome the

Therefore, several funding challenges remain because, fundamentally, Wales is not being funded fairly. We should have a fair formula that reflects our needs as people.

I know that the Barnett formula is a dry subject to many, but, ultimately, if Wales were funded on the basis of need, then we would receive more funding in the first place. Rather than having to discuss cuts in services or raising council tax, more money would be available if Wales was equitably funded—around an additional £800 million per annum, according to one estimate.

However, in the interim—

David Davies: How can we justify more funding for Wales while parts of England are poorer than Wales?

David Lloyd: Those areas should also be funded equitably. At present, we are not being funded according to our needs. Some formulae in this place do fund us according to our needs. What we discover is that the greater your need, the more funding you receive. So, no-one would lose out, whether poor areas of England or poor areas of Wales.

In the interim, there is pressure on services because the funding is not in place. There is also pressure on councils to raise the levels of council tax—at least county councils are able to raise tax, unlike the Assembly. The fuss about the rebanding of council tax is still fresh in our memory. We welcome the money in the final budget to help pensioners who have suffered because of rebanding, but, ultimately, we need an equitable local tax system—a local income tax based on the ability to pay and not on the value of your house.

Finally, given the agreement reached on the budget before Christmas, we, as a party, will not object to the proposals before us today. However, given the many concerns that remain regarding various aspects of funding local government services, we cannot support these proposals.

Ann Jones: Yr wyf yn falch o groesawu'r

settlement, and thank the Minister for her words. The average of 5.1 per cent is a fair increase. Most people have welcomed it, including the WLGA and individual council leaders. There is money available for local authorities to continue to provide effective local services to communities. It compares favourably with the increase of 4.5 per cent announced for local authorities in England. Although local government finance has a well-deserved reputation for being complicated, dry and difficult to understand, the Minister has proved that we are able to move to a more open and transparent way of working, by publishing our figures on the internet in order that people can understand where we are coming from.

The work with the WLGA and the ways in which the partnership council has worked through the revenue support grant must be acknowledged. The Welsh Assembly Government has reaffirmed a continuing commitment to discussing with local government the new burdens and the measures that we can take to mitigate those.

Turning briefly to my local authority of Denbighshire, I am particularly pleased to welcome the increase. It represents a substantial increase for Denbighshire. I believe that the increase has arisen because, in the consultative forum on finance, we have been able to flag up the pressures and burdens that Denbighshire, in particular, faced in years gone by with the younger adults element of the standard spending assessment. I pay particular tribute to Mike Chown and Bob Hay and their team for the way that they have worked through this highly technical part of the standard spending assessment. It is very important work that has come to a successful conclusion. The results bore out what Denbighshire has been saying.

I am pleased to see the amending reports that the Minister spoke of. The Minister knows that I have talked to her about the need for effective recording of population in parts of Wales. I was pleased to welcome the Minister to a Denbighshire council meeting that I arranged to discuss the transient and mobile-home populations and the ways in which we can ensure that they are counted in

setliad, a diolchaf i'r Gweinidog am ei geiriau. Mae'r cyfartaledd o 5.1 y cant yn gynydd teg. Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi ei groesawu, gan gynnwys CLILC ac arweinwyr y cynghorau unigol. Mae arian ar gael i awdurdodau lleol ddal ati i ddarparu gwasanaethau lleol effeithiol i gymunedau. Mae'n cymharu'n ffafriol gyda'r cynnydd o 4.5 y cant a gyhoeddwyd ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr. Er bod pobl yn dueddol o feddwl am gyllid llywodraeth leol fel rhywbeth dyrys, sych ac anodd ei ddeall, mae'r Gweinidog wedi profi bod modd inni symud tuag at ffordd fwy agored a thryloyw o weithio, drwy gyhoeddi ein ffigurau ar y rhyngwyd er mwyn i bobl allu deall ein bwriadau.

Mae'r gwaith gyda CLILC a'r ffyrdd y mae'r cyngor partneriaeth wedi gweithio drwy'r grant cynnal refeniw yn rhywbeth y mae'n rhaid ei gydnabod. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau y bydd yn parhau i ymrwymo i drafod y beichiau newydd gyda llywodraeth leol a'r mesurau y gallwn eu cymryd i'w lliniaru.

Gan droi am funud at fy awdurdod lleol yn sir Ddinbych, yr wyf yn arbennig o falch o gael croesawu'r cynnydd. Mae'n golygu cynnydd sylweddol i sir Ddinbych. Credaf fod y cynnydd wedi digwydd oherwydd ein bod, yn y fforwm ymgynghorol ar gyllid, wedi tynnu sylw at y pwysau a'r beichiau y mae sir Ddinbych, yn benodol, wedi eu hwynebu yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r elfen oedolion iau yn yr asesiad o wariant safonol. Hoffwn dalu teyrnged arbennig i Mike Chown a Bob Hay a'u tîm am y ffordd y maent wedi gweithio ar yr elfen dechnegol iawn hon o'r asesiad o wariant safonol. Mae'n waith pwysig iawn sydd wedi ei gwblhau'n llwyddiannus. Mae'r canlyniadau wedi cadarnhau'r hyn y mae sir Ddinbych wedi bod yn ei ddweud.

Yr wyf yn falch o weld yr adroddiadau diwygio a grybwyllwyd gan y Gweinidog. Gŵyr y Gweinidog fy mod wedi siarad â hi ynghylch yr angen i gofnodi'r boblogaeth mewn rhannau o Gymru mewn modd effeithiol. Yr oeddwn yn falch o gael croesawu'r Gweinidog i un o gyfarfodydd cyngor sir Ddinbych a drefnwyd gennyf i drafod y poblogaethau heb gartref parhaol a'r

these formulae.

rhai sy'n byw mewn cartrefi symudol a sut y gallwn sicrhau eu bod yn cael eu cyfrif yn y fformiwlâu hyn.

3.50 p.m.

Many people in these communities are in receipt of those services and in need of those services. It is a difficult issue, and I welcome the fact that the Minister said that she would look at whether the percentage weightings for the transient populations are correct.

Mae llawer o bobl yn y cymunedau hyn yn derbyn y gwasanaethau hynny ac mae angen y gwasanaethau hynny arnynt. Mae'n fater anodd, a chroesawaf y ffaith bod y Gweinidog wedi dweud y byddai'n ystyried a oedd y pwysoliad canrannol ar gyfer y poblogaethau heb gartref parhaol yn gywir.

Putting down even tentative figures for the next few years will give local authorities an understanding of where we will be taking local authority spending over that time. For planning reasons, that is a good step forward for local authorities. I will continue to work with the Minister, the WLGA and my local authority to ensure that we can provide the local services that most of our constituents need. It is just a shame that we could not have done all of this prior to the Christmas break. However, now that the budget proposals have gone through, we understand—and I hope that our partners understand—that that was not through a lack of effort on our part; the delay was caused by the budget process. I am happy to support this settlement, and I believe that we can all work together on a sound footing for local authorities.

Bydd defnyddio hyd yn oed ffigurau petrus ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn rhoi syniad i awdurdodau lleol o'n bwriadau ar gyfer gwariant llywodraeth leol yn ystod y cyfnod hwnnw. Am resymau cynllunio, mae'n gam da ymlaen i awdurdodau lleol. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Gweinidog, CLILC a'm hawdurdod lleol i sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gwasanaethau lleol y mae eu hangen ar y rhan fwyaf o'n hetholwyr. Mae'n drueni na allem fod wedi gwneud hyn i gyd cyn toriad y Nadolig. Fodd bynnag, gan fod cynigion y gyllideb wedi eu derbyn erbyn hyn, yr ydym yn deall—a gobeithiaf fod ein partneriaid yn deall—nad oedd yn arwydd o ddiffyg ymdrech ar ein rhan; fod yr oedi wedi ei achosi gan broses y gyllideb. Yr wyf yn fodlon croesawu'r setliad hwn, a chredaf y gallwn i gyd weithio gyda'n gilydd ar sail gadarn ar ran yr awdurdodau lleol.

David Melding: The Conservative group notes the acceptance of the settlement by the WLGA as reasonable. In broad outline, that summarises our view that the settlement, as a whole, is reasonable. Our issues concern more how it is distributed and how some key pressures may affect it, particularly in future. There are key service pressures; indeed, the Minister referred to some of them. In looking at the settlement, it is important that we are confident that these are carefully calculated, and that a realistic process is used, so that, when we expect additional duties of local government, they are effectively funded.

David Melding: Mae grŵp y Ceidwadwyr yn nodi bod CLILC wedi derbyn bod y setliad yn un rhesymol. At ei gilydd, mae hynny'n crynhoi ein barn bod y setliad, ar y cyfan, yn un rhesymol. Mae ein pryderon mwyaf yn ymwneud yn bennaf â sut y mae'n cael ei ddsbarthu a sut y gall rhai pwysau allweddol effeithio arno, yn enwedig yn y dyfodol. Ceir rhai pwysau allweddol o ran y gwasanaethau; yn wir, cyfeiriodd y Gweinidog at rai ohonynt. Wrth edrych ar y setliad, mae'n bwysig inni fod yn hyderus bod y rhain wedi eu cyfrifo'n ofalus, a bod proses realistig wedi ei defnyddio, er mwyn sicrhau, pan fyddwn yn disgwyl dyletswyddau ychwanegol gan awdurdodau lleol, eu bod yn cael eu hariannu'n effeithiol.

I will mention some of the matters that have arisen in recent conversations that I have had

Soniaf am rai o'r pethau sydd wedi codi yn ystod sgysiau diweddar yr wyf wedi eu cael

with members of local councils. There are some issues that are not going to go away, and we may need to increase funding for them. Highway maintenance is something that we are all very aware of, when we reflect on the state of the roads, the existence of black spots, and the need to develop roads for economic reasons. This is a key service for people. The way in which county councils are enabled to maintain as high a standard as possible in highway maintenance and development is important, and those should not be overlooked by us concentrating on trunk roads.

Services for looked-after children are another key pressure. It is an area for which we must encourage effective planning and development of services, sometimes on a regional basis. These pressures can be very intense. Other services, such as the provision of secure accommodation for young offenders, could be offered in a more co-ordinated fashion. However, in general, quite properly, we are raising the standards that we expect in this area, and those too must be realistically funded.

On waste management, we all believe that we should be doing better. Some councils in Wales have achieved a reasonable standard—higher than the UK average—but, in general, there is an awful long way to go, and I think that most of us would acknowledge that Britain does not perform as well as the leading European countries in managing waste. We need to concentrate on this area, and recognise that it may require additional funding.

Some authorities are under particular pressure because of the way that the formula is calculated. There may be a defence on the grounds of equity, and, if so, the Minister will have to make it. Cardiff and Wrexham councils have received a relatively poor settlement, and other councils have obviously received more than 5.1 per cent. We must be aware of the fact that, in any settlement, there is inevitably quite an uneven distribution in certain respects.

gydag aelodau cynghorau lleol. Mae rhai ohonynt yn faterion nad ydynt yn mynd i ddiflannu, ac mae'n bosibl y bydd rhaid inni gynyddu'r arian a fydd ar gael ar eu cyfer. Mae cynnal priffyrdd yn rhywbeth yr ydym i gyd yn ymwybodol ohono, pan fyddwn yn meddwl am gyflwr y ffyrdd, y manau lle y ceir llawer o ddamweiniau, a'r angen i wella ffyrdd am resymau economaidd. Mae hwn yn wasanaeth allweddol i bobl. Mae'r ffordd y mae cynghorau sir yn cael eu galluogi i gynnal safon mor uchel â phosibl o ran cynnal a datblygu priffyrdd yn bwysig, ac ni ddylem eu hesgeuluso drwy ganolbwyntio ar gefnffyrdd.

Mae gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal hefyd yn bwysau allweddol arall. Mae'n faes lle y mae'n rhaid inni hybu cynllunio a datblygu gwasanaethau effeithiol, a hynny weithiau ar lefel ranbarthol. Gall y pwysau hyn fod yn rhai dwys iawn. Gellid cynnig gwasanaethau eraill, megis darpariaeth llety diogel i droseddwy'r ifanc mewn modd mwy cydlynus. Fodd bynnag, ar y cyfan, yn hollol briodol, yr ydym yn codi'r safonau yr ydym yn eu disgwyl yn y maes hwn, a rhaid iddynt hwythau hefyd dderbyn cyllid realistig.

O ran rheoli gwastraff, credwn i gyd y dylem fod yn gwneud yn well. Mae rhai cynghorau yng Nghymru wedi cyrraedd safon resymol—sy'n uwch na chyfartaledd y DU—ond, at ei gilydd, mae llawer iawn o waith i'w wneud eto, a chredaf y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn derbyn nad yw Prydain yn perfformio cystal â'r gwledydd gorau yn Ewrop o ran rheoli gwastraff. Mae angen inni ganolbwyntio ar y maes hwn a chydabod y posibilrwydd y bydd rhaid cael cyllid ychwanegol.

Mae rhai awdurdodau'n wynebu pwysau mawr oherwydd y ffordd y mae'r fformiwla'n cael ei chyfrifo. Efallai y gellir cyfiawnhau hynny ar sail cydraddoldeb, ac, os felly, bydd yn rhaid i'r Gweinidog ei gyfiawnhau. Mae cynghorau Caerdydd a Wrecsam wedi derbyn setliad cymharol wael, ac mae cynghorau eraill yn amlwg wedi derbyn mwy na 5.1 y cant. Rhaid inni sylweddoli ei bod yn anochel, mewn unrhyw setliad, fod y dosbarthiad yn weddol anwastad mewn rhai ffyrdd.

Council tax can be mentioned with regard to the settlement. I continue to believe that it is a rational tax. It is based on property, which is a common way of funding local government. However, if we want to see the yield from the tax increase too much, there is a danger that it will be undermined. There are equity problems with the tax: it is largely detached from income, unless you are very poor or in a special category. We must recognise that the amount that we can reasonably raise in a tax of this sort, that does not take a tight account of income, is limited.

In time, we will have better data on how the revaluation process has affected the yield of this tax, which is key. The Minister assumed that the yield would be pretty constant, but judging by the number of properties that have gone up a band compared with those that have gone down a band, the assumption has to be that more money is being collected through this tax at the moment. This brings us to the question of how local government uses its funding and, if it has gained more revenue this way, how that is being used responsibly. There are many arguments relating to how efficiently councils manage their budgets. I acknowledge the good practice that exists—there is a lot to build on—but, in general, we expect more of local authorities and all sorts of agencies in delivering public services, and they have to be innovative and enterprising. That is a constant challenge.

I will finish by returning to a point that I made earlier, that regional commissioning and joint-working is key. We have local authorities of various sizes, which relate to the reorganisation conducted in the mid-1990s, but there was an assumption at the time that there would be much more regional co-operation than there has been. That is an area where arrangements relating to local government finance could be strengthened.

Michael German: The fundamental problem with this local government settlement is the distribution formula that sits beyond it. At the heart of that lies the problem that it relates entirely to historic spend. Historic spend does

Gellir crybwyll y dreth gyngor o ran y setliad. Yr wyf yn parhau i gredu ei bod yn dreth resymol. Mae'n seiliedig ar eiddo, sy'n ffordd gyffredin o ariannu llywodraeth leol. Fodd bynnag, os ydym am weld yr incwm o'r dreth yn cynyddu gormod, mae perygl iddi gael ei thanseilio. Mae problemau o ran tegwch ynghlwm â'r dreth: at ei gilydd mae wedi'i hysgaru oddi wrth incwm, oni bai eich bod yn dlawd iawn neu mewn categori arbennig. Rhaid inni gydnabod bod y swm sy'n rhesymol inni ei godi drwy dreth o'r fath, nad yw'n ystyried incwm, yn gyfyngedig.

O dipyn i beth, bydd gennym well data i ddangos sut y mae'r broses ailbrisiu wedi effeithio ar incwm y dreth hon, ac mae hynny'n fater allweddol. Yr oedd y Gweinidog yn tybio y byddai'r incwm yn weddol gyson, ond o gymharu nifer yr eiddo sydd wedi symud un band i fyny gyda'r rhai sydd wedi symud un band i lawr, rhaid cymryd bod mwy o arian yn cael ei gasglu drwy'r dreth hon ar hyn o bryd. Daw hyn â ni at y cwestiwn sut y mae llywodraeth leol yn defnyddio'i harian, ac, os yw wedi derbyn mwy o refeniw fel hyn, sut y mae hwnnw'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyfrifol. Mae sawl dadl ynglŷn â pha mor effeithlon yw cynghorau wrth reoli eu cyllidebau. Yr wyf yn cydnabod bod enghreifftiau o arferion da i'w gweld—mae llawer y gellir adeiladu arno—ond, ar y cyfan, yr ydym yn disgwyl mwy gan awdurdodau lleol a phob math o asiantaethau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a rhaid iddynt fod yn arloesol a dyfeisgar. Mae hynny'n her barhaus.

Yr wyf am gloi drwy ddychwelyd at bwynt a wneuthum yn gynharach, sef bod comisiynu a chydweithio rhanbarthol yn allweddol. Mae gennym awdurdodau lleol o wahanol feintiau, sy'n deillio o'r ad-drefnu a welwyd yng nghanol y 1990au, ond tybid ar y pryd y byddai mwy o gydweithredu rhanbarthol yn digwydd na'r hyn a welwyd. Mae hwnnw'n faes lle y gellid cryfhau'r trefniadau sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol.

Michael German: Y broblem sylfaenol gyda'r setliad hwn i lywodraeth leol yw'r fformiwla ddsbarthu sydd y tu ôl iddo. Wrth wraidd hynny mae'r broblem ei fod yn gwbl seiliedig ar wariant hanesyddol. Nid yw

not reflect the needs of today. There is no better illustration of that than the way in which, this year, this inequity is reflected in the settlement.

If you look at the five local authorities which have, over the last five years, received the lowest settlements, Monmouthshire and Wrexham appear four times and the Vale of Glamorgan and Cardiff three times. That means that 18 of the 25 bottom places are occupied by the same four councils. We consistently have losers throughout Wales. The problem with this distribution formula is that these councils have to suffer the same groundhog day every year when they see this settlement before them. It is palpably inequitable.

However, I welcome the Minister's thoughts about changing some aspects of this distribution formula, particularly looking at three-year funding and rurality. We expect to see some benefits from that during the coming year, but none of that gets away from the fact that we have the same losers year in, year out, from one year to the next. That is clearly a reflection of the way that that historic spend has been built into the settlement. No-one was arguing with the proposition that authorities with poorer people ought to get more money for them, but that should not account for the annual increases being so divergent.

Huw Lewis: Mike, I challenge you only on your careless use of language. There are no losers here: we are talking about a period of several years of growth above inflation in all budgets for all authorities. You are using the word losers for your own political purposes, but it does not accurately describe the situation.

Michael German: I am sorry that you do not think that being forced to cut your council tax means that you are a loser. Looking at the figures, even Merthyr, your own council, has appeared in this losers list twice in the last five years. If you are a council that historically falls into the five lowest settlement places each year, then consistently

gwariant hanesyddol yn adlewyrchiad o anghenion heddiw. Ni cheir enghraifft well o hynny na'r ffordd y mae'r annhegwch hwn yn cael ei adlewyrchu yn y setliad eleni.

Os edrychwch ar y pum awdurdod lleol sydd, dros y pum mlynedd diwethaf, wedi derbyn y setliadau isaf, mae Sir Fynwy a Wrecsam yn ymddangos bedair gwaith a Bro Morgannwg a Chaerdydd dair gwaith. Mae hynny'n golygu bod 18 o'r 25 safle isaf yn cael eu llenwi'n gyson gan yr un pedwar cyngor. Mae gennym gollwyr ledled Cymru dro ar ôl tro. Y drwg gyda'r fformiwla ddosbarthu hon yw bod rhaid i'r cynghorau hyn ddiodeff yr un hirlwm bob blwyddyn pan fyddant yn gweld y setliad sydd wedi ei gynllunio ar eu cyfer. Mae hynny'n amlwg yn annheg.

Fodd bynnag, croesawaf awgrymiadau'r Gweinidog ynglŷn â newid rhai agweddau ar y fformiwla ddosbarthu, yn enwedig ystyried cyllido tair blynedd a natur wledig cynghorau. Yr ydym yn disgwyl gweld rhai manteision yn deillio o hynny yn ystod y flwyddyn sy'n dod, ond nid yw hynny'n cuddio'r ffaith ein bod yn gweld yr un cynghorau ar eu colled flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hynny'n amlwg yn adlewyrchiad o'r ffordd y mae'r gwariant hanesyddol hwnnw wedi ei ymgorffori yn y setliad. Nid oedd neb yn dadlau gyda'r gosodiad y dylai awdurdodau sydd â phobl dlotach dderbyn mwy o arian ar eu cyfer, ond ni ddylai hynny olygu bod y cynnydd blynyddol mor amrywiol.

Huw Lewis: Mike, yr wyf am eich herio oherwydd eich defnydd diofal o iaith yn unig. Nid oes neb ar eu colled yma: yr ydym yn sôn am gyfnod o sawl blwyddyn o dwf uwchlaw chwyddiant ym mhob cyllideb i bob awdurdod. Yr ydych yn defnyddio'r gair collwyr at eich dibenion gwleidyddol eich hun, ond nid yw'n ddisgrifiad cywir o'r sefyllfa.

Michael German: Mae'n ddrwg gennyf nad ydych o'r farn bod cael eich gorfodi i dorri'ch treth gyngor yn golygu eich bod yn gollwr. O edrych ar y ffigurau, mae hyd yn oed Merthyr, eich cyngor chi, wedi ymddangos yn y rhestr hon o gollwyr ddwywaith yn y pum mlynedd diwethaf. Os ydych yn gyngor sy'n hanesyddol yn un o'r

over those five years, those councils will be losing out in the divergence between themselves and the rest. There is no reflection beyond the fact that it is based upon historic spend. People have lost out because you cannot make the shift, as you are always reflecting what you spent in previous years. That is why they are losing out.

Glyn Davies: I was interested to hear Huw Lewis asking you about the number of losers. What is your view on those people on low fixed incomes who have seen their council tax rocket by almost 100 per cent since Labour came to power? I would have thought that there would be as many of those, in percentage terms, in the constituency of Huw Lewis as of any Assembly Member. Do you not think that all of those are losers?

4.00 p.m.

Michael German: Yes. Furthermore, in terms of the services that local authorities must provide, the purpose of this settlement is to provide some equity to provide quality services for everyone. If that were to be measured in terms of the quality of services that people will be getting, this reflection of the settlement would be entirely different. As you rightly say, there are pockets of poverty in every local authority area. This settlement clearly does not reflect the needs of councils as they are today. That is why you would expect, this year as in every year, to see some losers, some gainers, some who do better, and some who do worse. We are talking about consistency of approach, and it is seeing the same losers at the bottom of the league every year that makes you realise that something is wrong.

The Minister felt that she had to take the floor out of the settlement this year. The floor was there because we had two earthquakes last year: the revaluation and the changes to the funding of social services. Both adjustments made a significant change to local authorities. Having put in that one-off settlement last year in order to protect them,

pum safle isaf o ran y setliad bob blwyddyn, yna'n gyson dros y pum mlynedd hynny, bydd y cynghorau hynny ar eu colled yn y gwahaniaeth rhyngddynt a'r gweddill. Ni roddir ystyriaeth y tu hwnt i'r ffaith ei fod yn seiliedig ar wariant hanesyddol. Mae pobl wedi bod ar eu colled oherwydd na allwch newid, gan eich bod bob amser yn adlewyrchu'r hyn yr ydych wedi ei wario yn y blynyddoedd blaenorol. Dyna pam y maent ar eu colled.

Glyn Davies: Yr oedd yn ddiddorol clywed Huw Lewis yn gofyn i chi am nifer y collwyr. Beth yw eich barn am y bobl hynny ar incymau isel sefydlog sydd wedi gweld eu treth gyngor yn codi bron 100 y cant ers i Lafur ddod i rym? Byddwn wedi credu y byddai cynifer o'r rheini, o ran canran, yn etholaeth Huw Lewis ag yn etholaeth unrhyw Aelod Cynulliad. Oni chredwch fod pob un o'r rheini'n gollwyr?

Michael German: Digon gwir. Ymhellach, o ran y gwasanaethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu, pwrpas y setliad hwn yw sicrhau rhywfaint o degwch er mwyn darparu gwasanaethau o safon i bawb. Pe mesurid hynny yn ansawdd y gwasanaethau y bydd pobl yn eu derbyn, byddai'r adlewyrchiad hwn o'r setliad yn gwbl wahanol. Mae'r hyn a ddywedwch yn wir—ceir pocedi o dlodi yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'n amlwg nad yw'r setliad hwn yn adlewyrchu anghenion cynghorau fel ag y maent heddiw. Dyna pam y byddech yn disgwyl, eleni fel bob blwyddyn arall, gweld rhai collwyr, rhai enillwyr, rhai sy'n gwneud yn well a rhai sy'n gwneud yn waeth. Yr ydym yn siarad am agwedd gyson, a gweld y collwyr ar waelod y gynghrair bob blwyddyn sy'n gwneud i chi sylweddoli bod rhywbeth o'i le.

Yr oedd y Gweinidog yn teimlo bod rhaid iddi gael gwared â therfyn isaf y setliad eleni. Yr oedd y terfyn isaf yno oherwydd i ni gael dau ddaeargryn y llynedd: yr ailbrisio a'r newidiadau yn y drefn o gyllido gwasanaethau cymdeithasol. Achosodd y ddau hynny newid sylweddol i'r awdurdodau lleol. Ar ôl ychwanegu'r setliad untro hwnnw

and having seen the consistency of the problems that local authorities are facing as a result of those shifts and changes, it would have been useful to have kept it in.

In respect of the business grants initiative, the Minister has today announced £18 million for the scheme, which is welcome. I am reassured that she is not increasing the floors, and she has indicated to us the changes that will have to be made. However, it would have been useful to see the distribution between authorities before today's announcement. If possible, the Minister might in future let us see those in advance so that we can make judgments about which of the authorities using the scheme are benefiting the least from it and which are benefiting the most.

The issue of revaluation was a spectre hanging over this debate last year, and that is still the case this year. Some local authorities are still struggling to overcome the problems that revaluation caused. It is clear that the floor that we were discussing should have been retained. After all, the impact of the reaction that local authorities have had to give will take more than one year to be felt.

From this settlement, we wanted to see some forward look about the change that would be necessary to provide some equity and some removal of the increasing divergence between local authorities in the way that the settlement works.

Karen Sinclair: Formula changes impacted hugely on the Wrexham and Cardiff settlements last year, so much so that the Minister had to introduce the floor, and I thank her sincerely for that. However, the percentage uplift figure of 3.7 per cent for Wrexham this year is not a true representation of the uplift in relation to that shown for other local authorities, and we must not forget that. In reality, the uplift for Wrexham, excluding the floor money of the last financial year, is 4.9 per cent, which is very much the average uplift.

y llynedd er mwyn eu gwarchod, ac ar ôl gweld cysondeb y problemau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu yn sgîl y symudiadau a'r newidiadau hynny, byddai wedi bod yn fuddiol cadw hwnnw.

O ran y fenter grantiau busnes, mae'r Gweinidog heddiw wedi cyhoeddi £18 miliwn ar gyfer y cynllun, sy'n dra derbyniol. Caf fy sicrhau nad yw hi'n cynyddu'r terfynau isaf, a dywedodd wrthym beth yw'r newidiadau y bydd yn rhaid eu gwneud. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn ddefnyddiol gweld y dosbarthiad rhwng awdurdodau cyn y cyhoeddiad heddiw. Yn y dyfodol, os yw'n bosibl, byddai'n dderbyniol pe bai'r Gweinidog yn gadael inni weld y rheini ymlaen llaw, er mwyn inni bwysu a mesur pa rai o'r awdurdodau sy'n defnyddio'r cynllun sy'n elwa leiaf ohono a pha rai sy'n elwa fwyaf.

Yr oedd ailbrisio yn fwgan a fwriodd ei gysgod dros y ddadl hon y llynedd, ac mae'r un peth yn wir eto eleni. Mae rhai awdurdodau lleol yn dal i ymlafnio i oresgyn y problemau a achoswyd yn sgîl ailbrisio. Mae'n amlwg y dylid bod wedi cadw'r terfyn isaf yr oeddem yn ei drafod. Wedi'r cyfan, bydd effaith yr ymateb y bu'n rhaid i awdurdodau ei roi yn cymryd mwy na blwyddyn i'w themlo.

Yn y setliad hwn, yr oeddem wedi gobeithio gweld rhyw ragolwg ynghylch y newid y byddai ei angen er mwyn darparu rhywfaint o degwch a chael gwared â pheth o'r amrywiaeth sy'n gynyddol rhwng awdurdodau lleol yn y modd y mae'r setliad yn gweithio.

Karen Sinclair: Cafodd newidiadau yn y fformiwla effaith aruthrol ar setliadau Wrecsam a Chaerdydd y llynedd, i'r fath raddau nes y bu'n rhaid i'r Gweinidog gyflwyno'r terfyn isaf, ac yr wyf yn diolch o waelod calon iddi am hynny. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd o 3.7 y cant, o ran ffigur y ganran, ar gyfer Wrecsam eleni'n adlewyrchiad teg o'r cynnydd mewn perthynas â'r hyn a ddangosir gydag awdurdodau lleol eraill, a dylem gofio hynny. Mewn gwirionedd, 4.9 y cant yw'r cynnydd i Wrecsam, heb gynnwys arian terfyn isaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf, sy'n debyg

Can the Minister assure me that formula changes in future do not impact on any local authority in a single financial year to the extent that it finds itself in that sort of position again? This is an important issue for the Wrexham local authority. Mike German used the word 'earthquake', and, for the Wrexham local authority, it did feel like an earthquake last year. In making that contribution, I just wanted to put this year's percentage uplift into perspective.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn cydnabod na all unrhyw setliad i lywodraeth leol ymateb i bob galwad ac y bydd gwahanol gynghorau'n teimlo eu bod wedi cael cam o dro i dro. Nid y cynnydd yn unig sy'n bwysig, ond y galwadau sydd ar y gwasanaethau ar y llawr.

Mae darllen adroddiad yr is-grŵp gwariant yn atgoffa rhywun o'r pwysau gwirioneddol sydd ar wasanaethau llywodraeth leol. Mae'n rhaid i'r fformiwla a'r dangosyddion a ddefnyddir, a'r pwys a roddir arnynt, adlewyrchu'r wir gost o gyflwyno gwasanaeth mewn unrhyw ardal. Ni waeth pa mor dlawd neu ba mor gyfoethog yw ardal, cost y gwasanaeth sy'n bwysig. Mae'r gost, er enghraifft, o waredu ysbwriel yn dibynnu bron yn llwyr ar y pellter y mae'n rhaid i'r lorïau deithio. Ni chaiff dwysedd poblogaeth ei gydnabod yn fformiwla gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, er ei bod yn amlwg i bawb fod gweithwyr gofal mewn ardal wledig yn treulio amser digynnyrch yn mynd o un lle i'r llall. Nifer y cleifion yw'r ffactor pwysicaf, ond mae'n amlwg bod gwledigrwydd yn cynyddu costau darparu un uned o wasanaeth, a rhaid i'r fformiwlâu yn y dyfodol adlewyrchu hynny.

Huw Lewis: Here we have again the great and usually unchallenged myth of rurality and sparsity of population increasing costs, and so on. Without any evidence base, we have statements that, for instance, the only cost associated with picking up rubbish is the distance between houses. That is errant nonsense, when the density of population is the issue—it is the opposite of what you are

iawn i'r cynnydd cyfartalog.

A yw'r Gweinidog yn gallu fy sicrhau na fydd newidiadau yn y fformiwla i'r dyfodol yn effeithio ar ddim un awdurdod lleol mewn un flwyddyn ariannol, i'r graddau y bydd yn canfod ei hun yn y math hwnnw o sefyllfa eto? Mae hwn yn fater pwysig i awdurdod lleol Wrecsam. Defnyddiodd Mike German y gair 'daeargryn', ac, yn awdurdod lleol Wrecsam, yr oedd yn teimlo fel daeargryn y llynedd. Wrth wneud y cyfraniad hwnnw, yr unig beth yr oeddwn yn ceisio ei wneud oedd rhoi'r cynnydd canrannol eleni mewn cyd-destun.

Alun Ffred Jones: I acknowledge that no local government settlement can respond to every demand and that some councils will feel let down from time to time. It is not just the increase that is important, but the demands on services at grass-roots level.

Reading the expenditure sub-group report reminds one of the considerable pressure on local government services. The formula and indicators used, and the importance placed on them, must reflect the true cost of introducing services in any area. No matter how poor or wealthy an area is, the cost of the service is the important factor. For example, the cost of refuse collection depends almost entirely on the distance that the lorries have to travel. Density of population is not acknowledged in the social services formula, for example, although it is clear that care workers in a rural area spend unproductive time travelling from one place to another. The number of patients is the most important factor, but it is obvious that rurality increases the costs of providing one unit of service, and future formulas must reflect that.

Huw Lewis: Dyma ni eto'n clywed yr un hen stori sydd, fel arfer, yn cael ei hadrodd heb ei herio, am natur wledig a theneurwydd y boblogaeth yn cynyddu'r costau, ac yn y blaen. Heb ddim sylfaen dystiolaeth, clywn ddatganiadau, er enghraifft, mai'r unig gost sydd ynghlwm wrth gasglu ysbwriel yw'r pellter rhwng tai. Ffwlbri noeth yw hynny, pan drafodir dwysedd poblogaeth—mae'n

saying. We have never had an investigation of the facts behind these sparsity payments and rurality, and that is what we need. We need it where it is a provable need, and we need to junk it where it is proved to be wrong.

Alun Ffred Jones: Gwnaeth Cyngor Gwynedd, pan oeddwn yn arweinydd ar y cyngor, gryn dipyn o waith yn y maes hwn. Yr oedd yn amlwg, er enghraifft, ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac ym maes casglu ysbwriel, fod cost y gwasanaethau mewn ardal wledig fel Meirionnydd ddwywaith a theirgwaith yn fwy na chost eu cynnig mewn ardal fwy poblog fel Arfon. Mae'r dystiolaeth yno, Mr Lewis. Dylech ofyn i'ch cyngor lleol wneud gwaith tebyg.

Nid oes cydnabyddiaeth yn y setliad i'r pwysau cynyddol ym meysydd addysg arbennig a digartrefedd—dau faes sydd bellach yn gosod pwysau aruthrol ar gyllidebau cynghorau.

Mae'n rhyfedd, mewn gwlad sy'n tyfu'n gyfoethocach—yn ôl y Llywodraeth—bob dydd a phob blwyddyn, fod mwy a mwy o alwadau ar ein gwasanaethau cymdeithasol i gartrefu plant a phobl ifanc mewn sefydliadau y tu allan i'r siroedd ac i ymateb i ddigartrefedd. Nid wyf yn beio'r Gweinidog am hynny, ond mae'n rhywbeth i ni ei ystyried wrth edrych ymlaen ac wrth inni wynebu problemau ychwanegol wrth i'n poblogaeth heneiddio ac wrth i'r tueddiadau presennol a'r galwadau cynyddol yn y meysydd yr wyf wedi eu henwi barhau.

Jenny Randerson: The Minister talks up her settlement, but, although it looks good on paper, it hides a multitude of problems. Those problems are in the cost pressures that all local authorities face. All councils, for example, face exceptional inflation pressures on higher gas and electricity bills, which will come through in the next few months. There is an exceptional level of inflation on bus contracts for schools that must be absorbed into local education authority budgets. There are the problems that all councils face in relation to pensions, reaching waste management targets, and children's services,

gwbl groes i'r hyn a ddywedwch. Nid ydym erioed wedi cael ymchwiliad i'r ffeithiau y tu ôl i'r taliadau teneurwydd poblogaeth hyn a natur wledig, a dyna'n union sydd ei angen. Mae ei angen lle y mae'n angen y gellir ei brofi, ac mae angen inni ei waredu pan brofir ei fod yn anghywir.

Alun Ffred Jones: Gwynedd Council, when I was council leader, did a great deal of work in this area. It was obvious, for example, in social services and refuse collection, that the cost of providing these services in a rural area such as Meirionnydd was two or three times higher than it was in a more populous area such as Arfon. The evidence is there, Mr Lewis. You should ask your local council to carry out similar work.

There is no acknowledgment in the settlement of the increasing pressures of special educational needs and homelessness—two areas that now place significant pressure on council budgets.

It is strange that, in a country that is becoming wealthier—according to the Government—every day and every year, there are increasing demands on our social services to house children and young people in institutions outside their authority areas and to respond to homelessness. I am not blaming the Minister for that, but it is something that we need to consider as we look to the future and as we face additional problems brought about by an older population and by the possible continuation of current trends and the increased demands in the areas that I mentioned.

Jenny Randerson: Mae'r Gweinidog yn canmol ei setliad, ond, er ei fod yn edrych yn dda ar bapur, mae'n cuddio lluo o broblemau. Mae'r problemau hyn yn y pwysau o ran costau y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu. Mae pob cyngor, er enghraifft, yn wynebu pwysau chwyddiant eithriadol ar filiau nwy a thrydan uwch, a welir yn ystod y misoedd nesaf. Bu cynnydd aruthrol mewn contractau bysiau i ysgolion, a rhaid ymgorffori'r rhain yng nghyllidebau awdurdodau lleol. Ceir y problemau y mae pob cyngor yn eu hwynebu o ran pensiynau, cyrraedd targedau rheoli gwastraff, a

which have had mixed reviews throughout Wales. There have also been cuts from the Labour Assembly Government in the Supporting People grant for the second year in succession. Also, we have just heard about highway maintenance.

The Welsh Local Government Association acknowledges in its statement, to which the Minister referred, that Cardiff and Wrexham will find the settlement ‘particularly challenging’. One wonders what unites these two authorities, if it is not the fact that they happen to be under Liberal Democrat control. This looks like a good settlement, therefore, simply because so many special grants have been included in the core. If you strip out the special grants, which were once separate and are now in the core of the settlement for local authorities, you will see a different picture; it is not as rosy as the picture painted by the Minister.

Last year, Cardiff got a bad settlement. It has had a bad settlement three times in the last five years—it has been at the bottom. It is right at the bottom this year. Last year, it was mitigated to a certain extent by the floor that the Minister put in, which meant that no authority was to get less than 3.5 per cent. That was a £2.7 million lifesaver for Cardiff council. However, there is no floor this year, and, in a year with an average settlement of 5.1 per cent, Cardiff has 3.7 per cent.

4.10 p.m.

The Minister has said that councils need 4.3 per cent in order to keep in line with inflation. Those are the Minister’s figures, so, if she is thinking of capping Cardiff this year, as she threatened to do last year, I hope that she will bear in mind that she cannot cap it at the minus increase in council tax—Cardiff had to put its council tax down last year to keep in line with the Minister’s guidelines. This year, I hope that she will take account of the fact that she is giving it less than she says it needs to cover inflation. The council is £2 million short, in practical terms, of what she says it needs.

gwasanaethau plant, a gafodd adolygiadau cymysg ledled Cymru. Mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad hefyd wedi tocio’r grant Cefnogi Pobl am yr ail flwyddyn yn olynol. Hefyd, yr ydym newydd glywed am gynnal a chadw priffyrdd.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod yn ei datganiad, y cyfeiriwyd ato gan y Gweinidog, y bydd Caerdydd a Wrecsam yn cael y setliad yn un ‘arbennig o anodd’. Mae rhywun yn meddwl tybed beth sy’n gyffredin rhwng y ddau awdurdod hyn, heblaw’r ffaith eu bod yn digwydd bod dan reolaeth y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae hwn yn ymddangos yn setliad da, felly, ond dim ond oherwydd bod cynifer o grantiau arbennig wedi eu cynnwys yn y craidd. Dilêwch y grantiau arbennig, a oedd unwaith ar wahân ac sy’n awr yng nghraidd y setliad ar gyfer awdurdodau lleol, ac fe welwch ddarlun tra gwahanol; nid yw mor berffaith â’r darlun a beintiwyd gan y Gweinidog.

Y llynedd, cafodd Caerdydd setliad gwael. Cafodd setliad gwael dair gwaith yn y pum mlynedd diwethaf—mae wedi bod tua’r gwaelod. Mae ar y gwaelod un eleni. Y llynedd, lliniarwyd rhywfaint ar y sefyllfa gan y terfyn isaf a roddwyd gan y Gweinidog, a olygodd nad oedd dim un awdurdod i gael llai na 3.5 y cant. Yr oedd hynny’n £2.7 miliwn a achubodd groen cyngor Caerdydd. Fodd bynnag, nid oes dim terfyn isaf eleni, ac, mewn blwyddyn sydd â setliad ar gyfartaledd o 5.1 y cant, 3.7 y cant sydd gan Gaerdydd.

Dywedodd y Gweinidog fod angen 4.3 y cant ar gynghorau er mwyn cyd-fynd â chwyddiant. Ffigurau’r Gweinidog yw’r rheini, felly, os yw hi’n ystyried capio Caerdydd fel y bygythiodd y llynedd, gobeithio y bydd hi’n cofio na all hi ei gapio ar y cynnydd minws yn y dreth gyngor—bu’n rhaid i Gaerdydd ostwng ei threth gyngor y llynedd i gyd-fynd â chanllawiau’r Gweinidog. Eleni, gobeithiaf y bydd yn ystyried y ffaith ei bod yn rhoi llai i’r ddinas nag y mae hi’n dweud bod ei angen arni ar gyfer chwyddiant. Mae’r cyngor £2 filiwn yn brin, ar lefel ymarferol, o’r hyn y mae hi’n dweud bod ei angen arno.

Last year, she threatened capping on a unique system, which led to a decrease in council tax. That was difficult to justify because, the previous year, the Labour administration increased council tax by over 11 per cent, and because this is the only time that the system has been applied anywhere in the UK. Cardiff council tax payers are still badly hit by rebanding, and they face what is, by far, the worst situation in Wales. The additional £100 for people moving up a second band this year, which the opposition parties forced on the Labour Government, is welcome, but it does not deal with the whole problem. When increasing council tax, local authorities must take into account what is acceptable and fundable by people living in their cities and towns. Cardiff faces particular pressures next year, not just its regular pressure, which is never funded properly, of having to provide the services of a capital city. It faces particular pressures because it is still in recovery, for example, in its social services department. Years of underfunding, maladministration and neglect by the previous Labour administration led to the most appalling inspection report, and that sort of thing is not turned around overnight. The social services department has done a very good job of turning itself around since that report, but it still has some way to go. There has been an unprecedented demand this year in children's services, and that is likely to continue. The new index of deprivation—

Y llynedd, bygythiodd gapio gyda system unigryw, a esgorodd ar ostyngiad yn y dreth gyngor. Yr oedd yn anodd cyfiawnhau hynny oherwydd, y flwyddyn flaenorol, yr oedd y weinyddiaeth Lafur wedi cynyddu'r dreth gyngor dros 11 y cant, ac oherwydd mai dyma'r unig dro i'r system gael ei defnyddio yn unrhyw ran o'r DU. Mae trethdalwyr Caerdydd yn dal i ddiodef yn enbyd yn sgîl ailfandio, ac maent yn wynebu'r sefyllfa waethaf o bellffordd yng Nghymru. Croesewir y £100 ychwanegol ar gyfer pobl sy'n symud i fyny ail fand eleni—cam a orfodwyd ar y Llywodraeth Lafur gan y gwrthbleidiau—ond nid yw'n delio â'r broblem yn ei chyfanrwydd. Wrth gynyddu'r dreth gyngor, rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr hyn sy'n dderbyniol ac yn ariannol bosibl gan bobl sy'n byw yn eu dinasoedd a'u trefi. Mae Caerdydd yn wynebu pwysau arbennig y flwyddyn nesaf, nid ei phwysau arferol yn unig, nas ariennir yn ddigonol byth, o orfod darparu gwasanaethau prifddinas. Mae'n wynebu pwysau penodol oherwydd ei bod yn dal i geisio dod ati ei hun, er enghraifft, yn ei hadran gwasanaethau cymdeithasol. Arweiniodd blynyddoedd o dangyllido, camweinyddu ac esgeulustod gan y weinyddiaeth Lafur flaenorol at adroddiad arolygu trychinebus, ac nid oes modd unioni sefyllfa o'r fath dros nos. Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi cymryd camau breision i'w hadfer ei hun ers yr adroddiad hwnnw, ond mae peth gwaith eto i'w wneud. Eleni bu galw nas gwelwyd o'r blaen ym maes gwasanaethau plant, ac mae hynny'n debygol o barhau. Mae'r mynegai amddifadedd newydd—

The Presiding Officer: Order. You have had over five minutes. I call the Minister to reply.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych wedi cael dros bum munud. Galwaf ar y Gweinidog i ateb.

The Finance Minister (Sue Essex): I am aware that I have a short space of time, so I will try to get through the points fairly quickly. I thank Dai for his point about the budget being agreed and that money for local government was identified in the budget that went through. A couple of Members raised collaboration; you will know that the First Minister launched 'Making the Connections'. We are doing our best to support that; there is an improvement fund of around £3 million,

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Sylweddolaf mai ychydig o amser sydd gennyf, felly fe geisïaf fynd drwy'r pwyntiau'n weddol gyflym. Diolchaf i Dai am ei bwynt ynghylch bod cytuno wedi bod ar y gyllideb a bod arian ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei glustnodi yn y gyllideb a basiwyd. Cyfeiriodd dau Aelod at gydweithio; fe wyddoch i'r Prif Weinidog lansio 'Creu'r Cysylltiadau'. Yr ydym yn gwneud ein gorau i gefnogi hynny; ceir

and Value Wales has been set up, as well as Public Service Management Wales. These measures are intended to support the good work that Welsh local government, the NHS and other organisations are doing on collaboration.

Ann was absolutely right about all the work that goes into this during the year. A large number of people contribute to this; the reports do not just appear. I thank those people, and my own officials, who work very hard and fairly to get this done. The point about accurate figures on population was also raised. That is crucial because it is the basis on which the allocation is made, and we will work with Denbighshire and National Statistics to ensure that that happens.

David Melding used the term 'reasonable', and people see this settlement in that context. Many of the things that he said are the subject of collaborative work. We are working together with local government to try to ensure collaboration on issues such as looked-after children.

In terms of council tax, as a Government, we give a lot more to local government in Wales than that which is given in England, and that is one of the principal reasons why council tax levels are still considerably lower here than they are across the border. The council tax base is assessed and taken into account when we make the revenue support grant allocations. Jenny does not seem to understand that point after all these years, but that is the way it happens.

On your numerous points, Mike, you raised issues that you have had years to raise, particularly when we were in a partnership Government. You sit on all the appropriate bodies, such as the partnership council and the consultative forum on finance where all this is agreed, and yet you make those points. It is quite extraordinary that you can stand up and do that. The reason why you do not have the distribution of local authority business grants initiatives by now is that we cannot do that until the end of this financial year, when we will know what the spending patterns are.

cronfa wella o tua £3 miliwn, a sefydlwyd Gwerth Cymru, yn ogystal â Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Bwriad y mesurau hyn yw cefnogi'r gwaith da y mae llywodraeth leol Cymru, y GIG a sefydliadau eraill yn ei wneud o ran cydweithredu.

Yr oedd Ann yn llygad ei lle pan soniodd am yr holl waith y mae hyn yn ei olygu yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o bobl yn cyfrannu at hyn; nid yw'r adroddiadau'n ymddangos ohonynt eu hunain. Carwn ddiolch i'r bobl hynny, a'm swyddogion i fy hun, sy'n gweithio'n galed iawn ac yn deg i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud. Cyfeiriwyd hefyd at ffigurau cywir ynglŷn â'r boblogaeth. Mae hyn yn hollbwysig, oherwydd dyma'r sylfaen ar gyfer gwneud y dyraniad, a byddwn yn gweithio gyda sir Ddinbych a'r Ystadegau Gwladol i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Defnyddiodd David Melding y gair 'rhesymol', ac mae pobl yn gweld y setliad hwn yn y cyd-destun hwnnw. Mae llawer o'r hyn a ddywedodd yn destun gwaith ar y cyd. Yr ydym yn cydweithio gyda llywodraeth leol i geisio sicrhau cydweithredu ar faterion megis plant sy'n derbyn gofal.

O ran y dreth gyngor, fel Llywodraeth, yr ydym yn rhoi llawer mwy i lywodraeth leol yng Nghymru nag a roddir yn Lloegr, a dyna un o'r prif resymau pam mae lefelau'r dreth gyngor yn dal i fod yn sylweddol is yma nag y maent dros y ffin. Asesir ac ystyrir sylfaen y dreth gyngor pan ddyrannwn y grantiau cefnogi refeniw. Nid yw Jenny fel pe bai'n deall y pwynt hwnnw wedi'r holl flynyddoedd hyn, ond dyna'r ffordd y mae'n digwydd.

Ynghylch y pwyntiau niferus a godwyd gennych, Mike, cyfeiriasoch at bynciau y cawsoch flynyddoedd i'w codi, yn enwedig pan oeddem mewn Llywodraeth bartneriaeth. Yr ydych yn eistedd ar y cyrff priodol i gyd, megis y cyngor partneriaeth a'r fforwm ymgynghorol ar gyllid lle y mae cytuno ar hyn oll, ond er hynny oll yr ydych yn dal i wneud y pwyntiau hyn. Mae'n gwbl anhygoel eich bod yn gallu sefyll ar eich traed a gwneud hynny. Y rheswm pam nad yw dosbarthiad cynlluniau grantiau busnes yr awdurdodau lleol gennych erbyn hyn yw na

allwn wneud hynny tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, pan fyddwn yn gwybod beth yw'r patrymau gwariant.

Quickly, I thank Karen for her point, because she clearly said that, without the introduction of the floor last year, the comparative growth for both Wrexham and Cardiff would have been virtually what the average is. The maths is pretty clear here. Jenny, you do this every single year. You go to the final settlement and say, 'This is shocking, these figure are not right'. When I say 5.1 per cent, it is a comparator, taking those special grants out of the base. I would not say that it was a 5.1 per cent increase if it was not a fair comparator.

Yn gryno, hoffwn ddiolch i Karen am ei phwynt, gan iddi ddweud yn eglur ddigon, pe na bai'r terfyn isaf wedi ei gyflwyno y llynedd, y byddai twf cymharol Wrecsam a Chaerdydd wedi bod yn dwf cyfartalog fwy neu lai. Mae'r symiau'n eithaf clir yn hyn o beth. Jenny, byddwch yn gwneud hyn bob blwyddyn yn ddi-ffael. O weld y setliad terfynol byddwch yn dweud, 'Mae hyn yn waradwyddus, nid yw'r ffigurau hyn yn gywir'. Pan ddywedaf 5.1 y cant, cymharydd ydyw, gan dynnu'r grantiau arbennig hynny o'r sylfaen. Ni ddywedwn ei fod yn gynnydd o 5.1 y cant pe na bai'n gymharydd teg.

Jenny Randerson: Will you take an intervention?

Jenny Randerson: A wnewch dderbyn ymyriad?

Sue Essex: No, let me finish. I also do not think that it is fair to say that we are picking on Liberal councils, especially as I believe that you cannot really describe Wrexham as a 'liberal' council. What I would say is the fair point that Karen made, which is that it is extremely difficult for local authorities, when they get sudden, large changes in their allocation, to absorb that in any one year. We are working with Welsh local government and through the consultative forum on finance to look at elements of the formula, but I take on board the point that sudden changes make it extremely difficult for councils to adapt.

Sue Essex: Na wnaif, gadewch imi orffen. Ni chredaf ychwaith ei bod yn deg dweud ein bod yn pigo ar gynghorau Rhyddfrydol, yn arbennig felly gan nad wyf yn credu y gallwch ddweud mewn difrif calon fod Wrecsam yn gyngor 'rhyddfrydol'. Yr hyn a ddywedwn yw'r pwynt teg a wnaeth Karen, sef pan wneir newidiadau sydyn ac enfawr i ddyraniadau awdurdodau lleol, ei bod yn eithriadol o anodd iddynt gymathu hynny yn ystod unrhyw flwyddyn unigol. Yr ydym yn gweithio gyda llywodraeth leol Cymru a thrwy'r fforwm ymgynghorol ar gyllid i edrych ar elfennau o'r fformiwla, ond yr wyf yn derbyn y pwynt bod newidiadau sydyn yn ei gwneud yn hynod anodd i gynghorau ymaddasu.

I thank everyone for their comments, and I hope that we will all come together in approving this much-needed settlement.

Diolch i bawb am ei sylwadau, a gobeithiaf y daw pawb ohonom ynghyd i gymeradwyo'r setliad hwn y mae gwir angen amdano.

Cynnig (NDM2760): O blaid 29, Ymatal 11, Yn erbyn 17.

Motion (NDM2760): For 29, Abstain 11, Against 17.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David

Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Davies, Glyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Laura Anne
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

*Cynnig (NDM2761): O blaid 29, Ymatal 11, Yn erbyn 17.
 Motion (NDM2761): For 29, Abstain 11, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Laura Anne
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

*Cynnig (NDM2762): O blaid 29, Ymatal 11, Yn erbyn 16.
 Motion (NDM2762): For 29, Abstain 11, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Laura Anne
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Mesur Llywodraeth Cymru The Government of Wales Bill

<p>Motion (NDM2763): to propose that</p> <p><i>the National Assembly for Wales</i></p> <p><i>notes the publication of the Government of Wales Bill, which has received its Second Reading in the House of Commons.</i></p> <p>Amendment 1 in the name of Lisa Francis. Insert at end of motion:</p> <p><i>and deploras the proposed changes to the method of election to the National Assembly, whereby candidates will be excluded from contesting a constituency election if they appear on a regional list.</i></p> <p>Amendment 2 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:</p> <p><i>believes that Wales should have a full legislative parliament as proposed by the Richard commission by 2011.</i></p> <p>Amendment 3 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:</p> <p><i>believes that a referendum on gaining full legislative powers should be triggered only by a simple majority vote in the Assembly.</i></p> <p>Amendment 4 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:</p>	<p>Cynnig (NDM2763): cynnig bod</p> <p><i>Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i></p> <p><i>yn nodi cyhoeddi Mesur Llywodraeth Cymru, a gafodd ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.</i></p> <p>Gwelliant 1 yn enw Lisa Francis. Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:</p> <p><i>ac yn gresynu at y newidiadau arfaethedig i'r dull o ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol, lle na fydd ymgeiswyr yn cael ymladd etholiad etholaethol os ydynt yn ymddangos ar restr ranbarthol.</i></p> <p>Gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p> <p><i>yn credu y dylai fod gan Gymru senedd ddeddfwriaethol lawn fel y cynigiwyd gan gomisiwn Richard erbyn 2011.</i></p> <p>Gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p> <p><i>yn credu y dylai refferendwm ar ennill pwerau deddfu llawn gael ei sbarduno gan ddim ond pleidlais fwyafrifol syml yn y Cynulliad.</i></p> <p>Gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y</p>
---	--

cynnig:

believes that the composition of committees should be a matter for the Assembly's Standing Orders rather than being laid down in statute.

yn credu y dylai cyfansoddiad y pwyllgorau fod yn fater i Reolau Sefydlog y Cynulliad yn hytrach na chael ei bennu drwy statud.

Amendment 5 in the name of Jocelyn Davies.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 5 yn enw Jocelyn Davies.
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern that the proposed ban on dual candidacy is politically motivated and operates outside international democratic norms, and supports the view of the Electoral Commission that the case for change has not been made.

yn mynegi pryder mai cymhelliant gwleidyddol sydd y tu ôl i'r gwaharddiad a gynigir ar ymgeisio deuol a'i fod yn gweithredu y tu allan i normau democrataidd rhyngwladol, ac yn cefnogi barn y Comisiwn Etholiadol nad yw'r ddadl o blaid newid wedi argyhoeddi.

Amendment 6 in the name of Jocelyn Davies.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 6 yn enw Jocelyn Davies.
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the system of election to the National Assembly should be a single transferable vote, and believes that the current requirement for Assembly constituencies to be coterminous with Parliamentary constituencies should be removed.

yn credu mai pleidlais drosglwyddadwy sengl ddylai'r system ethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod ac yn credu y dylid dileu'r gofyniad presennol ar i etholaethau'r Cynulliad rannu'r un ffiniau ag etholaethau seneddol.

Amendment 7 in the name of Lisa Francis.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 7 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

notes the extensive criticism (including that of the independent Electoral Commission) which has been made regarding the proposals to alter the method of election to the National Assembly, whereby candidates will be excluded from contesting a constituency election if they appear on a regional list.

yn nodi'r feirniadaeth sylweddol (gan gynnwys beirniadaeth y Comisiwn Etholiadol annibynnol) a gafwyd gyda golwg ar y cynigion i newid y dull o ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol, lle na fydd ymgeiswyr yn cael ymladd etholiad etholaethol os ydynt yn ymddangos ar restr ranbarthol.

Amendment 8 in the name of Lisa Francis.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 8 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the Order in Council procedure will in practice amount to a primary legislative mechanism and that such an extension of the National Assembly's powers requires approval in a referendum.

yn credu y bydd y drefn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i bob pwrpas yn gyfystyr â pheirianwaith deddfwriaethol sylfaenol ac y bydd gofyn i estyniad o'r fath i bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol gael cymeradwyaeth mewn refferendwm.

Amendment 9 in the name of Lisa Francis.
Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 9 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

opposes the introduction of the d'Hondt system of election to subject committees as proposed in the Bill and believes that the current system of reflecting party balance in the Assembly in electing Committee members should be retained.

Amendment 10 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

believes that the Bill should have put in place measures to ensure the implementation of the Richard commission recommendations by 2011.

Amendment 11 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

welcomes the view of the Electoral Commission that the ban on dual candidacy will not improve confidence in the electoral system in Wales.

Amendment 12 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

regrets that the Bill lays out a detailed system for the distribution of committee places and believes that this should be for Standing Orders to determine.

Amendment 13 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

believes that the Secretary of State should only have the right to refuse to lay before Parliament an Order in Council from the Assembly in exceptional circumstances.

Amendment 14 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

yn gwrthwynebu cyflwyno system ethol d'Hondt i bwyllgorau pwnc fel y cynigir yn y Mesur ac yn credu y dylid cadw'r system gyfredol sy'n adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad wrth ethol Aelodau i'r Pwyllgorau.

Gwelliant 10 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu y dylasai'r Mesur roi mesurau ar waith i sicrhau bod argymhellion comisiwn Richard yn cael eu rhoi ar waith erbyn 2011.

Gwelliant 11 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu barn y Comisiwn Etholiadol na fydd y gwaharddiad ar ymgeisio deuol yn gwella hyder yn y system etholiadol yng Nghymru.

Gwelliant 12 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu bod y Mesur yn pennu system fanwl ar gyfer dosbarthu seddi ar bwyllgorau ac yn credu mai'r Rheolau Sefydlog ddylai bennu hyn.

Gwelliant 13 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael yr hawl i wrthod cyflwyno gerbron y Senedd Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan y Cynulliad.

Gwelliant 14 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that in principle the range of powers contained in each Order in Council should be as wide as possible to enable the Assembly to develop imaginative and flexible policies, and calls on the Secretary of State to put clearly on record his attitude towards the breadth of powers in Assembly Orders in Council.

Amendment 15 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

believes that the Assembly should be elected by the single transferable vote system which would improve choice for electors.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 7, 8 a 9 yn enw Lisa Francis, gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 10, 11, 12, 13, 14 a 15 yn enw Kirsty Williams.

Y Prif Weinidog: Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi cyhoeddi Mesur Llywodraeth Cymru, a gafodd ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. (NDM2763)

Mae amseru'r ddadl y prynhawn hwn yn enwedig o deilwng, achos bod Mesur Llywodraeth Cymru wedi neidio—fel y dywedais yn gynharach—dros y glwyd bwysicaf yn y broses o greu unrhyw Ddeddf newydd ym Mhrydain, sef yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. Derbyniwyd egwyddor y Mesur, felly, yn San Steffan a gall pawb yn awr ragweld gyda hyder y bydd y Mesur yn troi'n Ddeddf ymhen rhai misoedd. Wrth gwrs, ni fydd hyn heb unrhyw welliant.

However, it is now possible to say with confidence that the Government of Wales Bill will become the law of the land.

Mae pob plaid yng Nghymru felly yn gallu dechrau'r broses o baratoi eu manifesto ar sail yr estyniad o bwerau deddfu'r Cynulliad. Bydd y trydydd Cynulliad yn cael llawer mwy o bwerau deddfu na'r ail a'r cyntaf. Dyma ragor o gig ar yr esgyrn, rhagor o ddewis i'r bobl a rhagor o rym i bobl Cymru.

yn credu mewn egwyddor y dylai'r amrediad pwerau a gynhwysir ymhob Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor fod mor eang â phosibl i alluogi'r Cynulliad i ddatblygu polisiau hyblyg a llawn dychymyg, ac yn galw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i roi ar gof a chadw yn glir ei agwedd at ehangder pwerau'r Cynulliad yng Ngorchmynion yn y Cyfrin Gyngor.

Gwelliant 15 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu y dylai'r Cynulliad gael ei ethol gan y system pleidlais drosglwyddadwy sengl a fyddai'n gwella'r dewis i etholwyr.

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 7, 8 and 9 in the name of Lisa Francis, amendments 2, 3, 4, 5 and 6 in the name of Jocelyn Davies and amendments 10, 11, 12, 13, 14 and 15 in the name of Kirsty Williams.

The First Minister: I propose that

the National Assembly for Wales notes the publication of the Government of Wales Bill, which has received its Second Reading in the House of Commons. (NDM2763)

The timing of the debate this afternoon is particularly appropriate, because the Government of Wales Bill—as I said earlier—has cleared its first hurdle in the process of creating any new law in Britain, in that it has had its Second Reading in the House of Commons. The principle of the Bill has been accepted at Westminster, and everyone can now confidently expect the Bill to become an Act in some months' time. Of course, this will not be without amendment.

Fodd bynnag, bellach mae modd dweud yn hyderus y daw Mesur Llywodraeth Cymru'n gyfraith gwlad.

Every party in Wales will therefore now be able to start the process of preparing their manifestos on the basis of the extension of the Assembly's law-making powers. The third Assembly will have far greater law-making powers than the first and second. This means more meat on the bones, more

choice for the people and more power for the people of Wales.

How did we come to reach this stage of the Government of Wales Bill clearing that key hurdle of the Second Reading in the House of Commons? It is a reflection of the fact that it was pledged in Labour's manifesto, the people gave Labour a majority in the general election and now Labour is putting its manifesto commitments into effect by passing the Government of Wales Bill through the Houses of Parliament.

4.20 p.m.

It is very simple; that is how parliamentary democracy works in Britain. It is also, in microcosm, how the Order-in-Council procedure will work on the basis of the Bill becoming law, ready for the third Assembly. Parties will put proposals in manifestos for Assembly elections and, if they win a majority in those elections, they will have a strong democratic mandate for getting their bids for Orders in Council through Parliament.

Glyn Davies: The Order-in-Council procedure is a complicated way of bringing law-making powers to the Assembly. My preferred procedure would have been far more straightforward. Could you tell us what, in your heart of hearts, your preference would have been? I can understand that maybe this was the only way in which you could get more powers, but which would you have preferred, a straightforward decision for law-making powers or going through this complicated procedure of Orders in Council?

The First Minister: This procedure strikes a balance between parliamentary supremacy and the Assembly's enhanced legislative powers. That is why I believe that it is a very good solution. In the same way that Parliament has hitherto legislated on the Assembly's behalf, as happened on the Children's Commissioner for Wales Bill, Parliament will now be able to delegate the job of legislating on the Assembly's behalf back to the Assembly. That is very logical. That option does not exist today. This will

Sut y daethom i'r cam hwn a Mesur Llywodraeth Cymru'n neidio dros y glwyd allweddol honno o gael Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin? Mae oherwydd bod hynny wedi ei addo ym maniffesto Llafur, rhoes y bobl fwyafrif i Lafur yn yr etholiad cyffredinol ac yn awr mae Llafur yn rhoi ymrwymadau ei maniffesto ar waith drwy basio Mesur Llywodraeth Cymru drwy'r Senedd.

Mae'n syml iawn; dyna sut y mae democratiaeth seneddol yn gweithio ym Mhrydain. Dyna hefyd, mewn microcosm, sut y bydd gweithdrefn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn gweithio ar y sail y daw'r Mesur yn gyfraith, yn barod ar gyfer y trydydd Cynulliad. Bydd y pleidiau'n rhoi cynigion gerbron mewn maniffestos ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac, os byddant yn ennill mwyafrif yn yr etholiadau hynny, bydd ganddynt ffordd democrataidd cryf i gael eu ceisiadau am Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor drwy'r Senedd.

Glyn Davies: Mae gweithdrefn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ffordd gymhleth o roi pwerau deddfu i'r Cynulliad. Buasai'n well gennyf fi rywbeth llawer symlach. A allwch ddweud wrthym, o ddifrif calon, beth a fuasai'n well gennyh chi? Deallaf efallai mai dyma'r unig ffordd o gael rhagor o bwerau, ond pa ffordd a fuasai orau gennyh, penderfyniad syml o blaid pwerau deddfu neu ddilyn y weithdrefn gymhleth sydd ynglŷn â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor?

Y Prif Weinidog: Mae'r weithdrefn hon yn sicrhau cydbwysedd rhwng goruchafiaeth seneddol a'r pwerau deddfu cryfach sydd gan y Cynulliad. Dyna pam yr wyf yn credu ei fod yn ateb hynod dda. Yn yr un modd ag y mae'r Senedd wedi deddfu ar ran y Cynulliad hyd yma, fel a ddigwyddodd gyda Mesur Comisiynydd Plant Cymru, bellach bydd y Senedd yn gallu dirprwyo'r gwaith o ddeddfu ar ran y Cynulliad yn ôl i'r Cynulliad. Mae hynny'n rhesymegol iawn. Nid yw'r dewis hwnnw ar gael heddiw. Bydd hyn yn

free up time in Parliament so that another Bill, or possibly two, might be able to be passed, rather than Parliament having to consider Wales-only Bills as it does now.

At present, proposals from the Assembly that require primary legislation must compete for time with the UK Government's own legislative priorities. We all know the stark facts that there are about 75 bids to go into the Queen's Speech and to be legislated on in a typical year, but there is only enough parliamentary time for something like 25 or maybe 28 Bills in each parliamentary year. In the Westminster hopper, two out of three Bill proposals, coming either from Westminster departments or the Assembly, are not taken forward simply because of a lack of time. If the Order-in-Council procedure goes through, a Westminster department or two will be able to get a Bill that they would not be able to get at the moment because there is simply not enough time in the parliamentary year. This establishes a mechanism to free the Assembly from the Westminster logjam by transferring legislative responsibility to Cardiff in relation to defined matters, as approved on a case-by-case basis by Parliament.

These new powers will ensure that the Assembly gets the legislative tools that it needs to do the job more quickly and more easily than at present. However, Parliament will still be the arbiter over whether powers are transferred, so the provisions represent a development of the current settlement, not a fundamental change.

That is the reason for rejecting the proposals that were put forward by the Conservatives in their reasoned amendment in the House of Commons, which said that a referendum was necessary on these proposals. They isolated themselves from the general community of politics in the House of Commons when they did that because no-one else supported that idea, simply because they knew that a proposition in a referendum about Orders in Council would be absolutely farcical. I think that it is fair to say that this was a simple

rhyddhau amser yn y Senedd fel y bydd modd pasio Mesur arall, neu ddau o bosibl, yn hytrach na bod y Senedd yn gorfod ystyried Mesurau ar gyfer Cymru'n unig fel y gwna ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae cynigion o du'r Cynulliad y mae angen deddfwriaeth sylfaenol arnynt yn gorfod cystadlu am amser gyda blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yr ydym i gyd yn gwybod y ffeithiau moel bod tua 75 o geisiadau ar gyfer Araith y Frenhines y mae angen deddfu yn eu cylch bob blwyddyn fel arfer, ond nid oes ond digon o amser seneddol ar gyfer rhyw 25 neu 28 o bosibl o Fesurau bob blwyddyn seneddol. Yn hopran San Steffan, ni chaiff dau o bob tri o gynigion ar gyfer Mesurau, a ddaw naill ai o adrannau San Steffan neu o'r Cynulliad, eu gwireddu a hynny oherwydd diffyg amser a dim arall. Os aiff gweithdrefn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor rhagddi, bydd un neu ragor o adrannau San Steffan yn gallu gwireddu Mesur na allant ei gyflawni ar hyn o bryd am nad oes digon o amser mewn blwyddyn seneddol. Mae hyn yn sefydlu mecanwaith a fydd yn rhyddhau'r Cynulliad rhag y dagfa sydd yn San Steffan drwy drosglwyddo cyfrifoldeb deddfwriaethol i Gaerdydd o ran materion penodol, fel y cymeradwyir fesul achos gan y Senedd.

Bydd y pwerau newydd hyn yn sicrhau y caiff y Cynulliad yr arfau deddfwriaethol y mae eu hangen arno i wneud y gwaith yn gyflymach ac yn rhwyddach nag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y Senedd a fydd yn penderfynu o hyd a ddylid trosglwyddo pwerau ai peidio, ac felly datblygiad ar y setliad presennol yw'r darpariaethau, yn hytrach na newid sylfaenol.

Dyna'r rheswm dros wrthod cynigion y Ceidwadwyr a gyflwynwyd yn eu gwelliant rhesymedig yn Nhŷ'r Cyffredin, a ddywedai fod angen refferendwm ar y cynigion hyn. Bu iddynt eu hynysu eu hunain rhag cymuned gyffredinol gwleidyddiaeth Tŷ'r Cyffredin pan wnaethant hynny oherwydd nad oedd neb arall yn cefnogi'r syniad hwnnw, a hynny am y gwyddent y byddai cynnig mewn refferendwm ynghylch Gorchymynion yn y Cyfrin Gyngor yn gwbl chwerthinllyd. Credaf mai teg yw dweud mai mater syml

matter of trying to compromise between David Cameron, the new Mr Nice Guy—a kind of cross between St Francis of Assisi and Jamie Oliver—the anti-devolution prejudices of the three MPs for Wales, and the David Meldings of the party. I am glad to accept an intervention from him.

David Melding: The Order-in-Council procedure, as all experts who have looked at it have acknowledged, is a primary law-making power. We believe that there should be a referendum on whether there should be primary law-making powers, that people should have a say before it begins. That is our position.

The First Minister: If you deny Parliament the right to delegate this power to the Assembly, you are fettering Parliament's ability to change its own procedures. If we make a bid, at the moment, for primary legislation, it has to go through the Houses of Parliament. If Parliament chooses, it can delegate that power back to us. That is the way that the present settlement evolves; it is not a fundamental breach of the present settlement. I challenge you to try to imagine what the question on the referendum paper would look like. It is a farcical proposal.

How robust are these proposals if different parties are in power in Westminster and in Wales? I do not believe that the present settlement would easily be able to cope with cohabitation. We would have to make do and ways would be found, but we should try to imagine the nightmare of having a John Redwood II as Secretary of State, whenever the Conservatives return to power, and a Labour administration here. That is *ex hypothesi*, I would imagine.

Given the way in which the British system works, I believe that custom and practice would dictate that a Secretary of State—even a John Redwood II—would not like to say, 'No, I do not like this proposal', as he would be exposing himself as a colonial governor general. Indeed, it would expose the Conservatives to triggering the mechanism for the third stage, to which Glyn Davies adverted earlier, namely a move towards

oedd hyn o geisio cael cyfaddawd rhwng David Cameron, y Mr Neis newydd—math o gyfuniad o Ffransis Sant o Assisi a Jamie Oliver—rhagfarnau gwrthddatganoli'r tri Aelod Seneddol Cymreig, a David Meldingiaid y blaid. Yr wyf yn falch o dderbyn ymyriad ganddo.

David Melding: Mae gweithdrefn y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, fel y mae pob arbenigwr sydd wedi edrych arni wedi cydnabod, yn bŵer deddfu sylfaenol. Credwn y dylid cynnal refferendwm ynglŷn â phwerau deddfu sylfaenol, ac y dylai pobl gael dweud eu dweud cyn iddo ddechrau. Dyna ein safbwynt ni.

Y Prif Weinidog: Os gwrthodwch i'r Senedd yr hawl i ddirprwyo'r pŵer hwn i'r Cynulliad, byddwch yn llyffetheirio gallu'r Senedd i newid ei weithdrefnau ei hun. Os byddwn yn gwneud cais, fel y mae pethau ar hyn o bryd, am ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd yn rhaid iddo fynd drwy ddau Dŷ'r Senedd. Os bydd y Senedd yn dewis, gall ddirprwyo'r pŵer yn ôl i ni. Dyna sut y mae'r setliad presennol yn esblygu; nid yw'n doriad sylfaenol ar y setliad presennol. Yr wyf yn eich herio i geisio dychmygu sut beth fyddai'r cwestiwn ar bapur y refferendwm. Mae'n gynnig chwerthinllyd.

Pa mor gadarn yw'r cynigion hyn os bydd dwy blaid wahanol mewn grym yn San Steffan ac yng Nghymru? Ni chredaf y byddai'r setliad presennol yn gallu ymdopi â chydbreswyliaeth yn rhwydd iawn. Byddai'n rhaid inni ymdopi a byddem yn dod o hyd i ffyrdd o weithio, ond dylem geisio dychmygu'r hunllef o gael John Redwood II yn Ysgrifennydd Gwladol, pa bryd bynnag y daw'r Ceidwadwyr yn ôl i rym, a gweinyddiaeth Lafur mewn grym yma. Byddwn yn tybio bod hynny'n *ex hypothesi*.

O ystyried y ffordd y mae'r system Brydeinig yn gweithio, credaf y byddai arfer a thraddodiad yn mynnu na fyddai Ysgrifennydd Gwladol—hyd yn oed John Redwood II—yn hoffi dweud, 'Na, nid wyf yn hoffi'r cynnig hwn', gan y byddai'n ei ddadlennu ei hun fel llywodraethwr cyffredinol trefedigaethol. Yn wir, byddai'n agor y ffordd i'r Ceidwadwyr roi'r peiriant ar waith ar gyfer y trydydd cam, y cyfeiriodd

having primary powers through a referendum and everybody pointing to what the John Redwood II figure had done in exposing a colonial mentality by simply saying, 'No, I do not like these proposals coming through, even though they have a democratic mandate'.

John Marek: You talk about colonial government, but this is precisely what the British Parliament did 300 years ago to the Irish Parliament, when it insisted that any legislation passed in Dublin had to go through an Order in Council. Therefore, before you talk about colonial government, be careful, because Peter Hain is very much in that role at present.

The First Minister: I do not think that you should criticise Peter Hain for taking this Bill through Parliament. He is doing a great job in implementing Labour's manifesto. It is a manifesto commitment, it has a democratic mandate, and it is being implemented. That is how parliamentary democracy works.

The same applies here. If the Assembly administration were to fight and win an election on a manifesto that details proposals requiring enhanced powers, and had therefore won a mandate from the people of Wales to govern with a majority and to implement the manifesto commitments on which it had won an election, and if it were then to ask the Secretary of State to confer those powers through an Order in Council—three or four per year, or whatever it may be—it would be a courageous, or possibly foolhardy, Secretary of State who would block that request. What we are proposing keeps Parliament sovereign but provides transparency in the system for an Assembly with a democratic mandate to exercise enhanced legislative powers. There is no transparency at present, because it is all done in Cabinet sub-committees in preparation for the Queen's Speech. Our proposals mean that there would be transparency, and they are a big improvement.

Ieuan Wyn Jones: I questioned you a little

Glyn Davies ato yn gynharach, sef symud tuag at bwerau sylfaenol drwy refferendwm a phawb yn pwyntio at yr hyn a wnaethai'r ffigur John Redwood II o ran dadlennu meddylfryd trefedigaethol drwy ddweud dim mwy na, 'Na, nid wyf yn hoffi'r cynigion hyn, er bod iddynt fandad democrataidd'.

John Marek: Yr ydych yn siarad am lywodraeth drefedigaethol ond dyma'n union a wnaeth Senedd Prydain 300 o flynyddoedd yn ôl i Senedd Iwerddon, pan fynnodd y byddai'n rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth a gâi ei phasio yn Nulyn fynd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Felly, cyn i chi siarad am lywodraeth drefedigaethol, gochelwch, oherwydd y mae Peter Hain yn chwarae'r rôl honno i gryn raddau ar hyn o bryd.

Y Prif Weinidog: Ni chredaf y dylech feirniadu Peter Hain am dywys y Mesur hwn drwy'r Senedd. Mae'n gwneud gwaith gwych yn gwireddu maniffesto Llafur. Mae'n ymrwymiad yn y maniffesto, mae ganddo fandad democrataidd, ac mae'n cael ei weithredu. Dyna sut y mae democratiaeth seneddol yn gweithio.

Mae'r un peth yn wir yn y cyswllt hwn. Petai gweinyddiaeth y Cynulliad yn ymladd etholiad ac yn ennill yr etholiad hwnnw ar faniffesto a oedd yn manylu ynglŷn â chynigion yr oedd angen pwerau cryfach arnynt, gan ennill mandad gan bobl Cymru i lywodraethu gyda mwyafrif ac i weithredu ymrwymadau'r maniffesto a enillodd etholiad iddi, a phetai'n gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol roddi'r pwerau hynny drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor—dri neu bedwar y flwyddyn, neu beth bynnag y bo—byddai'n ddewr, neu o bosibl yn rhyfygus, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol petai'n gwrthod y cais hwnnw. Mae'r hyn yr ydym yn ei gynnig yn cadw sofraniaeth y Senedd ond mae'n darparu tryloywder yn y system o ran Cynulliad sydd â mandad democrataidd i arfer pwerau deddfwriaethol cryfach. Nid oes dim tryloywder ar hyn o bryd, oherwydd bod pob dim yn cael ei wneud yn is-bwyllgorau'r Cabinet wrth baratoi ar gyfer Araith y Frenhines. Golyga ein cynigion y bydd rhagor o dryloywder, ac maent yn welliant aruthrol.

Ieuan Wyn Jones: Bu imi holi rhywfaint

on this matter in questions earlier. You are saying that it would be a foolish Secretary of State who would turn down a request from, let us say, an Assembly Government with a manifesto commitment to introduce a particular measure. However, there is nothing whatsoever in the Act to fetter the absolute right of the Secretary of State to refuse such a request. Do you agree that that is the case?

The First Minister: You are absolutely right; it is a matter of politics. The British system does not work that way. We do not have a written constitution. You could not put anything in the Act that would fetter parliamentary sovereignty. Parliament will remain sovereign, but politics means that custom and practice will evolve—as with the Salisbury convention over the past 100 years—which will dictate that there are some things that you just do not do. Why not? Because to do so would be an infringement of democracy, you would expose yourself to ridicule, and you would pay the penalty at the next election.

The White Paper was widely welcomed, and our intention and the clear intention of the Government of Wales Bill is for the Assembly to gradually acquire increased legislative competence at the pace that Parliament and the electorate think fit. We have said that this is a three-stage process. The framework clauses come first. In comparison with framework clauses in England and Wales, the Order-in-Council process is likely to result in far more scrutiny because it is not just one clause among many others. It means that there will be pre-legislative scrutiny in the Houses of Parliament and in the Assembly, with a 90-minute debate on the floor of the House of Commons and the House of Lords—and all this before our own procedure for the scrutiny of the actual Assembly measure facilitated by the Order in Council. Then, of course, come primary powers, subject to a referendum, as stage 3, somewhere down the line.

I will stop there because time has run out. Jane Hutt will have the opportunity to deal with the amendments, all of which we are opposing.

arnoch ar y mater hwn yn ystod y cwestiynau'n gynharach. Yr ydych yn dweud y byddai'n ffolineb ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol petai'n gwrthod cais, dyweder, gan Lywodraeth y Cynulliad a oedd ag ymrwymiad maniffesto i gyflwyno rhyw gynnig neu'i gilydd. Fodd bynnag, nid oes dim yn y Ddeddf i lyffetheirio hawl absoliwt yr Ysgrifennydd Gwladol i wrthod cais o'r fath. A ydych yn cytuno mai felly mae?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn gwbl gywir; mater o wleidyddiaeth ydyw. Nid felly y mae'r system Brydeinig yn gweithio. Nid oes gennym gyfansoddiad ysgrifenedig. Ni allwch roi dim yn y Ddeddf a fyddai'n llyffetheirio sofraniaeth seneddol. Bydd y senedd yn dal yn sofran, ond golyga gwleidyddiaeth y bydd arfer a thraddodiad yn esblygu—fel y gwnaeth cytundeb Salisbury dros y 100 mlynedd diwethaf—gan fynnu bod rhai pethau na ddylid eu gwneud. Pam hynny? Oherwydd y byddai'n amharu ar ddemocratiaeth, byddech yn gyff gwawd, a byddech yn talu'r pris yn yr etholiad nesaf.

Cafwyd croeso helaeth i'r Papur Gwyn, a'n bwriad ni a bwriad eglur Mesur Llywodraeth Cymru yw i'r Cynulliad ennill mwy o feistrolaeth ddeddfwriaethol yn raddol ar gyflymder a fydd wrth fodd y Senedd a'r etholwyr. Dywedasom fod tri cham i'r broses hon. Daw cymalau'r fframwaith yn gyntaf. O'i chymharu â chymalau fframwaith yng Nghymru a Lloegr, mae proses y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn debygol o arwain at lawer mwy o graffu a hynny am nad un cymal ymhlith llawer o gymalau eraill ydyw. Golyga y bydd craffu cyn deddfu yn Nhau'r Senedd ac yn y Cynulliad, a dadl 90 munud ar lawr Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi—a hyn oll cyn ein gweithdrefn ninnau ar gyfer craffu ar fesur y Cynulliad a hwylusir gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Yna, wrth gwrs, daw'r pwerau sylfaenol, yn amodol ar refferendwm, yng nghan 3, ryw dro maes o law.

Rhof y gorau iddi yn awr am fod amser wedi dod i ben. Caiff Jane Hutt gyfle i ddelio â'r gwelliannau, yr ydym yn gwrthwynebu pob un ohonynt.

Nick Bourne: I propose the following amendments in the name of Lisa Francis. Amendment 1: insert at the end of the motion:

and deplores the proposed changes to the method of election to the National Assembly, whereby candidates will be excluded from contesting a constituency election if they appear on a regional list.

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

notes the extensive criticism (including that of the independent Electoral Commission) which has been made regarding the proposals to alter the method of election to the National Assembly, whereby candidates will be excluded from contesting a constituency election if they appear on a regional list.

I propose amendment 8. Add a new point at the end of the motion:

believes that the Order in Council procedure will in practice amount to a primary legislative mechanism and that such an extension of the National Assembly's powers requires approval in a referendum.

I propose amendment 9. Add a new point at the end of the motion:

opposes the introduction of the d'Hondt system of election to subject committees as proposed in the Bill and believes that the current system of reflecting party balance in the Assembly in electing Committee members should be retained.

There are parts of the Government of Wales Bill that the Welsh Conservatives support. Allow me to make that clear at the outset. The separation of the legislature and Executive of the National Assembly is certainly something for which we have long argued, as have all Assembly Members. There are, therefore, parts of the legislation that we are happy to support. Indeed, there are carry-over provisions from the current Government of Wales Act 1998 which, as

Nick Bourne: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 1: cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

ac yn gresynu at y newidiadau arfaethedig i'r dull o ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol, lle na fydd ymgeiswyr yn cael ymladd etholiad etholaethol os ydynt yn ymddangos ar restr ranbarthol.

Cynigiau welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi'r feirniadaeth sylweddol (gan gynnwys beirniadaeth y Comisiwn Etholiadol annibynnol) a gafwyd gyda golwg ar y cynigion i newid y dull o ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol, lle na fydd ymgeiswyr yn cael ymladd etholiad etholaethol os ydynt yn ymddangos ar restr ranbarthol.

Cynigiau welliant 8. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu y bydd y drefn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i bob pwrpas yn gyfystyr â pheirianwaith deddfwriaethol sylfaenol ac y bydd gofyn i estyniad o'r fath i bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol gael cymeradwyaeth mewn refferendwm.

Cynigiau welliant 9. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gwrthwynebu cyflwyno system ethol d'Hondt i bwyllgorau pwnc fel y cynigir yn y Mesur ac yn credu y dylid cadw'r system gyfredol sy'n adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad wrth ethol Aelodau i'r Pwyllgorau.

Mae Ceidwadwyr Cymru'n cefnogi rhannau o Fesur Llywodraeth Cymru. A gaf ddatgan hynny'n groyw ar y dechrau. Yn wir yr ydym wedi dadlau ers tro dros wahanu deddfwrfa a Gweithrediaeth y Cynulliad Cenedlaethol oddi wrth ei gilydd, fel y mae pob un o Aelodau'r Cynulliad wedi gwneud. Felly, mae rhannau o'r ddeddfwriaeth yr ydym yn falch o'u cefnogi. Yn wir, mae darpariaethau sy'n weddill o Ddeddf gyfredol Llywodraeth Cymru 1998 y gallwn eu cefnogi hefyd, fel y

you would expect, we are also able to support.

However, we disagree with the Labour Party on two fundamental points, and I will concentrate on those. The legislation has been cobbled together to hide the cracks and divisions that exist in the Labour Party, and it has not been driven by the interests of Wales.

4.30 p.m.

When the Richard commission first published its report, I recall, as I am sure many Members will, that the First Minister endorsed and accepted it wholeheartedly—he was proud of his nation, and this was something with which he was prepared to run. Then something changed—what changed, clearly, was that it was conveyed to him that many—probably all—Labour MPs at Westminster did not like it. That is what lies behind the Order in Council procedure—it has nothing to do with serving the ends of the people of Wales; it does no such thing. We ask for a referendum on the issue for this reason: it could mean a very significant transfer of power. On the other hand, it might not—listen to Peter Hain; he says different things to different audiences on this issue. Peter Hain is the great illusionist on this issue—he says to some audiences that it is a massive step forward for the National Assembly, and that it will give it strong legislative powers. However, when he spoke to Labour MPs last week, he said that it is not a major constitutional shift, and that Parliament will still be in charge of the proposals in the Bill, and merely adapt the current settlement.

Both viewpoints could be true, but it could be a massive change, and that is why we are asking for a referendum.

Ann Jones: You support full legislative powers for Wales, yet only last week your party at Westminster set out to derail the Government of Wales Bill. Are you not therefore undermined by your colleagues in Westminster? Does it not suggest that there are divisions within the Tory Party?

byddech yn disgwyl.

Fodd bynnag, anghytunwn â'r Blaid Lafur ynghylch dau bwynt sylfaenol, a chanolbwyntiaf ar y rheini. Mae'r ddeddfwriaeth wedi ei hel at ei gilydd i gelu craciau a rhaniadau'r Blaid Lafur, ac nid buddiannau Cymru sydd wedi ei hysgogi.

Pan gyhoeddodd comisiwn Richard ei adroddiad gyntaf, cofiaf, fel y cofia llawer o'r Aelodau, mae'n siŵr, i'r Prif Weinidog ei gymeradwyo a'i dderbyn yn frwd—yr oedd yn falch o'i genedl, ac yr oedd hyn yn rhywbeth yr oedd yn barod i gyd-fynd ag ef. Yna newidiodd rhywbeth—yr hyn a newidiodd, yn amlwg, oedd ei fod wedi cael gwybod bod llawer—pob un, mae'n debyg—o'r ASau Llafur yn San Steffan yn erbyn yr adroddiad. Hynny sydd y tu ôl i weithdrefn y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor—nid oes a wnelo ddim â bodloni anghenion pobl Cymru; nid yw'n gwneud dim byd o'r fath. Gofynnwn am refferendwm ar y pwnc hwn am y rheswm hwn: gallai olygu cryn drosglwyddo grym. Ar y llaw arall, efallai na wnâi hynny—gwrandewch ar Peter Hain; dywed ef bethau gwahanol wrth wahanol gynulleidfaoedd ar y mater hwn. Peter Hain yw'r lledrithiwr mawr ar y pwnc hwn—dywed wrth rai cynulleidfaoedd ei fod yn gam enfawr ymlaen i'r Cynulliad Cenedlaethol, y rhydd bwerau deddfu cryf iddo. Fodd bynnag, pan siaradodd ag ASau Llafur yr wythnos diwethaf, dywedodd nad yw'n symudiad cyfansoddiadol mawr, ac mai'r Senedd fydd yn gyfrifol am y cynigion yn y Mesur o hyd, ac mai dim ond addasu'r cytundeb presennol a wneir.

Gallai'r ddau safbwynt fod yn wir, ond gallai fod yn newid enfawr, a dyna pam yr ydym yn gofyn am refferendwm.

Ann Jones: Yr ydych yn cefnogi hawliau deddfu llawn i Gymru, ond yr wythnos diwethaf ceisiodd eich plaid yn San Steffan yrru Mesur Llywodraeth Cymru oddi ar y cledrau. Onid ydych felly'n cael eich tanseilio gan eich cyd-aelodau yn San Steffan? Onid yw'n awgrymu bod rhaniadau o fewn y Blaid Doriaidd?

Nick Bourne: There are divisions within the Conservative Party, there is no question about that, but that is one reason why we need a referendum. There are divisions within the Labour Party—look at your own backbench Labour MPs. Two of them, one of whom was Madeleine Moon, voted for a clause stating that abolition should be offered. There are divisions in all parties and that is one reason why the matter should be put to the people of Wales to decide. [*Interruption.*] There are within your voters, let it be said.

Coming back to the issue of Labour MPs, Alan Williams, the Father of the House, has called these legislative proposals ‘creeping devolution’. He believes that the Bill is a kind of salami slicing provision—you could have a series of Orders in Council that chipped away one by one at the powers of the Houses of Parliament, giving them to the Assembly. That is true, which is why we need a referendum. There should be a clear choice, and I do not believe in this intermediate stage.

I believe that we should have a straightforward choice for the people of Wales on legislative powers or not, with the referendum powers as set out very fairly in Schedule 6 of the Government of Wales Act 1998, if a referendum is ever triggered. A referendum can only be triggered—the First Minister skated over this thin ice, and who can blame him—if it is supported by 40 Assembly Members, which is two-thirds of all Assembly Members, and not just two-thirds of those voting. It is a pretty unlikely scenario if Labour never wants it, even if it is out of Government, which I sincerely believe it will be.

Leighton Andrews: We are all enjoying the latest development in the Conservative Party’s policy on devolution as of this week. Are you seriously suggesting that there should be a referendum around the question, ‘Are you in favour of the Orders in Council procedure as laid down in the Government of Wales Bill, yes or no?’?

Nick Bourne: Mae rhaniadau o fewn y Blaid Geidwadol, nid oes dwywaith am hynny, ond dyna un rheswm pam y mae arnom angen refferendwm. Mae rhaniadau o fewn y Blaid Lafur—edrychwch ar eich ASau Llafur chi ar y meinciau cefn. Pleidleisiodd dau ohonynt, Madeleine Moon yn un, dros gymal yn dweud y dylid cynnig dewis i ddiidymu. Mae rhaniadau ym mhob plaid a dyna un rheswm pam y dylid rhoi’r mater gerbron pobl Cymru i’w benderfynu. [*Torri ar draws.*] Mae rhai ymhlith eich pleidleiswyr chi, rhaid dweud.

A dychwelyd at fater ASau Llafur, mae Alan Williams, Tad y Tŷ, wedi galw’r cynigion deddfwriaethol hyn yn ‘ddatganoli slei bach’. Cred ef fod y Mesur yn rhyw fath o ddarpariaeth ar ddull sleisio salami—gallech gael cyfres o Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor a fyddai’n rhoi pwerau’r Senedd fesul un i’r Cynulliad. Mae hynny’n wir, a dyna pam mae angen refferendwm. Dylai fod dewis clir, ac nid wyf yn credu yn y cam hanner ffordd hwn.

Credaf y dylem gael dewis syml i bobl Cymru ynghylch cael hawliau deddfu ai peidio, gyda’r pwerau i gynnal refferendwm fel y maent wedi’u hamlinellu’n deg iawn yn Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, os sbardunir refferendwm fyth. Ni ellir ond sbarduno refferendwm—sglefriodd y Prif Weinidog dros y rhew tenau hwn, a phwy a all ei feio—os cefnogir hyn gan 40 o Aelodau’r Cynulliad, sef deuparth holl Aelodau’r Cynulliad, ac nid dim ond deuparth y rhai sy’n pleidleisio. Mae’n senario eithaf annhebygol os na fydd Llafur yn dymuno hynny, hyd yn oed os bydd heb fod mewn Llywodraeth, fel y bydd yn ôl yr hyn a gredaf yn ddiffuant.

Leighton Andrews: Yr ydym i gyd yn mwynhau’r datblygiad diweddaraf ym mholisi’r Blaid Geidwadol ar ddatganoli fel y’i cawsom yr wythnos hon. A ydych o ddifrif yn awgrymu y dylid cael refferendwm ynghylch y cwestiwn, ‘A ydych o blaid y weithdrefn ar gyfer Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor fel y’i hamlinellir ym Mesur Llywodraeth Cymru, ydwyf neu nac ydwyf?’?

Nick Bourne: I am glad that you follow proceedings in the Conservative Party so closely, and that you welcome what is happening. I certainly do. It is very interesting to look at recent polls—I can understand why some Labour Members look a little rattled and concerned. I believe that there should be a referendum on the Assembly measures. It is a difficult question to put forward, but that is because it is a complex procedure. I was perhaps the only one who was listening to the First Minister earlier—I looked around and not many people were listening. It is a very complex procedure, and, clearly, he has a different view about how it operates from the leader of the Welsh Liberal Democrat group, for example. It is very abstruse and difficult, and that is because it has been put there as glue to try to hold the Labour Party together.

The second thing that has been put there as glue in an attempt to hold the Labour Party together are the electoral arrangements. I could take the Labour Party seriously about believing that there is a great issue about first-past-the-post versus regional Members were it not for three individuals. Peter Peacock, who was third in Moray in the Scottish Parliament elections, fiercely defends his right to be a regional list Member in the Highlands and Islands, and says that he does at least as much work as constituency Members. Why is the situation different in Scotland? It is not according to Maureen MacMillan, the Labour regional list Member for the Highlands and Islands, who was third in Ross, Skye and Inverness West. I hope that Carl Sargeant will be writing to her pointing out how much harder he works than the regional—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

Nick Bourne: I will now close, Presiding Officer. We are principally against it for those two reasons.

The Presiding Officer: Thank you for your time keeping.

Nick Bourne: Yr wyf yn falch eich bod yn dilyn y gweithgareddau yn y Blaid Geidwadol mor agos, a'ch bod yn croesawu'r hyn sydd yn digwydd. Yr wyf fi'n gwneud yn sicr. Mae'n ddiddorol iawn edrych ar arolygon barn diweddar—gallaf ddeall pam mae golwg ychydig yn gynhyrfus a phryderus ar rai Aelodau Llafur. Credaf y dylid cael refferendwm ar fesurau'r Cynulliad. Mae'n gwestiwn anodd ei gyflwyno, ond dim ond am ei bod yn weithdrefn gymhleth. Efallai mai fi oedd yr unig un a oedd yn gwrando ar y Prif Weinidog yn gynharach—edrychais o gwmpas ac nid oedd llawer o bobl yn gwrando. Mae'n weithdrefn gymhleth iawn, ac, wrth reswm, mae ei farn ef am y ffordd y mae'n gweithredu yn wahanol i farn arweinydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, er enghraifft. Mae'n astrus ac anodd iawn, a hynny oherwydd iddi gael ei gosod yno fel glud i geisio dal y Blaid Lafur wrth ei gilydd.

Yr ail beth a roddwyd yno fel glud mewn ymgais i ddal y Blaid Lafur wrth ei gilydd yw'r trefniadau etholiadol. Gallwn gymryd y Blaid Lafur o ddifrif ynglŷn â chredu bod cwestiwn mawr ynghylch Aelodau cyntaf i'r felin yn erbyn Aelodau rhanbarthol, oni bai am dri unigolyn. Mae Peter Peacock, a ddaeth yn drydydd ym Moray yn etholiadau Senedd yr Alban, yn amddiffyn yn daer ei hawl i fod yn Aelod rhestr ranbarthol yn yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, gan ddweud ei fod yn gwneud cymaint o waith o leiaf ag Aelodau etholaethau. Pam mae'r sefyllfa'n wahanol yn yr Alban? Nid ydyw, yn ôl Maureen MacMillan, Aelod Llafur y rhestr ranbarthol dros yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, a ddaeth yn drydydd yn Ross, Skye a Gornllewin Inverness. Gobeithio y bydd Carl Sargeant yn ysgrifennu ati i roi gwybod iddi gymaint caletach y mae'n gweithio na'r—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn.

Nick Bourne: Gorffennaf yn awr, Lywydd. Yr ydym yn ei wrthwynebu'n bennaf am y ddau reswm hynny.

Y Llywydd: Diolch am gadw at yr amser.

Yr wyf yn siŵr y bydd arweinydd yr wrthblaid yr un mor gryno.

I am sure that the leader of the opposition will be just as concise.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Ieuan Wyn Jones: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

yn credu y dylai fod gan Gymru senedd ddeddfwriaethol llawn fel y cynigiwyd gan gomisiwn Richard erbyn 2011.

believes that Wales should have a full legislative parliament as proposed by the Richard commission by 2011.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

yn credu y dylai refferendwm ar ennill pwerau deddfu llawn gael ei sbarduno gan ddim ond pleidlais fwyafrifol syml yn y Cynulliad.

believes that a referendum on gaining full legislative powers should be triggered only by a simple majority vote in the Assembly.

Cynigiaf welliant 4. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 4. Add a new point at the end of the motion:

yn credu y dylai cyfansoddiad y pwyllgorau fod yn fater i Reolau Sefydlog y Cynulliad yn hytrach na chael ei bennu drwy statud.

believes that the composition of committees should be a matter for the Assembly's Standing Orders rather than being laid down in statute.

Cynigiaf welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 5. Add a new point at the end of the motion:

yn mynegi pryder mai cymhelliant gwleidyddol sydd y tu ôl i'r gwaharddiad a gynigir ar ymgeisio deuol a'i fod yn gweithredu y tu allan i normau democrataidd rhyngwladol, ac yn cefnogi barn y Comisiwn Etholiadol nad yw'r ddadl o blaid newid wedi argyhoeddi.

expresses concern that the proposed ban on dual candidacy is politically motivated and operates outside international democratic norms, and supports the view of the Electoral Commission that the case for change has not been made.

Cynigiaf welliant 6. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 6. Add a new point at the end of the motion:

yn credu mai pleidlais drosglwyddadwy sengl ddylai'r system ethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod ac yn credu y dylid dileu'r gofyniad presennol ar i etholaethau'r Cynulliad rannu'r un ffiniau ag etholaethau seneddol.

believes that the system of election to the National Assembly should be a single transferable vote, and believes that the current requirement for Assembly constituencies to be coterminous with Parliamentary constituencies should be removed.

Yr wyf yn ddiolchgar o gael y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth hon ar Fesur Llywodraeth Cymru. Yr oeddwn yn cytuno gyda Nick Bourne ar un pwynt. Yn lle ein bod yn gorfod trafod y syniad hwn o gael

I am grateful for the opportunity to contribute to this discussion on the Government of Wales Bill. I agreed with Nick Bourne on one point. Rather than our having to discuss this idea of having a system of Orders in Council,

system o Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor, dylai fod cwestiwn syml yn cael ei roi i bobl Cymru mewn refferendwm yn fuan: ‘A ydych am i argymhellion comisiwn Richard gael eu gweithredu—ie neu na?’. Byddai hynny’n llawer symlach.

Mae’n rhaid inni gofio bod y drafodaeth ar Fesur Llywodraeth Cymru wedi dechrau—a gallwn fod yn berffaith blaen ar y mater hwn—oherwydd bod comisiwn Richard wedi treulio 18 mis ac wedi gwario £1 miliwn yn gofyn i bobl pa fath o system y dylai Cynulliad Cymru ei chael. Mae pawb yn derbyn—ac mae’r Prif Weinidog wedi gwneud hynny ar y record heddiw—na fyddai’r setliad presennol yn parhau pe byddai plaid o un lliw gwleidyddol yn y Cynulliad a phlaid o liw arall yn San Steffan. Gwyddom fod angen newid a bod y mwyafrif o bobl Cymru bellach o blaid symud i senedd go iawn. Fodd bynnag, mae’n rhaid inni dderbyn bellach, oherwydd bod problemau dwfn yn y Blaid Lafur ynglŷn â symud i senedd lawn, fod yr holl syniad o Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor wedi dod oherwydd ei fod yn rhyw fath o gyfaddawd. Fel yr oedd Mesur 1998 yn gyfaddawd, mae’r Mesur hwn yn gyfaddawd mewnl yn y Blaid Lafur.

Edrychaf ar un neu ddau o bethau sydd yn codi yn sgîl system y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor. Codais rai o’r cwestiynau hyn gyda’r Prif Weinidog yn gynharach. Ar rôl yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn berson llawer mwy pwerus o dan y Mesur hwn nag y mae ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud penderfyniad bob tro y mae cais yn dod ger ei fron am Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o ran a yw’n cytuno gydag ef neu beidio.

One thing that is clear in this Bill as it stands is that the Secretary of State has an absolute power to refuse any Order in Council that comes from the Assembly. We know that, over the years, conventions and custom and practice will apply but this Bill gives no test whatsoever to the decision that the Secretary of State will make on whether or not to accept an Order in Council. Even the White Paper had a test, which was that it would not be expected for an Order in Council to be

a simple question should be posed to the people of Wales in a referendum shortly, ‘Do you want the recommendations of the Richard commission to be implemented—yes or no?’. That would be far simpler.

We have to remember that the debate on the Government of Wales Bill has started—and we can be perfectly clear on this—because the Richard commission spent 18 months and £1 million asking people what kind of system the National Assembly for Wales should have. Everyone accepts—and the First Minister has done so on record today—that the current settlement would not continue if there were a party of one political hue in the Assembly and a party of another hue in Westminster. We know that change is needed and that the majority of people in Wales are in favour of moving towards having a proper parliament. However, we now have to accept that, because of deep problems in the Labour Party over moving to a full parliament, the whole idea of Orders in Council has come about because it is a kind of compromise. Just as the 1998 Act was a compromise, this Bill is an internal compromise in the Labour Party.

I will consider one or two of the things that arise as a result of the Orders in Council system. I raised some of these questions with the First Minister earlier. On the role of the Secretary of State, the Secretary of State for Wales will be a far more powerful individual under this Bill than he is at present. The Secretary of State will have to make a decision every time that an application comes before him for an Order in Council as to whether he agrees with it or not .

Un peth sydd yn glir yn y Mesur hwn fel y mae ar hyn o bryd yw bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl absoliwt i wrthod unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a ddaw oddi wrth y Cynulliad. Gwyddom, dros y blynyddoedd, y bydd confensiynau a defodau ac arferion yn berthnasol, ond nid yw’r Mesur hwn yn rhoi dim prawf o gwbl ar y penderfyniad y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei wneud ynghylch derbyn Gorchymyn yn y Cyfrin

turned down for trivial reasons. We may argue about what 'trivial' might or might not mean, but if the Bill in its current form is enacted, we will have no test of reasonableness whatsoever; there will be an absolute right to turn it down.

Yr wyf yn credu bod hynny'n anghywir. Mae'n rhaid inni gael gwell canllawiau na hynny. Rhaid inni gael sicrwydd y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwrandao ar lais y Cynulliad o ran y ceisiadau hyn os yw Llywodraeth y Cynulliad, mewn maniffesto, wedi cynnwys nifer o Fesurau y mae am weld yn cael eu cyflwyno. Mae'n rhaid inni sicrhau bod mandad Llywodraeth y Cynulliad yn werth yr hyn y mae wedi'i sicrhau mewn etholiad, a gobeithiaf y bydd modd inni brofi'r canllawiau hynny yn nes ymlaen.

There are several provisions in the Bill that one welcomes wholeheartedly. Like Nick Bourne, I welcome the idea of splitting the Executive from the legislature and at least turning the concept that we will have into a proper parliamentary concept. We would have preferred to see several other measures. We would have liked the current system of proportional representation to be changed completely into a single transferable vote system. That would have allowed the people of Wales to have a proper proportional system, which would have been the answer for the Labour Party. I do not quite understand: if Labour has difficulties with the current system—which it introduced, by the way—of having list Members and constituency Members, there is an easy answer. If you move to STV, all Members in that PR system would be exactly the same.

4.40 p.m.

We also believe that if that is not changed, the current system, which allows Assembly Members to stand on the list and in constituencies, should remain. No argument has been put to me or the people of Wales that has convinced me that the current situation should be changed. It is simply something to please Labour backbenchers here and in Westminster.

Gyngor ai peidio. Yr oedd hyd yn oed y Papur Gwyn yn cynnwys prawf, sef na ddisgwylid i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wrthod am resymau pitw. Gallwn ddadlau ynghylch ystyr 'pitw', ond os gweithredir y Mesur yn ei ffurf bresennol, ni fydd gennym brawf rhesymolrwydd o fath yn y byd; bydd hawl absoliwt i'w wrthod.

I believe that that is wrong. We must have better guidelines than that. We must have an assurance that the Secretary of State will listen to the Assembly's voice in terms of these applications, if the Assembly Government, in a manifesto, has included several Bills that it would like to be introduced. We have to ensure that the Assembly Government's mandate is worth what it has secured in an election and I hope that we can put those guidelines to the test later on.

Mae sawl darpariaeth yn y Mesur a groesewir yn dwymgalon. Fel Nick Bourne, croesawaf y syniad o rannu'r Weithrediaeth oddi wrth y ddeddfwrfa ac o leiaf droi'r cysyniad a fydd gennym yn gysyniad seneddol go iawn. Buasai'n well gennym weld sawl mesur arall. Byddem wedi hoffi i'r system bresennol o gynrychiolaeth gyfrannol gael ei newid yn llwyr i system pleidlais drosglwyddadwy sengl. Byddai hynny wedi caniatáu i bobl Cymru gael system wirioneddol gyfrannol, a fyddai wedi ateb gofynion y Blaid Lafur. Nid wyf yn deall yn hollol: os oes gan Lafur anawsterau gyda'r system bresennol—system a gyflwynodd hi, gyda llaw—o gael Aelodau rhestr ac Aelodau etholaeth, mae ateb hawdd ar gael. O symud at bleidlais drosglwyddadwy sengl, byddai pob Aelod yn y system gynrychiolaeth gyfrannol honno yr un fath yn union.

Credwn hefyd os na newidir hynny, y dylid cadw'r system bresennol, sydd yn caniatáu i Aelodau Cynulliad sefyll ar y rhestr ac mewn etholaethau. Nid oes dim un ddadl wedi'i rhoi i mi nac i bobl Cymru sydd wedi fy narbwylllo y dylid newid y sefyllfa bresennol. Dim ond rhywbeth i blesio aelodau mainc gefn Llafur yma ac yn San Steffan ydyw.

Ann Jones: On that point, you say that no-one has suggested that the list candidates and the constituency candidates should be split, but Lord Richard said that the current situation is confusing and silly. Do you not agree with him?

Ieuan Wyn Jones: Lord Richard said that we should change to an STV system. Is Ann now saying, on behalf of the Labour Party, that that would solve the matter? Would she like to come back on that?

Ann Jones: You should listen to what I said. Most of us here have opinions. I do not speak for Rhodri Morgan; he is able to speak for himself. All I am saying is that Lord Richard has said that having constituency and list AMs, and the fact that five people can stand in Clwyd West and can all be elected to sit in the Assembly, is ridiculous.

Ieuan Wyn Jones: I am surprised that you do not think of yourself as an independent Member and that you always have to think about what Rhodri Morgan might want you to say.

Ann Jones: I am not an independent Member; I am a Labour Member.

Ieuan Wyn Jones: We need a bit more independent thought in the Assembly.

I wish to refer to the objectionable clause 29 and the way in which Assembly committees will be stitched up by the Labour Party when this Bill is enacted after 2007. Committee membership is normally decided according to Standing Orders. That is how it is done in every parliament throughout the world. I hope that the Labour Party will see sense on this and get rid of this awful stitch-up.

Michael German: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 10. Add a new point at the end of the motion:

Ann Jones: Ar y pwynt hwnnw, dywedwch nad oes neb wedi awgrymu y dylid rhannu ymgeiswyr y rhestrau ac ymgeiswyr yr etholaethau, ond dywedodd yr Arglwydd Richard fod y sefyllfa bresennol yn ddryslyd ac yn wirion. Onid ydych yn cytuno ag ef?

Ieuan Wyn Jones: Dywedodd yr Arglwydd Richard y dylem newid i system pleidlais dros glwyddadwy sengl. A ydyw Ann yn dweud yn awr, ar ran y Blaid Lafur, y byddai hynny'n datrys y mater? A hoffai hi ddod yn ôl ar hynny?

Ann Jones: Dylech wrando ar yr hyn a ddywedais. Mae barn gan y rhan fwyaf ohonom yma. Nid wyf fi'n siarad dros Rhodri Morgan; gall ef siarad drosto'i hun. Y cwbl yr wyf yn ei ddweud yw bod cael ACau etholaethau a rhestrau, a'r ffaith y gall pump o bobl sefyll yng Ngorllewin Clwyd a chael eu hethol bob un i eistedd yn y Cynulliad, yn hurt.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn synnu nad ydych yn meddwl amdanoch eich hun fel aelod annibynnol a bod yn rhaid ichi feddwl o hyd am yr hyn yr hoffai Rhodri Morgan efallai ichi ei ddweud.

Ann Jones: Nid Aelod annibynnol ydwyf; Aelod Llafur ydwyf.

Ieuan Wyn Jones: Mae arnom angen ychydig mwy o feddwl annibynnol yn y Cynulliad.

Hoffwn gyfeirio at y cymal 29 gwrthun a'r modd y caiff pwyllgorau'r Cynulliad eu trefnu'n annheg gan y Blaid Lafur pan ddaw'r Mesur hwn i rym ar ôl 2007. Fel arfer penderfynir ar aelodaeth pwyllgorau yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Dyna sut y'i gwneir ym mhob senedd drwy'r byd i gyd. Gobeithiaf y bydd y Blaid Lafur yn callio ynghylch hyn a chael gwared o'r rhagdrefnu ofnadwy hwn.

Michael German: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 10. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the Bill should have put in place measures to ensure the implementation of the Richard Commission recommendations by 2011.

yn credu y dylasai'r Mesur roi mesurau ar waith i sicrhau bod argymhellion Comisiwn Richard yn cael eu rhoi ar waith erbyn 2011.

I propose amendment 11. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 11. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

welcomes the view of the Electoral Commission that the ban on dual candidacy will not improve confidence in the electoral system in Wales.

yn croesawu barn y Comisiwn Etholiadol na fydd y gwaharddiad ar ymgeisio deuol yn gwella hyder yn y system etholiadol yng Nghymru.

I propose amendment 12. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 12. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

regrets that the Bill lays out a detailed system for the distribution of committee places and believes that this should be for Standing Orders to determine.

yn gresynu bod y Mesur yn pennu system fanwl ar gyfer dosbarthu seddi ar bwyllgorau ac yn credu mai'r Rheolau Sefydlog ddylai bennu hyn.

I propose amendment 13. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 13. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the Secretary of State should only have the right to refuse to lay before Parliament an Order in Council from the Assembly in exceptional circumstances.

yn credu mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael yr hawl i wrthod cyflwyno gerbron y Senedd Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan y Cynulliad.

I propose amendment 14. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 14. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that in principle the range of powers contained in each Order in Council should be as wide as possible to enable the Assembly to develop imaginative and flexible policies, and calls on the Secretary of State to put clearly on record his attitude towards the breadth of powers in Assembly Orders in Council.

yn credu mewn egwyddor y dylai'r amrediad pwerau a gynhwysir ymhob Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor fod mor eang â phosibl i alluogi'r Cynulliad i ddatblygu polisiau hyblyg a llawn dychymyg, ac yn galw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i roi ar gof a chadw yn glir ei agwedd at ehangder pwerau'r Cynulliad yng Ngorchymynion yn y Cyfrin Gyngor.

I propose amendment 15. Add a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 15. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the Assembly should be elected by the single transferable vote system which would improve choice for electors.

yn credu y dylai'r Cynulliad gael ei ethol gan y system pleidlais drosglwyddadwy sengl a fyddai'n gwella'r dewis i etholwyr.

We are supposed to be producing better government for Wales through this Government of Wales Bill, securing changes

Yr ydym i fod i gynhyrchu gwell llywodraeth i Gymru drwy'r Mesur Llywodraeth Cymru hwn, gan sicrhau newidiadau a fydd yn ein

that will enable us to do more for the people of Wales. Unfortunately, despite containing some good points, the Bill spends too much time turning the Secretary of State for Wales into the viceroy of Wales, and creating a labyrinthine process for creating new laws when a simple path could have been taken. Lord Richard proposed a simple path, with simple steps towards an easily understood goal, namely a parliament for Wales. Our amendment 10 recognises this. Instead of having a straight 100m dash, we now face the viceroy of Wales's steeplechase, with two laps around Gwydyr House, one around the House of Commons, and a final leap over the woosack before we can even start to draw up a single Assembly measure.

However, we are where we are. The Welsh Liberal Democrats have been the champions of devolution for over 100 years, and we will continue to fight to make this Bill better. Look at how long we have been at it. We are going to stick to our original plan to ensure that Wales has a proper parliament.

Perhaps the greatest failing in this Bill is the democratic deficit. Mr Hain gives the impression that the Assembly will be granted whatever powers it seeks—at least that is what he tells us when he is here; it is a slightly different message when he is in London. However, to ensure that the Assembly is not too ambitious, he has put a triple lock on the door. First, the Bill has to have the Secretary of State's approval, and he must consider whether it is appropriate—his words—that we should have these powers in Wales. It then goes to the House of Commons, where MPs are asked whether it is appropriate that Wales should have these powers. It then goes to the House of Lords, where the Lords are asked the same question. No answer has been given to the question, 'How do you define appropriateness?'. At any one of these stages, a democratically elected Government of Wales could see its ambitions vetoed by politicians from any part of the UK. The post-2007 Welsh Government will need the skills of Houdini to make the laws that it wants to see enacted.

The greatest risk is that it allows an unelected

galluogi i wneud mwy dros bobl Cymru. Yn anffodus, er ei fod yn cynnwys rhai pwyntiau da, mae'r Mesur yn treulio gormod o amser yn troi Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n rhaglaw Cymru, a chreu proses ddyrys ar gyfer llunio deddfau newydd lle y galleid cymryd llwybr syml. Cynigiodd yr Arglwydd Richard lwybr syml, gyda chamau syml tuag at nod hawdd ei ddeall, sef senedd i Gymru. Mae ein gwelliant 10 yn cydnabod hyn. Yn lle cael ras 100 metr arferol, yn awr wynebwn ras ffos a pherth rhaglaw Cymru, gyda dau dro o amgylch Tŷ Gwydir, un o amgylch Tŷ'r Cyffredin, a naid i orffen dros y sach wllân cyn y gallwn hyd yn oed ddechrau llunio un mesur yn y Cynulliad.

Fodd bynnag, yr ydym lle yr ydym. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi pleidio achos datganoli ers dros 100 mlynedd, a pharhawn i ymladd i wella'r Mesur hwn. Edrychwch pa mor hir yr ydym wedi bod wrthi. Yr ydym yn mynd i lynu at ein cynllun gwreiddiol i sicrhau y caiff Cymru senedd go iawn.

Efallai mai'r gwendid mwyaf yn y Mesur hwn yw'r diffyg democrataidd. Rhydd Mr Hain yr argraff y rhoddir i'r Cynulliad pa hawliau bynnag y bydd yn gofyn amdanynt—o leiaf, dyna a ddywed wrthym pan fo yma; mae'n neges ychydig yn wahanol pan fydd yn Llundain. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na fydd y Cynulliad yn rhy uchelgeisiol, mae wedi gosod clo triphlyg ar y drws. Yn gyntaf, rhaid i'r Mesur gael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, a rhaid iddo ystyried ai priodol—ei eiriau ef—yw inni gael y pwerau hyn yng Nghymru. Wedyn aiff i Dŷ'r Cyffredin, lle y gofynnir i ASau a ydyw'n briodol i Gymru gael y pwerau hyn. Wedyn aiff i Dŷ'r Arglwyddi, lle y gofynnir yr un cwestiwn i'r Arglwyddi. Nid oes ateb wedi'i roi i'r cwestiwn, 'Sut y diffiniwch briodoldeb?'. Ar unrhyw un o'r camau hyn, gallai Llywodraeth Cymru, a hithau wedi'i hethol yn ddemocrataidd, weld feton cael ei roi ar ei huchelgeisiau gan wleidyddion o unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Bydd ar Lywodraeth Cymru wedi 2007 angen sgiliau Houdini i wneud y deddfau y mae am weld eu gweithredu.

Y perygl mwyaf yw ei fod yn rhoi'r hawl i

body of elder statesmen the right to frustrate the democratically mandated government of Wales. I asked the First Minister about that, and he said that custom and practice would sort it all out. When there is no ability to ping-pong back and forth, I do not see how we can overcome that problem.

gorff anetholedig o wladweinwyr hŷn lyffetheirio llywodraeth ddemocrataidd Cymru. Holais y Prif Weinidog ynglŷn â hyn, a dywedodd y byddai defodau ac arferion yn datrys y cyfan. Pan nad oes modd pasio materion yn ôl ac ymlaen, ni welaf sut y gallwn oresgyn y broblem honno.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 4.46 p.m.
Peter Black took the Chair at 4.46 p.m.*

Imagine an Assembly government in 2007, implementing a radical programme of reform—that would be nice to see would it not? How very different that would be. Yet, as we have just heard, manifesto pledges—for example, to introduce a single transferable vote system for council elections or votes at age 16—could be vetoed in the House of Lords. Surely, that cannot be right.

Dychmygwch lywodraeth y Cynulliad yn 2007, yn gweithredu rhaglen ddiwygio radical—byddai hynny'n braf oni fyddai? Mor wahanol fyddai pethau. Ac eto, fel yr ydym newydd glywed, gallai Tŷ'r Arglwyddi roi fetu ar addewidion maniffestos—er enghraifft, i gyflwyno system pleidlais drosglwyddadwy sengl ar gyfer etholiadau'r cyngor neu bleidlais i bobl ifanc 16 oed. Go brin bod fetu o'r fath yn iawn.

Amendments 11 and 15 talk about dual candidacy. This is Labour's trap, into which the Conservatives have dived headlong. We all know why Labour has done it, and all reasonable people know that it is wrong, but the danger is that, if we take our eye off the real issue, this settlement will colour Welsh political life for the next decade. We would prefer, as Lord Richard said, to see a single transferable vote system for the whole of Wales.

Mae gwelliannau 11 a 15 yn sôn am ymgeisio deuol. Magl a osodwyd gan y blaid Lafur yw hyn, ac mae'r Ceidwadwyr wedi syrthio i mewn iddi dros eu pennau. Gwyddom i gyd pam mae Llafur wedi gwneud hyn, a gŵyr pawb rhesymol nad yw hyn yn iawn, ond y perygl yw y bydd y penderfyniad hwn, os tynnwn ein llygaid oddi ar y broblem go iawn, yn gadael ei ôl ar fywyd gwleidyddol Cymru am y deng mlynedd nesaf. Byddai'n well gennym, fel y dywedodd yr Arglwydd Richard, weld system pleidlais drosglwyddadwy sengl ar gyfer Cymru gyfan.

The First Minister: Do you agree that what you are arguing is the absolute opposite of what Nick Bourne was arguing? Nick was arguing that Parliament will, somehow, automatically, give away all this power, and that that is why a referendum is needed. You are arguing that Parliament will not give away any power. Are not both those propositions far too extreme when you are dealing with a real constitutional change of this nature?

Y Prif Weinidog: A ydych yn cytuno bod yr hyn yr ydych yn ei ddadlau yn gwbl groes i'r hyn yr oedd Nick Bourne yn ei ddadlau? Yr oedd Nick yn dadlau y bydd y Senedd, rywsut neu'i gilydd, yn ildio'r holl bwerau hyn, yn awtomatig, ac mai dyna pam mae angen refferendwm. Yr ydych chi'n dadlau na fydd y Senedd yn ildio dim pŵer. Onid yw'r ddau osodiad hyn yn llawer rhy eithafol a chithau'n delio â newid cyfansoddiadol go iawn o'r math hwn?

Michael German: No. I am arguing that your party's Bill has put three locks in place on a democratic request for powers—*[Interruption.]* No, I am telling you, First Minister, because you are the First Minister, who has to tell your friend Peter Hain and

Michael German: Na. Yr wyf fi'n dadlau bod Mesur eich plaid wedi gosod tri chlo ar gais democrataidd am bwerau—*[Torri ar draws.]* Na, yr wyf yn dweud wrthyich, Brif Weinidog, gan mai chi yw'r Prif Weinidog, sy'n gorfod dweud wrth eich cyfaill Peter

your friends in Parliament that any one of those three locks—without any test of what the locks should be, or suggestion of how big the key is—can stop a democratically elected government here from having its will on the powers that it seeks, regardless of whether those are contained in a manifesto.

I return to the subject of elections, because how this body is elected matters to the people of Wales, and what this Assembly can do matters.

We will be supporting all amendments except amendment 8 from the Conservatives, because it is nakedly anti-devolution. It shows that, despite what we read in the papers, there is no real change in the Conservative Party's policy on power for the National Assembly.

Amendment 12 calls for the Assembly to decide its own committee structure. It need not be on the face of the Bill. We have already heard that it is very unusual to find a Parliament somewhere else dictating how to run committees. Are we not to be trusted with this basic right? Are we not to be trusted to sort this matter out for ourselves in the way that we have been doing for the past six and a half years? It should be up to us, and not the Members of Parliament in Westminster, to decide how we achieve balance in our institution.

We address the over-powerful position of the Secretary of State in amendments 13 and 14. At present, he can refuse an Order in Council from this Assembly on a whim. Yet the Bill says that an Assembly measure can be blocked only for four specific reasons, laid out in clause 100 of the Bill. So, we believe that the Secretary of State should veto Orders in Council only when there is a genuinely good cause, and not on the basis of a political whim.

Has the Secretary of State given the Welsh Assembly Government any assurances on this issue? Will he look more favourably on manifesto pledges? Will the Orders in

Hain a'ch cyfeillion yn y Senedd y gall unrhyw un o'r tri chlo hyn—heb ddim prawf o'r hyn y dylai'r cloeon fod, nac awgrym ynglŷn â pha mor fawr yw'r allwedd—atal llywodraeth sydd wedi ei hethol yn ddemocrataidd yma rhag cael y pwerau y mae'n gofyn amdanynt, ni waeth a yw'r rheini wedi eu cynnwys mewn maniffesto ai peidio.

Dychwelaf at fater etholiadau, oherwydd y mae sut y mae'r corff hwn yn cael ei ethol yn bwysig i bobl Cymru, ac mae'r hyn y gall y Cynulliad hwn ei wneud yn bwysig.

Byddwn yn cefnogi pob gwelliant ac eithrio gwelliant 8 gan y Ceidwadwyr, gan ei fod yn amlwg yn erbyn datganoli. Mae'n dangos, er gwaetha'r hyn a ddarllenwn yn y papurau, nad oes newid gwirioneddol ym mholisi'r Blaid Geidwadol ar rym i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gwelliant 12 yn galw am yr hawl i'r Cynulliad benderfynu ynglŷn â strwythur ei bwyllgorau. Nid oes angen iddo gael ei gynnwys yn y Mesur. Clywsom eisoes nad yn aml y gwelir Senedd yn dweud sut y mae rhedeg pwyllgorau. Oni ellir ymddiried yr hawl sylfaenol hon inni? Oni ellir ymddiried ynom i ddatrys y mater hwn drosom ein hunain fel yr ydym wedi bod yn gwneud yn ystod y chwe blynedd a hanner diwethaf? Ni, ac nid yr Aelodau Seneddol yn San Steffan, ddylai fod yn penderfynu sut yr ydym yn sicrhau cydbwysedd yn ein sefydliad.

Rhodddwn sylw i safle gor-rymus yr Ysgrifennydd Gwladol yng ngwelliannau 13 a 14. Ar hyn o bryd, gall wrthod Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan y Cynulliad hwn ar sail mympwy. Ac eto, yn ôl y Mesur dim ond pedwar rheswm penodol sydd dros rwystro mesur gan y Cynulliad, ac fe'u nodir yng nghymal 100 yn y Mesur. Felly, credwn na ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi fetu ar Orchymynion yn y Cyfrin Gyngor onid oes rheswm gwirioneddol dda dros wneud hynny, ac na ddylai wneud hynny ar sail mympwy gwleidyddol.

A yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi unrhyw sicrwydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r mater hwn? A fydd yn edrych yn fwy ffafriol ar addewidion

Council be broad enough to ensure rapid devolution? How many orders will there be each year? All these questions are the keys to how the Assembly gathers powers in the next few years. We would not have chosen this road. Labour has turned its back on Lord Richard's map, but it is not too late to save this nation from being demeaned by a patronising, colonial Bill.

The question asked in Westminster should not be whether it is appropriate that the Assembly be given these powers. The question should be: 'Why should the Assembly not be given these powers?'. The people of Wales know what is best for Wales. Politicians have a duty to give them the chance to make these choices, and to resist the temptation to prostrate themselves before the Viceroy and his assistants in the Houses of Parliament.

Carl Sargeant: I begin by suggesting that the Bill and the Assembly go further and define in clear terms the role of list Members. There is some confusion among the general public as to the role that list Members play in the Assembly. Indeed, the opposition AM David Davies put it best when he asked who would get up in the morning and say, 'I know, I am going to write to my additional list Member today about this matter'. Very few people I imagine.

4.50 p.m.

Brynle Williams: Will you take an intervention?

Carl Sargeant: In a moment. Let me get started and I will then take an intervention from the list Member.

Eleanor Burnham: Will you take an intervention?

Carl Sargeant: I will give all the Clwyd West Members a mention in a moment.

If our current list Members are in any doubt about what their role should be, then perhaps

manifestos? A fydd y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn ddigon eang i sicrhau datganoli buan? Faint o orchmynion a wneir bob blwyddyn? Dyma'r cwestiynau a fydd yn pennu sut y bydd y Cynulliad yn casglu pwerau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Ni fyddem wedi dewis y trywydd hwn. Mae Llafur wedi troi ei chefn ar fap yr Arglwydd Richard, ond nid yw'n rhy hwyr i achub y genedl hon rhag cael ei diraddio gan Fesur nawddoglyd, trefedigaethol.

Nid a yw'n briodol rhoi'r pwerau hyn i'r Cynulliad yw'r cwestiwn y dylid ei ofyn yn San Steffan. Y cwestiwn y dylid ei ofyn yw: 'Pam na ddylid rhoi'r pwerau hyn i'r Cynulliad?'. Mae pobl Cymru'n gwybod beth sydd orau i Gymru. Mae'n ddyletswydd ar wleidyddion roi cyfle iddynt wneud y dewisiadau hyn, a gwrthod y demtasiwn i ymgreinio o flaen y Rhaglaw a'i gynorthwywyr yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Carl Sargeant: Dechreuaf drwy awgrymu bod y Mesur a'r Cynulliad yn mynd ymhellach ac yn rhoi diffiniad clir o rôl Aelodau rhestr. Mae rhywfaint o ddryswch ymhlith y cyhoedd ynglŷn â rôl Aelodau rhestr yn y Cynulliad. Yn wir, David Davies, AC yr wrthblaid, oedd yr un a lwyddodd i gyfleu hyn orau pan ofynnodd pwy fyddai'n codi yn y bore ac yn dweud, 'Mae gennyf syniad; yr wyf am anfon llythyr ynglŷn â'r mater hwn at fy Aelod rhestr ychwanegol heddiw'. Go brin y byddai llawer o bobl yn gwneud hyn.

Brynle Williams: A wnewch dderbyn ymyriad?

Carl Sargeant: Mewn munud. Gadewch imi ddechrau arni ac fe dderbyniaf ymyriad gan yr Aelod rhestr wedyn.

Eleanor Burnham: A wnewch dderbyn ymyriad?

Carl Sargeant: Soniaf am bob un o Aelodau Gorllewin Clwyd mewn munud.

Os oes gan ein Haelodau rhestr presennol unrhyw amheuaeth beth ddylai eu rôl fod,

they should consult Leanne Wood's magic memo, or the additional list Member's bible, as it is known to some. She set out, with great clarity, her own golden rules on how list Members should abuse the system: avoid casework at all costs, misuse the staffing allowance to benefit the party, locate the party office, not according to the needs of the people but according to the interests of the party, and, of course, only attend events that are in the interests of the party—if in any doubt, send a pro forma letter and rejection.

If list Members do not have the self-discipline and integrity to represent their regions as the system originally intended, then we must force a change by spelling out the role in order to stop this abuse. Alun Cairns seems to be more confused than most in this regard. The latest post on his website is against the construction of a superstore in Barry; for those who do not know, Barry is in the South Wales Central region. That is not even Alun's region; you represent South Wales West, Alun. What could prompt such concern? Is there not enough to do in your own region?

So there is real confusion about list Members, but it does not stop there. Imagine the confusion of voters in Clwyd West, who rejected Brynle Williams, Janet Ryder and Eleanor Burnham on 5 May only to discover, a few hours later, that they had all been elected to the Assembly by the back door. Such an outcome clearly devalues the integrity of the electoral system in the eyes of the public and acts as a disincentive to vote in Assembly elections.

Brynle Williams: Thank you for the opportunity to respond, Carl. Frankly, if many of the directly elected AMs got up in the morning and got on with their jobs, there would not be any work for us list Members. My work covers the whole of north Wales. Whose party put this system in place? We heard earlier from Nick Bourne that Labour has three list members in Scotland, but you

yna efallai y dylent edrych ar femo hud Leanne Wood, neu feibl yr Aelod rhestr ychwanegol, fel y mae'n cael ei alw gan rai. Nododd, yn eglur iawn, ei rheolau aur ei hun ynglŷn â sut y dylai Aelodau rhestrau gamddefnyddio'r system: osgoi gwaith achos ar bob cyfrif, camddefnyddio'r lwfans staffio er budd y blaid, lleoli swyddfa'r blaid, nid ar sail anghenion y bobl, ond ar sail buddiannau'r blaid, ac, wrth gwrs, dim ond mynychu digwyddiadau sydd o fudd i'r blaid—os oes gennych unrhyw amheuaeth, anfonwch lythyr ac ateb sy'n gwrthod, a hynny ar ffurf pro fforma.

Os nad oes gan Aelodau rhestr yr hunanddisgyblaeth a'r unplygrwydd i gynrychioli eu rhanbarthau yn unol â bwriad gwreiddiol y system, yna rhaid inni orfodi newid drwy nodi'r rheol yn glir a rhoi terfyn ar y camddefnyddio hwn. Ymddengys fod Alun Cairns yn ddryslyd iawn ynglŷn â'r mater hwn. Mae'r eitem ddiweddaraf ar ei wefan yn gwrthwynebu adeiladu archfarchnad yn y Barri; i'r rhai nad ydych yn gwybod, mae'r Barri yn rhanbarth Canol De Cymru. Nid hwnnw yw rhanbarth Alun hyd yn oed; yr ydych yn cynrychioli Gorllewin De Cymru, Alun. Beth allai ysgogi'r fath bryder? Onid oes gennych ddigon i'w wneud yn eich rhanbarth eich hun?

Felly mae dryswch gwirioneddol ynglŷn ag Aelodau rhestr, ond nid dyna'r cyfan. Dychmygwch ddryswch pleidleiswyr yng Ngorllewin Clwyd, a wrthododd Brynle Williams, Janet Ryder ac Eleanor Burnham ar 5 Mai ond a ddarganfu, ychydig oriau yn ddiweddarach, eu bod i gyd wedi cael eu hethol i'r Cynulliad drwy'r drws cefn. Mae canlyniad o'r fath yn amlwg yn dibrisio unplygrwydd y system etholiadol yn llygad y cyhoedd ac nid yw'n cymell pobl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

Brynle Williams: Diolch am y cyfle i ymateb, Carl. A bod yn onest, pe bai llawer o'r Aelodau sydd wedi eu hethol yn uniongyrchol yn codi yn y bore ac yn gwneud eu gwaith, ni fyddai dim byd i ni'r Aelodau rhestr ei wneud. Mae fy ngwaith i'n ymwneud â'r gogledd yn gyfan gwbl. Pa blaid a sefydlodd y system hon? Clywsom yn gynharach gan Nick Bourne fod gan Lafur dri

are not saying much about that. Do not denigrate people on the list; they work extremely hard—equally as hard as you.

Carl Sargeant: Thank you for that short intervention, Brynle. You need to ask yourself why you are not standing in the Clwyd West constituency at the next election. You have jumped onto the list system.

Eleanor Burnham: Will you give way?

Carl Sargeant: In a minute.

The system is not only confusing; I would go so far as to say that it defrauds voters. How else can we describe a situation where Labour comes top of the polls in north Wales, with 55,000 votes, but receives no list Members? It is farcical.

It is also high time that we stop the abuse by list Members who mislead by portraying themselves as constituency Members in a bid to unseat directly elected Members. I fear that this practice has become the norm. No longer should Helen Mary Jones, for example, be able to indulge in her habit of referring to herself as 'Llanelli AM, Helen Mary Jones' as she roams around her constituency in a transparent attempt to create the myth of incumbency, which she hopes that she can use to unseat the properly elected Member, Catherine Thomas.

Helen Mary Jones: On a point of accuracy, if you can produce any document that has come out of my office that states as much, I will be extremely surprised. I describe myself as being based in Llanelli because that is where my office is and I live in Trimsaran. If you can find anything that has been produced with my sanction that says that, then I will be exceedingly surprised.

Carl Sargeant: Thank you for that.

Catherine Thomas: Will you take an intervention?

Carl Sargeant: Yes; I think I have time.

aelod rhestr yn yr Alban, ond nid ydych yn sôn llawer am hynny. Peidiwch â lladd ar bobl sydd ar y rhestr; maent yn gweithio'n galed iawn—yr un mor galed â chithau.

Carl Sargeant: Diolch am yr ymyriad byr hwnnw, Brynle. Mae angen ichi ofyn i chi'ch hun pam nad ydych yn sefyll yn etholaeth Gorllewin Clwyd yn yr etholiad nesaf. Yr ydych wedi neidio ar y system rhestr.

Eleanor Burnham: A wnewch ildio?

Carl Sargeant: Mewn munud.

Mae'r system yn ddryslyd, ond byddwn hefyd yn mynd cyn belled â dweud ei bod yn twyllo pleidleiswyr. Sut arall y gallwn ddisgrifio sefyllfa lle y mae Llafur ar y brig yn etholiad y gogledd, â 55,000 o bleidleisiau, ond heb gael dim Aelodau rhestr? Mae'n ffars.

Mae'n hen bryd hefyd inni roi terfyn ar y camddefnyddio ar y system gan Aelodau rhestr sy'n camarwain drwy roi'r argraff eu bod yn Aelodau etholaeth mewn ymgais i ddisodli Aelodau sydd wedi eu hethol yn uniongyrchol. Mae arnaf ofn bod hyn wedi dod yn beth cyffredin iawn. Ni ddylai Helen Mary Jones, er enghraifft, allu parhau â'i harfer o gyfeirio ati ei hun fel 'Aelod Cynulliad Llanelli, Helen Mary Jones' wrth iddi grwydro o amgylch ei hetholaeth gan geisio rhoi'r argraff i bobl mai hi sy'n dal y swydd, yn y gobaith y gall drechu'r Aelod a etholwyd yn briodol, Catherine Thomas.

Helen Mary Jones: O ran cywirdeb, pe gallech ddangos unrhyw ddogfen a ddaeth o'm swyddfa i sy'n nodi hynny, byddwn yn synnu'n fawr. Yr wyf yn disgrifio fy hun fel rhywun sydd wedi'i leoli yn Llanelli gan fod fy swyddfa yn Llanelli a'm cartref yn Nhrimsaran. Os gallwch ddod o hyd i unrhyw beth a gynhyrchwyd â sêl fy mendith sy'n dweud hynny, yna byddaf yn synnu'n fawr.

Carl Sargeant: Diolch ichi am hynny.

Catherine Thomas: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Carl Sargeant: Gwnaf; credaf fod gennyf amser.

Catherine Thomas: Did you see the Plaid Cymru conference a few months ago, when a certain regional list Member for Mid and West Wales made it clear, in a live BBC interview, that from now on she was intending to throw herself completely into the Llanelli constituency and focus predominantly on that? I wonder how constituents in the remaining constituencies of Mid and West Wales would feel about that?

Carl Sargeant: The directly elected Member for Llanelli put it so well.

To sum up, our current system is confusing for the voters and open to abuse by list Members. I would welcome a clearer, fairer system where voters get who they voted for, and list Members are forced to act for the good of their constituents and not for personal or party-political gain. Unfortunately, I was unable to respond to Nick Bourne's intervention, but he mentioned list Members in the Scottish Parliament. The people that matter are the people of Wales—people like Bernie Attridge, who asked me why people who lost an election are still here, and people like Rita Hampson of Alyn and Deeside who ask this question. Interestingly, Lord Crickhowell said that the present arrangements are indefensible, and yet we have Nick Bourne trying to defend the indefensible.

Helen Mary Jones: I am not interested in taking any lessons in democratic accountability from the Member who got 11 per cent of the vote in his constituency. I do not think that I need to worry about my democratic credibility.

Carl Sargeant: Will you give way?

Helen Mary Jones: I am sorry, Carl, I cannot give way because I have no time, but I will later if I can.

I welcome, in light of the fact that this legislation is being placed before Parliament, the apparent acceptance that the current

Catherine Thomas: A welsoch gynhadledd Plaid Cymru ychydig fisoedd yn ôl, pan ddywedodd rhyw Aelod rhestr ranbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Gymru yn hollol glir, mewn cyfweiliad byw â'r BBC, ei bod o hyn ymlaen yn bwriadu ymroi'n gyfan gwbl i etholaeth Llanelli a chanolbwyntio'n bennaf ar hynny? Tybed sut y byddai etholwyr yn etholaethau eraill Canolbarth a Gorllewin Cymru'n teimlo ynglŷn â hynny?

Carl Sargeant: Mae'r Aelod a etholwyd yn uniongyrchol dros Lanelli wedi mynegi hyn yn rhagorol.

Yn fyr, mae'n system bresennol yn ddryslyd i'r pleidleiswyr ac yn agored i'w chamddefnyddio gan Aelodau rhestr. Byddwn yn croesawu system gliriach, decach lle y mae'r pleidleiswyr yn cael pwy bynnag y maent wedi pleidleisio drosto, ac Aelodau rhestr yn cael eu gorfodi i weithredu er lles eu hetholaethau ac nid er eu lles hwy eu hunain neu eu plaid wleidyddol. Yn anffodus, ni allwn ymateb i ymyriad Nick Bourne, ond cyfeiriodd at Aelodau rhestr yn Senedd yr Alban. Y bobl sy'n bwysig i ni yw pobl Cymru—pobl fel Bernie Attridge, a ofynnodd imi pam mae pobl sydd wedi colli etholiad yn dal yma, a phobl fel Rita Hampson o Alun a Glannau Dyfrdwy sy'n gofyn y cwestiwn hwn. Yn ddiddorol iawn, dywedodd Arglwydd Crucywel na ellir cyfiawnhau'r trefniadau presennol, ac eto clywsom Nick Bourne yn ceisio cyfiawnhau'r hyn na ellir ei gyfiawnhau.

Helen Mary Jones: Nid oes gennyf ddiddordeb mewn derbyn gwersi mewn atebolrwydd democrataidd gan yr Aelod a gafodd 11 y cant o'r bleidlais yn ei etholaeth. Nid wyf yn credu bod rhaid imi boeni am fy hygredd democrataidd.

Carl Sargeant: A wnewch ildio?

Helen Mary Jones: Mae'n ddrwg gennyf, Carl, ni allaf ildio oherwydd nid oes gennyf amser, ond gwnaf yn nes ymlaen os gallaf.

Yr wyf yn falch o weld, o ystyried y ffaith bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei rhoi gerbron y Senedd, ei bod yn ymddangos bod

settlement is, to quote Carwyn Jones, 'a compromise, and like many compromises, it is a mess'. However, the new Bill, while taking some steps in the right direction, rejects the coherent, well-thought-out, well researched proposals of the Richard commission and seeks to put in the place of one messy compromise another equally, if not more, messy compromise. Worse than that, this measure is riddled with grubby, self-seeking, party-politically motivated clauses that are nothing to do with the transparent democracy or the good governance of our nation and everything to do with an attempt to maintain the stranglehold of the Labour Party on power in Wales.

Others have mentioned, for example, attempts to gerrymander the electoral system, and to structure committees permanently in favour of the majority party. I will mainly address our amendment 3, which relates to the mechanism needed to trigger a referendum on full law-making powers.

The First Minister: Will you take an intervention?

Helen Mary Jones: From you, anytime.

The First Minister: You are now reversing the question that was put to me earlier by, I think, Ieuan or Jocelyn, which put it that it was a minority administration that gains advantage from d'Hondt. A majority administration loses advantage.

Helen Mary Jones: I think that there is a misunderstanding there, First Minister, as the larger party has the advantage. However, the basic principle is that it should not be on the face of the Bill—it should be something for the next Assembly to decide through Standing Orders.

I do not wish mainly to address that issue; it has been adequately addressed by Ieuan Wyn Jones among others.

To return to the subject of the trigger for the referendum, the current Bill proposes a labyrinthine system involving Orders in

y setliad presennol, fel y dywedodd Carwyn Jones, yn cael ei weld fel cyfaddawd, a'i fod fel sawl cyfaddawd, yn llanastr. Fodd bynnag, mae'r Mesur newydd, er ei fod yn cymryd rhai camau i'r cyfeiriad cywir, yn gwrthod cynigion ystyrllon comisiwn Richard, cynigion sydd wedi eu hystyried yn ofalus ac ymchwilio trwyadl wedi bod iddynt, ac yn ceisio newid un cyfaddawd di-drefn am un arall sydd yr un mor ddi-drefn os nad yn waeth. Yn waeth na hyn, mae'r mesur hwn yn llawn cymalau gwaradwyddus, hunangeisiol, â chymhelliant pleidiol, nad oes a wnelont ddim â democratiaeth dryloyw na llywodraethu cenedl yn dda, ac yn ymwneud yn gyfan gwbl ag ymgais i dynhau gafael haearnidd y Blaid Lafur ar rym yng Nghymru.

Cyfeiriodd eraill, er enghraifft, at ymdrechion i jerimandro'r system etholiadol, a strwythuro pwyllgorau'n barhaol fel eu bod yn ffafrio'r blaid fwyafrifol. Rhoddaf sylw yn bennaf i'n gwelliant 3, sy'n ymwneud â'r trefniadau sydd eu hangen er mwyn sbarduno refferendwm ar bwerau deddfu llawn.

Y Prif Weinidog: A wnewch dderbyn ymyriad?

Helen Mary Jones: Gennyh chi, unrhyw bryd.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn awr yn gwrthdroi'r cwestiwn a ofynnwyd imi yn gynharach gan Ieuan, neu Jocelyn efallai, a oedd yn awgrymu mai gweinyddiaeth leiafrifol sydd ar ei hennill gyda d'Hondt. Mae'r weinyddiaeth fwyafrifol yn colli'r fantais.

Helen Mary Jones: Credaf fod camddealltwriaeth yma, Brif Weinidog, gan mai'r blaid fwyaf sydd â'r fantais. Fodd bynnag, yr egwyddor sylfaenol yw na ddylai fod yn y Mesur—dylai fod yn rhywbeth i'r Cynulliad nesaf benderfynu yn ei gylch drwy Reolau Sefydlog.

Nid wyf yn dymuno rhoi sylw i'r mater hwn yn bennaf; mae digon o sylw wedi ei roi iddo gan Ieuan Wyn Jones ymhllith eraill.

A dychwelyd at fater y sbardun ar gyfer y refferendwm, mae'r Mesur presennol yn cynnig system labyrinthhaidd gyda

Council, Assembly votes, Commons votes, a vote in the House of Lords, and whatever consultation the Secretary of State—not the Assembly—considers appropriate before a referendum can be called. Further to this complexity is the ridiculous and undemocratic proposal that a two-thirds majority of the Assembly would be needed; it is absolutely unnecessary and is without precedent. Surely, if a party or parties have won a majority in the Assembly, having fought on a manifesto or manifestos promising a referendum on full powers, then a simple majority in this legislature should be enough without having to secure the agreement of the Secretary of State, the Westminster Houses—the House of Lords, for heaven’s sake. This should be a matter for a simple majority of the representatives of the people of Wales and the representatives of the people of Wales alone and then the people of Wales themselves through a referendum. I am convinced that such a referendum would be won. If we look at the evidence from opinion polls, we see support for a proper Parliament growing day by day.

The truth is that Labour does not trust the representatives of the people of Wales to decide when the question of full powers should be put to the people; it wants to keep control of that process; it wants a veto. Clauses 202 and 203 of this Bill are about delivering that veto into the hands of the Labour Party and not about delivering power into the hands of the people of Wales.

John Marek: It is not that the Labour Party does not trust the people of Wales—I think that it does on some occasions, and does not on others—it is simply that it wants to keep its present number of Labour MPs in the House of Commons. We have to look to the next administration in the House of Commons to put the matter right and reduce the number of Labour MPs for Wales and give primary powers, subject to a referendum, at the same time.

5.00 p.m.

Helen Mary Jones: I certainly concur with your view about their wishing to protect their

Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, pleidleisiau yn y Cynulliad, pleidleisiau yn Nhŷ'r Cyffredin, pleidlais yn Nhŷ'r Arglwyddi, a pha ymgynghoriad bynnag sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol—nid y Cynulliad—cyn y gellir galw refferendwm. Yn ogystal â'r cymhlethdod hwn ceir cynnig chwerthinllyd ac annemocrataidd y byddai angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cynulliad; mae'n gwbl ddiangen ac nid oes dim cynsail iddo. Os yw plaid neu bleidiau wedi ennill mwyafrif yn y Cynulliad, ar ôl ymladd ar fanifesto neu fanifestos yn addo refferendwm ar bwerau llawn, yna siawns na ddylai mwyafrif syml yn y ddeddfwrfa hon fod yn ddigon heb orfod cael cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, er mwyn popeth! Dylai hwn fod yn fater i fwyafrif syml o gynrychiolwyr pobl Cymru, a chynrychiolwyr pobl Cymru yn unig, a phobl Cymru eu hunain wedyn drwy refferendwm. Yr wyf yn argyhoeddedig y byddai refferendwm o'r fath yn cael ei hennill. Os edrychwn ar y dystiolaeth mewn polau piniwn, gwelwn gefnogaeth i Senedd iawn yn cynyddu'n ddyddiol.

Y gwir amdani yw nad yw Llafur yn ymddiried yng nghynrychiolwyr pobl Cymru i benderfynu pa bryd y dylid rhoi mater pwerau llawn gerbron y bobl; mae arni eisiau cadw rheolaeth dros y broses hon; mae arni eisiau fetu. Mae cymalau 202 a 203 yn y Mesur hwn yn ymwneud â rhoi'r fetu hwn yn nwylo'r Blaid Lafur ac nid â rhoi grym yn nwylo pobl Cymru.

John Marek: Nid mater o ddiffyg ymddiriedaeth ym mhobl Cymru ar ran y Blaid Lafur yw hyn—credaf ei bod yn ymddiried ynddynt ar rai adegau, ac nad yw ar adegau eraill—ond y gwir amdani yw bod ar y Blaid Lafur eisiau cadw ei nifer presennol o aelodau Llafur yn Nhŷ'r Cyffredin. Rhaid inni ddisgwyl i'r weinyddiaeth nesaf yn Nhŷ'r Cyffredin unioni'r sefyllfa a lleihau nifer yr aelodau Llafur Cymreig a rhoi pwerau sylfaenol, yn amodol ar refferendwm, yr un pryd.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn sicr yn cytuno â'ch barn ynghylch eu dymuniad i ddiogelu

colleagues' jobs and about that being their overriding concern.

These clauses are shabby and partisan. The Labour Party should be ashamed of them, and I am sure that there may well be Labour Members here who are ashamed of them.

I ask the First Minister and his colleagues to commit today to seeking a straightforward amendment to replace 102 and 103 with clauses allowing a simple majority of this Assembly—the representatives of the people of Wales—to trigger a referendum on law-making powers. Given the way that the First Minister has wriggled and capitulated to his Westminster colleagues so far on full law-making powers, I am not sanguine that he will do that.

I commend amendment 3 and the other amendments in the name of Jocelyn Davies.

Glyn Davies: I am pleased to participate in this debate, which marks the beginning of the Assembly's engagement with the Bill that is going through Westminster and which is of huge importance to the future of the National Assembly.

This is a complex Bill, and it is not surprising that all of us have different attitudes towards different aspects of it. Like others, I have experienced pleasure at the separation of the Executive from the legislature. I think that it will lead to an Assembly that is much more understandable to the general public. It will be more traditional in the British sense, and I think that people will be able to engage with the Assembly far better than they have done up until now.

There is a degree of disappointment about aspects that I see as being partisan by the Labour Party. I do not want to enter into the argument about the changes to the electoral arrangements, except to say that I am disappointed—as I have an interest in it—that independent bodies such as the Electoral Commission, which is the premier independent voice, has made all sorts of

swyddi eu cyd-aelodau ac ynghylch y ffaith mai hynny yw'r mater pwysicaf yn eu golwg.

Mae'r cymalau hyn yn annheg ac yn bleidgar. Dylai fod ar y Blaid Lafur gywilydd ohonynt, ac yr wyf yn sicr ei bod yn ddigon posibl bod Aelodau Llafur yma sydd â chywilydd ohonynt.

Yr wyf yn gofyn i'r Prif Weinidog a'i gyd-Aelodau ymrwymo heddiw i geisio cael gwelliant syml er mwyn rhoi cymalau yn lle cymalau 102 a 103 a fydd yn caniatáu i fwyafrif syml yn y Cynulliad hwn—cynrychiolwyr pobl Cymru—sbarduno refferendwm ar bwerau deddfu. O ystyried y modd y mae'r Prif Weinidog wedi troi a throsi ac wedi ildio i'w gyd-aelodau yn San Steffan hyd yma ynghylch pwerau deddfu llawn, nid wyf yn ffyddiog y bydd yn gwneud hynny.

Yr wyf yn cymeradwyo gwelliant 3 a'r gwelliannau eraill sydd yn enw Jocelyn Davies.

Glyn Davies: Yr wyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon, sydd yn nodi dechrau ymwneud y Cynulliad â'r Mesur sydd yn mynd drwy San Steffan ac sydd o bwys aruthrol i ddyfodol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae hwn yn fesur cymhleth, ac nid yw'n syndod bod gan bob un ohonom farn wahanol am agweddau gwahanol arno. Fel eraill, pleser i mi oedd gweld gwahanu'r Weithrediaeth oddi wrth y ddeddfwrfa. Yr wyf yn credu y ceir Cynulliad o ganlyniad i hynny a fydd yn llawer mwy dealladwy i'r cyhoedd. Bydd yn fwy traddodiadol yn yr ystyr Brydeinig, ac yr wyf yn credu y bydd pobl yn gallu ymgysylltu yn well o lawer â'r Cynulliad nag y maent wedi gwneud hyd yma.

Mae rhywfaint o siom ynghylch agweddau yr wyf yn eu hystyried yn rhai pleidgar ar ran y Blaid Lafur. Nid wyf am ymuno â'r ddadl ynghylch y newidiadau i'r trefniadau etholiadol, heblaw dweud fy mod yn siomedig—gan fod gennyf fuddiant ynddo—fod cyrff annibynnol fel y Comisiwn Etholiadol, sef y prif lais annibynnol, wedi cyflwyno pob math o sylwadau dilornus am

disparaging remarks about this. I listed them earlier this afternoon in a question to the First Minister: it is perceived as partisan; it undermines public confidence; and it has a negative impact on voter participation. This is what the Electoral Commission said, and it has said that there has been absolutely no evidence that there has been a problem. Not only has the Electoral Commission said this, but the Electoral Reform Society and virtually every other independent body has also expressed this view.

I think that Ann Jones made the point that many people have criticised the current arrangements. Nearly all of them have criticised it because they want to either return to the first-past-the-post system or to move away from the additional member system altogether. That is what they want. They were criticising the entire system, not this particular aspect of it.

Jeff Cuthbert: You ask about evidence. Many of my constituents still ask me why your party's candidate, who came a poor third in the Caerphilly constituency, was able to become a list Member on the strength, in reality, of the strong vote that your party had in Monmouth. My people cannot see the relationship there. How can you justify a situation that allows something like that?

Glyn Davies: Does it not occur to you as being strange, Jeff, that people are saying this to you in your constituency while an independent body such as the Electoral Commission says openly that no-one has raised the issue with it, despite the fact that they may not have not spoken to one or two of your constituents? Jeff, you are the Eric Joyce of Welsh politics. [*Laughter.*] If someone has to stand up to try to justify the unjustifiable on behalf of the Labour Party, it is nearly always you.

The second aspect of partisanship that I think is disappointing is the introduction of the d'Hondt system. It was interesting to hear the First Minister saying that this favours the minority party. First Minister, if you look at the figures that I have looked at—they are available to you—you will find that it benefits the majority. Again, every

hyn. Fe'u rhestrais yn gynharach y prynhawn yma mewn cwestiwn i'r Prif Weinidog: bernir ei fod yn bleidgar; mae'n tansilio hyder y cyhoedd; ac mae'n amharu ar gyfranogiad gan bleidleiswyr. Dyna'r hyn a ddywedodd y Comisiwn Etholiadol, ac mae wedi dweud na chafwyd dim tystiolaeth o gwbl fod problem wedi codi. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi dweud hynny, ac mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol a bron bob corff annibynnol arall wedi mynegi'r farn honno hefyd.

Yr wyf yn credu mai Ann Jones a wnaeth bwynt i'r perwyl bod llawer o bobl wedi beirniadu'r trefniadau presennol. Mae bron bob un ohonynt wedi eu beirniadu un ai am eu bod am droi'n ôl at system y cyntaf i'r felin neu am droi oddi wrth y system aelodau ychwanegol yn gyfan gwbl. Dyna yw eu dymuniad. Yr oeddent yn beirniadu'r system gyfan, nid yr agwedd benodol hon arni.

Jeff Cuthbert: Yr ydych yn holi am dystiolaeth. Mae llawer o'm hetholwyr yn dal i ofyn i mi pam yr oedd ymgeisydd eich plaid, a ddaeth yn drydydd gwael yn etholaeth Caerffili, wedi gallu dod yn Aelod rhestr a hynny, mewn gwirionedd, oherwydd y bleidlais gref a gafodd eich plaid ym Mynwy. Nid yw fy mhobl i'n gallu gweld y cysylltiad hwnnw. Sut y gallwch gyfiawnhau sefyllfa sydd yn caniatáu rhywbeth o'r fath?

Glyn Davies: Onid yw'n ymddangos yn rhyfedd i chi, Jeff, fod pobl yn dweud hynny wrthyf yn eich etholaeth tra bo corff annibynnol fel y Comisiwn Etholiadol yn dweud yn blaen nad oes neb wedi codi'r mater hwn gydag ef, er gwaethaf y ffaith nad ydyw o bosibl wedi siarad ag un neu ddau o'ch etholwyr? Jeff, chi yw Eric Joyce y byd gwleidyddol yng Nghymru. [*Chwerthin.*] Os oes rhaid i rywun sefyll ar ei draed i geisio cyfiawnhau'r anghyfiawnadwy ar ran y Blaid Lafur, chi sydd yn gwneud bron bob tro.

Yr ail agwedd ar bleidgarwch yr wyf yn credu ei bod yn siomedig yw'r bwriad i gyflwyno system d'Hondt. Diddorol oedd clywed y Prif Weinidog yn dweud bod hyn yn ffafrio'r blaid leiafrifol. Brif Weinidog, os edrychwch ar y ffigurau a welais i—maent ar gael i chithau—gwelwch ei bod o fudd i'r mwyafrif. Unwaith eto, mae pob corff

independent body that I have talked to tells me that this is a partisan measure to support the Labour Party's interests. That is deeply disappointing. To me, you have a reputation of being a democrat, as does Peter Hain because of his experience in South Africa. Your behaviour on this issue will pollute your legacy and scar your reputation.

Moving to the third part, I have some understanding of the First Minister's problem in knowing exactly how to bring forward this most important part of the issue, namely bringing law-making powers to this institution. I intervened during his speech because I can always tell what the First Minister believes by looking at his body language and I feel that he shares my view that it would have been much better if we had moved simply to a position of having law-making powers in the Assembly. I am certain that that is the case. I understand why you are not able to say it, First Minister, and I understand the difficulty in which you find yourself. However, I accept that it is a major change, and that part of Peter Hain's argument is right. That is why we believe that there should be a referendum on it.

Finally, on the position from 2007 onwards, if I am lucky enough to be returned to the Assembly in the election, I will look forward to working under that new arrangement. If you take into account the significant change in powers if this happens, combined with the extra framework legislation and the separation of the Executive from the legislature, this institution will be much more like a traditional parliament. The way in which we operate will be much more satisfying, it will engage much better with the public, and it will be much more like a normal parliament. I look forward to taking part in that.

annibynnol yr wyf wedi siarad ag ef wedi dweud wrthyf mai mesur pleidgar yw hwn i gynnal buddiannau'r Blaid Lafur. Mae hynny'n siomedig dros ben. Yn fy ngolwg i, mae ichi'r enw o fod yn ddemocrat, yn yr un modd â Peter Hain oherwydd ei brofiad yn Ne Affrica. Bydd eich ymddygiad ynghylch y mater hwn yn halogi'r etifeddiaeth y byddwch yn ei gadael ac yn andwyo'ch enw da.

Gan symud ymlaen at y drydedd ran, yr wyf yn deall i ryw raddau y broblem sydd gan y Prif Weinidog o ran gwybod sut yn union i gyflwyno'r agwedd bwysicaf ar y mater, sef dod â phwerau deddfu i'r sefydliad hwn. Ymyrrais yn ystod ei araith gan fy mod bob amser yn gallu gweld beth y mae'r Prif Weinidog yn ei gredu drwy edrych ar iaith ei gorff ac yr wyf yn teimlo ei fod o'r un farn â mi, sef y buasai'n well o lawer pe byddem wedi symud ymlaen at sefyllfa lle y byddai gennym bwerau deddfu yn y Cynulliad. Yr wyf yn sicr bod hynny'n wir. Yr wyf yn deall pam na allwch ddweud hynny, Brif Weinidog, ac yr wyf yn deall yr anhawster y cawsoch eich hun ynddo. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn ei fod yn newid mawr, a bod rhan o ddadl Peter Hain yn gywir. Dyna pam yr ydym yn credu y dylid cael refferendwm yn ei gylch.

Yn olaf, ynghylch y sefyllfa o 2007 ymlaen, os byddaf yn ddigon ffodus i gael fy ailethol i'r Cynulliad yn yr etholiad, byddaf yn edrych ymlaen at weithio dan y trefniant newydd hwnnw. Os ystyriwch y newid sylweddol o ran pwerau os bydd hyn yn digwydd, ynghyd â'r ddeddfwriaeth fframwaith ychwanegol a gwahanu'r Weithrediaeth oddi wrth y ddeddfwrfa, bydd y sefydliad hwn yn debycach o lawer i senedd draddodiadol. Bydd ein dull o weithredu'n llawer mwy boddhaol, bydd yn ymgysylltu'n well o lawer â'r cyhoedd, a bydd yn llawer mwy tebyg i senedd arferol. Yr wyf yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn hynny.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 5.06 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 5.06 p.m.*

Gwenda Thomas: I will focus my remarks on the aspects of the Bill that relate to equality of opportunity. As Chair of the

Gwenda Thomas: Rhoddaf y sylw pennaf yn fy sylwadau i'r agweddau ar y Mesur sydd yn ymwneud â chyfle cyfartal. Fel Cadeirydd y

Committee on Equality of Opportunity, I have strongly argued that sections 48 and 120 of the current Government of Wales Act 1998 should be retained in the amended Government of Wales Bill. These sections give the Assembly, as I have said many times, the statutory obligation to ensure that equality of opportunity is given due regard in all of its work and proceedings. This obligation is unique to the National Assembly for Wales as a legislative body.

Following the publication of the Assembly's response to the White Paper, I made representations to the Presiding Officer, as well as to the First Minister and the Minister with responsibility for equality of opportunity, stating my opinion that these sections should remain in the amended Act. I am delighted that the Welsh Assembly Government and the UK Government have taken on board my concerns, and that the amended Government of Wales Bill retains the statutory obligation of the 1998 Act in regard to equality of opportunity.

I welcome the provision in the Bill regarding the statutory obligation in respect of equality of opportunity placed upon the proposed Assembly commission. Schedule 2, section 9(1) states,

'that the Assembly commission must make arrangements with a view to securing that its functions are exercised with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people'.

It will, of course, be dependent on Standing Orders as to how the Assembly scrutinises the Assembly Government in regard to its equality of opportunity obligations. I would hope that the Committee on Equality of Opportunity will be retained during the next Assembly to carry out this work.

The Committee on Equality of Opportunity's external standing invitees have been of a significant benefit to the committee's work. The invitees include the Commission for Racial Equality, the Equal Opportunities Commission, Stonewall Cymru, the Disability Rights Commission and the Welsh Language Board. Their expert knowledge on the broad range of equality issues has proven

Pwyllgor Cyfle Cyfartal, yr wyf wedi dadlau'n gryf dros gadw adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ar hyn o bryd yn y Mesur Llywodraeth Cymru diwygiedig. Mae'r adrannau hynny'n rhoi i'r Cynulliad, fel yr wyf wedi dweud lawer gwaith, y rhwymedigaeth statudol i sicrhau y rhoddir sylw dyladwy i gyfle cyfartal yn ei holl waith a'i drafodion. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r unig gorff deddfwriaethol sydd â'r rhwymedigaeth hon.

Ar ôl cyhoeddi ymateb y Cynulliad i'r Papur Gwyn, cyflwynais sylwadau i'r Llywydd, yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gyfle cyfartal, yn datgan fy marn y dylid cadw'r adrannau hyn yn y Ddeddf ddiwygiedig. Yr wyf yn falch iawn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU wedi ystyried fy mhryderon, a bod y Mesur Llywodraeth Cymru diwygiedig yn cadw'r rhwymedigaeth statudol sydd yn Neddf 1998 mewn cysylltiad â chyfle cyfartal.

Yr wyf yn croesawu'r ddarpariaeth sydd yn y Mesur ynghylch y rhwymedigaeth statudol mewn cysylltiad â chyfle cyfartal sydd wedi ei gosod ar gomisiwn arfaethedig y Cynulliad. Yn Atodlen 2, adran 9(1) dywedir,

bod rhaid i gomisiwn y Cynulliad wneud trefniadau gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.

Wrth gwrs, bydd y modd y mae'r Cynulliad yn craffu ar waith Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad â'i rhwymedigaethau o ran cyfle cyfartal yn dibynnu ar Reolau Sefydlog. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn cael ei gadw yn ystod y Cynulliad nesaf i gyflawni'r gwaith hwn.

Mae gwahoddedigion sefydlog allanol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi bod yn llesol iawn i waith y pwyllgor. Ymhlith y gwahoddedigion y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Stonewall Cymru, y Comisiwn Hawliau Anabledd a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cafwyd bod eu gwybodaeth arbenigol am yr amrywiaeth fawr o faterion

invaluable. I would be grateful if I could be given an assurance that their role will be carefully considered during the process of writing new Standing Orders.

Kirsty Williams: We have heard more than enough this afternoon about the electoral arrangements for the National Assembly. My constituents, Jeff, regularly ask me what I and the Assembly are doing to help them with the various problems that they face in their lives—problems with the health service, the economy, agriculture, and schools. In the last six years in which I have represented Brecon and Radnorshire, I have never been asked by them when I will change the way in which I am elected—never, ever.

The preoccupation of Labour Assembly Members with this problem is a distraction from the real issues and the real opportunities missed in this Bill to address the questions asked by constituents: ‘What will you do to help me, and how is this place structured in such a way that you can deliver the policies that I need to get my child in a decent school, to ensure that my son and daughter have decent jobs, and to ensure that there is a hospital open on a Friday night for me to visit should I need to?’. This Bill is a missed opportunity. The way in which we can achieve some of those goals will be such a convoluted, long drawn-out process that I do not believe that the Assembly will be able to act in the way in which its Members will want to, in order to address some of those problems, following the next election.

5.10 p.m.

Turning to clause 60, in schedule 5 to the Bill, the Welsh Liberal Democrats would like to see a power to promote the general wellbeing of Wales, and rather than the Government setting out what the Assembly is allowed to do, as clause 60 and schedule 5 suggests, we should be taking the approach that the Labour Party has taken towards Scotland. If you look at equivalent measures in the Scottish Act, the Act says what it cannot do; everything else is broad and wide open for the Scottish Parliament to act upon.

sydd yn ymwneud â chydraddoldeb yn amhrisiadwy. Byddwn yn ddiolchgar pe gallwn gael sicrwydd y bydd eu rôl yn cael ei hystyried yn ofalus yn ystod y broses o ysgrifennu Rheolau Sefydlog newydd.

Kirsty Williams: Yr ydym wedi clywed mwy na digon y prynhawn yma am y trefniadau etholiadol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Mae fy etholwyr i, Jeff, yn gofyn yn gyson i mi beth yr wyf fi a'r Cynulliad yn ei wneud i'w helpu gyda'r gwahanol broblemau y maent yn eu hwynebu yn eu bywyd—problemau gyda'r gwasanaeth iechyd, yr economi, amaethyddiaeth, ac ysgolion. Yn y chwe blynedd diwethaf pan fûm yn cynrychioli Brycheiniog a Sir Faesyfed, nid ydynt erioed wedi gofyn i mi pa bryd y byddaf yn newid y modd y caf fy ethol—erioed.

Mae diddordeb yr Aelodau Cynulliad Llafur yn y problem hon yn tynnu sylw oddi wrth y materion pwysig a'r cyfleoedd gwirioneddol a gollir yn y Mesur hwn i ymdrin â'r cwestiynau y mae etholwyr yn eu gofyn: ‘Beth a wnewch i'm helpu, a sut y mae'r lle hwn wedi ei drefnu fel y gallwch sicrhau'r polisiau y mae arnaf eu hangen i gael ysgol dderbyniol ar gyfer fy mhlentyn, i sicrhau swyddi addas i'm mab a'm merch, ac i sicrhau bod ysbyty'n agored ar nos Wener fel y gallaf fynd yno os bydd angen?’. Cyfle a gollir yw'r Mesur hwn. Bydd y broses yr awn drwyddi i gyrraedd rhai o'r nodau hyn mor hir a chymhleth fel nad wyf yn credu y bydd y Cynulliad yn gallu gweithredu'n unol â dymuniad ei Aelodau, er mwyn delio â rhai o'r problemau hynny, ar ôl yr etholiad nesaf.

Gan droi at gymal 60, yn atodlen 5 i'r Mesur, carai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru weld pŵer i hyrwyddo lles cyffredinol Cymru, ac yn hytrach na bod y Llywodraeth yn nodi'r hyn y caiff y Cynulliad ei wneud, fel y mae cymal 60 ac atodlen 5 yn awgrymu, dylem ddilyn y llwybr a ddilynodd y Blaid Lafur mewn cysylltiad â'r Alban. Os edrychwch ar fesurau cyfatebol yn Neddf yr Alban, gwelwch fod y Ddeddf yn nodi'r hyn na chaiff ei wneud; mae Senedd yr Alban yn rhydd i weithredu ar bob dim arall. Yn

In totemic terms, it would be a much more powerful Bill if it was framed in a similar way for the people of Wales. The Assembly should be able to act in the general interest, and for the general wellbeing, of the people of Wales, and only those areas so described should be set down as areas in which we cannot act. Therefore, we should look again at clause 60 and schedule 5.

Like Helen Mary Jones, I believe wholeheartedly that the way in which we can move to the final stage of the devolution process, which is the establishment of a full law-making parliament in Cardiff bay, is ridiculous. Why should the power to hold a referendum only be in the hands of Executive Ministers? The Chamber should be able, with a simple majority, to trigger that referendum. The power should be with the Assembly as a whole, not with a handful of Ministers.

Moving on to regulatory impact assessments and the sustainable development schemes, the current arrangement requires the Executive to lay those documents here and to hold a vote on them. Looking at the contents of the Bill, I believe that we are in a retrograde situation, as there is a requirement to lay such documents, but there is no requirement for those documents to be voted on. That is a step backwards in terms of regulatory impact assessments and sustainable development.

There is also a backward step in terms of committee structure. The Government of Wales Act 1998 is not so didactic in what Assembly committees should look like and how they should operate. We have been able, via our Standing Orders, to shape and amend, in the light of experience, the way in which our committees develop. Everyone accepts that, in a new system, with new workloads to be undertaken, those committee structures will have to change, but to have it dictated to us on the face of the Bill is a backward step. The Assembly should be able to design its own committee structure, free from any limitations placed on it by primary legislation. We have the experience here; some of us will have been here for eight years by 2007, and the rest of us will have

dotemaidd, byddai'n fesur llawer mwy grymus pe byddai wedi ei lunio mewn modd tebyg ar gyfer pobl Cymru. Dylai'r Cynulliad gael gweithredu er budd cyffredinol, ac er lles cyffredinol, pobl Cymru, a dim ond y meysydd hynny sydd wedi eu disgrifio felly y dylid eu nodi fel rhai lle na allwn weithredu. Felly, dylem ailedrych ar gymal 60 ac atodlen 5.

Yn yr un modd â Helen Mary Jones, yr wyf yn llwyr gredu bod y dull a gynigir ar gyfer symud ymlaen at gam olaf y broses ddatganoli, sef sefydlu senedd lawn ym mae Caerdydd a chanddi'r gallu i wneud deddfau, yn un chwerthinllyd. Pam y dylai'r pŵer i gynnal refferendwm fod yn nwylo Gwenidogion y Weithrediaeth yn unig? Dylai'r Siambr fod â'r gallu i sbarduno refferendwm o'r fath drwy fwyafrif syml. Dylai'r pŵer fod yn eiddo i'r Cynulliad cyfan, nid i lond llaw o Weinidogion.

A symud ymlaen at asesiadau effaith reoleiddiol a'r cynlluniau datblygu cynaliadwy, mae'r trefniadau presennol yn mynnu y bydd y Weithrediaeth yn gosod y dogfennau yn y fan hon ac yn cynnal pleidlais arnynt. O ystyried cynnwys y Mesur, yr wyf yn credu ein bod yn cymryd cam yn ôl, gan fod gofyniad i osod dogfennau o'r fath, ond nid oes gofyniad i gynnal pleidlais ar y dogfennau hynny. Mae hynny'n gam yn ôl mewn cysylltiad ag asesiadau effaith reoleiddiol a datblygu cynaliadwy.

Ceir cam yn ôl hefyd o ran strwythur pwyllgorau. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 1998 mor bedantig o ran pennu ffurf pwyllgorau'r Cynulliad a'u dull o weithredu. Drwy ein Rheolau Sefydlog, yr ydym wedi gallu siapia a newid y modd y mae ein pwyllgorau wedi datblygu, yng ngoleuni profiad. Mae pawb yn derbyn, o gael system newydd gyda llwythi gwaith newydd i'w hysgwyddo, y bydd yn rhaid newid y strwythurau hynny, ond cam yn ôl yw bod hynny'n cael ei bennu inni yn y Mesur. Dylai'r Cynulliad gael cynllunio ei strwythur pwyllgorau ei hun, heb fod dim cyfyngiadau'n cael ei roi ar hynny gan ddeddfwraeth sylfaenol. Mae'r profiad angenrheidiol gennym yma; bydd rhai ohonom wedi bod yma ers wyth mlynedd

been here for four years. We have the expertise and the experience within the Assembly to decide how our committee structures can best work for us, and we should be able, in the light of experience, to amend them, if they need amending, via Standing Orders. The way in which we operate should not be constrained by primary legislation. It seems to me that we are simply not trusted by London to manage our own affairs.

In closing, I welcome this baby step forward in the way in which this country is governed, but let us not lose sight of the fact that, despite these changes, when it comes down to it, the budget for the National Assembly will still be the same. Until we get to address the issues of Barnett, our ability to act will always be constrained.

Jeff Cuthbert: I welcome this chance to confirm my full support for the Government of Wales Bill. The Assembly has come a long way since its creation and the Bill is the next logical step to take. It is a Bill that is based soundly on evidence of need, giving the Assembly the additional tools that it needs to deliver greater change and improvements in public services in Wales.

Jocelyn Davies: Will you take an intervention?

Jeff Cuthbert: Very well, although I have only just begun.

Jocelyn Davies: It is just a brief point. You say that this is the next logical step, but what is logical about the Secretary of State becoming more powerful post devolution than he was before 1999?

Jeff Cuthbert: I do not accept that this makes the Secretary of State more powerful. It is a logical step to take for the reasons that the First Minister outlined earlier. This is not change for change's sake; this is the Labour Party making clear its commitment to devolution and a well run and effective Assembly focused on delivering real

erbyn 2007, a bydd y gweddill ohonom wedi bod yma ers pedair blynedd. Mae gennym ddigon o arbenigedd a phrofiad yn y Cynulliad i benderfynu ar y strwythurau o ran pwyllgorau sydd fwyaf addas i ni, a dylem gael eu newid, yng ngoleuni profiad, os oes angen eu newid, drwy'r Rheolau Sefydlog. Ni ddylai deddfwriaeth sylfaenol gyfyngu ar ein dull o weithredu. Mae'n ymddangos i mi nad yw Llundain yn ymddiried ynom o gwbl i reoli ein materion ein hunain.

Wrth gloi, croesawaf y cam bach hwn ymlaen yn y dull o lywodraethu'r wlad hon, ond gadewch inni beidio â cholli golwg ar y ffaith mai'r un fydd maint cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol yn y diwedd, er gwaethaf y newidiadau hyn. Hyd nes y cawn ymdrin â'r materion sydd yn ymwneud â fformiwla Barnett, bydd ein gallu i weithredu'n gyfyngedig bob amser.

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i gadarnhau fy mod yn llwyr o blaid Mesur Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynulliad wedi mynd yn bell ers ei greu a'r Mesur hwn yw'r cam rhesymegol nesaf iddo. Mae'r Mesur hwn yn un sydd wedi ei seilio'n gadarn ar dystiolaeth o angen, sydd yn rhoi i'r Cynulliad yr offer ychwanegol y mae arno eu hangen i sicrhau mwy o newid a gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Jocelyn Davies: A wnewch dderbyn ymyriad?

Jeff Cuthbert: Iawn, er mai newydd ddechrau yr wyf.

Jocelyn Davies: Dim ond pwynt byr ydyw. Yr ydych yn dweud mai dyma'r cam rhesymegol nesaf, ond beth sy'n rhesymegol ynghylch y ffaith y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dod yn fwy pwerus ar ôl datganoli nag ydoedd cyn 1999?

Jeff Cuthbert: Nid wyf yn derbyn bod hyn yn gwneud yr Ysgrifennydd Gwladol yn fwy pwerus. Mae'n gam rhesymegol i'w gymryd am y rhesymau y soniodd y Prif Weinidog amdanynt yn gynharach. Nid newid er mwyn newid yw hyn; mae hyn yn nodi'n glir fod y Blaid Lafur yn ymrwymedig i ddatganoli ac i gael Cynulliad effeithiol wedi'i redeg yn dda,

improvements to the lives of the people that it serves.

Removing Ministers from Assembly scrutiny committees seems entirely logical to me. The change will free up both Ministers and committees to be more robust in policy development. The move will draw a clearer dividing line between the Assembly Government and the National Assembly, making it far easier for the public to understand how policies are made in its name. Freeing up Ministers from committee membership will allow backbenchers, of the governing party in particular, more freedom to express views on committee issues. It will bolster the strong scrutiny function of subject committees and allow backbenchers more of a role in policy development and analysis.

Democracy in its broader sense—and I am sorry if this rankles the opposition—is all about knowing who you have voted for and being able to call them to account. The Assembly's electoral system's weakness in this regard is the dual-list system; a system that allows losers to be winners is fundamentally flawed and must be reformed. I am glad to see that the Arbuthnott inquiry in Scotland is also highlighting this very problem. Concerns about the dual-list system have also been expressed by Lord Crickhowell, the former Liberal Democrat MP Alex Carlile, Lord David Steele, a former Liberal Democrat leader and then-Speaker of the Scottish Parliament and, last but not least, as I understand it, the Preseli Pembrokeshire Conservative Association. There is clear evidence of discontent with the current voting system.

Lisa Francis: I am grateful to you for taking this intervention. Could you explain to me, or give me some examples, of how you think that implementing a ban on dual candidacy will stop regional list Members from competing with constituency Members? That is what your party is actually afraid of, is it not?

Jeff Cuthbert: For you to say that we, on

sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau gwirioneddol i fywydau'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

Mae tynnu Gweinidogion oddi ar bwyllgorau craffu'r Cynulliad yn ymddangos yn gwbl resymegol i mi. Bydd y newid yn rhyddhau Gweinidogion a phwyllgorau i fod yn fwy cadarn wrth ddatblygu polisi. Bydd yn tynnu llinell gliriach rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol, gan ei gwneud yn llawer haws i'r cyhoedd ddeall sut y gwneir polisiau yn ei enw. Bydd rhyddhau Gweinidogion rhag eistedd ar bwyllgorau yn rhoi mwy o ryddid i aelodau'r meinciau cefn, yn y blaidd sy'n llywodraethu yn enwedig, leisio barn am faterion pwyllgorau. Bydd yn grymuso swyddogaeth graffu gref y pwyllgorau pwnc ac yn rhoi mwy o rôl i aelodau'r meinciau cefn gyda datblygu a dadansoddi polisiau.

Mae democratiaeth yn ei hystyr ehangach—ac mae'n flin gennyf os yw hyn yn digio'r gwrthbleidiau—yn golygu gwybod pwy yr ydych wedi pleidleisio drostynt a gallu eu galw i gyfrif. Gwendid system etholiadol y Cynulliad yn y cyswllt hwn yw'r system ddwy restr; mae system lle y gall collwyr fod yn enillwyr yn sylfaenol ddiffygiol a rhaid ei diwygio. Yr wyf yn falch o weld bod ymchwiliad Arbuthnott yn yr Alban hefyd yn tynnu sylw at yr union broblem hon. Mae pryderon ynghylch y system ddwy restr hefyd wedi eu lleisio gan Arglwydd Crucywel, y cyn AS dros y Democratiaid Rhyddfrydol Alex Carlile, yr Arglwydd David Steele, cyn arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol a Llefarydd Senedd yr Alban ar y pryd, ac, yn olaf ond nid yn lleiaf, yn ôl yr hyn a ddeallaf, Cymdeithas Ceidwadwyr Preseli Sir Benfro. Mae hynny'n dystiolaeth glir o anfonlonrwydd â'r system bleidleisio bresennol.

Lisa Francis: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am dderbyn yr ymyriad hwn. A allech esbonio imi, neu roi rhai enghreifftiau imi, o sut y credwch y bydd gwahardd ymgeiswyr deuel yn atal Aelodau ar y rhestrau rhanbarthol rhag cystadlu ag Aelodau etholaethol? Hynny sydd ar eich plaid ei ofn mewn gwirionedd, onid e?

Jeff Cuthbert: Mae dweud ein bod ni, ar yr

this side of the Chamber, are afraid of anything is nonsense. If you stand in an election, either you win or you lose; you do not stand and then say 'Well, perhaps I will get in anyway through the back door', which is the system that you are defending.

Glyn Davies *rose*—

Jeff Cuthbert: No, I have taken two interventions, and that is enough for a short speech.

Glyn Davies: There is plenty of time.

The Presiding Officer: Order. No, there is not plenty of time. Allowing an intervention is a matter entirely at a Member's discretion, as everyone knows. There is no way through this one.

Jeff Cuthbert: Furthermore, there is no political advantage for the Labour Party in changing these proposals. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Try listening. It is simply impossible to be accused of gerrymandering a system when it is the people of Wales, via the ballot box, who will determine the ultimate results. Remember that, in 1999, Labour lost the supposed heartlands of Islwyn, Rhondda and Llanelli. Election results are never a sure thing, and to suggest otherwise, as you do, is ludicrous. This small reform will not restrict people's political choices at the ballot box in any way; it will just give much-needed clarity and fairness as to whom the people choose to represent them.

In addition, the reform of this system, as laid down in the Bill, was in the Labour Party manifesto for the last general election. It explicitly stated that the intention of a Labour Government would be to reform this system and thus stop candidates from having the best of both worlds and getting in through the back door. Winning that election gave this proposal a mandate from the people, which no political party should dismiss lightly.

Furthermore, this reform will strengthen the

ochr hon i'r Siambr, yn ofni unrhyw beth yn nonsens. Os ydych yn sefyll mewn etholiad, yr ydych naill ai'n ennill neu'n colli; nid ydych yn sefyll ac yna'n dweud 'Wel, efallai y caf fynd i mewn drwy'r drws cefn beth bynnag', sef y system yr ydych yn ei hamddiffyn.

Glyn Davies *a gododd*—

Jeff Cuthbert: Na, yr wyf wedi derbyn dau ymyriad, ac mae hynny'n ddigon ar gyfer araith fer.

Glyn Davies: Mae digon o amser.

Y Llywydd: Trefn. Na, nid oes digon o amser. Mater i ddisgresiwn Aelod yn llwyr yw derbyn ymyriad, fel y gŵyr pawb. Nid oes dim ffordd arall o'i chwmpas hi.

Jeff Cuthbert: Yn ogystal, nid oes dim mantais wleidyddol i'r Blaid Lafur o newid y cynigion hyn [AELODAU O'R CYNULLIAD: 'O.'] Ceisiwch wrando. Mae'n gwbl amhosibl cael eich cyhuddo o jerimandro system lle y mae'r canlyniadau, yn y pen draw, yn cael eu penderfynu gan bobl Cymru, drwy'r blwch pleidleisio. Cofiwch fod Llafur wedi colli Islwyn, y Rhondda a Llanelli yn 1999, sef y cadarnleoedd yn ôl y sôn. Nid yw canlyniadau etholiad byth yn sicr, ac mae awgrymu'n wahanol, fel yr ydych yn gwneud, yn gwbl hurt. Ni fydd y diwygiad bach hwn yn cyfyngu ar ddewis gwleidyddol pobl yn y blwch pleidleisio mewn modd yn y byd; y cwbl y bydd yn ei wneud fydd rhoi eglurder a thegwch cwbl angenrheidiol ynghylch pwy y mae'r bobl yn ei ddewis i'w cynrychioli.

Yn ogystal, yr oedd diwygio'r system hon, fel sydd yn y Mesur, ym maniffesto'r Blaid Lafur cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf. Yr oedd yn nodi'n glir mai bwriad Llywodraeth Lafur fyddai diwygio'r system ac atal ymgeiswyr rhag cael y gorau o ddau fyd a mynd i mewn drwy'r drws cefn. Drwy ennill yr etholiad hwnnw, rhoddwyd mandad y bobl i'r cynnig hwn, rhywbeth na ddylai dim un blaid wleidyddol ei ddiystyru ar chwarae bach.

Bydd y diwygiad hwn hefyd yn cryfhau

legitimacy of the Assembly by reasserting the vital constituency link with Assembly Members. Being an Assembly Member is about much more than creating policy; it is also about overseeing its implementation in local areas, and feeding back problems and suggestions for further improvements. I believe that those on the regional list lack this political x factor, which, in my opinion, makes all the difference to the job that they can do for local people.

The Bill before us today will lead to greater improvements in Wales's public life and will allow the Assembly Government to continue its commitment to invest and improve health and education in Wales, among other policies. This, above all things, is why this Bill should be supported by everyone in the Chamber.

5.20 p.m.

Jocelyn Davies: The Government of Wales Act 1998 is often dismissed as having little or no constitutional merit and is also often acknowledged to be a fudge and a compromise. The UK Government obviously accepts that it is at least unsatisfactory and unworthy because, here we are, with a new Bill—not an amendment to the original Act, but an entirely new Bill. It seems that there has been a realisation that there is little in the current Act that does not require amending. However, taken as read that the current situation is unsustainable, we must ask how much of an improvement this new Bill offers.

The Bill is clever and I congratulate the Secretary of State for managing to create a state of affairs that allows the anti-devolutionists and the devolutionists in Labour to sign up to it. However, I would remind him that the last Government of Wales Act also did exactly that. Either we have been presented with another fudge or this is an ingenious solution. Is this primary legislation by the back door, or is that door well and truly bolted—with three bolts, according to Mike German?

I wonder whether the Secretary of State will

dilysrwydd y Cynulliad drwy gadarnhau o'r newydd y cyswllt etholaethol hanfodol ag Aelodau'r Cynulliad. Mae bod yn Aelod Cynulliad yn llawer mwy na chreu polisi; mae hefyd yn ymwneud â goruchwyllo ei weithredu mewn ardaloedd lleol, adrodd yn ôl ar unrhyw broblemau a gwneud awgrymiadau ynghylch gwelliannau pellach. Credaf nad oes gan y rhai sydd ar y rhestrau rhanbarthol y ffactor x wleidyddol hon, sydd, yn fy marn i, yn gwneud môr o wahaniaeth i'r gwaith y gallant ei wneud dros bobl leol.

Bydd y Mesur ger ein bron heddiw yn arwain at fwy o welliannau ym mywyd cyhoeddus Cymru ac yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i barhau i ymrwymo i fuddsoddi a gwella addysg ac iechyd yng Nghymru, ymhlith polisiau eraill. Dyma pam, yn anad dim, y dylai'r Mesur hwn gael ei gefnogi gan bawb yn y Siambr.

Jocelyn Davies: Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn aml yn cael ei diystyru fel un sydd heb fawr neu ddim gwerth cyfansoddiadol, a chydabyddir hefyd mai cawlach a chyfaddawd ydyw. Mae Llywodraeth y DU yn amlwg yn derbyn ei bod o leiaf yn anfodddhaol ac yn annheilwng oherwydd, dyma ni, gyda Mesur newydd—nid gwelliant i'r Ddeddf wreiddiol ond Mesur cwbl newydd. Ymddengys eu bod wedi sylweddoli nad oes dim bron yn y Ddeddf bresennol nad oes angen ei ddiwygio. Er hynny, gan dderbyn bod y sefyllfa bresennol yn anghynaliadwy, rhaid inni ofyn faint o welliant y mae'r Mesur newydd hwn yn ei gynnig.

Mae'r Mesur yn glyfar a hoffwn longyfarch yr Ysgrifennydd Gwladol am lwyddo i greu sefyllfa lle y mae'r gwrth-ddatganolwyr a'r datganolwyr yn y Blaid Lafur yn ei gefnogi. Fodd bynnag, hoffwn ei atgoffa bod y Ddeddf Llywodraeth Cymru ddiwethaf hefyd wedi gwneud yr un peth yn union. Naill ai mae hyn yn enghraifft arall o fwnglera neu'n ateb dyfeisgar iawn. Ai deddfwriaeth sylfaenol drwy'r drws cefn yw hyn, neu a ydyw'r drws hwnnw wedi'i folltio'n dynn—gyda thair bollten, yn ôl Mike German?

Tybed a fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn

soon find that, instead of pleasing everyone, he is bound to disappoint one faction or another in his party. It would have been far better to adopt the Richard commission proposals—and you would expect me to say that—as we would now be examining a more stable and transparent constitutional arrangement. Although I congratulated the Secretary of State on the ingenious solution to the split within Labour, I consider this to be a missed opportunity for Wales. It is a missed opportunity and I find it incredible that, six years after the Assembly was first elected, we are discussing proposals that elevate the Secretary of State to a far more powerful position. Post devolution, I find that incredibly ironic, although I accept that people with the x factor, such as Jeff Cuthbert, might miss that point.

I also believe that the Order-in-Council mechanism, based on the royal prerogative, will prove to be too cumbersome and will soon lose its shine. We have no idea, from the Bill, how long this mechanism will take to produce fruit. Academics argue over it, and I know that the last Order in Council that I am aware of took more than two and a half years at Westminster, and that concerned the rather routine and non-contentious matter of empowering us to allow councils to tow away dangerous and abandoned vehicles. Actually, it took just over three years, but we will say two and a half. Two and a half years is a long time and that, of course, is if the request is successful.

The Bill is unclear as to what will happen if the Secretary of State, in his new powerful position, is not pleased with the request placed before him by the Assembly, or if he disapproves of the policy objectives. The Bill fails to address that issue, and gives him the right to reject that request. We are told that judicial review is almost always available to challenge the use of discretion if a request is refused. That is an admission in the Bill, and so the Bill fails to address it. The Secretary of State might be adamant that his reasons are not trivial, yet the Bill gives him the absolute right to turn us down as long as he provides us with reasons. Shall we resort to the courts to settle the matter? No, I do not think that

darganfod cyn bo hir, yn lle bodloni pawb, y bydd yn siŵr o siomi rhyw garfan neu'i gilydd yn ei blaid. Byddai wedi bod yn llawer gwell mabwysiadu cynigion comisiwn Richard—a byddech yn disgwyl imi ddweud hynny—gan y byddem yn awr yn ystyried trefniant cyfansoddiadol mwy sefydlog ac agored. Er fy mod wedi llongyfarch yr Ysgrifennydd Gwladol ar yr ateb dyfeisgar i'r rhaniad o fewn y Blaid Lafur, credaf fod hyn yn gyfle wedi'i golli i Gymru. Mae'n gyfle wedi'i golli ac yn fy marn i mae'n anhygoel ein bod, chwe blynedd ar ôl ethol y Cynulliad cyntaf, yn trafod cynigion sy'n dyrchafu'r Ysgrifennydd Gwladol i swydd sydd lawer yn fwy grymus. Yn sgîl datganoli, mae hynny'n eithriadol eironig yn fy ngolwg i, er fy mod yn derbyn bod pobl sydd â'r ffactor x, fel Jeff Cuthbert, efallai'n colli'r pwynt hwnnw.

Credaf hefyd y bydd mecanwaith y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, ar sail y frenhinfraint, yn profi'n rhy feichus a buan y bydd yn colli ei sglein. Nid oes gennym syniad, oddi wrth y Mesur, faint o amser a gymer i'r mecanwaith hwn ddwyn ffrwyth. Mae academyddion yn dadlau yn ei gyloch, a gwn fod y Gorchymyn diwethaf yn y Cyfrin Gyngor y gwn amdano wedi cymryd mwy na dwy flynedd a hanner yn San Steffan, ac yr oedd hynny'n ymwneud â'r mater eithaf cyffredin ac annadleuol o adael i gynghorau halio ymaith gerbydau peryglus a rhai sy'n cael eu gadael. Mewn gwirionedd, cymerodd ychydig dros dair blynedd, ond gadewch inni ddweud dwy a hanner. Mae dwy flynedd a hanner yn amser hir a hynny, wrth gwrs, os yw'r cais yn llwyddiannus.

Mae'r Mesur yn aneglur ynghylch beth fydd yn digwydd os nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol, yn ei swydd bwerus newydd, yn fodlon â'r cais a roddir ger ei fron gan y Cynulliad, neu os yw'n anghytuno â'r amcanion polisi. Nid yw'r Mesur yn cynnig ateb i hyn, ac mae'n rhoi hawl iddo wrthod y cais. Dywedir wrthym fod adolygiad barnwrol bron bob amser ar gael i herio'r defnydd o ddisgresiwn os gwrthodir cais. Mae hynny'n addefiad yn y Mesur, ac mae'r Mesur felly yn methu â rhoi sylw iddo. Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol fynnu bod ei resymau yn rhai dilys, eto mae'r Mesur yn rhoi hawl absoliwt iddo ein gwrthod cyn belled â'i fod yn rhoi ei resymau. A wnawn

that would be a sustainable solution. We should not be introducing a system of government that requires goodwill for it to work and, theoretically, the courts if it does not. That does not bode well for the future.

I also note that the Secretary of State has said that the Parliament Act 1949 will be invoked if the Orders in Council are rejected by the Lords. The contemplation of judicial review and the Parliament Act 1949 at this stage can hardly be described as a firm foundation for constitutional change. There is a distinct lack of confidence in the practical application of this Bill. Without a doubt, this Bill raises more questions than it answers, and I hope that it will be subject to significant amendment during its journey through Westminster.

droi at y llysoedd i setlo'r mater? Na, ni chredaf y byddai hynny'n ateb cynaliadwy. Ni ddylem fod yn cyflwyno system lywodraethu sydd angen ewyllys da iddi weithio ac, mewn theori, y llysoedd os yw'n methu. Nid yw'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Nodaf hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud y bydd Deddf Seneddol 1949 yn cael ei defnyddio os gwrthodir Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor gan yr Arglwyddi. Prin y gallwn ddisgrifio'r addewid bresennol o adolygiad barnwrol a Deddf Seneddol 1949 fel sylfaen gadarn ar gyfer newid cyfansoddiadol. Mae diffyg hyder amlwg yn y modd y gweithredir y Mesur hwn yn ymarferol. Yn ddiau, mae'r Mesur hwn yn codi mwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb, a gobeithio y bydd yn cael ei wella'n sylweddol ar ei daith drwy San Steffan.

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

Y Llywydd: Yn lle ymyrryd ar ganol araith, efallai y byddai'n hwylus i mi ddatgan yn awr y byddwn yn rhedeg allan o amser ar gyfer y ddadl hon o fewn pum munud, am 5.30 p.m.. Gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21(ii), yr wyf yn gwahodd y Trefnydd i gynnig ymestyn y Cyfarfod Llawn o hanner awr.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly for Wales, under Standing Order No. 6.21(ii) extends Plenary today by half an hour.

Y Llywydd: A oes 10 Aelod o blaid y cynnig? Gwelaf fod. Yr wyf felly'n galw am bleidlais.

The Presiding Officer: Rather than intervening during a speech, perhaps it would be appropriate for me to say now that we will run out of time for this debate in five minutes, at 5.30 p.m.. Acting under Standing Order No. 6.21(ii), I invite the Business Minister to propose an extension of Plenary of half an hour.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21(ii) yn ymestyn y Cyfarfod Llawn heddiw o hanner awr.

The Presiding Officer: Are there 10 Members in favour of the motion? I see that there are. I therefore call for a vote.

*Cynnig: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Motion: For 42, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Lewis, Huw
Neagle, Lynne
Wood, Leanne

Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Dunwoody, Tamsin
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Pwynt o Drefn Point of Order

Ieuan Wyn Jones: Pwynt o drefn. Nid wyf yn gwybod a oeddech chi yma, Lywydd, yn ystod araith Carl Sargeant, ond fe ddywedodd rywbeth i'r perwyl y bu camddefnydd o adnoddau gan Aelodau rhestr. Ni chredaf ei fod yn briodol i Aelod feirniadu Aelodau eraill yn y fath ddull, ac er nad wyf yn gofyn ichi roi ateb yn awr, yr wyf am ichi ystyried yn ofalus y geiriau a ddefnyddiwyd i weld a yw Carl Sargeant wedi torri rheolau'r Cynulliad yn y modd y cyflwynodd ei ddadl.

Ieuan Wyn Jones: Point of order. I do not know whether you were present during Carl Sargeant's speech, Llywydd, but he said something to the effect that list Members had been misusing resources. I do not think it proper for a Member to criticise fellow Members in such a manner, and, although I am not asking you to furnish us with an answer now, I ask you to consider carefully the words used to determine whether Carl Sargeant has broken Assembly rules by the manner in which he presented his argument.

Y Llywydd: Nid oeddwn yma ar y pryd. Edrychaf ar y Cofnod. Yr wyf wedi datgan ei bod yn briodol i Aelodau roi gwybod i Aelodau eraill ymlaen llaw pan fyddant yn

The Presiding Officer: I was not present at the time, and so I will consult the Record. I have stated that it is proper for Members to notify fellow Members beforehand when they

bwriadu cyfeirio atynt mewn dadl. Dywedais hynny yn ôl ar 25 Ebrill 2002.

intend to refer to them in a debate. I said as much back on 25 April 2002.

Mesur Llywodraeth Cymru: Parhad The Government of Wales Bill: Continued

Leighton Andrews: I am pleased to support the Government of Wales Bill. This is an important stage in the new phase of devolution that will strengthen devolution and democracy in Wales. It is worth stating at the outset that this Bill puts primary powers for the National Assembly on the statute book. Sections 104 onwards deal with primary powers for the National Assembly for Wales. That ought to be marked, as it is, in many ways, probably one of the most important developments in the passage of this Bill. Such powers are, of course, subject to a referendum, and I have always been in favour of primary powers being subject to a referendum of the people of Wales. However, in this Bill, we are implementing the next phase of devolution. Even before we get to the stage of having primary powers, we are introducing proposals that will improve the governance of Wales in ways that will make our decision-making swifter, clearer and more streamlined. We should place on record again that it is the Labour Party and Welsh Labour that are strengthening devolution, having delivered it in the first place.

Eleanor Burnham: Will you take an intervention?

Leighton Andrews: I will take an intervention from the Clwyd West reject.

Eleanor Burnham: With regard to what Jocelyn has reminded us of about the new procedures and how long-winded they could be, could you tell us exactly how it will be more streamlined, transparent or more open—despite what you have said to me?

The Presiding Officer: Before Leighton Andrews responds, there is a matter of order. I know that we are engaged in a heated debate on these matters, but as long as the Government of Wales Act 1998 has not been changed, none of us here are rejects. We are all elected, some by a different franchise. I do

Leighton Andrews: Yr wyf yn falch o gefnogi Mesur Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn gam pwysig mewn cyfnod newydd i ddatganoli a fydd yn cryfhau datganoli a democratiaeth yng Nghymru. Mae'n werth nodi ar y dechrau fod y Mesur hwn yn rhoi pwerau sylfaenol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y llyfr statudau. Mae'r Adrannau o 104 ymlaen yn delio â phwerau sylfaenol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid nodi hyn, gan ei fod mae'n debyg, ar sawl ystyr, yn un o'r datblygiadau pwysicaf wrth gyflwyno'r Mesur hwn. Mae'r pwerau hyn, wrth gwrs, yn ddarostyngedig i refferendwm, ac yr wyf drwy'r amser wedi bod o blaid cynnig refferendwm i bobl Cymru ar bwerau sylfaenol. Fodd bynnag, yn y Mesur hwn, yr ydym yn gweithredu'r cyfnod nesaf i ddatganoli. Hyd yn oed cyn inni gyrraedd y sefyllfa o fod â phwerau sylfaenol, yr ydym yn cyflwyno cynigion a fydd yn gwella llywodraethu yng Nghymru fel y bydd ein prosesau penderfynu yn gynt, yn gliriach ac yn symlach. Dylem roi ar gof a chadw eto mai'r Blaid Lafur a Llafur Cymru sy'n cryfhau datganoli, ar ôl ei gyflwyno yn y lle cyntaf.

Eleanor Burnham: A wnewch dderbyn ymyriad?

Leighton Andrews: Derbyniaf ymyriad gan yr un wrthodedig yng Ngorllewin Clwyd.

Eleanor Burnham: O ran yr hyn y mae Jocelyn wedi ein hatgoffa ynghylch y gweithdrefnau newydd a pha mor hirwyntog y gallent fod, a allech ddweud wrthym yn union sut y bydd yn fwy syml, tryloyw neu agored—er gwaetha'r hyn a ddywedasoeh wrthyf?

Y Llywydd: Cyn i Leighton Andrews ymateb, mae yma fater o drefn. Gwn ein bod ar ganol cynnal dadl danbaid ar y materion hyn, ond hyd nes y newidir Deddf Llywodraeth Cymru 1998, nid oes neb yma yn wrthodedig. Yr ydym i gyd yn etholedig, rhai dan etholfraint wahanol. Nid oes arnaf

not want to go back over all this.

Leighton Andrews: I hear what you say, Presiding Officer, but it is a fact that Eleanor Burnham was rejected by the voters of Clwyd West. I was simply stating a fact.

The Presiding Officer: Order. I do not approve of Members disputing my rulings. I will make the matter quite clear. Eleanor Burnham was rejected by the electors of Clwyd West, but, through our electoral system, was elected by the electors of North Wales.

Leighton Andrews: I was certainly not disputing your ruling; I was trying to clarify my remarks.

The Bill makes things swifter simply by introducing new processes, the Orders in Council, the Assembly measures, and framework legislation before that.

5.30 p.m.

That in itself will lead to swifter and clearer decision making. It will mean less delay in the Assembly's ability to implement the measures that it wishes to take—I would have thought that that was pretty clear.

The changes in the relationship between the executive and the Assembly as a corporate body will also mean that the Assembly will have a much more meaningful role. The committees will have a much more meaningful role in the Assembly, which is clearly to be welcomed.

I hope that the process of drafting framework legislation in due course will mean that Whitehall Government departments will come to terms more readily with the process and meaning of devolution, and I welcome the fact that the Wales Office has been engaged in drawing up guidance for Whitehall departments. There are cases where many of us feel that Whitehall needs to better understand the process of devolution. There are areas where the National Assembly may want to take a view

eisiau ailadrodd hyn i gyd.

Leighton Andrews: Yr wyf yn clywed yr hyn a ddywedwch, Lywydd, ond mae'n ffaith bod Eleanor Burnham wedi ei gwrthod gan bleidleiswyr Gorllewin Clwyd. Dim ond datgan ffaith yr oeddwn.

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn croesawu Aelodau yn herio fy nyfarniadau. Gwnaf y mater yn gwbl glir. Gwrthodwyd Eleanor Burnham gan etholwyr Gorllewin Clwyd, ond, drwy ein system etholiadol, cafodd ei hethol gan etholwyr Gogledd Cymru.

Leighton Andrews: Yn sicr nid oeddwn yn herio eich dyfarniad; yr oeddwn yn ceisio egluro fy sylwadau.

Mae'r Mesur yn hwyluso pethau dim ond drwy gyflwyno prosesau newydd, y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, mesurau'r Cynulliad, a deddfwriaeth fframwaith cyn hynny.

Bydd hynny ynddo'i hun yn arwain at wneud penderfyniadau mwy cyflym a mwy eglur. Bydd yn golygu llai o oedi yng ngallu'r Cynulliad i weithredu'r mesurau y mae am eu cymryd—byddwn yn tybio bod hynny'n ddigon amlwg.

Bydd newidiadau yn y berthynas rhwng y weithrediaeth a'r Cynulliad fel corff corfforaethol hefyd yn golygu y bydd gan y Cynulliad rôl lawer mwy ystyrlon. Bydd gan y pwyllgorau rôl lawer mwy ystyrlon yn y Cynulliad, sy'n amlwg yn rhywbeth i'w groesawu.

Ymhen amser, gobeithiaf y bydd y broses o ddrafftio deddfwriaeth fframwaith yn golygu y bydd adrannau Llywodraeth Whitehall yn fwy parod i ddygymod â phroses ac ystyr datganoli, a chroesawaf y ffaith bod Swyddfa Cymru wedi bod wrthi'n llunio canllawiau ar gyfer adrannau Whitehall. Cafwyd achosion lle y mae llawer ohonom yn teimlo bod angen i Whitehall ddeall proses datganoli yn well. O bryd i'w gilydd ceir achosion pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol am fynegi barn am feysydd sydd heb eu datganoli—yr wyf yn

from time to time on non-devolved issues—broadcasting and policing come to mind—and we want Whitehall departments to understand that, from the first White Paper in 1997, it was always envisaged that the National Assembly would be a forum to discuss issues across the board that are of concern to the people of Wales. A debate on those framework powers will lead to a better understanding in Whitehall, and I hope that it will also lead to a tidying up of some of the concordats, and revision and updating of them.

This Bill will lead to a more powerful National Assembly. It will lead to a National Assembly for Wales with meaningful powers, with the ability to set its priorities and take decisions. Today is a day for celebrating the Government of Wales Bill and the next phase of devolution, and for welcoming the fact that we will come through this with a much more powerful National Assembly for Wales.

Mark Isherwood: This is a fundamentally flawed Bill, which is motivated not by a principled commitment to make devolution work for Wales and the United Kingdom, but by a divided and self-interested Welsh Labour Party fed on a diet of dogma and false propaganda, such as that heard earlier from the Member for the Flintshire Labour Party. I will not take lessons from a Flintshire Labour Party that has just written to thousands of council tenants telling them that repairs to their houses will stop unless there is a real risk of death or injury. That is what the Flintshire Labour Party has done for the people of the county in which I live, part of the great region that I represent.

The present constitutional settlement in Wales, which was narrowly agreed by referendum, was only lent by the people in trust to Government. Proposals to sneak law-making powers in through the back door are a constitutional outrage that can only be remedied by a referendum of the people of Wales.

We must question the moves to increase the

meddwl am ddarlledu a'r heddlu—ac yr ydym am i adrannau Whitehall ddeall, ers y Papur Gwyn cyntaf yn 1997, ei fod wedi'i ragweld o'r dechrau y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn fforwm i drafod pob math o faterion sydd yn berthnasol i bobl Cymru. Bydd dadl ar y pwerau fframwaith hynny'n arwain at well dealltwriaeth yn Whitehall, a gobeithiaf y bydd hefyd yn arwain at ddacluso rhai o'r concordatau, yn ogystal â'u diwygio a'u diweddarau.

Bydd y Mesur yn arwain at Gynulliad Cenedlaethol mwy pwerus. Bydd yn arwain at Gynulliad Cenedlaethol Cymru â phwerau ystyrlon, gyda'r gallu i bennu ei flaenoriaethau a gwneud penderfyniadau. Mae heddiw'n ddiwrnod i ddathlu Mesur Llywodraeth Cymru a cham nesaf datganoli, ac i groesawu'r ffaith y bydd gennym yn sgîl hyn Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fydd yn llawer mwy pwerus.

Mark Isherwood: Mae hwn yn Fesur sydd â diffygion sylfaenol, sydd wedi ei symbylu nid gan ymrwymiad egwyddorol i sicrhau bod datganoli'n llwyddo i Gymru a'r Deyrnas Unedig, ond gan Blaid Lafur ranedig sy'n gofalu am ei buddiannau ei hun sy'n bwydo ar ymborth o ddogma a phropaganda ffug, megis yr hyn a glywyd yn gynharach gan yr Aelod dros Blaid Lafur sir y Fflint. Nid wyf am dderbyn gwersi gan Blaid Lafur sir y Fflint sydd newydd ysgrifennu at filoedd o denantiaid y cyngor yn eu hysbysu na wneir gwaith trwsio yn eu cartrefi mwyach oni bai fod perygl gwirioneddol o farwolaeth neu anaf. Dyna'r hyn y mae Plaid Lafur sir y Fflint wedi ei wneud i bobl y sir yr wyf yn byw ynddi, sy'n rhan o'r rhanbarth gwych hwnnw yr wyf yn ei gynrychioli.

Cafodd y setliad cyfansoddiadol presennol yng Nghymru, y cytunwyd arno drwy fwyaftrif bach mewn refferendwm, ei roi'n fenthyg mewn ymddiriedaeth yn unig i'r Llywodraeth gan y bobl. Mae cynigion i gyflwyno pwerau deddfu'n slei drwy'r drws cefn yn warth cyfansoddiadol a'r unig ffordd y gellir unioni hynny yw drwy gynnal refferendwm i bobl Cymru.

Rhaid inni amau'r camau i gynyddu pwerau'r

Assembly's powers via Orders in Council, rather than transparently and clearly, subject to a popular mandate through a pre-legislative referendum. As Lord Richard stated to the Welsh Affairs Select Committee about Orders in Council:

'Let's be frank about it, it is a device to avoid having to come to Westminster and ask for primary powers to be formally devolved.... I still do not see the purpose of doing it via this rather tortuous route of Orders in Council when if you give them the legislative competence you do it in a more open and obvious fashion.'

That was said by Labour's Lord Richard. At the front of this Bill, Peter Hain, the Secretary of State for Wales, states his view that the Bill's provisions are compatible with the Human Rights Act 1998. I am advised to the contrary. The proposal to stop constituency candidates standing on regional lists could be a breach of human rights, because no such restrictions would apply in other UK and European administrations where the same electoral system is used. In many administrations, double candidacy is explicitly required.

Helen Mary Jones: Do you agree that it is interesting that the only other place where this system has been tried is Ukraine, prior to the revolution? It was clearly used there to gerrymander an election, which led to a revolution. Perhaps our colleagues on the other side of the Chamber should be wary.

The Presiding Officer: After the revolution comes the counter-revolution. [*Laughter.*]

Mark Isherwood: I sometimes feel that the Welsh Labour Party wants to float Wales into eastern Europe prior to the removal of the iron curtain. As I pointed out in my submission on the White Paper, unsubstantiated allegations that regional Members use their allowances to concentrate on specific electoral constituencies are not addressed by the proposal to reform the additional Member system by simply

Cynulliad drwy Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor, yn hytrach na thrwy ffordd dryloyw ac eglur, yn amodol ar fandad poblogaidd drwy refferendwm cyn deddfu. Fel y dywedodd yr Arglwydd Richard wrth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ynghylch Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor:

Gadewch inni fod yn onest ynglŷn â hyn, mae'n osgoi gorfod dod i San Steffan a gofyn am ddatganoli'n ffurfiol bwerau sylfaenol nid wyf eto'n gweld rheswm dros ddilyn trywydd trofaus Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor pryd yr ydych, wrth roi'r gallu deddfwriaethol iddynt, yn gwneud hynny mewn ffordd fwy agored ac amlwg.

Dyna'r hyn a ddywedodd yr Arglwydd Richard o'r Blaid Lafur. Ar flaen y Mesur hwn, mae Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn mynegi ei farn bod darpariaethau'r Mesur yn gydnaws â Deddf Hawliau Dynol 1998. Yr wyf wedi derbyn cyngor i'r gwrthwyneb. Gall y cynnig i atal ymgeiswyr etholaethau rhag sefyll ar restrau rhanbarthol fod yn groes i hawliau dynol, gan na fyddai cyfyngiadau o'r fath yn bodoli mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU ac Ewrop ble y mae'r un system etholiadol yn cael ei defnyddio. Mewn nifer o weinyddiaethau, mae ymgeisyddiaeth ddwbl yn rhywbeth sy'n ofynnol yn benodol.

Helen Mary Jones: A ydych yn cytuno ei bod yn ddiddorol mai'r unig lle arall lle y rhoddwyd cynnig ar y system hon o'r blaen oedd Ukrain, cyn y chwyldro? Mae'n amlwg iddi gael ei defnyddio yno i jerimandro etholiad, a arweiniodd at chwyldro. Efallai y dylai ein cyd-Aelodau ar ochr arall y Siambr fod yn ofalus.

Y Llywydd: Wedi'r chwyldro daw'r gwrth-chwyldro. [*Chwerthin.*]

Mark Isherwood: Teimlaf ar adegau fod Plaid Lafur Cymru am lusgo Cymru i ddwyrain Ewrop cyn cwmp y llen haearn. Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad ar y Papur Gwyn, nid yw honiadau di-sail bod Aelodau rhanbarthol yn defnyddio eu lwfansau i ganolbwyntio ar etholaethau etholiadol penodol yn cael sylw yn y cynnig i ddiwygio'r system Aelod ychwanegol drwy atal ymgeiswyr etholaethol rhag sefyll ar

preventing constituency candidates from standing on regional lists. There is no logic to it; it does not add up.

After Peter Hain used parliamentary privilege to insult regional Members by claiming that they establish constituency offices in the seats where they were last defeated in order to run campaigns to try to reverse those results, and after he accused regional Members of cherry-picking their work—I wish the privilege existed, but I am swamped with work, I do not know about the rest of them—I wrote to him challenging him to set up an independent review of the workload and productivity of all Assembly Members. Two months later, he has not even had the courtesy to acknowledge the letter that I sent to him. He has also chosen to ignore the advice of the Government's Electoral Commission, which stated that the scheme to stop constituency candidates standing for regional lists had no justification and would hand an acceptable advantage to Labour that could impact adversely on participation. That is what the experts say. As Dr Scully told the Welsh Affairs Select Committee:

'the reasons offered in the White Paper for doing this... are not supported by the evidence... if there is one thing people dislike almost as much as paedophiles living nearby and bent coppers, it is politicians who seem to be stitching things up for themselves.'

Labour's proposals on this White Paper expose it as a party that has abdicated any right to claim a commitment to multi-party democracy or democratic accountability. You should all be ashamed of yourselves.

Jenny Randerson: The Welsh Liberal Democrats regard this as a deeply disappointing Bill. I fear that at the end of this Second Assembly, our First Minister will be going out not with a bang but with a whimper. That is what this Bill is. There are simply too many compromises here. It is just like the 1997-98 proposal, which was the best that could be pushed through the Labour

restrau rhanbarthol. Nid oes dim rhesymeg ynddo; nid yw'n gwneud synnwyr.

Ar ôl i Peter Hain ddefnyddio braint seneddol i sarhau Aelodau rhanbarthol drwy honni eu bod yn agor swyddfeydd etholaethol yn y seddi lle y cawsant eu trechu y tro diwethaf er mwyn rhedeg ymgyrchoedd i geisio gwyrdroi'r canlyniadau hynny, ac ar ôl iddo gyhuddo Aelodau rhanbarthol o ddewis a dethol eu gwaith—hoffwn pe bai'r fraint honno'n bod, ond yr wyf yn boddi o dan waith, ni wn am y gweddill ohonynt—ysgrifennais ato yn ei herio i sefydlu adolygiad annibynnol o faich gwaith a chynhyrchiant pob Aelod o'r Cynulliad. Ddeufis yn ddiweddarach, nid yw hyd yn oed wedi dangos y cwrteisi i gydnabod y llythyr a anfonais ato. Mae hefyd wedi dewis anwybyddu cyngor Comisiwn Etholiadol y Llywodraeth, sydd wedi datgan nad oes cyfiawnhad i'r cynllun i atal ymgeiswyr etholaethol rhag sefyll ar restrau rhanbarthol ac y byddai hynny'n golygu mantais dderbyniol i Lafur a allai gael effaith andwyol ar lefelau cyfranogaeth. Dyna'r hyn a ddywed yr arbenigwyr. Fel y dywedodd Dr Scully wrth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig:

nid yw'r rhesymau a gynigir yn y Papur Gwyn dros wneud hyn... yn cael eu hategu gan y dystiolaeth... os oes un peth y mae pobl yn ei gasáu bron cymaint â phedoffiliaid yn byw yn eu mysg a phlismyn anonest, gwleidyddion sydd i bob golwg yn pluo'u nythod eu hunain yw hynny.

Mae cynigion Llafur ar y Papur Gwyn hwn yn dangos ei bod yn blaid sydd wedi colli pob hawl i honni bod ganddi ymrwymiad i ddemocratiaeth amlbleidiol neu atebolrwydd democrataidd. Dylai fod arnoch gywilydd ohonoch eich hunain.

Jenny Randerson: Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n barnu bod hwn yn Fesur siomedig dros ben. Mae arnaf ofn y bydd ein Prif Weinidog, ar ddiwedd yr Ail Gynulliad hwn, yn gadael nid â chlec ond â gwich. Dyna beth yw'r Mesur hwn. Yn syml, mae llawer gormod o gyfaddawdu yma. Mae'n union fel cynnig 1997-98, sef y peth gorau y gellid ei wthio heibio'r Blaid Lafur ar

Party at the time. Once again, Wales is being run according to the internal interests of the Labour Party.

Ron Davies famously said that devolution is a process not an event. I hope that he was right, because, unfortunately, it looks more to me as if we are engaged in an assault on Everest and are currently struggling up to second base camp in adverse weather conditions.

We also have the sacrifice of what I know to be our First Minister's sincerely held views on the need for the Assembly to have proper primary powers and the real and practical need for there to be 80 Assembly Members. That was sacrificed to the self-interest of Labour Members of Parliament who are afraid of losing their seats. However, I believe that Labour Assembly Members, who have given into that self-interest, will rue the day when they opposed the move for more Assembly Members, because of the sheer practical problems of the workload that we will face.

Then there is the Clwyd West question, or what I prefer to call 'the Carl Sargeant question'. How can a man who got the votes of only 11 per cent of the electorate in his constituency have the barefaced nerve to stand here and talk to anyone about democratic legitimacy? He is a living, walking reason why we need a fair voting system and that is the reason why the Welsh Liberal Democrats will propose amendments for the single transferable vote in the new system—

Carl Sargeant and Huw Lewis *rose*—

The Presiding Officer: Order. We cannot have two Members seeking to intervene. Are you giving way to Carl Sargeant, Jenny?

Jenny Randerson: I will finish my sentence and then give way to Carl Sargeant.

STV is a simple system, which creates and completes the link with the constituency. Under that system, all Assembly Members will be equal in their responsibilities, the number of seats reflects the number of votes

y pryd. Unwaith eto, mae'r ffordd y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn ddibynnol ar fuddiannau mewnol y Blaid Lafur.

Cofir sylw enwog Ron Davies fod datganoli'n broses ac nid yn ddigwyddiad. Gobeithiaf fod hynny'n wir, oherwydd, yn anffodus, ymddengys i mi ein bod yn dringo Everest a'n bod yn brwydro i gyrraedd yr ail wersyll wrth droed y mynydd a hynny mewn tywydd garw.

Yr ydym hefyd yn gweld barn ddiwyll ein Prif Weinidog yn cael ei haberthu, sef yr angen i'r Cynulliad gael pwerau sylfaenol gwirioneddol a'r angen real ac ymarferol i gael 80 o Aelodau yn y Cynulliad. Aberthwyd hynny er mwyn hunan-les Aelodau Seneddol Llafur sy'n ofni colli eu seddau. Fodd bynnag, credaf y bydd Aelodau Cynulliad Llafur, sydd wedi ildio i'r hunan-les hwnnw, yn edifarhau iddynt wrthwynebu cynnig i gael rhagor o Aelodau Cynulliad, oherwydd holl broblemau ymarferol y llwyth gwaith y byddwn yn ei wynebu.

Yna mae cwestiwn Gorllewin Clwyd, neu'r hyn y mae'n well gennyf ei alw'n 'gwestiwn Carl Sargeant'. Sut y gall dyn nad enillodd ddim ond 11 y cant o bleidlais yr etholwyr yn ei etholaeth fod â'r wyneb i sefyll yma a sôn wrth unrhyw un am gyfreithlondeb democrataidd? Mae'n rheswm byw pam mae angen system bleidleisio deg arnom a dyna pam y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cynnig gwelliannau i gael pleidlais drosglwyddadwy sengl yn y system newydd—

Carl Sargeant a Huw Lewis *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Ni allwn gael dau Aelod yn ceisio ymyrryd. A ydych yn ildio i Carl Sargeant, Jenny?

Jenny Randerson: Gorffennaf fy mrawddeg, ac yna ildiaf i Carl Sargeant.

Mae pleidlais drosglwyddadwy sengl yn system syml, sy'n creu ac yn cwblhau'r cysylltiad gyda'r etholaeth. O dan y system honno, bydd pob Aelod o'r Cynulliad yn gyfartal o ran eu cyfrifoldebau, bydd nifer y

cast, and people can choose between named candidates for different political parties.

Carl Sargeant: The difference between your Liberal Democrat colleague from north Wales, Eleanor Burnham, and I is that I won the vote of the electorate; Eleanor Burnham lost, and only got 7.9 per cent of the vote. She did not win, nor did Janet Ryder or Brynle Williams; they were all crushed in Clwyd West. I won in Alyn and Deeside; that is the biggest difference between you and I.

5.40 p.m.

Jenny Randerson: I think that you should learn when to sit down and keep quiet, Carl. When you are in a hole, stop digging. Consider the arithmetic. Three-quarters of the people in your constituency were so switched off by you that they did not bother to vote. Of those who voted, a minority voted for you. You are a living, walking example of the problems with our current first-past-the-post system.

Huw Lewis *rose*—

Jenny Randerson: I will not take any further interventions.

There is also the strange case of the d'Hondt formula, which is not quite on the lips of everyone in Wales, but we know that it has been abandoned by the Scottish Parliament because it was unworkable with the small number of MSPs. We have fewer than half the number of members in the Scottish Parliament. This will be a real noose around the Labour Party's neck. It is in the Bill to create an artificial majority for the Labour Party on committees. However, the bad news, colleagues, is that you only get that artificial majority if you put in the committee hours. You have to sit there during those committees, and you are the party that wanted committees to meet on a three-week cycle. You will have a once-every-three-day cycle at the rate at which you are working, rather than a three-week cycle.

seddau yn cynrychioli nifer y pleidleisiau a fwriwyd, a gall pobl ddewis rhwng ymgeiswyr a enwir ar gyfer gwahanol bleidiau gwleidyddol.

Carl Sargeant: Y gwahaniaeth rhwng eich cyd-Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol o'r Gogledd, Eleanor Burnham, a minnau yw fy mod i wedi ennill pleidlais yr etholaeth; collodd Eleanor Burnham, ac ni dderbyniodd ond 7.9 y cant o'r bleidlais. Nid oedd hi'n fuddugol, nac ychwaith Janet Ryder na Brynle Williams; fe'u trechwyd i gyd yng Ngorllewin Clwyd. Enillais i yn Alun a Glannau Dyfrdwy; dyna'r gwahaniaeth mwyaf rhyngoch chi a minnau.

Jenny Randerson: Credaf y dylech ddysgu pa bryd i eistedd a bod yn dawel, Carl. Pan fyddwch mewn twll, rhowch y gorau i dyllu. Meddylwch am y rhifydddeg. Yr oedd gan dri chwarter y bobl yn eich etholaeth gyn lleied o ddi-ddordeb ynoch fel nad aethant i'r drafferth i bleidleisio. O'r rhai a bleidleisiodd, pleidleisiodd lleiafrif ohonynt drosoch chi. Yr ydych yn enghraifft fyw o'r problemau gyda'n system cyntaf i'r felin ar hyn o bryd.

Huw Lewis *a gododd*—

Jenny Randerson: Nid wyf am dderbyn myriad arall.

Ceir hefyd achos rhyfedd fformiwla d'Hondt, nad yw'n gwbl gyfarwydd i bawb yng Nghymru, ond gwyddom i Senedd yr Alban roi'r gorau iddi am ei bod yn anymarferol gyda nifer mor fach o Aelodau Seneddol yr Alban. Mae gennym lai na hanner nifer aelodau Senedd yr Alban. Bydd hyn yn rhaff wirioneddol o amgylch gwddf y Blaid Lafur. Mae wedi ei gynnwys yn y Mesur er mwyn creu mwyafrif artiffisial i'r Blaid Lafur ar bwyllgorau. Fodd bynnag, y newyddion drwg, gyd-Aelodau, yw mai'r unig ffordd y gallwch gael y mwyafrif artiffisial hwnnw yw drwy dreulio'r oriau angenrheidiol mewn pwyllgorau. Rhaid i chi eistedd yno yn ystod y pwyllgorau hynny, a chi yw'r blaid a oedd am i bwyllgorau gwrdd ar sail cylch tair wythnos. Bydd gennych gylch unwaith bob tridiau yn hytrach na chylch tair wythnos yn ôl eich cyflymder chi wrth weithio.

I conclude by saying that I regret that this Bill does not follow the advice of the Richard commission. I regret that Wales is still seen as some sort of apprentice when it comes to democracy. I predict that we will not have heard the last of demands for more powers. They will continue unabated. I predict that Assembly Members and their constituents will remain frustrated by the lack of powers, even after the new Act is passed. I predict that there will be fireworks when the Secretary of State rejects a proposed Order in Council for the first time by a Welsh Assembly Government that is not of the same colour as his or her party, because he or she simply does not like its political colour.

Following in the tradition of Lloyd George over 100 years ago, the Welsh Liberal Democrats will work hard to propose positive amendments to the Bill to turn it from being a wimp to being a strong Bill that the people of Wales deserve. They deserve a strong Assembly that will create a prosperous and confident Wales.

David Melding: We have the right to ask whether the Government of Wales Bill is, in essence, a partisan measure. I think that we have to conclude that it is. It is not a piece of legislation based on the work of an independent commission, nor has it emerged after comprehensive all-party talks. Therefore, it is a constitutional measure that has only the full endorsement and support of the Labour Party, or so we are told.

Huw Lewis: Will you give way?

David Melding: I wish to finish this point first. Although it is essentially partisan, that is not to say that it is root-and-branch bad. It is not. There are many things in it that I can enthusiastically support, such as the proposals for more framework legislation, the greater use of secondary powers, more joint working between committees here and those in the House of Commons, and the separation of the legislative and Executive arms of the Assembly. These are all profound and

Yr wyf am gloi drwy ddweud ei bod yn flin gennyf nad yw'r Mesur hwn yn dilyn cyngor comisiwn Richard. Mae'n flin gennyf fod Cymru'n cael ei gweld fel rhyw fath o brentis o hyd pan ddaw'n fater o ddemocratiaeth. Yr wyf yn credu nad ydym wedi clywed diwedd y galwadau am ragor o bwerau. Byddant yn parhau'n ddi-baid. Rhagwelaf y bydd Aelodau'r Cynulliad a'u hetholwyr yn parhau i brofi rhwystredigaeth o ganlyniad i'r diffyg pwerau, hyd yn oed ar ôl i'r Ddeddf newydd gael ei phasio. Rhagwelaf y bydd helynt a hanner y tro cyntaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwrthod cynnig am Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd o liw gwleidyddol gwahanol i'w blaid ef neu ei phlaid hi, a hynny am y rheswm syml nad yw'n hoffi ei lliw gwleidyddol.

Gan ddilyn yn nhraddodiad Lloyd George dros 100 mlynedd yn ôl, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n gweithio'n galed i gyflwyno gwelliannau cadarnhaol i'r Mesur i'w weddnewid o fod yn rhywbeth gwantant i fod yn Fesur cryf y mae pobl Cymru'n ei haeddu. Maent yn haeddu Cynulliad cryf a fydd yn creu Cymru ffyniannus a hyderus.

David Melding: Mae gennym hawl i ofyn a yw Mesur Llywodraeth Cymru, yn ei hanfod, yn fesur pleidiol. Credaf fod rhaid inni ddod i'r casgliad ei fod yn fesur pleidiol. Nid yw'n ddeddfwriaeth sy'n seiliedig ar waith comisiwn annibynnol, ac nid yw ychwaith wedi deillio o drafodaethau ambleidiol cynhwysfawr. Mae felly'n fesur cyfansoddiadol sydd â chymeradwyaeth a chefnogaeth lawn y Blaid Lafur yn unig, neu felly y dywedir wrthym.

Huw Lewis: A wnewch ildio?

David Melding: Yr wyf am orffen y pwynt hwn yn gyntaf. Er ei fod yn bleidiol yn ei hanfod, nid yw hynny'n golygu ei fod yn ddrwg i gyd. Ni ellir dweud hynny amdano. Mae llawer o bethau ynddo yr wyf yn eu cefnogi'n frwd, megis y cynigion ar gyfer rhagor o ddeddfwriaeth fframwaith, mwy o ddefnydd o bwerau i greu is-ddeddfwriaeth, mwy o gydweithio rhwng pwyllgorau yma a'r rhai yn Nhŷ'r Cyffredin, a gwahanu canghennau deddfwriaethol a Gweithredol y

welcome constitutional developments. I will give way now, if the Member still wishes to speak.

Huw Lewis: I do not.

David Melding: However, there are problems in other areas of the Bill. Much has been said about the Orders in Council measure. I have said previously that it is a bit like going from Cardiff to Newport via Wrexham. It seems enormously convoluted, and it is an item that could perhaps benefit from Occam's razor, by cutting to the core and asking whether or not we should be acting more as a primary legislative body. There is a whiff of the seventeenth century about Orders in Council. It does not seem to be a regular, transparent parliamentary process. It could elevate the Secretary of State into some sort of governor general, acting out a veto such as that which Poyning had over the Irish parliament in the Tudor settlement. It is full of the inability to cross logical constitutional bridges.

Often, it evades the essential questions that we face. However, it could work. I am completely neutral at the moment. I do not know whether it will work in practice, but I do not have enough evidence to say that it cannot work. However, if it does work, these powers will, in effect, be primary legislative powers. A lot is made of the fact—and the First Minister made this point—that this is not a fundamental development, because Parliament will remain sovereign. I remind the First Minister that the Westminster Parliament remains sovereign over all measures enacted by the Scottish Parliament. This, if it works, is really just a constitutional safeguard, to be used only in times of national emergency. It is not a common procedure. It does define the relationship that we would have with Westminster.

The First Minister: The point that I was making was not that Parliament would remain sovereign, in that sense—that it could override the Scottish Parliament—it was that it is Parliament itself that has to release the powers. Therefore, Nick Bourne's previous

Cynulliad. Mae'r rhain i gyd yn ddatblygiadau cyfansoddiadol gwirioneddol ac yn rhai i'w croesawu. Yr wyf am ildio yn awr, os yw'r Aelod yn dymuno siarad.

Huw Lewis: Nac ydwyf.

David Melding: Fodd bynnag, mae problemau gydag agweddau eraill ar y Mesur. Mae llawer wedi ei ddweud am y mesur Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor. Yr wyf wedi dweud eisoes fod hyn fel mynd o Gaerdydd i Gasnewydd drwy Wrecsam. Mae'n ymddangos yn hirwyntog tu hwnt, ac mae'n eitem a allai elwa o rasel Occam, drwy dorri i'r byw a gofyn a ddylem fod yn gweithredu'n fwy fel corff deddfwriaethol sylfaenol ai peidio. Mae rhywfaint o elfennau sy'n ein hatgoffa o'r ail ganrif ar bymtheg ynglŷn â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor. Nid yw'n ymddangos fel proses seneddol arferol, dryloyw. Gallai ddirchafu'r Ysgrifennydd Gwladol i fod yn rhyw fath o lywodraethwr cyffredinol, sy'n defnyddio fetó fel yr un a oedd gan Poyning dros senedd Iwerddon yn ystod setliad y Tuduriaid. Mae'n llawn anallu i groesi pontydd cyfansoddiadol rhesymegol.

Yn aml, mae'n osgoi'r cwestiynau hanfodol a wynebwn. Fodd bynnag, gallai weithio. Yr wyf yn hollol niwtral ar hyn o bryd. Ni wn a wnaiff weithio yn ymarferol, ond nid oes gennyf ddigon o dystiolaeth i ddweud na all weithio. Fodd bynnag, os gwnaiff weithio, pwerau deddfu sylfaenol fydd y rhain, i bob pwrpas. Mae cryn bwyslais ar y ffaith—a gwnaeth y Prif Weinidog y pwynt hwn—nad yw hyn yn ddatblygiad sylfaenol, gan y bydd y Senedd yn dal yn sofran. Atgoffaf y Prif Weinidog fod Senedd San Steffan yn parhau'n sofran dros bob mesur a weithredir gan Senedd yr Alban. Dim ond mesur diogelu cyfansoddiadol yw hwn mewn gwirionedd, os bydd yn gweithio, nad yw i'w ddefnyddio ond ar adegau o argyfwng cenedlaethol. Nid yw'n weithdrefn gyffredin. Mae'n diffinio'r berthynas a fyddai rhyngom a San Steffan.

Y Prif Weinidog: Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud oedd nid y byddai'r Senedd yn parhau'n sofran, yn yr ystyr hwnnw—y gallai wrth-wneud gwaith Senedd yr Alban—ond mai'r Senedd ei hun sydd yn gorfod rhyddhau'r pwerau. Felly, nonsens llwyr

point that the powers could be pinched from Parliament without Parliament knowing was complete nonsense. It is up to Parliament whether or not to operate the release catch.

David Melding: That is a distinction without a difference, and I will tell you why: Parliament would have to say that the Assembly, and its Executive, are not competent to ask for a legislative measure. If that measure were not of a trivial nature, that would immediately create a constitutional crisis. That is what we would be letting ourselves in for. All this because we are not brave enough to ask the people of Wales in a referendum whether they would endorse primary powers. When the Secretary of State was here he said that the reason that they did not wish to put that question now was because they would lose it. Presumably, that is because of the performance of the Welsh Assembly Government here—unless other arguments are presented.

In the minute that I have left, I will talk about voting arrangements. The Labour Party's response seems to be, to summarise, 'if it is not broken, break it'. International practice—everywhere apart from the Ukraine, where, now, in fact it is also the practice, because they did not get away with this nobbling procedure—is that, if you have the additional member system, you allow members seeking dual mandates; if they are successful in both, they take one. If this sort of system had been miserably pursued in Germany, Chancellor Kohl would have been kicked out in the 1970s and would never have become the leader of that country. You should follow international practice, and if you want to end the additional member system, either return to a first-past-the-post system everywhere or implement a single transferable vote system. That is the logical position. This is a partisan measure.

Janet Davies: Will the Member give way?

David Melding: I fear that I will not have enough time, Janet. I know that the Presiding Officer has other Members to call.

That is why this measure has such a cutting

oedd pwynt blaenorol Nick Bourne y gallai'r pwerau gael eu cipio oddi wrth y Senedd heb yn wybod i'r Senedd. Mater i'r Senedd yw penderfynu a yw am ryddhau'r glicied.

David Melding: Gwahaniaethu diwahaniaethu yw hynny, ac fe ddywedaf wrthy ch pam. Byddai'n rhaid i'r Senedd ddweud nad yw'r Cynulliad, a'i Weithrediaeth, yn gymwys i ofyn am fesur deddfwriaethol. Pe na bai'r mesur hwnnw o natur bitw, byddai hynny'n creu argyfwng cyfansoddiadol yn syth. Dyna'r sefyllfa y byddem yn mynd iddi. Hyn i gyd am nad ydym yn ddigon dewr i ofyn i bobl Cymru mewn refferendwm a fyddent yn cefnogi pwerau sylfaenol. Pan oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yma dywedodd mai'r rheswm nad oeddent yn dymuno rhoi'r cwestiwn hwnnw'n awr oedd oherwydd y byddent yn ei cholli. Yn ôl pob tebyg, perfformiad Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yma sydd i gyfrif am hynny—oni chyflwynir dadleuon eraill.

Yn y munud sydd gennyf ar ôl, siaradaf am drefniadau pleidleisio. Mae'n ymddangos mai ymateb y Blaid Lafur, yn gryno, yw, 'os nad yw wedi torri, torrer ef'. Yr arfer rhyngwladol—ym mhobman ar wahân i'r Wcráin, lle y mae'n arfer hefyd bellach, mewn gwirionedd, am iddynt fethu â llwyddo i ddal ati gyda'r weithdrefn lwgr hon—yw, os yw'r system aelodau ychwanegol gennych, eich bod yn caniatáu aelodau sy'n ceisio mandad deuol; os ydynt yn llwyddiannus yn y ddau, cymerant un. Pe bai'r math hwn o system wedi'i ddilyn yn druenus yn yr Almaen, byddai'r Canghellor Kohl wedi cael ei gicio allan yn y 1970au ac ni fyddai byth wedi dod yn arweinydd y wlad honno. Dylech ddilyn yr arfer rhyngwladol, ac os oes arnoch eisiau rhoi diwedd ar y system aelodau ychwanegol, naill ai ewch yn ôl at system y cyntaf i'r felin ym mhobman neu gweithredwch system pleidlais drosglwyddadwy sengl. Dyna'r sefyllfa resymegol. Mesur pleidgar yw hwn.

Janet Davies: A wnaiff yr Aelod ildio?

David Melding: Mae arnaf ofn na fydd gennyf ddigon o amser, Janet. Gwn fod gan y Llywydd Aelodau eraill i'w galw.

Dyna pam mae awch pleidgar mor finio g i'r

partisan edge. That is why Rhodri Morgan is tarnishing the inheritance that he received somewhat indirectly from Ron Davies. It is lessening the National Assembly, and it is weakening its authority and ability to speak for all the people of Wales.

Rhodri Glyn Thomas: Credaf y byddai'n fuddiol i ni atgoffa ein hunain ynglŷn â man cychwyn y ddadl ynglŷn â datganoli grymoedd yng Nghymru. Fe ddechreuodd o sefyllfa lle'r oedd penderfyniadau ynglŷn â dyfodol gwleidyddol Cymru yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol a dau Weinidog yn y Swyddfa Gymreig. At ei gilydd, gwnaed y penderfyniadau hynny y tu ôl i ddrysau caeedig. Os ydych chi, fel finnau, wedi ceisio amlinellu i etholwyr dros y chwe blynedd a hanner diwethaf beth yw manteision datganoli, mae'n amlwg mai'r manteision hynny yw bod gennym bellach system gwbl dryloyw, ddemocrataidd a bod pobl Cymru yn gallu gweld y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud.

Nid wyf yn deall, chwe blynedd a hanner ar ôl ennill y refferendwm a sicrhau Cynulliad yn 1999, pam yr ydym am fynd yn ôl i sefyllfa lle'r ydym yn atgyfnerthu pwerau, statws a grym Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a fyddai'n gallu tanseilio unrhyw fwriadau gan y gyfundrefn ddemocrataidd hon, sy'n bodoli ar ran pobl Cymru, pe bai'n dymuno gwneud hynny. Os yw hynny'n gam ymlaen mewn datganoli, ac yn gam ymlaen o ran democratiaeth a llywodraethu Cymru, hoffwn pe bai rhywun yn gallu esbonio imi sut yn union y mae ychwanegu at rym un unigolyn, a chaniatáu iddo'r gallu i benderfynu ar dynged mesurau o Gymru, yn datblygu'r broses hon?

5.50 p.m.

Yn yr un modd, byddai'n ddiddorol pe bai rhywun yn gallu esbonio lle mae'r cam ymlaen mewn sefyllfa lle bydd Aelodau Seneddol, cyn etholiad 2007, yn penderfynu sut y bydd pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithredu? Os yw hynny'n gam ymlaen i ddemocratiaeth, byddwn yn falch pe bai rhywun yn gallu esbonio hynny imi. Beth yw manteision hynny i bobl Cymru? O wrando ar lawer o gyfraniadau y prynhawn yma, yn anffodus, credaf y bydd y rhan fwyaf sydd

mesur hwn. Dyna pam mae Rhodri Morgan yn llychwino'r etifeddiaeth a dderbyniodd yn anuniongyrchol braidd oddi wrth Ron Davies. Mae'n lleihau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn gwanhau ei awdurdod a'i allu i siarad dros holl bobl Cymru.

Rhodri Glyn Thomas: I think that it would be beneficial to remind ourselves where this debate on devolving powers in Wales began. It stemmed from a situation where the decisions on the political future of Wales were made by a Secretary of State and two Ministers in the Welsh Office. Those decisions were largely made behind closed doors. If you, like me, have tried to outline to constituents over the last six and a half years what the benefits of devolution are, it is clear that those benefits are that we now have a completely transparent and democratic system and that the people of Wales can see these decisions being made.

I do not understand, six and a half years after winning a referendum and gaining an Assembly in 1999, why we want to return to a situation where we are reinforcing the powers and status of the Secretary of State for Wales, who could undermine any intentions made under this democratic system, which exists on behalf of the people of Wales, if he so wished. If that is a step forwards in devolution, and a step forwards in terms of democracy and the governance of Wales, I would like someone to explain to me how exactly adding to the power of one individual, and allowing him to decide the fate of Welsh measures, develops this process?

Similarly, it would be interesting if someone could explain to me how it is a step forward to have a situation where Members of Parliament, prior to the 2007 election, can decide how Assembly committees function? If that is a step forward for democracy, I would be grateful if someone could explain it to me. What are the advantages of that to the people of Wales? Having listened to many contributions this afternoon, unfortunately, I think that most people watching and listening

wedi bod yn gwylio ac yn gwranddo yn dod i'r casgliad ein bod yn trafod buddiannau mewnol pleidiau gwleidyddol yn hytrach na dyfodol llywodraeth yng Nghymru.

Oni ddylem fod yn ceisio, yn y drafodaeth hon, ddatblygu'r hyn sydd gennym? Datblygwyd y sefyllfa yn 1999; cawsom ddatganoli a Chynulliad. Credaf fod y rhan fwyaf o bobl erbyn hyn yn derbyn bod y setliad cyfansoddiadol a gafwyd bryd hynny yn annigonol; gallaf ddyfynnu Aelodau o'r Blaid Lafur sydd wedi dweud hynny yn blaen iawn ac sydd wedi sôn am gyfaddawd ac am lanast. Mae hynny'n cael ei gydnabod. Felly, pam yr ydym yn ceisio adeiladu ar hynny gyda chyfaddawd arall? Pam yr ydym yn ceisio creu strwythurau anuniongyrchol?

The First Minister, in opening the debate, spoke about the kind of structures that are proposed in this legislation and then told us not to worry about the structures because they would be based on custom and practice. If custom and practice tell you that you should be working in a certain way, First Minister, why not create structures that correspond to that, rather than structures that you have to overcome through custom and practice? That makes no sense whatsoever.

I have sat here on numerous occasions over the past six and a half years and heard Members, especially on the Labour front bench, telling us that all decisions in this place should be based on evidence. Ministers have told us that time and again. So, why set up a commission, allow it to sit for two years, allow it to take evidence from all parts of Wales and from everyone who was interested to give evidence—which many of us did—allow it to come to a conclusion on the basis of that evidence, and then totally ignore it and go in a completely different direction? That is what you have done, First Minister. You have ignored the recommendations of the Richard commission on all the fundamental, substantial issues.

I am saddened by the continuous references by some Members to our electoral system. If you believe that a different electoral system

will have come to the conclusion that we are discussing the internal interests of political parties rather than the future of governance in Wales.

Should we not be trying, in this debate, to develop what we have? The position was developed in 1999; we got devolution and an Assembly. I think that most people now accept that the constitutional settlement at that time was insufficient; I can quote Members of the Labour Party who have said so quite plainly and who have talked about compromise and a mess. That is acknowledged. Therefore, why are we trying to build on that with another compromise? Why are we trying to create indirect structures?

Siaradodd y Prif Weinidog, wrth agor y ddaidl, am y math o strwythurau a gynigir yn y ddeddfwriaeth hon ac yna dywedodd wrthym am beidio â phoeni am y strwythurau am y byddent yn seiliedig ar ddefodau ac arferion. Os dywed defodau ac arferion wrthyfch y dylech fod yn gweithio mewn ffordd arbennig, Brif Weinidog, pam na chrëir strwythurau sydd yn cyfateb i hynny, yn hytrach na strwythurau y mae'n rhaid ichi eu goresgyn drwy ddefodau ac arferion? Nid yw hynny'n gwneud dim synnwyr o gwbl.

Yr wyf wedi eistedd yma ar sawl achlysur yn ystod y chwe blynedd a hanner diwethaf ac wedi clywed Aelodau, yn enwedig ar faenc flaen Llafur, yn dweud wrthym y dylai pob penderfyniad yn y lle hwn gael ei seilio ar dystiolaeth. Mae Gweinidogion wedi dweud hynny wrthym dro ar ôl tro. Felly, pam sefydlu comisiwn, caniatáu iddo eistedd am ddwy flynedd, caniatáu iddo gasglu dystiolaeth o bob rhan o Gymru ac oddi wrth bawb oedd â diddordeb mewn rhoi dystiolaeth—rhywbeth a wnaeth llawer ohonom—caniatáu iddo ddod i gasgliad ar sail y dystiolaeth honno, ac wedyn ei anwybyddu'n llwyr a mynd i gyfeiriad hollol wahanol? Dyna beth yr ydych chi wedi'i wneud, Brif Weinidog. Yr ydych chi wedi anwybyddu argymhellion comisiwn Richard ar bob un o'r materion sylfaenol, sylweddol.

Mae'r cyfeiriadau parhaus gan rai Aelodau at ein system etholiadol yn fy nhristâu. Os credwch y byddai system etholiadol wahanol

would create a better quality of Assembly Member, a higher quality of debate and more informed discussions in committee, perhaps I would be prepared to listen to what you are saying. However, all you are really saying is that you want a situation where you will not face competition within your own constituencies, and that people will not then be allowed to be elected on the list. I have sat here for six and a half years, I am now in the process of chairing my third subject committee, and, let me tell you, some of the best people to contribute to discussions in this place have been elected on the list, and some of them have stood in constituencies—

The Presiding Officer: Order. You are out of time.

The Business Minister (Jane Hutt): As the First Minister said, we have jumped the first hurdle: the second Government of Wales Bill is on its way. This has been a very lively debate. Clearly, there is a great deal of excitement about the new opportunities that the Bill offers, and we have had a robust debate in the Chamber.

I welcome the constructive comments made by Nick, Ieuan, Glyn and David about the clear consensus that exists on certain aspects of the Bill, such as the separation of the Executive and the legislature. Jeff welcomed the fact that we will have a clearer understanding of the accountability of Ministers. Positive comments were made about the clauses in the Bill that benefited from our discussions on the White Paper. We should make reference to the fact that the Bill clearly reflects many of the recommendations that we made. Gwenda, your intervention at the White Paper stage was influential in safeguarding the statutory duty for equality of opportunity; it is arguably stronger now as it relates to Ministers, proceedings and the business of the Assembly Commission.

In the short time that I have available, I will respond to the amendments, where we see a familiar collaboration across the opposition spectrum. I am glad to see a parting of the ways, with much more of a meeting of minds

yn creu gwell ansawdd o ran Aelodau'r Cynulliad, gwell ansawdd o ran dadleuon a thrafodaethau mwy gwybodus yn y pwyllgorau, efallai y byddwn yn barod i wrando ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Fodd bynnag, y cwbl yr ydych yn ei ddweud mewn gwirionedd yw bod arnoch eisiau sefyllfa lle na fyddwch yn wynebu cystadleuaeth o fewn eich etholaethau eich hunain, ac na chaniateir wedyn i bobl gael eu hethol ar y rhestr. Yr wyf wedi eistedd yma ers chwe blynedd a hanner, yr wyf yn awr yn y broses o gadeirio fy nhrydydd Pwyllgor Pwnc, a, gadewch imi ddweud wrthyich, mae rhai o'r bobl orau sy'n cyfrannu at drafodaethau yn y lle hwn wedi'u hethol ar y rhestr, ac mae rhai ohonynt wedi sefyll mewn etholaethau—

Y Llywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Fel y dywedodd y Prif Weinidog, yr ydym wedi neidio dros y glwyd gyntaf: mae ail Fesur Llywodraeth Cymru ar ei ffordd. Mae hon wedi bod yn ddadl fywiog iawn. Yn amlwg, mae llawer iawn o gyffro ynghylch y cyfleoedd newydd a gynigir gan y Mesur, a chawsom ddadl rymus yn y Siambr.

Croesawaf y sylwadau adeiladol a wnaethpwyd gan Nick, Ieuan, Glyn a David am y consensws clir sydd yn bodoli ar rai agweddau ar y Mesur, megis gwahanu'r Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Croesawodd Jeff y ffaith y cawn ddealltwriaeth gliriach o atebolrwydd Gweinidogion. Gwnaethpwyd sylwadau cadarnhaol am y cymalau yn y Mesur a elwodd o'n trafodaethau ar y Papur Gwyn. Dylem gyfeirio at y ffaith bod y Mesur yn adlewyrchu'n glir lawer o'r argymhellion a wnaethom. Gwenda, yr oedd eich ymyriad yng ngham y Papur Gwyn yn ddylanwadol o ran gwarchod y ddyletswydd statudol dros gyfle cyfartal; gellir dadlau ei bod yn gryfach yn awr gan ei bod yn ymwneud â Gweinidogion, trafodion a busnes Comisiwn y Cynulliad.

Yn yr amser byr sydd ar gael imi, ymatebaf i'r gwelliannau, lle y gwelwn gydweithio cyfarwydd ar draws sbectrum y gwrthbleidiau. Mae'n dda gennyf weld ymwahanu, gyda llawer mwy o gytundeb

of the long-standing pro-devolution parties. Mike, thank you for saying that the Liberal Democrats are not backing amendment 8. Nick and David, I know that you are pro-devolution, and you know that your case for a referendum does not stand up, as Leighton clearly pointed out. David, you have said that you recognise the opportunities that this Bill offers. When we look at it, particularly, Nick and David, in terms of your commitment to devolution, I know that you will take advantage—as will all parties—of the new arrangements. Glyn, you recognised that you would take advantage of the new phase that we move into. Let us, therefore, be clear and straight. Please consider withdrawing that amendment; it does not hold water at all.

If we look at the amendments regarding the Richard commission, everything that is in the Richard report is in this Bill. The Bill will give us new powers from May 2007. It is fast progress for fast-tracking legislative needs. You recognise that, Jocelyn; you recognise the opportunities that the second Government of Wales Bill will give—it will provide a fast track and will get us there faster than Richard would. As Leighton says, this Bill puts primary powers onto the statute book. Let us recognise the contribution that Lord Richard made to enable us to get here in terms of the Government of Wales Bill.

Rhodri Glyn Thomas: You say that all of the recommendations of the Richard commission are in this Bill, but, were not the three major recommendations of Richard that there should be a straightforward procedure in terms of primary legislation, that there should be additional Members over and above the 60 Members, and that there should be a voting system based on the single transferable vote? Where are those in this Bill?

Jane Hutt: In terms of STV, we know that this will not add to the situation. Jenny raised this earlier on; the additional Member system now achieves a very good balance between maintaining that strong constituency link and achieving fair representation for all parties. Richard has provided us with an impetus

rhwng y pleidiau a fu o blaid datganoli ers amser maith. Mike, diolch ichi am ddweud nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi gwelliant 8. Nick a David, gwn eich bod o blaid datganoli, a gwyddoch chithau nad yw eich dadl dros refferendwm yn dal dŵr, fel y dangosodd Leighton yn glir. David, yr ydych wedi dweud eich bod yn cydnabod y cyfleoedd a gynigia'r Mesur hwn. Pan edrychwn arno, yn enwedig, Nick a David, yn nhermau eich ymrwymiad i ddatganoli, gwn y manteisiwch—fel y gwna pob plaid—ar y trefniadau newydd. Glyn, bu ichi gydnabod y byddech yn manteisio ar y cam newydd yr ydym yn symud iddo. Gadewch inni, felly, fod yn eglur ac yn ddidwyll. Os gwelwch yn dda, ystyriwch dynnu'r gwelliant hwnnw'n ôl; nid yw'n dal dŵr o gwbl.

Os edrychwn ar y gwelliannau ynglŷn â chomisiwn Richard, mae popeth sydd yn adroddiad Richard yn y Mesur hwn. Bydd y Mesur yn rhoi pwerau newydd inni o fis Mai 2007. Mae'n gynnydd cyflym ar gyfer gosod anghenion deddfu ar y trywydd carlam. Yr ydych yn cydnabod hynny, Jocelyn; yr ydych yn cydnabod y cyfleoedd y bydd ail Fesur Llywodraeth Cymru yn eu rhoi—bydd yn darparu llwybr carlam ac yn mynd â ni yno'n gyflymach nag a wnâi Richard. Fel y dywed Leighton, mae'r Mesur hwn yn rhoi pwerau sylfaenol ar y llyfr statudau. Gadewch inni gydnabod y cyfraniad a wnaeth yr Arglwydd Richard i'n galluogi i gyrraedd y fan hon yn nhermau Mesur Llywodraeth Cymru.

Rhodri Glyn Thomas: Dywedwch fod holl argymhellion comisiwn Richard yn y Mesur hwn, ond onid tri phrif argymhelliad Richard oedd y dylid cael trefn syml o ran deddfwriaeth sylfaenol, y dylid cael Aelodau ychwanegol ar ben y 60 Aelod, ac y dylid cael system bleidleisio seiliedig ar y bleidlais drosglwyddadwy sengl? Lle y mae'r rheini yn y Mesur hwn?

Jane Hutt: O ran y bleidlais drosglwyddadwy sengl, gwyddom na wnaiff hyn ychwanegu at y sefyllfa. Cododd Jenny hyn yn gynharach; mae system yr Aelod ychwanegol yn awr yn sicrhau cydbwysedd da iawn rhwng cadw'r cyswllt cryf hwnnw â'r etholaeth a sicrhau cynrychiolaeth deg i'r

from which the Government has drawn in order to bring us opportunities not only, as Jocelyn recognised, to ensure that we can get on with the job, but to provide the tools for the job in order to ensure that we can get new legislation as and when we need it. Kirsty made a very good point in that this is about powers for people; this is about delivering better housing, better education, better health and more opportunities.

Jocelyn Davies: Will you take an intervention?

Jane Hutt: I do not have time.

Helen Mary raised the issue of the two-thirds majority, and, as the First Minister has said, we have to get this right. Unless we gain public confidence and unless we engage with the people as we demonstrate what we can deliver with our new powers, a 'no' vote would stop us in our tracks. It is key that we take this forward.

I will move on to the points raised by Ieuan and Mike. I find it extraordinary that Ieuan and Mike came together in order to try to distort the powers for the Secretary of State that these new opportunities will provide. It will distort the powers of the Secretary of State. It is clear, in terms of Orders in Council, that they will relate to the fields and responsibilities that are already devolved to us. After 18 years of secretaries of state who never lived in Wales or represented Wales, you are now trying to undermine and distort the powers that the Secretary of State will have.

In the time that I have, I will briefly move on to d'Hondt and to the dual candidacy. Kirsty, let us be constructive; this is about making sure that we have a fall-back provision in case we are unable to reach an agreement in terms of political balance. You made a constructive contribution, Kirsty. It is about a fall-back situation; it is about being mature enough to come together and agree how we set up the political balance.

pleidiau i gyd. Mae Richard wedi rhoi hwb inni y mae'r Llywodraeth wedi ei ddefnyddio i ddod â chyfleoedd inni nid yn unig, fel y cydnabu Jocelyn, i sicrhau y gallwn fwrw ymlaen â'r gwaith, ond i ddarparu'r arfau ar gyfer y gwaith er mwyn sicrhau y gallwn gael deddfwriaeth newydd pan fydd ei hangen arnom. Gwnaeth Kirsty bwynt da iawn sef mai grym i bobl sydd dan sylw yma; mae a wnelo hyn â sicrhau gwell tai, gwell addysg, gwell iechyd a mwy o gyfleoedd.

Jocelyn Davies: A dderbyniwch ymyriad?

Jane Hutt: Nid oes gennyf amser.

Cododd Helen Mary gwestiwn y mwyafrif o ddwy ran o dair, ac, fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae'n rhaid inni sicrhau bod hyn yn iawn. Os na llwyddwn i ennill hyder y cyhoedd ac os nad ymgysylltw'n â'r bobl wrth inni ddangos beth y gallwn ei gyflawni gyda'n pwerau newydd, byddai pleidlais 'na' yn ein stopio'n stond. Mae'n allweddol inni fwrw ymlaen â hyn.

Symudaf ymlaen at y pwyntiau a godwyd gan Ieuan a Mike. Mae'n rhyfeddol i mi fod Ieuan a Mike wedi dod at ei gilydd er mwyn ceisio ystumio'r pwerau a roir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan y cyfleoedd newydd hyn. Bydd yn ystumio pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n eglur, o ran Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, y byddant yn ymwneud â'r meysydd a'r cyfrifoldebau sydd eisoes wedi'u datganoli i ni. Ar ôl 18 mlynedd o ysgrifenyddion gwladol na fuont erioed yn byw yng Nghymru nac yn cynrychioli Cymru, yr ydych yn awr yn ceisio tanseilio ac ystumio'r pwerau a fydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn yr amser sydd gennyf, symudaf ymlaen yn fyr at d'Hondt ac at yr ymgeisio deuol. Kirsty, gadewch inni fod yn adeiladol; mater yw hyn o sicrhau bod gennym ddarpariaeth wrth gefn i syrthio'n ôl arni rhag ofn inni fetu dod i gytundeb o ran cydbwysedd gwleidyddol. Gwnaethoch gyfraniad adeiladol, Kirsty. Sefyllfa i syrthio'n ôl arni yw hi; mater o fod yn ddigon aeddfed i ddod at ein gilydd a chytuno ar y modd y sefydlwn y cydbwysedd gwleidyddol.

Nick Bourne and Ieuan Wyn Jones *rose—*

Nick Bourne a Ieuan Wyn Jones *a gododd—*

Jane Hutt: I will not take any more interventions.

Jane Hutt: Ni dderbyniaf ragor o ymyriadau.

The Presiding Officer: Order. The Minister is coming to the end of her time. It is nearly 6 p.m..

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Gweinidog yn dod at derfyn ei hamser. Mae bron yn 6 o'r gloch.

Jane Hutt: Dual candidacy is not something that we should recognise. We need to make it clearer for the voters who they are voting for and who represents them locally and nationally. We are progressing today; let us move on.

Jane Hutt: Nid yw ymgeisio deul yn rhywbeth y dylem ei gydnabod. Mae angen inni ei gwneud yn gliriach i'r pleidleiswyr dros bwy y maent yn pleidleisio a phwy sydd yn eu cynrychioli yn lleol ac yn genedlaethol. Yr ydym yn gwneud cynnydd heddiw; gadewch inni symud ymlaen.

6.00 p.m.

*Gwelliant 1: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Amendment 1: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).

As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment defeated.

*Gwelliant 2: O blaid 18, Ymatal 6, Yn erbyn 34.
Amendment 2: For 18, Abstain 6, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Marek, John
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Bourne, Nick
Davies, Glyn
Francis, Lisa
Isherwood, Mark
Melding, David
Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 3: O blaid 18, Ymatal 5, Yn erbyn 35.
Amendment 3: For 18, Abstain 5, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary

Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 German, Michael
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Marek, John
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, David
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Francis, Lisa
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Laura Anne
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Bourne, Nick
 Davies, Glyn
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 4: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
 Amendment 4: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina

Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).
 As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 5: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
 Amendment 5: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).
 As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment defeated.

*Gwelliant 6: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 40.
Amendment 6: For 18, Abstain 0, Against 40.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Marek, John
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 7: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Amendment 7: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew

Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).

As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment defeated.

Gwelliant 8: O blaid 11, Ymatal 0, Yn erbyn 47.

Amendment 8: For 11, Abstain 0, Against 47.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bourne, Nick
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Francis, Lisa
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Laura Anne
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn

Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Marek, John
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 9: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
 Amendment 9: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).

As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 10: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 40.
Amendment 10: For 18, Abstain 0, Against 40.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Marek, John
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 11: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Amendment 11: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin

Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).

As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 12: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Amendment 12: For 29, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.12(ii).

As there was an equality of votes, the Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 1.12(ii).

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment defeated.

Gwelliant 13: O blaid 7, Ymatal 0, Yn erbyn 51.

Amendment 13: For 7, Abstain 0, Against 51.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
German, Michael
Marek, John
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Famsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 14: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 40.
Amendment 14: For 18, Abstain 0, Against 40.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Marek, John
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 15: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 39.
Amendment 15: For 19, Abstain 0, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, David
Davies, Janet

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun

Davies, Jocelyn
 German, Michael
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Marek, John
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Glyn
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Francis, Lisa
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Laura Anne
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

Motion (NDM2763): to propose that

the National Assembly for Wales

*notes the publication of the Government of
 Wales Bill, which has received its Second
 Reading in the House of Commons.*

Cynnig (NDM2763): cynnig bod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*yn nodi cyhoeddi Mesur Llywodraeth Cymru,
 a gafodd ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r
 Cyffredin.*

*Cynnig (NDM2763): O blaid 58, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
 Motion (NDM2763): For 58, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew

Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Marek, John
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Y Llywydd: Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw. **The Presiding Officer:** That concludes our proceedings for today.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.09 p.m.
The meeting ended at 6.09 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)